

Y Plentyn Hapus:

Ymchwiliad i ddehongliadau a phrofiadau plant 3 – 7 oed o'r hyn sy'n creu ymdeimlad o hapusrwydd ynddynt o fewn yr ysgol.

Carys W Jennings

MA(Add), BA Addysg (Anrhydedd), FHEA

Dan oruchwyliaeth: Dr Sioned Hughes a Dr Susan Jones

**Cyflwynwyd mewn cyflawniad rhannol ar gyfer dyfarniad
gradd Doethuriaeth mewn Addysg**

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

2025

Ymwadiad

Nid yw'r gwaith hwn wedi'i dderbyn yn flaenorol ar gyfer unrhyw radd ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisyddiaeth am unrhyw radd.

Llofnod: *Carys W. Jennings*(ymgeisydd)

Dyddiad: 21 – 05 - 2025

DATGANIAD 1

Mae'r traethawd ymchwil hwn yn ganlyniad i fy ymchwiliadau fy hun, ac eithrio lle nodir yn wahanol. Lle defnyddiwyd gwasanaethau cywiro, mae maint a natur y cywiriad wedi'i nodi'n glir mewn troednodyn(au). Mae ffynonellau eraill yn cael eu cydnabod gan droednodiadau sy'n rhoi cyfeiriadau amlwg. Atodir llyfryddiaeth.

Llofnod: *Carys W. Jennings*(ymgeisydd)

Dyddiad: 21 – 05 - 2025

DATGANIAD 2

Rhoddaf ganiatâd drwy hyn i'm thesis, os caiff ei dderbyn, fod ar gael yn ystorfa ddigidol y Brifysgol.

Llofnod: *Carys W. Jennings*(ymgeisydd)

Dyddiad: 21 – 05 - 2025

Diolchiadau

Mae'r diolch cyntaf yn mynd i athrawon a phlant yr ysgolion a fu'n gyfranogwyr yr ymchwiliad, hebddynt hwy, ni fyddai'r ymdrech hon wedi bod yn bosibl; am eu parodrwydd i rannu eu profiadau, eu brwdfrydedd dros y gwaith a'u diddordeb i barhau i ddarganfod. Diolch i'm goruchwylwyr Dr Susan Jones a Dr Sioned Hughes, am eu doethineb, eu cyngor a'u medrau i bryfocio a phrocio'n fedrus. Diolch i Dr Hywel Lewis am ei amser a'i ddoethineb ieithyddol. I Dr Nia Cole-Jones am ei llygaid craff, ei harbenigedd a'i chyfeillgarwch. Mynegaf ddiolch i'r Brifysgol Agored am eu cefnogaeth amhrisiadwy ac am barhau i annog ysgolheictod ymysg ei staff. Diolch hefyd i'm teulu am eu calondid, eu dealltwriaeth a'u cred ynof i ymgymryd ag ymchwiliad o'r fath, ac am fod mor amyneddgar yn ystod y cyfnodau hynny pan ddoth y gwaith yn gyntaf. Rhaid talu teyrnged yn enwedig i'm merch Kayley a wnaeth ddechrau ei thaith addysgol gynradd pan ddechreuais innau'n ddarpar athrawes, ac sy'n parhau'n ysbrydoliaeth gyson, i'r wyresau Leia ac Aria sy'n fflachiadau o lawenydd a balchder o hyd; i'm gwr Mark am ei gariad a'i ffydd ynof i barhau a chwblhau'r daith. Yn olaf i Mam a Dad - diolch am y sylfaen, ni aeth y geiriau'n angof.

Crynodeb

Er bod llais a lles y plentyn yn flaenoriaeth o fewn ein system addysg yma yng Nghymru, prin yw'r dystiolaeth sydd yn seiliedig ar holi ein dysgwyr ifainc am eu profiadau o hapusrwydd o fewn yr ysgol. Er bod yr awydd yn gryf i sicrhau amgylcheddau a phrofiadau addysgegol ysgogol a fydd yn apelio at y plant ac yn cyfrannu at eu hapusrwydd, ychydig o waith ymchwil a wnaed i'r perwyl hwn.

Mae Cwricwlwm i Gymru (2022) yn dathlu cyfraniadau plant fel rhan o gynllunio gan annog addysgwyr i ymateb i anghenion emosiynol a datblygol y plentyn fel rhan o'r dylanwadau ar hapusrwydd plant tra yn yr ysgol, ac o ganlyniad, egwyddorion sy'n sylfaen iddo. Mae'r ymchwiliad ansoddol hwn yn ystyried sut y gall y wybodaeth am eu hapusrwydd gyfrannu at ddealltwriaeth athrawon o hoffterau eu disgyblion er mwyn creu darpariaethau cyfranogol.

Safiad damcaniaethol lluniadaeth gymdeithasol (social constructivist) a berthyn i Vygotsky (1978) a model sosioecolegol Bronfenbrenner (1979) a ystyria'r plentyn fel unigolyn medrus a rhagweithiol sy'n sail i'r ymchwil. Credir bod y bydoedd mae'r plentyn oddi mewn iddynt yn dylanwadu ar eu hoffter, dymuniad a'u brwdfrydedd i ymglymu a magu ymdeimlad o berthyn emosiynol. Casglwyd y data gan gyfuno moddau cymysg dull Mosaic (Clark a Moss, 2017; Ungar, 2010) a fu'n fodd o adeiladu darlun cyflawn o hapusrwydd y plant; a gweithredwyd dull dadansoddi Braun a Clarke (2022) o adnabod themâu o fewn y data.

Dengys y casgliadau bod ffactorau amrywiol yn dylanwadu ar hapusrwydd plant ifainc tra yn yr ysgol; gyda gofodau, offer, cyfleoedd, pobl a gweithgareddau amrywiol yn eu plith. Cynigir y gall cywain mwy am hapusrwydd plant yn ystod eu haddysg gyfrannu at ein dealltwriaeth o rym lleisiau plant am eu profiadau ar y pryd, a bod yn offeryn amhrisiadwy o fewn arfogaeth addysgegol addysgwyr.

Cynnwys

Y Plentyn Hapus:	1
Ymchwiliad i ddehongliadau a phrofiadau plant 3 – 7 oed o'r hyn sy'n creu ymdeimlad o hapusrwydd ynddynt o fewn yr ysgol.	1
Diolchiadau	3
Crynodeb	4
Rhestr Ffigurau	7
Pennod 1: Cyflwyniad i'r ymchwiliad.....	9
1.1 Trosolwg o'r ymchwiliad.....	11
1.2 Sail yr ymchwiliad.....	12
1.3 Fframwaith ddamcaniaethol a chysyniadol.....	16
1.4 Rhesymeg / cymhelliant personol	22
1.5 Dylanwadau personol / proffesiynol	24
Pennod 2: Adolygiad Llenyddiaeth.....	25
2.1 Amlinelliad o'r bennod.....	25
2.2 Plentyndod (CY1)	29
2.3 Hapusrwydd (CY1)	33
2.4 Lles (CY1)	45
2.5 Lles o fewn polisi a deddfwriaeth (CY2)	50
2.6 Llais y plentyn - gwrando ar blant (CY1 a 2)	51
2.7 Addysgeg plentyn ganoledig – cynllunio'r cwricwlwm (CY2).....	56
2.8 Cysylltu – perthyn (CY1 a CY2)	64
2.9 Myfyrdod athrawon ar eu darpariaeth (CY2)	65
Pennod 3: Methodoleg yr ymchwiliad	71
3.1 Amlinelliad o'r bennod.....	71
3.2 Ymchwil gyfranogol	74
3.3 Dull Mosaic (CY1).....	78
3.4 Amcanion methodolegol	83
3.5 Methodoleg dulliau cymysg a dulliau gweledol.....	86
3.6 Ymchwil cyfranogol gyda phlant ifainc	90
3.7 Ymchwil cyfranogol gydag oedolion – Cwestiwn Ymchwil 2.....	93
3.8 Ystyriaethau Moesegol	96
3.9 Caniatâd a chydysyniad y plant a'r athrawon	101
3.10 Y sampl	105
3.11 Y peilot ac addasiadau.....	108
3.12 Casglu'r data	110
3.13 Cyfweiliadau - cyfweld plant ac athrawon.....	118

3.14 Dulliau dadansoddi'r data – dadansoddi thematig	123
3.15 Trochi o fewn y data - Côdio a phennu themâu.....	126
3.16 Casgliadau'r bennod.....	136
Pennod 4: Canlyniadau'r data.....	138
4.1 Hapusrwydd - dealltwriaeth a diffiniadau'r plant o hapusrwydd	141
4.2 Llais y plentyn: y dylanwadau ar hapusrwydd y plant (dull cywaith) (CY1)...	145
4.2.1 Perthyn: dylanwadau dynol emosiynol (pobl a ffrindiau) (CY1)	157
4.2.2 Perthyn: dylanwadau gofodol emosiynol (llefydd a gweithgareddau) (CY1)	159
4.2.3 Perthyn: dylanwadau corfforol emosiynol (adnoddau a gweithgareddau) (CY1)	162
4.4 Cwestiwn Ymchwil 2 – Data yr athrawon	169
4.5 Effaith cyfranogi ar arferion addysgegol yr athrawon – CY 2 - ymweliad 4 ...	176
Pennod 5 - Trafodaeth	179
5.1 Prif ganfyddiadau data Cwestiwn Ymchwil 1 – y broses ymchwil.....	179
5.1.1 Prif ganfyddiadau data Cwestiwn Ymchwil 1 – hapusrwydd plant yn yr ysgol	182
5.1 Prif ganfyddiadau data Cwestiwn Ymchwil 1 – lles plant ifainc.....	186
5.1.2 Prif ganfyddiadau data Cwestiwn Ymchwil 1 – plentynod ac addysg gynnar	188
5.2 Casgliadau o ddata CY2	189
5.2.1 Casgliadau o ddata CY2 – y broses.....	189
5.3 Heriau, cyfyngderau a phosibiliadau o ran ymchwil pellach	191
Pennod 6: Cyfraniadau a chasgliadau.....	196
6.1 Fy nghyfraniad at gorff ymchwil - addysg gynnar	196
6.1.1 Fy nghyfraniad at gorff ymchwil – hapusrwydd a lles plant ifainc	200
6.2 I'r dyfodol – ac i gloi	202
Rhestr gyfeirnod	209
Atodiadau	245

Rhestr Ffigurau

Ffigwr 1 – Penawdau yn gysylltiedig a lles yn y cyfryngau.....	11
Ffigwr 2 – Cysylltiadau a damcaniaeth lluniadth gymdeithasol.....	17
Ffigwr 3 – Systemau ecolegol Bronfenrenner.....	19
Ffigwr 4 – Geirfa chwilota gwefannau addysgol.....	28
Ffigwr 5 – Dyfyniad o lyfr Teacher and child. H.G. Ginott (1993) cyrchwyd o (Van Last, 2019).....	56
Ffigwr 6 – Arferio effeithiol wrth ddysgu ac addysgu.....	58
Ffigwr 7 – Darpriaethau parhaus yn y Cyfnod Sylfaen (cyrchwyd o ysgolion 1 a 2 a Google images).....	63
Ffigwr 8 – Camau casglu a rhannu'r data gyda'r cyfranogwyr.....	77
Ffigwr 9 – Moddau casglu data (Cam 1 / CY1)	81
Ffigwr 10 – Model rhesymeg (Logic model) seliwyd ar fodel Evaluative toolkit (2022).....	86
Ffigwr 11 – Allbynu data cymysg CY 1 (Jennings, 2022).....	88
Ffigwr 12 – Samplu cyfleus (Kimmons, 2022)	105
Ffigwr 13 – Eglurhad o gamau'r ymchwil.....	111
Ffigwr 14 – Y broses o gasglu'r data gyda'r plant.....	114
Ffigwr 15 – Trefn y cyfweliad gyda'r athrawon.....	122
Ffigwr 16 – Fframwaith chwe cham (Braun a Clarke, 2022).....	125
Ffigwr 17 – Casgliad o'r data gwreiddiol.....	127
Ffigwr 18 – Codau a gasglwyd o ddata'r plant.....	128
Ffigwr 19 – Tanlinellu geiriau allweddol o drawsgrifiad.....	130
Ffigwr 20 – Adnabod y themâu.....	130
Ffigwr 21 – Datblygu'r themâu ymhellach.....	131
Ffigwr 22 – Amllder y themâu o fewn sgysiau'r plant.....	132
Ffigwr 23 – Codau a themâu o ddata'r athrawon.....	134-136
Ffigwr 24 – Tynnu'r selwaith ynghyd.....	139
Ffigwr 25 – Geirfa'r plant o hapusrwydd.....	143
Ffigwr 26 – Ymadroddion hapusrwydd plant.....	144
Ffigwr 27 – P1 Y1 (merch – 6 oed).....	147
Ffigwr 28 – P2 Y1 (merch - 6 oed).....	148
Ffigwr 29 – P3 Y 1 (bachgen – 5 oed).....	149
Ffigwr 30 – P1 Y2 (merch – 5 oed).....	150
Ffigwr 31 – P2 Y2 (merch – 5 oed).....	151

Ffigwr 32 – P3 Y2 (bachgen – 7 oed).....	152
Ffigwr 33 – P1 Y3 (merch – 4 oed).....	153
Ffigwr 34 – P2 Y3 (bachgen – 4 oed).....	154
Ffigwr 35 – P3 Y3 (bachgen - 6 oed).....	155
Ffigwr 36 – Themâu o sgysiau'r plant.....	165
Ffigwr 37 – Dylanwadu hapusrwydd (CY1).....	166
Ffigwr 38 – Y dylanwadau o fewn systemau Bronfenbrenner.....	167
Ffigwr 39 – Gorgyffwrdd y dylanwadau.....	168
Ffigwr 40 – Model cyd-dynnu damcaniaeth ac arfer.....	190
Ffigwr 41 - Proses gwrandio ar blant ifainc.....	198

Rhestr Atodiadau

Atodiad 1 - Trosolwg o'r Ymchwil / An overview of the research.....	246-247
Atodiad 2 - Trefnlen tasg y cyfranogwyr / Schedule of participant task.....	248
Atodiad 3 - Llythyr Caniatad Rhieni / Parental letter of consent.....	249-252
Atodiad 4 - Ffurflen cydsynio y staff / Staff consent form.....	253-256
Atodiad 5 – Ffurflen gydsynio y plant / Pupil assent form.....	257-258
Atodiad 6 – Trefnlen Ymweliad 2 /Visit 2 Task Schedule.....	259
Atodiad 7 - Ymweliad 3 – Cyfweliad gyda'r staff.....	260-261
Atodiad 8 – Ail ymweliad (rhithiol) gyda'r staff.....	262
Atodiad 9 – Darluniau a phaentiadau'r plant.....	263-268
Atodiad 10 Trawsgrifiadau a chôdau o sgysiau a darluniau y cyfranogwyr unigol.....	269-279
Atodiad 11 – Ymatebion staff Cwestiwn ymchwil 2.....	280-284
Atodiad 12 - 'Fi hapus' – adnodd er mwyn adnabod dylanwadau ar hapusrwydd y plentyn.....	285
Atodiad 13 - Poster Academaidd Coleg Cymraeg Cenedlaethol.....	286

Pennod 1: Cyflwyniad i'r ymchwiliad

Bwriad yr ymchwiliad hwn yw ystyried barn plant am eu hapusrwydd o fewn cydestun yr ysgol. Gyda lles y plentyn yn derbyn cryn sylw o fewn polisïau Llywodraeth Cymru (LI C), megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), Y Ffordd Gywir: Arolwg Addysg (2018), Cwricwlwm i Gymru (2020) a Llesiant Cymru (2022) i enwi rhai, gwyddys fod cyflwr emosiynol unigolyn yn cyfrannu at hwnnw. Y bwriad felly yw holi plant 3 - 7 oed am yr hyn sy'n creu ymdeimlad o hapusrwydd ynddynt pan maent o fewn eu hysgolion; gan ddefnyddio'r data i hysbysu eu hathrawon er mwyn iddynt fedru ystyried lles plant wrth gynllunio a myfyrio ar eu harferion.

Cyddnabu Estyn (2016) sef y corff arolygu addysg yng Nghymru, fod yr ysgolion sy'n gwrando ar "lais y disgybl" yn llwyddo, ac anogir ysgolion yn nogfen argymhellion cwricwlaidd Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015) y dylid ymgynghori â phlant i sicrhau darpariaeth bwrpasol a ateba gofynion cwricwlwm addas fel un o'i argymhellion.

Y ddamcaniaeth sy'n sylfaen i'r ymchwiliad yw lluniadaeth gymdeithasol sy'n unol ag ymchwil cyfranogol, a methodoleg yn gymdeithasol - ddeongliadol gyda'r dull 'Mosaic' (Clark, 2017) yn arwain y ffordd. Trafodir rhesymeg y sail ddamcaniaethol o fewn Pennod 1. Mae Mosaic yn caniatáu casglu tystiolaeth mewn nifer o ffyrdd gyda'r plentyn yn ganolog i'r broses fel cyfranogwr, ac eglurir y dull ymhellach ym Mhennod 3. Canolbwyntir ar ystod oed plant 3 – 7 oed am ddau brif reswm, yn gyntaf, gan fod lles y plentyn yn greiddiol i gwricwlwm plant ifainc ac yn ail, canfyddir o ddarllen sut y diystyrir yr oed hwn fel arfer o fewn gwaith ymchwil sy'n ymwneud â chasglu barn plant. Y gred gyffredinol ym myd ymchwil hyd at yn ddiweddar, oedd nad oedd gan blant ifainc y gallu na'r eirfa i fynegi'n glir eu barn (Tay-Lim, 2013; Carey-Jenkins, 2018). Anghytunir â'r farn hon, a cheisir o fewn yr ymchwiliad arddangos pwysigrwydd cynnig cyfleoedd i blant gyfrannu at wybodaeth a fedr o bosib drawsnewid arfer er gwelliant y profiadau a dderbyniant yn yr ysgol.

Yn ategol cyhoeddodd y British Educational Research Association BERA (2019) yn ei adroddiad 'Dyfodol Ymchwil i Addysg yng Nghymru' ei ymatebion i'r cwestiwn: 'Ymchwil ym mha feysydd y mae arnom eu hangen?' Mewn ymateb i'r arolwg nodwyd gan nifer o'r ymatebwyr bod angen ymchwil ym maes lles disgyblion, gydag

17% yn nodi angen am ymchwil o ran rhoi polisi ar waith. Gellid cysylltu'r ddwy agwedd gyda'r ymchwiliad hwn gan mai lles y plentyn yw prif ffocws y gwaith, a llais y plentyn yn thema amlwg o ran polisi hawliau plant. Gwelir cyfeiriadau cyson at les y plentyn o fewn dogfennau polisi'n ymwneud â gofal plant a phobl ifanc yng Nghymru a'n fyd eang. Trafodir dogfennau a'u hystyriaeth o les y plentyn ymhellach o fewn y gwaith. Gyda disgwrs o fewn addysg o'r angen i sicrhau lles a hunan fri uchel, a chan fod plant yn treulio amser sylweddol yn yr ysgol; y nod yw i sicrhau bod y plentyn yn gwneud cynnydd a datblygu'n unigolyn cyflawn drwy'r profiadau a ddarperir. Bwriad yr ymchwiliad yw adnabod y dylanwadau hynny a wna gyfrannu at hapusrwydd ein dinasyddion ieuengaf yn eu hysgolion cynradd.

Datgela'r ymchwiliad mai i blant ifainc amser, cyfleoedd i ddewis, cyfeillgarwch a phrofi mwynhad yw'r pethau sydd yn cyfrannu at eu hapusrwydd pennaf pan yn yr ysgol. Wedi dethol moddau amrywiol a phwrpasol o gasglu data gyda phlant ifainc (Clark, 2017), cynigiwyd mewnwelediad ffenomenolegol o fyd gwrthrychol y plentyn. Awgryma'r data fod y dylanwadau ar hapusrwydd y plant, sef y 'pwyl' (y bobl), a'r 'ble' (y gofodau penodol), cyn bwysiced â'r 'beth' wnânt ar y pryd. Credir, o'r dystiolaeth a gasglwyd y gall gwarantu cyfleoedd i blant fynegi eu meddyliau a'u hemosiynau eu hunain gyfrannu at wella eu hapusrwydd a'u brwdfrydedd i gyfranogi. Gallant gynnig cyfleoedd i blant ifainc arddangos beth yw 'Cynefin' yng nghyd destun eu bywydau a'u haddysg bob dydd ac, o bosib, gyfrannu at wireddu dibenion Cwricwlwm i Gymru. Ceir eglurhad o ystyr cynefin o fewn addysg yng Nghymru nes ymlaen o fewn y gwaith.

Cyflwyno'r bennod hon drosolwg o'm ymchwiliad i hapusrwydd plant 3 -7 oed yn yr ysgol. Y nod oedd darganfod, a all deall ystyr hapusrwydd i blant ifainc o'u dehongliadau a'u profiadau ohono, fod yn fodd i gynorthwyo cynllunio a myfyrio athrawon gan gyfrannu at amcanion ac egwyddorion creiddiol Cwricwlwm i Gymru. Cynhaliwyd yr ymchwiliad rhwng 2021 a 2022. Roedd yr amser hwn yn gyfnod trawsnewidiol i ysgolion o achos y diwygiad cwricwlaidd yng Nghymru a chyfnod lle'r oedd pandemig y Covid yn parhau i ddylanwadu ar arferion. O fewn y bennod eglurir cefndir ac amcanion yr astudiaeth gan gyflwyno cwestiynau'r ymchwil y bwriedir ymateb iddynt. Amlygir y sail ddamcaniaethol ynghyd a'm cymhelliant i ymgymryd â'r gwaith gan gydnabod y dylanwadau arnaf fel ymchwilydd. Bwriada'r ymchwiliad

gyflwyno'r stori o'i chychwyn i'w diwedd mewn modd myfyriol ac atgyrchol (Montari, 2015; Braun a Clarke, 2022) sydd yn gofnod o leisiau'r plant a'u hathrawon o'u bydoedd o fewn yr ysgol (Clark, 2021).


1.1 Trosolwg o'r ymchwiliad

Noda Harrison,

‘Only the innovators. The rebels, the visionaries have stepped out of theory
Into the lives of children to ask the children how they learn or what learning
is for a child. ‘

(Harrison, 2002)

Dros y degawd diwethaf mae'r diddordeb i gynnwys llais y plentyn yn y broses gynllunio, asesu a myfyrio wedi cynyddu fel blaenoriaeth o fewn addysg yng Nghymru (Comisiynydd Plant Cymru, 2022). Fel athrawes ac academydd mae'r awydd i sicrhau lles plant wedi bod yn thema gyson ac yn brif reswm dros ddechrau ar yr ymchwiliad hwn i ddarganfod beth sy'n cyfrannu at hapusrwydd, ac yn ei dro, lles plant yn yr ysgol.



Ffigur 1 - Penawdau yn gysylltiedig a lles yn y cyfryngau

Cyrchwyd o: Newyddion Prifysgol Caerdydd (2020), Cymrufyw (2017), Comisiynydd Plant Cymru (2014), The Guardian (2018), The Guardian (2021)

Nodwyd eisoes yn y cyflwyniad i'r bennod bod pwyslais ar les plant o fewn dogfennau polisi yng Nghymru a thu hwnt, a gwelir uchod yn Ffigwr 1 y sylw o fewn y cyfryngau yn ogystal. Erbyn hyn mae sicrhau lles a llais y plentyn yn ystyriaethau creiddiol o fewn penderfyniadau gwladol. Yn 2001, Cymru oedd y wlad gyntaf o fewn y DU i apwyntio Comisiynydd Plant sy'n sicrhau y clywir lleisiau plant Cymru o fewn polisiâu a ddylanwadant arnynt. Ers i Gymru fabwysiadu erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant (CCUHP, 1989) gwelir ôl yr erthyglau'n treiddio drwy benderfyniadau llywodraethol yn enwedig lle ystyrir addysg a lles y plentyn. Yn fwy diweddar gyda'r diwygiad addysgol Cwricwlwm i Gymru (2020) pwysleisiwyd lles plant yn ganolog fel un o'r gwerthoedd sylfaenol o fewn y ddogfennaeth a'u gweithrediad. Credir fel rhan o'r ymchwiliad hwn bod hapusrwydd plant yn un o'r ffactorau a gyfranna at y lles hwnnw.

1.2 Sail yr ymchwiliad

Er hwylustod, pan gyfeirir at y gwaith sy'n bodoli eisioes o fewn y meysydd, defnyddir y term '*ymchwil*'. Cyfeirir at y gwaith a wnaed gan yr awdur ar gyfer yr ymchwil gwreiddiol hwn fel 'yr ymchwiliad'. Dewiswyd y term 'ymchwiliad' am sawl rheswm; yn gyntaf gan ei fod yn un a'i defnyddir yn fynych o fewn y gwyddorau cymdeithasol wrth ddisgrifio ymchwil yn enwedig meysydd iechyd a gofal (termiaduraddysg.cymru, 2017). Yn ail, fe'i defnyddir gan Lywodraeth Cymru o fewn ei phrosiectau ymchwil ac, yn olaf, am ei fod yn cyfleu 'holi am' rywbeth, fel y nodir yng ngeiriadur yr Academi (2006). Holu plant am eu hapusrwydd yw prif nod yr ymchwiliad ac felly, i'r perwyl hwnnw mae'r term yn un addas.

Mae hapusrwydd a chyflwr emosiynol plentyn yn gallu cyfrannu at ei les a'i gynnydd (Burman, 2009; Scoffham a Barnes, 2011; Musgrave, 2017). Yn yr un modd mae llais y plentyn fel cyfranogwr cydradd i gynllunio ac asesu gweithgarwch dosbarth yn cael ei annog o fewn argymhellion y diwygiad addysgol Cwricwlwm i Gymru (2020). Llais a lles y plentyn yw dau o'r prif yrwyr sydd wedi bod yn themâu sefydlog o fewn

ymarfer dosbarth yng Nghymru ac o fewn ymchwil bersonol. Pwrpas yr astudiaeth hon oedd dadansoddi profiadau plant ifanc o hapusrwydd, eu dealltwriaeth o ystyr hapusrwydd a pham y teimlent yn hapus yn yr ysgol. Tybir, os deallir nodweddion a phrofiadau o hapusrwydd yn well, medrid cynllunio i hyrwyddo eu hapusrwydd gan greu darpariaeth a gyfranna at eu lles ehangach. Bwriadaf, o fewn yr ymchwiliad hwn gynnig y gall holi plant am eu hoffterau a'u hoffter o weithgareddau gynnig gwybodaeth amhrisiadwy i athrawon o'r hyn a ystyrir yn werthfawr ac yn ddymunol iddynt. Gall hyn, o bosib, gefnogi'r cynnydd a wneir gan y plant o ran sgiliau a gwybodaeth, a chyfrannu at gyfoethogi'r ddarpariaeth a gynigir gan athrawon (Bruce, Louis a McCall, 2014).

Nod yr ymchwiliad hwn felly yw darganfod mwy am yr hyn sy'n cael effaith ar emosiynau plant ifainc, yn benodol eu hapusrwydd, gan ofyn y cwestiynau ymchwil canlynol:

Cwestiwn Ymchwil 1 (CY1): Beth sy'n dylanwadu ar hapusrwydd plant 3 –7 oed tra yn yr ysgol?

Cwestiwn Ymchwil 2 (CY2): Sut gall hyn gynorthwyo athrawon i gynllunio a myfyrio ar eu darpariaethau?

Bwriedir ymchwilio i ffs-gwestiynau ychwanegol o ran ymatebion y **plant** i Gwestiwn Ymchwil 1 megis:

1. Beth sy'n creu ymdeimlad o hapusrwydd o fewn amgylchedd yr ysgol?
2. Pa ffactorau ystyria plant ifainc fel dylanwadau ar eu hapusrwydd?
3. Oes tueddiadau'n ymddangos o ran dehongliadau plant o'r hyn sy'n eu gwneud yn hapus?

Bwriedir ymchwilio i ffs-gwestiynau ychwanegol o ran ymatebion yr **athrawon** i Gwestiwn Ymchwil 2 megis:

4. Pa wybodaeth mae athrawon yn ei gasglu er mwyn cynllunio a gwerthuso darpariaethau a gweithgarwch sy'n cyfrannu at les plant?
5. A yw bod yn rhan o'r ymchwiliad wedi dylanwadu ar eu harferion o arsylwi ar blant a'u cynnwys o fewn y broses cynllunio a gwerthuso?

Bydd dau gam i'r ymchwiliad; yn gyntaf, archwiliad o gysyniadau a phrofiadau plant ifainc o hapusrwydd (CY1), a'r ail a fedr y wybodaeth am hapusrwydd y plant gefnogi cynllunio athrawon? (CY2).

Yn rhan gyntaf yr ymchwiliad (CY1), bwriedir casglu gwybodaeth am hapusrwydd plant yn yr ysgol a'r hyn a ddylanwada ar yr hapusrwydd hwnnw gan ddefnyddio dull aml-gyfrwng.

Cysyniadau anodd eu diffinio yw hapusrwydd a lles (Harrison, 2006; Siraj, 2015; Lewis, 2016). Gofynnir i'r plant yn ystod trafodaethau o'u cynnyrch gweledol ar gychwyn yr ymweliadau i ddiffinio eu dealltwriaeth o hapusrwydd a defnyddir y wybodaeth hon i ddehongli hapusrwydd yn nghyd-destun y gwaith. Eglurir fel arall yn achos yr ymchwiliad hwn, mae lles yn cyfeirio at deimladau o hapusrwydd yr unigolyn.

Mae ail ran yr ymchwiliad (CY2) yn cwmpasu cyfweiliadau lled-strwythuredig gyda'r darparwyr (athrawon), gan gyflwyno'r dystiolaeth a gasglwyd er mwyn ceisio dadansoddi oes modd defnyddio'r wybodaeth i gefnogi'r ddarpariaeth a gynllunir er mwyn sicrhau hapusrwydd a lles y plentyn. Holir yr athrawon am yr hyn a fwyda eu cynlluniau presennol er mwyn darganfod os ystyriant gyflwr emosiynol a theimladau plant fel ffactor ddylanwadol yn eu cynllunio. Os medrir casglu data sy'n cyfleu beth sy'n dylanwadu ar hapusrwydd plant yn yr ysgol, gellid archwilio posibiliadau'r wybodaeth at bwrpasau cynllunio darpariaethau a gweithgarwch a fydd yn ceisio dal diddordeb, sicrhau ymglymiad, annog cynnydd, ac, o bosib, yn hyrwyddo gwell adnabyddiaeth o gymeriadau'r plant.

Ffocws y gwaith hwn yw darganfod yr hyn sy'n cyfrannu at hapusrwydd plant ifainc yn yr ysgol. Y rhesymeg dros wneud hyn yw diddordeb personol yn y maes lles yn ogystal â'r ffaith bod lles yn flaenoriaeth o ran addysg plant gan Lywodraeth Cymru ac yn ganolog i Gwricwlwm i Gymru (2022). Mae lles yn treiddio drwy ethos y cwricwlwm o ran datblygu 'unigolion iach hyderus' (LI C, 2020) sy'n un o'r pedwar diben sy'n greiddiol i'r cwricwlwm yng Nghymru ond mae lechyd a Lles yn un o'r chwech Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) sy'n rhan o'r cwricwlwm (Hwb, 2024).

Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig o fewn y MDaPh Iechyd a Lles yn cwmpasu y dylid:

- 1 datblygu iechyd corfforol a lles fuddiannau hirdymor
- 2 ystyried y modd ymatebir i brofiadau ddylanwadu ar ein hiechyd meddwl
- 3 dod i ddeall ein gallu i wneud penderfyniadau sy'n dylanwadu ar ein bywydau
- 4 datblygu y modd ymatebir i ddylanwadau cymdeithasol a wna siapio a dylanwadu ar ein iechyd a'n lles
- 5 annog creu perthnasau iach sy'n bwysig i'n lles

(LI C, 2020)

O fewn pob datganiad ceir 5 cam datblygiadol, gyda chamau 1 a 2 yn cwmpasu oed plant sy'n Ddysgwyr Sylfaen (3 - 7 oed) sy'n rhan o'r ymchwiliad hwn. Wrth ymgymryd â'r ymchwiliad i hapusrwydd plant, teimlir wrth gasglu tystiolaeth gan y cyfranogwyr ifainc (CY1) y medraf weld a yw'r datganiadau uchod, sef pwyntiau 3, 4 a 5 yn benodol, yn briodol iddynt hwythau o fewn eu profiadau o'r ysgol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd peth cynnydd mewn arferion ymchwil cyfranogol gyda phlant, gan adlewyrchu'r gydnabyddiaeth o bwysigrwydd canoli eu gwybodaeth a'u profiadau yn y broses ymchwil. Mae'r dull hwn yn democrateiddio ymchwil ac yn gweithio tuag at fynd i'r afael â'r anghydbwysedd pŵer rhwng 'yr ymchwilydd a'r rhai yr ymchwiliwyd iddynt' (Stevens, 2022). Bwriad arall yr ymchwiliad yw darganfod gwerth cynnwys plant mewn ymchwil, trwy gydnabod eu profiad a'u harbenigedd. Mae llais y plentyn wedi'i danlinellu fel un o hawliau plant yn Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant (CCUHP, 1989) sef yr hawl sydd gan blentyn i wrandawriad ac i gael ei gymryd o ddifrif. Drwy gynnig cyfleoedd i blant ifainc rannu o'u profiadau, gall eu mynegiannau, o bosib, gynorthwyo athrawon wrth iddynt gynllunio ar eu cyfer, megis profiadau ystyriant eu lles a'u hapusrwydd (Waters-Davies, 2023; Clark, 2017).

Ystyrir y ceir mewnwelediad personol i'r heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â chynnal ymchwil gyda phlant gan ddatblygu ffyrdd o sicrhau tegwch a thryloywder wrth eu cynnwys yn ymchwilydd cydradd (Banks, 2018, Clark 2017). Mabwysiedir


agwedd sy'n seiliedig ar hawliau plant yn unol ag egwyddorion moesegol cadarn wrth ymgymryd â'r ymchwiliad (Clark, 2017; Farrell, 2007).

1.3 Fframwaith ddamcaniaethol a chysyniadol

Gweithredir drwy ymgorffori paradeim lluniadaeth gymdeithasol (social constructivism) ar gyfer yr ymchwiliad er mwyn darganfod dylanwadau ar hapusrwydd plant. Gelwir y ddamcaniaeth yn un ddehongiadol yn ôl Rahi (2017) gyda'r ddau derm yn aml yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol o fewn llenyddiaeth ymchwil (Fuyane, 2021). Mae egwyddorion y ddamcaniaeth wedi bod yn rhan greiddiol o'm harferion personol fel athrawes ac addysgwraig. Proses bersonol a chymdeithasol i'r unigolyn yw gwneud synnwyr o'r byd a gwneir hyn gan fodau dynol wrth wyllo, dynwared, ymarfer, chwarae a chymdeithasu ag eraill (Clark, 2023; Siraj et al., 2019; Cremin a Burnett, 2018). Awgryma Somekh a Lewin (2012) yr angen i ystyried bod dealltwriaeth yn dod o ryngweithiadau cymdeithasol a rhaid bod yn ofalus sut gwnawn ddehongli bydoedd eraill heb eu cynnwys yn rhan o'r drafodaeth (Burr, 2003). Cytunaf â'r syniad ein bod yn datblygu dealltwriaeth o wybodaeth sy'n deillio o'r byd o'n cwmpas gan dynnu ar ein profiadau (Piaget, 1936) a rhai a ddaw o ymwneud ag eraill (Vygotsky, 1978). Ystyria ymchwilwyr lluniadaeth gymdeithasol yr hyn a ddeallir am y byd drwy ffurfio realiti o'u profiadau cymdeithasol (Willard, 2022; Ragab a Arisha, 2018). Yn wahanol i ddamcaniaeth bositifaid sy'n datgan mai un gwirionedd sydd i'w gael a gellid ei ganfod drwy ymchwilio'n wyddonol, creda'r ymchwilydd lluniadol cymdeithasol na ellir dod at un ddealltwriaeth benodol yn unig o gysyniad neu brofiad, gan ein bod mor wahanol, a'n profiadau o'r byd yn dylanwadu ar ein dealltwriaeth gysyniadol (Fuyane, 2021). Mae'r dull deongliadol lluniadol yn dibynnu ar ddata ansoddol a gasglwyd, a ddadansoddwyd a hefyd i raddau a brofwyd fel rhan o'r ymchwil ei hun (Fuyane, 2021). I'r sawl a gytunir a'r ddamcaniaeth, cryfder y dull yw'r gallu i dderbyn nad oes un ateb i'w ddarganfod (Crotty, 1998) ond nifer o ddehongliadau a gyrchwyd trwy lygaid a lleisiau'r cyfranogwyr eu hunain (Thanh a Thanh, 2015).

Yn yr ymchwiliad yma - llais y plentyn sy'n ganolog i'r data a gesglir. Mae'r paradeim lluniadaeth gymdeithasol hefyd yn cydnabod unigrywedd unigolion i fynegi profiad

personol. Fe all camau'r ymchwiliad ddatguddio gwybodaeth newydd am brofiadau plant ifainc (Porta, 2008). Mae Ffigwr 2 isod yn arddangos fel rhan o'r ymchwiliad sut y datblygir y drafodaeth ddamcaniaethol o ran y cysylltiadau rhwng profiadau plant ifainc o ryngweithio, y credoau diwylliannol sy'n ffurfio eu dealltwriaeth a'r hyn a ddylanwada ar eu lles. Cydnabyddir llais y plentyn yn gydradd o fewn y gwaith er mwyn sicrhau bod y dulliau a ddewiswyd i gasglu tystiolaeth yn adnabod, cydnabod a chyrraedd anghenion a medrau'r plant (Clark, 2017; Murray, 2019). Dealla'r ymagwedd hefyd fod plant yn wahanol i oedolion o ran eu galluoedd, hoffterau a'u cyfleoedd i wneud penderfyniadau (Postman, 1994; O'Kane, 2000; Greene a Hogan, 2006).



Ffigwr 2 Cysylltiadau a damcaniaeth lluniadaeth gymdeithasol

Ystyrir Lev Vygotsky y seicolegydd Sofietaidd ôl-chwyldroadol, yn un o sylfaenwyr damcaniaeth lluniadaeth gymdeithasol. Mae'r ddamcaniaeth yn amrywiad o ddamcaniaeth lluniadaeth wybyddol, ac yn un sy'n pwysleisio natur gydweithredol

dysgu. Cynigia'r ddamcaniaeth epistemoleg sy'n tanlinellu fy nghred bersonol bod dysgwyr yn adeiladu eu dehongliadau unigryw o'r byd yn seiliedig ar eu rhyngweithiadau, eu gwybodaeth a'u profiad ohono; o fewn cyd destunau amrywiol (Crotty, 1998), sef nod CY1 o ran hapusrwydd plant. Awgryma Marshall (1994), fod lluniadaeth yn bwysig i addysgwyr ei ddeall, gan nid o fewn dealltwriaeth yr unigolyn yn unig y ddigwydda'r dysgu ond, yn hytrach o fewn sefyllfaoedd cydweithredol rhwng unigolion, megis prif amcan CY2 o ran yr hyn sy'n bwydo cynllunio'r athrawon.


Y gred ymysg damcaniaethwyr gwybyddol megis Piaget (1936) a Fosnot a Perry (2005), yw bod gwybodaeth yn cael ei hadeiladu'n weithredol gan ddysgwyr mewn ymateb i ryngweithio â symbyliadau amgylcheddol. Wrth dderbyn gwaith Piaget (1936) bod dysgwyr yn ymateb i'w dehongliad a'u dealltwriaeth o ysgogiadau, pwysleisiodd Vygotsky swyddogaeth iaith a diwylliant o ran datblygiad gwybyddol yr unigolyn. Yn ôl Vygotsky (1978) mae iaith a diwylliant yn chwarae swyddogaethau canolog yn natblygiad deallusol dynol ac yn y modd y mae bodau dynol yn amgyffred y byd. Credir bod dysgu'n digwydd o fewn y byd y mae plant yn ei brofi a'u bod yn dysgu mwy wrth ddelio â phroblemau a sefyllfaoedd sy'n efelychu ac yn cynrychioli bywyd pob dydd (Nicaise a Barnes, 1996). Mi fydd y plant o fewn yr ymchwiliad hwn, yn tynnu ar eu profiadau o fewn yr ysgol a'u dosbarthiadau a thu allan. Rhennir yr hyn sy'n dylanwadu ar eu hapusrwydd er mwyn, o bosib, cefnogi cynllunio a myfyrio athrawon ar eu darpariaethau.

Bydd darganfod a yw cymhelliant yn amlygu ei hun o fewn ymatebion y plant yn ddiddorol, parthed o ran yr hyn gwnânt ei fwynhau yn gyffredinol megis eu hoffterau a'r hyn a ddaw o ymatebion eraill, megis wrth athrawon neu eu cymheiriaid.

Awgryma Vygotsky (1978) fod cymhelliant yn rhywbeth cynhenid ac anghyenenid ar yr un pryd. Y rheswm dros hyn yw bod dysgu'n ddigwyddiad cymdeithasol. Mae dysgwyr yn cael eu hannog yn rhannol gan wobrwon a chanmoliaeth ac yn rhannol o ran anian personol yr unigolyn (Vygotsky, 1978). Golyga hyn os ydynt yn cael boddhad o'r gweithgarwch yna fe ddylanwada ar eu lles a'u hapusrwydd.

Gwyddys fod yna ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar les ac emosiynau'r plentyn megis teulu, ffrindiau, y cartref, yr ardal enedigol a sefyllfa ariannol y teulu (Holder, 2008; Hall et al., 2016; Sutton, 2018; Wellman a Banerjee, 1991). Awgryma Bronfenbrenner yn ei waith 'systemau ecolegol' (1979) ac, yn hwyrach, ei

'ddamcaniaeth fioecolegol' sut gall y rhain ddylanwadu ar ddatblygiad yr unigolyn a'r rhagolygon am ddyfodol llewyrchus. Cytunir â Grimmer (yn Bradbury a Swailes, 2022) er bod geneteg yn cychwyn y broses ddatblygiad, ymwneud â'r amgylchedd a phrofiad sydd â'r dylanwad mwyaf arno; hynny yw, y cyd-destun cymdeithasol-ddiwylliannol. Pwysleisiodd Bronfenbrenner yn ogystal dylid ystyried y plentyn yn unigolyn a all addasu'r amgylchedd a chyd-luniadu ei fyd yn hytrach na bod yn oddefol i'w amgylchedd yn unig. Cydnabyddia fod dylanwadau eraill i'w hystyried o ran datblygiad y plentyn.



Ffigwr 3 - Systemau ecolegol Bronfenbrenner

Eglura Bronfenbrenner (1979) fod y dylanwadau agosaf at blentyn, yn deulu, ffrindiau ac athrawon o fewn y system feicro yn medru cael effaith gref o ran ymglymiad a chreu perthnasau agos a all ddylanwadu ar les a hapusrwydd yr unigolyn, (gweler Ffigwr 3 uchod). Yn y system feso, sef yr ail haen, ystyrir dylanwadau megis yr ysgol, grwpiau cymunedol, cyfleoedd cymunedol a chrefydd - y profiadau sydd ar gael i'r plentyn wrth dyfu. O fewn y drydedd system cynhwysir gwasanaethau cymunedol ehangach, dylanwadau polisïau awdurdodau lleol a'r llywodraeth, a all ddylanwadu ar safle cymdeithasol y teulu, cyfleoedd am waith ac

ati. Yna'r system olaf, sef y macro, yn ymwneud ag economi'r wlad, ynghyd â pholisïau byd eang.

Dylid, felly, ystyried bod nifer o ddylanwadau'n cael effaith ar blentyn mewn moddau cadarnhaol a negyddol. Nid yw cefndir na chyflwr teuluol y plant yn ffactorau a nodir o fewn y data a gesglir ar gyfer yr ymchwiliad hwn, er y cydnabyddir fe allai'r rhain ddylanwadu ar gyflwr emosiynol y plentyn yn yr ysgol, er enghraifft ei hapusrwydd. Awgryma Roberts (2011), fod ymchwil ym maes datblygiad plentyn wedi ceisio darganfod model sy'n tynnu ynghyd effaith a gwybyddiaeth; hynny yw, sut rydym yn teimlo a sut y gwyddom ystyr y teimladau hynny. Y gobaith yw y bydd yr ymchwiliad hwn drwy gasglu data yn uniongyrchol oddi wrth y plant eu hunain, am eu teimladau a'u profiadau yn mynd rhywfaint i'r afael i alluogi plant i fynegi beth sy'n dylanwadu ar eu hapusrwydd yn yr ysgol.

Adeilada'r ymchwiliad ar waith ymchwilydd arall o'r garfan luniadol gymdeithasol sef Ferre Laevers, ymchwilydd addysgol o wlad Belg. Cydnabu Laevers (2015) syniadau creiddiol Piaget a Vygotsky fod y cynnydd a wna plant ifainc yn ymwneud a dealltwriaeth, eu profiadau a'u rhyngweithiadau a'r byd a gydag eraill. Ychwanega Laevers at y syniadau hyn gan ddatgan bod rhaid i'r plentyn deimlo'n sefydlog (lles y plentyn), a bod diddordeb ganddo yn yr hyn a wneir (y math o weithgarwch) iddo fedru gwneud cynnydd (Laevers, 2000). Yn yr ymatebion a geir i CY1 bydd yr ymchwiliad hwn yn amlygu'r agweddau hynny sy'n creu ymdeimlad o hapusrwydd ac sy'n diddori'r plant.

Datblygodd Laevers a thîm o ymchwilwyr yng nghanolfan ymchwil Prifysgol Leuven gwlad Belg, fodd i fesur lles ac ymglymiad a elwir y Graddfeydd Lles ac Ymglymiad Leuven – (The Leuven Wellbeing and Involvement Scales) (1997). Sef graddfeydd a oedd wedi eu defnyddio i arsylwi mwy na 60,000 o blant ar draws y DU (Pascal a Bertram, 1995) a nifer sylweddol yn fwy erbyn hyn. Defnyddia athrawon ac oedolion sy'n rhan o'r prosiectau ymchwil raddfa pum pwynt i fesur lles ac ymglymiad plentyn yn ystod gweithgarwch dosbarth. Ar bwynt un, ni wna'r unigolyn arddangos ymglymiad i dasg na adlewyrchu ystumiau corfforol o les, ar bwynt pump mae'n ymglymu'n llawn i'r dasg ac mae lles y plentyn ar ei uchaf o'r hyn a arsylwir.

Mae syniadaeth Laevers yn caniatáu i athrawon fedru casglu data o arsylwadau ond ni chynhwysa lais y plentyn yn rhan o'r strategaeth. Teimlir bod cynnwys llais y plentyn, ei ddarluniau a'i bortreadau o'r hyn a brofa, a'r hyn a ddylanwada arno yn cryfhau ein dealltwriaeth a'n mewnwelediad i fywyd yr unigolyn gan lenwi bwlch yn yr ymchwil (CY1).

Athro Seicoleg ym Mhrifysgol California yw Barbra Rogoff, datblygodd hithau hefyd syniadau Vygotsky a Bronfenbrenner yn ei gwaith gan bwysleisio ymhellach bod diwylliant yn ffactor hollbwysig (Andriopolous a Slater, 2013; Rogoff, 2003). Mynega Rogoff fod ein dealltwriaeth gysyniadol o'r byd o'n cwmpas wedi'i wreiddio o fewn ein diwylliant.

Yng nghyd-destun yr ymchwiliad hwn, mae'r gweithgareddau a brofa'r disgyblion o fewn yr ysgol yn deillio o'r hyfforddiant a dderbyniodd yr athrawon a'u gwybodaeth am blentyndod ac addysgu. Bydd y rhain yn gymhathiad o syniadau gorllewinol o'r math o addysg sy'n addas i blant rhwng 3 a 7 oed yng Nghymru, dealltwriaeth a ddaw o egwyddorion ein cwricwlwm a ddarparwyd gan y Llywodraeth yng Nghymru ynghyd â natur a modd gweithredu addysg plant ifainc o fewn yr ysgol ei hunan.

Mae'r cysyniadau canolog o berthyn a diwylliant a phwysigrwydd eu hymgorffori o fewn y cwricwlwm a gynigir i blant ar draws Cymru'n eglur o fewn y ddogfennaeth gwricwlaidd. Nodir yn glir o fewn deunydd Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau y dylid sicrhau bod profiadau'r dysgwyr o hunaniaeth a pherthyn wedi'u gwreiddio o fewn cyd-destunau perthnasol ac ystyrlon (Hwb, 2023). Diwylliant y dosbarth yw'r brif ystyriaeth o fewn yr ymchwiliad penodol hwn. Bydd y plant drwy eu cyfranogiad yn cyfleu eu dealltwriaeth o'u 'Cynefin' (Chapman *et al.*, 2023) tra yn yr ysgol (CY1) a'r modd y dylanwada'r cynefin hwnnw ar eu hapusrwydd. Yn yr un modd bydd ymatebion yr athrawon (CY2) yn arddangos a ydynt yn ystyried system feicro cynefin ysgol y plant wrth gynllunio, a'r ffyrdd y medrid ei ddatblygu ymhellach i sicrhau hapusrwydd yr unigolion.

Mae dull diwylliannol o ymchwilio yn cydnabod bod gan gwahanol gymunedau diwylliannol wahanol ddisgwyliadau o blant ar gyfnodau eu prifant (Rogoff, 2003). Fe dybia ymchwilwyr ac addysgwyr beth sy'n addas i blant gan ddefnyddio fel llinyn mesur eu profiadau personol a rhai a'u haddysgwyd iddynt hwythau (Rogoff, 2003).

Golyga hyn nad ydynt o reidrwydd felly, yn ystyried diddordebau'r plant eu hunain a'u hymateb i brofiadau er mwyn gwella'r ddarpariaeth a gynigir iddynt.

Ymgwymerwyd â'r ymchwiliad o fewn ysgolion ar draws De Ddwyrain Cymru. Y disgwyl yw y bydd yr arferion addysgol o ran amgylcheddau a gweithgareddau a brofa'r plant fod yn debyg er mi allent fod yn dra gwahanol. Ffocws yr ymchwiliad yw ymateb a theimladau'r plant eu hunain o fewn yr amgylcheddau hyn, a sut y dylanwadu ar eu hapusrwydd (CY1), yn hytrach na chasgliad o sylwadau goddrychol gan oedolion o'r hyn y credant sy'n gyfrifol am deimladau'r unigolion.

1.4 Rhesymeg / cymhelliant personol

Daw'r cymhelliant dros wneud y gwaith o gefndir personol a phroffesiynol. Yn bersonol mae pwysigrwydd addysg fel hawl y dylid ei werthfawrogi yn greiddiol i'm magwraeth. Daeth hyn yn bennaf o ddylanwad fy mam, er iddi lwyddo mewn profion ac arddangos gallu academiaidd o oed ifanc, gorfodwyd iddi weithio fel morwyn o bedair ar ddeg oed ymlaen tan iddi gyrraedd un ar hugain oed, er mwyn cyfrannu at gostau byw'r teulu. Lle bu fy nhad mewn sefyllfa fwy breintiedig, fe anogwyd iddo barhau â addysg er mwyn dod yn dechnegydd meddygol a pharhau i astudio fel rhan o'i waith. Mae'r ddwy sefyllfa wedi gosod seiliau cadarn i mi o bwysigrwydd addysg gydol oes.

Yn broffesiynol daw'r cymhelliant i addysgu o fewn addysg gynnar a elwid gynt y Cyfnod Sylfaen, a datblygu arbenigedd a diddordeb mewn bywydau plant rhwng 3 a 7 oed yn enwedig eu profiadau o addysg. Wedi ennill gradd meistr yn ymchwilio i dueddiadau bechgyn a merched yn ystod eu chwarae hunan-ddewisol, datblygwyd diddordeb pellach mewn llais a hunan fri plant. Mae creu cyfleoedd lle gall plant ifainc i ddatgan eu syniadau mewn moddau amrywiol yn gyffrous (CY1). Mae'r daith gymera'r plentyn o enedigaeth i lencyndod yn gosod y sylfeini ar gyfer dod yn oedolyn. Mae'r 'bod yn' (*being*), a'r 'dod' (*becoming*) yn oedolyn yn cael ei sefydlu yn ystod plentynod cynnar – mae iaith, lles, moesoldeb, chwarae, empathi, creadigrwydd, dysgu, cydweithrediad yn cael eu hymarfer a'u datblygu yn yr ysgol a'r cartref (Musgrave 2017; Ibbotson, 2024). Mae'r cysyniad tu ôl i hyn, yn ystod

plentyndod cynnar yn ymwneud â sut mae plant ifanc yn profi bywyd yn y presennol (bod) tra hefyd yn datblygu ac yn esblygu tuag at eu potensial yn y dyfodol (dod).

Mae'r 'bod yn' yn pwysleisio pwysigrwydd gwerthfawrogi plant fel y maent ar hyn o bryd (Musgrave, 2017). Mae'n cydnabod eu profiadau presennol, eu hemosiynau a'u perthnasoedd fel agweddau ystyrion ar eu bywydau yn hytrach na chanolbwyntio ar eu datblygiad yn y dyfodol yn unig, sy'n unol â syniadaeth Cwricwlwm i Gymru (2021) a gwaith James a Prout (2015) lle cydnabu plentyndod fel cyfnod pwysig yn ei hunan ac nid paratoad yn unig. Mae'r 'dod yn' yn cyfeirio at y broses o dwf a newid, gan gydnabod bod plant yn dysgu'n barhaus, yn datblygu sgiliau, ac yn ffurfio hunaniaeth a fydd yn eu siapia i fod yn oedolion. Mae'r persbectif yma'n yn ganolog i addysg a gofal plentyndod cynnar, gan sicrhau bod lles, asiantaeth, ac unigoliaeth plant yn cael eu parchu tra hefyd yn cefnogi eu datblygiad tuag at gymwyseddau'r dyfodol.

Wedi gweithio yn y sector addysg ers dros ugain mlynedd teimlir yn aml nad yw trafodaethau am les plant yn glir o ran yr hyn a olygir. Prin y ceir diffiniad cadarn o les o fewn dogfennau polisi a thrafodaethau cyffredinol yn ymwneud â lles neu lesiant plant a llai amlwg fyth gwelir hapusrwydd plant yn rhan o'r drafodaeth. Defnyddir y gair lles yn eang a dadleuir mai hapusrwydd plant ynghyd â sicrhau eu hanghenion yw'r hyn y ceisia'r dogfennau ein darbwyllo. Ystyrir bod hapusrwydd yn rhan o les ehangach, ac un agwedd ydyw mewn gwirionedd o les cyfannol unigolyn. I blant mae'n rhywbeth sy'n gyfarwydd iddynt a medrant ei ddehongli. I mi'n bersonol ar gyfer yr ymchwiliad hwn, roedd ffocysu ar hapusrwydd plant yn gwneud synnwyr, gan ei fod yn gysyniad y gwna plant ifainc ei ddeall o oed cynnar (Clark, 2017; Hong et al, 2015). O fewn yr ymchwiliad hwn hapusrwydd yw'r ffocws a dylanwadau ar yr hapusrwydd.

Mae'r awydd i ddylanwadu ar, a gwella'r profiadau addysgol a gynigir i blant yn gryf ac wrth rannu'r wybodaeth ag athrawon gellir eu harfogi i ystyried llais emosiynol yr unigolion fel un ystyriaeth wrth gynllunio darpariaethau diddorol a allai arwain at gynnydd llesol os and hefyd cynnydd gwybyddol yr unigolyn yn y pen draw (CY2). Teimlir gallai'r gwaith hwn gyfrannu gogwydd newydd at y maes a'n dealltwriaeth o'r hyn sy'n creu hapusrwydd ymysg plant ifainc, a'u lles a'u sefydlogrwydd o fewn yr ysgol.

1.5 Dylanwadau personol / proffesiynol

Wedi treulio blynyddoedd yn gweithio o fewn y sector Blynyddoedd Cynnar ac fel hyfforddwraig Addysg Gychwynnol Athrawon gwyddys pa mor bwysig yw gosod sylfeini cadarn yn eu lle i blant yn ystod eu profiadau cynnar o addysg. Wedi symud i yrfa o fewn addysg uwch yn hyfforddi darpar athrawon ac arwain y Cyfnod Sylfaen o fewn rhaglenni graddedig roedd modd pwysleisio bod gweithlu o ansawdd uchel yn dylanwadu ar ddarpariaeth o safon (Siraj, 2015). Mae'r swyddogaethau wedi fy ngalluogi i gyfrannu at, a chyd awduro penodau mewn cyfrolau gwybodaeth a deunydd ymarferol ar gyfer athrawon a phlant er mwyn hyrwyddo a chefnogi profiadau gwerthfawr. Gwna ymgymryd â'r ymchwiliad presennol ledaenu'r bwriad hwn o gael dylanwad cadarnhaol ar fywydau plant drwy wneud athrawon yn ymwybodol o ystyriaethau eraill wrth gynllunio a pharatoi gweithgarwch ar eu cyfer. Symudir ymlaen ym Mhennod 2 i drafod yr ymchwil sy'n bodoli eisoes ac yn berthnasol i gyd-destun yr ymchwiliad hwn.

Pennod 2: Adolygiad Llenyddiaeth

2.1 Amlinelliaid o'r bennod

Nod yr adolygiad llenyddiaeth yw cyflwyno crynodeb gwrthrychol, trylwyr a dadansoddiad beirniadol o'r ymchwil berthnasol sydd ar gael, a'r llenyddiaeth ymchwil ar y pwnc sy'n cael ei astudio (Hart, 1998, Cronin et al., 2008). Mae'r deunydd ymchwil a'r diddordeb o ran gwella lles y plentyn wedi tyfu'n sylweddol dros y ddau ddegawd diwethaf yn fyd eang (Musgrave, 2017; Humphrey et al., 2011). Wedi dweud hyn, prin yw'r dystiolaeth sy'n cynnwys cyfraniadau plant ifainc yn uniongyrchol, a llai amlwg yw'r deunydd am hapusrwydd yr unigolion, sef prif amcan Cwestiwn Ymchwil 1. Gwna'r adolygiad hwn gynnig cefndir gan ystyried y llenyddiaeth o ran y cysyniad o blentyndod a sut y mae wedi esblygu (2.2). Yn ogystal ymchwilir i'r gwaith a wna amlygu'r cyswllt rhwng hapusrwydd a lles y plentyn yn isadrannau 2.3 a 2.4. Cyflwynir trafodaeth parthed sut mae lles fel cysyniad wedi addasu o fewn polisïau yng Nghymru yn 2.5. O fewn gweddill y bennod ystyrir themâu dylanwadol ar hapusrwydd a lles ac o ran deall addysgeg y plentyn megis, llais y dysgwr (2.6), athroniaeth plentyn canoledig (2.7) a'r ymdeimlad o berthyn ymysg plant i bobl ac i le (2.8).

Fe wna'r adolygiad yma ddarparu cefndir cynhwysfawr ar gyfer deall y wybodaeth bresennol gan amlygu arwyddocâd yr ymchwil i'r darlennydd a'r ymchwilydd. Lleolir yr ymchwil o fewn fframwaith damcaniaethol lluniadaeth gymdeithasol gan gynnig safbwyntiau, ehangu ar ymchwil sy'n gytûn a'm barn bersonol a chyflwyno canlyniadau arwyddocaol o fewn yr ymchwil sy'n bodoli. Adolygiad o lenyddiaeth draddodiadol neu naratif yn ymwneud â lles plant, yn bennaf hapusrwydd plant ac addysgeg plentyndod cynnar defnyddiwyd ar gyfer yr ymchwiliad yma (Cronin et al., 2008). Noda'r awduron gall ysbrydoli syniadau ymchwil trwy nodi bylchau neu anghysondebau mewn corff o wybodaeth, a thrwy hynny, yn helpu'r ymchwilydd i bennu neu ddiffinio cwestiynau ymchwil neu ddamcaniaethau (Cronin et al., 2008; Baumeister a Leary, 1997). Wrth gynnal ymchwil addysgol, mae defnyddio cronfeydd data fel Hwb (cadwrfwa LI C), Estyn, Google Scholar, ERIC (Canolfan Gwybodaeth Adnoddau Addysg Gynnar), a gwefan BERA (Cymdeithas Ymchwil Addysgol

Prydain) yn wir yn strategaeth gadarn. Defnyddiwyd y rhain yn ogystal â chadwrfeydd llyfrgell Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a'r Brifysgol Agored i chwilota am ddeunydd perthnasol. Mae gan bob un o'r llwyfannau hyn gryfderau unigryw ar gyfer cyrchu ymchwil o ansawdd uchel a adolygir gan gymheiriaid, adolygiadau llenyddiaeth, ac adnoddau addysgol eraill.


Yn achos Google Scholar, sef peiriant chwilio gwe hygyrch sy'n medru amlygu testun llawn neu feta data llenyddiaeth ysgolheigaidd ar draws amrywiaeth o fformatau a disgyblaethau cyhoeddi. Tynnwyd ar ddeunydd cynhoeddedig yn ymwneud â phlentyndod, damcaniaeth lluniadaeth gymdeithasol a lles plant. Gwna'r wefan gynnwys papurau a adolygir gan gymheiriaid, traethodau ymchwil, llyfrau, rhagargraffiadau, crynodebau, ac adroddiadau technegol o bob maes ymchwil.

Cyniga cronfa ERIC fynediad at lenyddiaeth ac adnoddau addysg, gan gynnwys erthyglau cyfnodolion, adroddiadau ymchwil, deunyddiau cwricwlwm, papurau cynhadledd, a llyfrau. Mae'n adnodd allweddol ar gyfer cyrchu ymchwil sy'n benodol i addysg gynnar. Mae llawer o gofnodion ERIC yn darparu dolenni uniongyrchol i'r testun llawn. Cyniga gwefan BERA adnodd ar gyfer cyrchu ymchwil addysgol o ansawdd uchel yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae'n darparu mynediad i gyfnodolion academiaidd, adroddiadau, a phapurau polisi sy'n berthnasol i'r sector addysgol. Cyrchwyd cyhoeddiadau BERA ei hun, gan gynnwys papurau ymchwil a dogfennau polisi a deunydd o gyfnodolyn BERA (BERJ) a chyhoeddiadau arwyddocaol eraill, y gellir eu cyrchu trwy fewngofnodi.

Defnyddiwyd geiriau allweddol penodol a pherthnasol sy'n gysylltiedig â'm pwnc ymchwilio i gychwyn, yna, hidlo canlyniadau yn ôl dyddiad, perthnasedd, a dyfyniadau. Cyrchwyd opsiynau chwilio manwl ar gyfer ymholi mwy manwl gywir er enghraifft 'lles plant ifainc', 'hapusrwydd plant ifainc', ac fe ystyriwyd metrigau dyfyniadau i fesur effaith papurau ymchwil. Roedd defnyddio cronfeydd data i groeswrio canfyddiadau a chasglu safbwyntiau cynhwysfawr ar y meysydd trafod yn fanteisiol i sicrhau hygyrddedd y gwaith. Trwy ddefnyddio'r llwyfannau hyn gyda'i gilydd, medrwyd sicrhau adolygiad cadarn a thrylwyr o'r llenyddiaeth o fewn yr agweddau addysgol a'u hastudir o fewn yr ymchwiliad. Her wrth gynnal yr adolygiad llenyddiaeth oedd bod peiriannau chwilio yn dueddol o gynnwys ymchwil o wledydd eraill oherwydd eu bod yn blaenoriaethu o ran perthnasedd cyffredinol yn hytrach

nag ansawdd a thros ffiniau daearyddol. Mae'r mwyafrif o'r adroddiadau ymchwil a'u cynhwysir o fewn yr ymchwil yma yn deillio o bedair gwlad y Deyrnas Unedig ac Ewrop, gan eu bod fwyaf addas a pherthnasol o ran gweithredu polisi blynyddoedd cynnar. Wedi dweud hynny, tynnir hefyd ar ymchwil fyd eang sy'n gweddu i'r testun lles a hapusrwydd lle doed o hyd iddynt. Gweithredwyd proses hidlo i sicrhau mai dim ond y gwaith mwyaf perthnasol a gynhwyswyd megis ers 2010, gyda phapurau PhD diweddar yn eu plith. Cynorthwyodd hyn i ddarparu'r wybodaeth fwyaf cynhwysfawr a chyfoes, gan ddefnyddio cronfa fwy penodol o wybodaeth yn hytrach na chynnwys deunyddiau llai perthnasol oedd wedi dyddio. Yr eithriad i hyn oedd dyfynnu gwaith ymchwil arloesol (seminal) gan ymchwilwyr blaenllaw ym maes lluniadaeth gymdeithasol i gynnig sail ddamcaniaethol i'r ymchwiliad hwn.

Tynnwyd ar ddeunydd o adroddiadau, dogfennau polisi, ymchwil ym maes lles a hapusrwydd er mwyn cyflwyno syniadau'r ymchwiliad yma o fewn cyd-destun y deunydd sy'n bodoli eisoes. Fel nodwyd uchod, detholwyd y testunau ar gyfer y gwaith o blith cyhoeddiadau llyfrau, e-lyfrau, erthyglau, papurau ymchwil, blogiau, gwefannau a deunydd digidol o wahanol gadwrfâu addysgol. Dilynwyd trefn chwilota arferol bersonol gan gychwyn gydag awduron a chyrrff neu sefydliadau cyhoeddus a oedd yn hysbys i mi o ran maes lles a hapusrwydd. Wedi hynny, trwy chwilota geiriau penodol a oedd yn cyd-fynd a'r agweddau sy'n ymddangos o fewn yr ymchwiliad (Cooper et al., 2018) megis:



Ffigwr 4 - Geirfa chwilota gwefannau addysgol

Mae seilweithiau digidol ar gyfer cefnogi gwybodaeth ysgolheigion o safbwynt chwilota a chasglu gwybodaeth wedi'u hen sefydlu (Borgman 2007). Roedd hon yn broses hir gan nad oes llawer o ddeunydd yn bodoli yn y Gymraeg ac felly Saesneg oedd prif gyfrwng y chwilota. Roedd y ffaith bod y defnydd o'r gair lles mor eang hefyd yn golygu bod angen ystyried yn fanwl cynnwys y deunydd i ateb gofynion yr ymchwiliad. Ystyriwyd perthnasedd y deunydd megis addasrwydd o ran fy namcaniaeth bersonol luniadol gymdeithasol, cyswllt â phlant yn y blynyddoedd cynnar a lles y plentyn, yn benodol hapusrwydd fel ystyriaeth ganolog, yn brif yrwyr. Gwelwyd yn fuan y bwlch sy'n bodoli o ran deunydd cyfrwng Cymraeg ac ymchwil am les ac yn benodol hapusrwydd plant ifainc sy'n cynnwys lleisiau'r plant eu hunain.

2.2 Plentyndod (CY1)

Mynega United Nations International Children's Emergency Fund (UNICEF) (2016) fod plentyndod cynnar yn gyfnod tyngedfennol pwysig sy'n gosod y sylfeini ar gyfer lles a datblygiad y plentyn nes ymlaen (UNICEF, 2016). Mae'r modd ystyrir y plentyn a'i allu i gyfrannu i'r byd ac i waith ymchwil wedi newid yn sylweddol dros y ddwy ganrif ddiwethaf. Mae'r cysyniad o blentyndod yn un sydd wedi esblygu dros y canrifoedd, un sydd wedi deillio o gysyniadau lluniadol gan oedolion (Maynard a Thomas, 2004). Yn y cyfnod canoloesol ni ystyriwyd plentyndod yn fwy na chyfnod y tyfwyd drwyddo, nid oedd o unrhyw bwysigrwydd fel cyfnod ynddo'i hun ac nid oedd plentyndod yn bodoli fel cysyniad cymdeithasol (Hanawalt, 2002). Nid tan 60au'r ganrif ddiwethaf y datblygwyd diddordeb ym maes plentyndod yn dilyn yr Ail Ryfel Byd (Venken a Röger, 2015).

O fewn hanes Ewropeaidd roedd yna ddwy farn bryd hynny. Roedd y cyntaf yn datgan bod y plentyn ganedig yn ddrwg ac angen gwelliant (casgliad a ddoth o syniadau Cristnogol). Tra bod yr ail farn o blentyndod fel cyfnod o ddiniweidrwydd sy'n cael ei ddifetha gan fyd oedolion (Cunningham, 2006).

Felly, erbyn y ddeunawfed ganrif ystyriwyd y plentyn fel unigolyn oedd rhaid ei amddiffyn a'i warchod, gyda'r ugeinfed ganrif yn gweld meysydd ymchwil Seicoleg ddatblygiadol a Chymdeithaseg yn amlycach yn cyflwyno'r plentyn fel bod cyn-oedolaidd (pre-adult) (Farrell, 2005). O fewn y 'cyfnod datblygiadol' y bedwaredd ganrif ar bymtheg ni ystyriwyd y plentyn yn gyflawn, paratoad ar gyfer bod yn oedolyn oedd prif fwriad addysg y cyfnod ym marn athronyddion eglwysig, gydag awydd gan ymchwilwyr y cyfnod i sicrhau diniweidrwydd hirdymor yr unigolyn (Reynolds, 2014).

Yn ystod y cyfnod yma o dwf yn niddordeb plentyndod cynnar, bu i gorff o ymchwilwyr dalu cryn sylw i fedrau cynnar plant yn enwedig yn ieithyddol, a wnaeth ffocysu ar yr hyn a elwid yn enhediniaeth (Nativism). Gyda Chomsky (1965) ar flaen y gad, cyflwynodd damcaniaethwyr genhediniaeth y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, y cysyniad bod plant yn cael eu geni gyda gallu cynhenid i drefnu medrau iaith, sy'n eu galluogi i ddysgu iaith frodorol yn hawdd. Credasant fod gan blant alluoedd iaith-benodol sy'n eu cynorthwyo wrth iddynt

ddatblygu at feistrolaeth iaith. Awgrymodd Chomsky (1965) bod ymennydd plant yn cynnwys Dyfais Caffael Iaith (Language Acquisition Device) (LAD) sy'n storio gwybodaeth ieithyddol gyffredinol. Golyga hyn y medr plant gyfleu eu syniadau o oed ifanc gan fod ganddynt sgiliau cynhenid i fedru gwneud hynny.

Er bod Bruner yn cytuno'n gyffredinol bod gan blant ifainc yr awydd i ddysgu (iaith yn benodol) fe wnaeth Bruner yntau, a Vygotsky (1978) herio'r ddamcaniaeth gan na ddarganfuwyd LAD ar ddelweddau'r ymennydd nac mewn astudiaethau eraill o ymennydd plant. Eu prif wrthwynebiad i'r ddamcaniaeth oedd ni wna genhediniaeth ystyried pwysigrwydd yr amgylchedd cymdeithasol y mae plant yn byw oddi fewn iddi, a'r dylanwad y gwna gael ar y plentyn.

Er bod caffael iaith yn cael ei ystyried yn broses gynhenid gan ymchwilyr genhediniaeth (James a Prout, 2015), ystyrir bod gan athrawon gyfrifoldeb wrth hwyluso'r sgiliau yma a chefnogi dysgu megis creu amgylchedd bwrpasol. Gwna athrawon fel rhan o'u cynllunio ar gyfer caffael iaith, darparu amgylchedd sy'n ieithyddol gyfoethog lle mae siarad, darllen a chofnodi cynnar yn cael eu hannog. Medrid gwneud hyn drwy gyflwyno'r disgyblion i brofiadau ieithyddol amrywiol ac ystyrlon, megis annog cyfleoedd cymdeithasol er enghraifft trafodaethau, adrodd straeon, a darllen i wella datblygiad iaith naturiol (Williams-Brown a Mander, 2021; Estyn, 2020).

Dylai athrawon fod yn fodel rôl ieithyddol briodol (Hadley *et al.*, 2022) gan annog disgyblion i gymryd rhan mewn sgysiau rheolaidd sy'n annog lleferydd digymell. Gall darparu amgylchedd sy'n cefnogi trafodaethau grŵp, chwarae rôl, a gweithgareddau rhyngweithiol gefnogi datblygiad iaith naturiol. Gall athrawon annog sgiliau'r plant ymhellach i archwilio iaith drwy chwarae a phrofiadau ymarferol (Williams-Brown a Mander, 2021). Yn ôl syniadau damcaniaeth genhediniaeth, mae dysgu iaith yn cael ei yrru gan fioleg, serch hynny, rhaid cydnabod bod athrawon yn dal i chwarae rhan hanfodol wrth lunio a chyfoethogi profiadau ieithyddol cynnar plant ifainc a datblygiad o'u sgiliau ehangach. Rhan o'u rôl yw darparu digon o amlygiad i iaith, creu cyfleoedd cyfathrebu ystyrlon, a chefnogi datblygiad iaith naturiol yn hytrach na dibynnu ar gyfarwyddyd uniongyrchol yn unig.

Y dosbarth lle wna'r plant dderbyn eu haddysg o fewn yr ysgol yw ffocws yr amgylchedd dylanwadol o fewn yr ymchwiliad yma, a sut gwna'r amgylchedd honno

ddylanwadu ar hapusrwydd y plentyn tra yn yr ysgol (CY1). Cytunir gyda'r syniad bod gan blant ifainc fedrau i gyfleu eu syniadau a'u dealltwriaeth os cynigir gwahanol ffyrdd iddynt wneud hynny, sy'n cyfiawnhau'r defnydd o ddulliau cymysg o gasglu data'r plant yn hytrach na bod yn ddibynnol ar iaith lafar y cyfranogwyr ifainc yn unig.

Erbyn heddiw ystyrir y plentyn gan nifer o ymchwilwyr ac addysgwyr yn dra gwahanol (Cunningham, 2006; Burman, 2009; Clark, 2017). Er mai nod polisi addysg y blynyddoedd cynnar a Chwricwlwm i Gymru (2022) erbyn heddiw yw i ystyried bod gan y plentyn y gallu i fod yn ddinesydd medrus a galluog, mae'n realiti gymhleth o ran cynnydd a heriau parhaus. Mae'n unol â syniadaeth luniadol gymdeithasol a'i datblygwyd yn wreiddiol gan ymchwilwyr megis Vygotsky (1978) ac fe'i datblygwyd ymhellach gan addysgwyr megis Lave a Wenger (1991), Malaguzzi (1994), Rinaldi (1998) a Rogoff (2003). Yn ôl Vygotsky (1978), deallusrwydd yw'r gallu i ddysgu trwy gyfarwyddyd. Mae dylanwad cymdeithasol a diwylliant yn ganolog i ddatblygiad gwybyddol plant oherwydd bod y cyd-destun cymdeithasol yn ysgogiad parhaus ar gyfer dysgu sydd â goblygiadau i addysgwyr o ran sut gwnânt gynllunio a pharatoi cyfleoedd rhyngweithio'r disgyblion yn eu gofal. Gellir adlewyrchu'r ddamcaniaeth hon yn namcaniaeth ecolegol Bronfenbrenner (1979) lle mae systemau cymdeithasol a diwylliannol hefyd yn cael eu hystyried yn fecanwaith allweddol ar gyfer datblygiad plant.

Heb os, mae'r cynnydd mewn safbwyntiau deongliadol yn y gwyddorau cymdeithasol, yn enwedig rhyngweithiad symbolaidd a ffenomenoleg gymdeithasol, wedi dylanwadu ar ddulliau newydd o astudio plentyndod. Mae'r safbwyntiau hyn wedi annog ffocws ar blant fel actorion cymdeithasol a phlentyndod fel realiti cymdeithasol unigryw. Cyniga James a Prout (2015), bod plentyndod yn newidyn, yn yr ystyr y gwna pob plentyn fyw ei brofiad ei hunan a bydd ganddo gwahanol ddealltwriaeth ohono. Cytunir gyda'u barn dylid ystyried y plentyn fel unigolyn medrus ag asiantaeth. Disgrifia Moran-Ellis (2010) cyhoeddiad cyntaf James a Prout yn 1997 sef 'Constructing and re-constructing childhood' fel 'ymadawiad' ar gyfer y newid mewn cymdeithaseg ac astudiaethau plentyndod. Canolbwyntia'r llyfr ar gymdeithaseg a sut y gallai rhyngweithio â phlant ddatblygu ein dealltwriaeth o blentyndod, gwnânt osod y llyfr hwn o safbwynt y lluniwr cymdeithasol.

Mae cymdeithaseg newydd plentyndod wedi'i llunio fel maes sy'n blaenoriaethu gallu a phrofiadau plant, ac eto mae'n parhau i fod yn sylfaenol ideolegol gan ei bod yn dibynnu ar ganfyddiadau oedolion o'r hyn y dylai plentyndod fod (Burke-Hadley, 2022; Warming, 2022). Mae ymchwilyr yn y maes hwn yn herio modelau diffyg traddodiadol, sy'n priodoli diffyg cyflawniad plant i ddiffygion unigol yn hytrach na methiannau addysgol systemig neu amodau economaidd-gymdeithasol ehangach. Drwy roi plant wrth wraidd ymchwil, mae astudiaethau plentyndod wedi ehangu dealltwriaeth nid yn unig o ymreolaeth plant ond hefyd o'r ddeinameg pŵer sy'n llunio perthnasoedd rhwng plant ac oedolion (Groundwater-Smith *et al.*, 2015; Greene a Hogan, 2006). Fodd bynnag, mae'r persbectif hwn yn dal i weithredu o fewn fframwaith a orfodir gan oedolion sy'n diffinio plentyndod yn seiliedig ar syniadau rhagdybiedig o ddatblygiad. Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, mae astudiaethau plentyndod wedi chwarae rhan hanfodol wrth feithrin gweithrediaeth gymdeithasol a gwleidyddol trwy herio normau a ddominyddir gan oedolion ac yn eiriol dros hawliau plant o fewn strwythurau cymdeithasol ehangach. Mae'r ymchwiliad yma'n unol a'r farn bod gan y plentyn hawliau a dylid eu hannog i fynegi eu meddyliau o'r hyn a ddigwydda iddynt gan gynnig y dulliau addas iddynt fedru gwneud hynny.

Derbynnir yn gyffredinol bellach mai lluniad cymdeithasol yw plentyndod, sy'n cynnig fframwaith ar gyfer deall cyfnodau cynnar bywyd dynol o fewn cyd-destunau diwylliannol a chymdeithasol penodol. Pwysleisia James a Prout (2015) bod astudio plant o fewn eu hamgylcheddau arferol (modd ethnograffeg) yn fethodoleg arbennig o effeithiol ar gyfer astudio plentyndod oherwydd ei fod yn rhoi llais uniongyrchol i blant a rôl weithredol wrth lunio data cymdeithasegol. Mae'r ymchwiliad hwn yn dilyn y dull hwnnw, gan geisio archwilio'r berthynas rhwng gweithgareddau plant a'r prosesau cymdeithasol fel cynllunio amgylcheddol a strwythuro gweithgareddau sy'n siapia ac weithiau'n cyfyngu ar eu profiadau a'u hapusrwydd o fewn gofodau dosbarth.

Cytunaf â honiad yr awduron fod plentyndod yn lluniad cymdeithasol a hanesyddol hyblyg. Fel y cyfryw, rhaid lleoli unrhyw astudiaeth o plentyndod o fewn ei gyd-destun amserol a gofodol priodol, hynny yw persbectif damcaniaethol sy'n cydnabod plentyndod fel ffenomen gymdeithasol sy'n esblygu'n barhaus, sy'n arwyddocaol nid

yn unig ar gyfer y presennol ond hefyd yn ei gysylltiadau â'r gorffennol a'r dyfodol (James a Prout, 2015, t. 215).

Mabwysiedir y meddylfryd hwn o fewn y gwaith yma gan gydnabod pwysigrwydd llais y plentyn a'i farn, y rhesymeg dros holi'r plant a'i gynnwys o fewn yr ymchwiliad ei hun (CY1). Ystyrir hefyd yn unol â barn Rose (2011) bod gan y plentyn asiantau sy'n unol a'r hyn welir o fewn athroniaeth darpariaethau ac ysgolion Reggio Emilia yr Eidal, a hawl y plentyn i leisio'u farn o erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant (CCUHP, 1989) trafodir y rhain nes ymlaen o fewn y gwaith.

2.3 Hapusrwydd (CY1)

Mae diddordeb yn hapusrwydd plant wedi datblygu yn sgîl sut ystyrir 'y plentyn' o fewn cymdeithas, gellid dadlau mai hawliau plant sy'n rhannol gyfrifol am y cynnydd hwn. O fewn ymchwil i hapusrwydd ystyrir yr Oxford Handbook of Happiness (David, Boniwell ac Ayers, 2013) fel cyfrol gydnabyddedig o ran ymchwil hapusrwydd gan seicolegwyr cadarnhaol (positivist psychologists). Pwysleisiwyd o fewn y gyfrol nad oes consensws o fewn y ddisgyblaeth o ran beth yw hapusrwydd na chwaith sut gellid ei fesur mewn modd cywir. Noda'r awduron 'Improving happiness and subjective well-being is an international policy goal of social progress for hundreds of countries across the world (Helliwell, Layard a Sachs, 2017, t. 3). Gwnânt gydnabod fod twf o ran y cynnydd mewn arolygon hapusrwydd cenedlaethol a chynhwysiant hapusrwydd o fewn fframweithiau polisi gwledydd led led y byd. Gwna Ahmed (2007) gyfeirio at y cyfnod hanesyddol hwn fel "the happiness turn" (Ahmed, 2007). Y drafferth yw bod dehongliadau ac ystyron o gysyniadau'n bethau a'u bathwyd gan ddiwylliannau a ni wnânt gyuno fel arfer gan fod amrywiaethau helaeth yn bodoli.

Mynega Hong et al. (2015), mae hapusrwydd yn golygu bod rhywun yn teimlo bod eu bywyd yn ystyrion a gwerthfawr wrth gael llawenydd a boddhad, ategant y gall bodau dynol greu eu hapusrwydd eu hunain. Felly gellid dadansoddi, mai hapusrwydd yw'r boddhad cadarnhaol o fewn bywyd bob dydd. Wrth sôn am oedolion eglura Clark *et al.* (2019), gall unigolyn deimlo'n hapus pan bod yn angerddol i'w waith a gwneud rhywbeth ystyrion iddo neu hi ei hun ac eraill. Mae yna gred gyffredinol ymysg ymchwilwyr (Williams - Brown a Mander, 2021; Clark, 2017;

Seligman, 2012) bod hapusrwydd yn un o ffactorau hanfodol bywyd da a llawn. Dywed seicolegwyr cadarnhaol bod hapusrwydd yn cael dylanwadau cadarnhaol nid yn unig ar fywydau unigolion ond hefyd ar deuluoedd, cymdogion, a hyd yn oed y gymdeithas gyfan. Mae gan bobl hapus lefel uchel o foddhad, gwnânt sefydlu perthynas dda ag eraill, maent yn hyblyg yn fwy creadigol, ac yn gwerthfawrogi eu galluoedd eu hunain (Seligman, 2012).

Nodwyd uchod nad oes un eglurhad neu ddiffiniad cytûn gan ymchwilwyr ar gyfer hapusrwydd (Laevens, 2015; Musgrave, 2017; Burnett, 2018). Cysyniad anodd yw hapusrwydd i'w ddiffinio gan ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyfnewidiol gyda'r term lles o fewn dogfennaeth ac ymchwil (Lewis, 2021). Gwna cyhoeddiadau (Morgan, 2014; Sutton, 2018) fel arfer defnyddio'r ymadrodd hapusrwydd i ddynodi sut mae unigolyn yn teimlo ar y pryd (state of mind). Er enghraifft defnyddir wynebaw hapus i gynrychioli hapusrwydd, ond cydnabu hefyd ei fod yn mynd yn ddyfnach na'r teimlad dros dro yn unig (Moore, 2015; Gregory *et al.*, 2015). Ystyrir hapusrwydd yma o fewn yr ymchwiliad, fel sefyllfa o 'fod', rhywbeth cyfarwydd i'r plant fedru gysylltu gyda'r ymdeimlad o deimlo'n serchog, yn llawen ac ymdeimlad o fod yn gyfforddus megis Cwestiwn Ymchwil 1. Awgryma Carter (2004) yn ei ymchwil am hapusrwydd goddrychol, fod ystyried ein hapusrwydd, meddyliau cadarnhaol ac emosiynau yn cynnig hwb i'n medrau deallusol, corfforol a chymdeithasol fel unigolion.

Ystyrir hapusrwydd yn destun o bwysigrwydd fyd eang (Seligman, 2000; Haan, 2002) ac fel rhan annatod o les unigolyn ac sy'n cyfrannu'n sylweddol at ansawdd byw medd Layard (2020). Ystyriwyd gwaith Layard yn berthnasol gan iddo bwysleisio, er mwyn profi hapusrwydd bod teimladau o berthyn a diogelwch yn allweddol, ac i wneuthurwyr polisi os ydynt am ddarganfod amcan ar gyfer creu polisiau o'r newydd i ddylanwadu ar fodlonrwydd y boblogaeth yna byddai lles a hapusrwydd yn rhai priodol. Rhagosodiad sylfaenol Layard yw bod hapusrwydd yn rhywbeth gwirioneddol, y gellir ei fesur, a dylai economegwyr a llunwyr polisi ei gymryd i ystyriaeth o ddifrif. HOLA yn ei gyfrol 'Happiness: lessons from a new science' pe bawn ni wir eisiau bod yn hapusach, beth fydden ni'n ei wneud yn wahanol? Yn gyntaf byddai'n rhaid i ni weld yn glir pa amodau sy'n cynhyrchu hapusrwydd ac yna ceisio addasu ein ymdrechion tuag at eu cynhyrchu. Atega Layard (2020) fod y sylw a roddir i hapusrwydd o fewn y cyfryngau wedi dyblu ers 2010, a chyhoeddiadau'n cynnwys iechyd meddwl wedi cynyddu dros bum gwaith yn

amlach (Layard, 2020). Gwelir hyn hefyd o fewn ymchwil cyhoeddedig gyda niferoedd bychain yn unig yn bodoli yn 2000 i tua dwy fil y flwyddyn o fewn testunau addysgol, economaidd a seicloegol yn 2020 (Layard, 2020).

Mae hapusrwydd y plentyn yn gysylltiedig â'r hyn a elwir gan Newman (2023) yn gyfalaf emosiynol seicolegol. Y diffiniad a roddir i'r term yw'r casgliad o sgiliau emosiynol, hunanymwybyddiaeth, a deallusrwydd emosiynol sydd gan unigolion ac yn achos yr ymchwiliad yma plant ifainc. Mae'n cwmpasu'r gallu i adnabod, deall a rheoli emosiynau personol ac emosiynau pobl eraill. Pwysleisia Newman (2023) a Musgarave (2017) bod deall cyfalaf emosiynol yn golygu cydnabod effaith emosiynau ar feddyliau, ymddygiad, a lles cyffredinol. Mae'n golygu gallu canfod a dehongli emosiynau'n gywir, yn eich hun ac mewn eraill, a defnyddio'r wybodaeth hon i arwain gweithredoedd a rhyngweithiadau. Trwy gael rheolaeth dros gyfalaf emosiynol a'i drosoli, gall unigolion lywio'u emosiynau o fewn cymdeithasau amrywiol (yr ysgol), adeiladu perthnasoedd cryf, a gwneud penderfyniadau gwell. Bydd yr ymchwiliad yma yn cefnogi datblygiad cyfalaf emosiynol plant ifanc trwy roi cyfleoedd iddynt rannu eu dealltwriaeth a'u profiadau o hapusrwydd yn yr ysgol.

Mae hapusrwydd yn faes sy'n datblygu, a gellid ei ystyried yn ddiwylliant ynddo'i hun. Y farn ymysg rhai (Aknin *et al.*, 2015; Layard, 2020) yw y dylid defnyddio hapusrwydd fel mesurydd o gynnydd, yn hytrach na'r cynnyrch domestig gros sy'n cael ei ddefnyddio i fesur cyflwr byw ar hyn o bryd gan fod lles a hwyliau yn dylanwadu ar gymdeithas. Dyma reswm arall dros ddefnyddio hapusrwydd yn hytrach na lles yn gyffredinol fel prif ffocws yr ymchwiliad. Un o'r ffactorau a wna ddylanwadu ar les plentyn yw ei hapusrwydd (Seligman, 2000; Anand, 2016) a bod hapusrwydd plentyn yn dylanwadu ar ei ddatblygiad gwybyddol a'i fedrau i addasu i sefyllfaoedd cymdeithasol (Holder, 2012).

Fe wna unrhyw ddeialog sy'n trafod hapusrwydd plant droi at ystyried y byd gwna'r plant fyw ynddi (Harrison, 2002), ac yn anochel i'r amgylcheddau a'r awyrgylch lle mae'r plentyn fel dysgwr yn bodoli. Gan fod plant yn treulio canran uchel o'u bywyd yn yr ysgol mae'n rheswm teilwng dros ymchwilio sut maent yn teimlo tra yno a'r dylanwad a gaiff ar eu lles (CY1). Yr amgylcheddau yn achos yr ymchwiliad hwn yw amgylcheddau'r dosbarth tu fewn a thu allan. Mae'r cysyniad o hapusrwydd yn ganolog i'r ymchwiliad ac fe'i hystyrir yn gysyniad pwysig iawn, yn enwedig i blant.

Yn ôl Cullingford (2008) yn ei waith am hanes hapusrwydd plant, mae hapusrwydd neu les yn gysyniad a draddodwyd o fewn crefyddau, gan athronwyr ac yn fwy diweddar gwyddonwyr – mae lles plant felly yn destun o ddiddordeb amlwg.

Lles yw'r gair a'i defnyddir o fewn papurau polisi, o bosib, am ei fod yn swnio'n fwy cadarn a grymus, ond mewn gwirionedd un o'r ffactorau pwysicaf o ran lles yr unigolyn yw ei hapusrwydd (Cullingford, 2008; Roberts, 2010; Musgrave, 2017). Mae rhai yn credu bod hapusrwydd yn un o gydrannau craidd lles goddrychol, tra bod eraill o'r farn mai hapusrwydd yw lles goddrychol (Layard, 2005 a 2020; Clark *et al.*, 2019). Yn aml mae lles yn cael ei ddefnyddio fel llaw-fer ar gyfer hapusrwydd yn y llenyddiaeth (Ackerman, 2020). Awgryma gwaith ymchwil seicoleg fod hapusrwydd yn cyfrannu at iechyd meddwl, corfforol, llwyddiant a'r gallu i gymdeithasu (Ackerman, 2020). O fewn yr ymchwiliad bydd y diffiniad o hapusrwydd yn dod o enau'r plant eu hunain - cesglir eu syniadau am y cysyniad a'u defnyddio o fewn y gwaith gan mai eu dehongliadau nhw bydd prif ffocws yr ymchwiliad. Gwna hyn gydnabod y farn bod gan blant y gallu i gyfleu eu syniadau a ffurfio cysyniadau mewn modd medrus a meistrolgar (Sutton, 2018; Siraj, 2015; Miller, 2009).

Gwelir dadl wedi esblygu o fewn ymchwil (Ackerman, 2020; Layard, 2020), o ran y cysyniad o hapusrwydd gan gynnig nad yw lles a hapusrwydd yn gysyniadau cymharol, ond yn hytrach yr un cysyniad ydynt (Roberts, 2011). Cyniga'r cysyniad o lif (flow), sef, bod hapusrwydd yn cynnwys yr holl ymwybod o fewn gweithgarwch ac o'i achos, ymdeimlad o foddhad. Awgryma hyn, fod hapusrwydd yn cyfrannu at y sefydlogrwydd hynny i sicrhau lles. Os felly, o fewn y gwaith hwn o bosib, gwelir bod nifer o ffactorau'n rhoi boddhad i'r plentyn tra yn yr ysgol ac yn fater hollgynhwysol o'i brofiad.

Credaf yn bersonol fel ymchwilydd, bod llesiant a hapusrwydd yn gysyniadau cysylltiedig ond nid yr un fath, ac mae eu pwysigrwydd i blentyn yn dibynnu ar y cyd-destun a'r persbectif. Mae lles neu lesiant yn gysyniad eang sy'n cwmpasu agweddau amrywiol ar fywyd unigolyn (Sutton, 2018; Siraj, 2015). Mae'n cynnwys iechyd corfforol, sefydlogrwydd emosiynol, cysylltiadau cymdeithasol, a boddhad bywyd cyffredinol. I blant, gallai llesiant gynnwys teimlo'n ddiogel, cael amgylchedd cefnogol, iechyd da, cyfleoedd ar gyfer dysgu a thyfu, a pherthnasoedd cryf gyda

theulu a chyfoedion (Musgrave, 2017). Felly ystyrir bod lles neu lesiant yn ymwneud â boddhad hirdymor a'r gallu i ffynnu mewn gwahanol feysydd bywyd.

Credaf bod hapusrwydd ar y llaw arall yn fwy penodol a phersonol, ac yn aml yn cyfeirio at deimlad o lawenydd, pleser, neu foddhad (Layard, 2020, Harrison, 2002). I blentyn, efallai mai hapusrwydd yw'r cyffro o chwarae gyda ffrindiau, mwynhau hoff weithgaredd, neu deimlo bod rhywun yn ei werthfawrogi. Gall hapusrwydd amrywio o unigolyn i unigolyn yn seiliedig ar amgylchiadau uniongyrchol ond gellid hefyd bod tebygrwydd rhwng plant.

Ystyrir lles a hapusrwydd yn bwysig i ddatblygiad plentyn, ond maent yn cyflawni rolau gwahanol mae lles hirdymor yn hollbwysig gan ei fod yn gosod y sylfaen ar gyfer datblygiad cyffredinol plentyn. Mae plentyn â llesiant da yn fwy tebygol o dyfu i fod yn oedolyn gwydn, iach a galluog (Musgrave, 2017). Mae llesiant yn helpu plentyn i ymdopi â heriau bywyd, adeiladu perthnasoedd cryf, a datblygu ymdeimlad o bwrpas. Er bod lles yn hanfodol ar gyfer datblygiad hirdymor, mae hapusrwydd yn bwysig ar gyfer profiad bywyd o ddydd i ddydd. Gall profiadau cyson o hapusrwydd roi hwb i iechyd emosiynol plentyn, annog ymddygiadau cadarnhaol, a chryfhau bondiau ag eraill (Layard, 2020, Musgrave, 2017). Megis rhesymau dros ymgymryd â'r ymchwiliad hwn.

Credir felly bod llesiant yn fwy sylfaenol a gellir ei ystyried yn bwysicach yn y tymor hir oherwydd ei fod yn cefnogi iechyd a datblygiad parhaus. Fodd bynnag, teimlir yn gryf bod hapusrwydd hefyd yn hanfodol, gan ei fod yn cyfrannu at iechyd emosiynol uniongyrchol plentyn ac yn gallu atgyfnerthu'r amodau sy'n hybu lles. Ystyrir yn ddelfrydol, bod cydbwysedd o les a hapusrwydd yn hanfodol ar gyfer twf a ffyniant cyffredinol plentyn.

Yn ôl Alexandrova a Fabian o'r John Templeton Foundation (2019), sefydliad dyngarol sy'n cefnogi gwaith ymchwilwyr drwy grantiau a chefnogaeth meistrolaeth o fewn meysydd ymchwil. Os ystyrir hapusrwydd fel ffordd o 'fod', yna gellid ei rannu i dair damcaniaeth wahanol sef:

- Hedoniaeth - a wna gysylltu hapusrwydd gyda phrofiadau pleserus.
- Damcaniaeth Stadau Emosiynol - sy'n mesur hapusrwydd fel stad gadarnhaol emosiynol (sydd i'r gwrthwyneb i bryder a gofid) a'r trydydd,
- Damcaniaethau Boddhad Byw - yn fesur o hapusrwydd bywyd yn gyfan.

O fewn yr ymchwiliad hwn defnyddir cyd blethiad o hedoniaeth a damcaniaeth boddhad byw'r cyfranogwyr ifainc o fewn cyd-destun yr ysgol (CY1). Cesglir y data a fydd yn cyfleu dylanwad emosiynol ar yr unigolyn, megis o bosib y pethau, adnoddau, llefydd neu bobl sy'n cyfrannu at eu hapusrwydd. Wedi dadansoddi data'r plant medrid darganfod os yw'r wybodaeth yn fodd o gyfrannu at gyfoethogi'r ddarpariaeth ar eu cyfer gan athrawon sef ail gwestiwn yr ymchwiliad.

Dylid cydnabod, bod plant yn derbyn profiadau amrywiol o hapusrwydd wrth iddynt brifio (Musgrave, 2017; Siraj *et al.*, 2019). Gwyddys fod trafferthion emosiynol cynnar megis hapusrwydd a lles plant yn cael effaith ar ddatblygiad gwybyddol ac anawsterau o fewn cyd-destun addysg y plentyn nes ymlaen (Shoshani a Sione, 2017). Er mai rhan fechan o les cyfannol yw hapusrwydd, ymddengys o'r ymchwil (Ghasempour *et al.*, 2013; Seligman a Csikszentmihalyi, 2000) bod hapusrwydd yn rhan allweddol o sicrhau cydbwysedd emosiynol sy'n arwain at ymdeimlad cadarnhaol personol a gwell ymwneud cymdeithasol gydag eraill.

Er doed o hyd i rai enghreifftiau o ymchwil yn ymwneud a hapusrwydd plant ifainc, yn gyffredinol prin oedd y rhain a llai fyth oedd yn ymwneud ag ymchwilio teimladau plant yn benodol eu hapusrwydd tra yn yr ysgol. Ymysg y gwaith darllenwyd, canfuwyd gwaith Hong *et al.* (2016) a wna ffocysu ar yr hyn sy'n gwneud 163 o blant o ddarpariaethau dydd a meithrinfeydd yng Nghorea yn hapus yn gyffredinol. Darllenwyd hefyd papur doethuriaeth Nyabando a Evenshen (2022) o amgyffredion plant 6 a 7 oed o'u dosbarthiadau. Ac ymhellach traethawd ymchwil Seaman (2018) yn ymwneud a chefnogi lles emosiynol a chymdeithasol plant yn y blynyddoedd cynnar. Gwelwyd felly fod yna fwlch o ran amgyffred lleisiau plant o'r hyn sy'n effeithio ar eu lles yn yr ysgol. Gwelwyd yn glir bod lles plant ifainc yn ystyriaeth bwysig ar draws sawl diwylliant ond ni wyddys mwy am y cyd-destun yma yng Nghymru yn enwedig yn ystod cyfnod o drawsnewid addysgol. Golyga hyn, o fewn yr ymchwiliad, os gellid darganfod y dylanwadau ar hapusrwydd plant drwy greu amgylcheddau a gweithgareddau pwrpasol, yna, o bosib, gall gael effaith gadarnhaol ar sefydlogrwydd emosiynol y plentyn ac i'w ganlyniadau addysgol maes o law (Martin, 2021).

Mynega Haan (2006), mai prin yw'r ymchwil seicolegol yn y maes i gadarnhau ein bod fel dynoliaeth yn gwybod beth sy'n gwneud plant yn hapus, er yn amlwg fel gwelir eisoes, mae yna ddiddordeb ymchwil wedi datblygu yn y maes. Un o'r ymchwilwyr wnaeth arwain y diddordeb hwn o ran hapusrwydd, ac un o'r mwyaf adnabyddus yn eu plith yw Seligman (Layard, 2020), sy'n rhan o'r corff galwant eu hunain yn 'seicolegwyr cadarnhaol' ac sy'n astudio hapusrwydd a lles. Penderfynwyd cynnwys gwaith ymchwil *Positive Psychology* Seligman a Csikszentmihalyi (2000) a wna amlinellu fframwaith ar gyfer seicoleg gadarnhaol gan ei fod yn ymateb i fylchau yn ein gwybodaeth. Credant y daw, yn ystod y ganrif sydd i ddod gwyddoniaeth a phroffesiwn a ddaw i ddeall y ffactorau a ganiatâ i unigolion, cymunedau a chymdeithasau i ffynnu. Mae'r awduron yn gosod pwysigrwydd hapusrwydd yn ganolog, a bod agwedd gadarnhaol a llawen yn dylanwadu ar iechyd unigolyn, gwnâ dynnu ar ymchwil o ddisgyblaethau amrywiol megis seicoleg, addysg a chyhoeddiadau gwleidyddol. Noda Seligman a Csikszentmihalyi (2000), yn ychwanegol i berthnasau cadarnhaol, ystyriaeth bwysig arall i blant o'r hyn sy'n cyfrannu at eu hapusrwydd yw meistrolaeth, hynny yw, pan wnânt deimlo eu bod yn llwyddo ac yn dda yn cyflawni rhywbeth. Dyma oedd yr achos yn ystod y cyfnod peilota gyda rhai cyfranogwyr yn nodi eu bod yn hoffi'r ardal gan eu bod wedi derbyn gwobr neu ganmoliaeth gan oedolion am yr hyn y gwnaethant yno. Gall y teimlad yma o lwyddiant ddod o ymatebion eu cymheiriaid neu eu hathrawon tra eu bod wedi ymglymu ar dasg ac o ganlyniad creu ymdeimlad o hapusrwydd. Mae hapusrwydd yn gysyniadau hollgynhwysol medd Burnett (2019), awgryma fod pethau sy'n dylanwadu ar allu ein hymennydd i'n gwneud yn hapus yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'n profiadau a'n dewisiadau personol yn unig.

Yn ddiddorol, o fewn gwaith ymchwil i'r ymennydd, noda David (2013), fod pobl sydd â mwy o weithgarwch yn rhan flaen chwith eu hymennydd yn dueddol o fod yn fwy cadarnhaol ac yn gwenu mwy. Gall darluniau a grëwyd gan blant o'u hunain gyfleu eu hemosiwn yn syth o'r mynegiant wynebol a ddewisant osod ar eu cynnyrch (Gweler Pennod 4 - tasg gychwynnol o ddarlunio neu beintio - CY1) a Atodiad 9. Credir mai'r gwrthwyneb sy'n wir yn achos y rhai sy'n defnyddio'r ochr dde yn amlach a'u bod yn fwy negyddol o ran eu personoliaeth. Cydnabyddia David (2013), fod rhai cysylltiadau niwronol sylfaenol wedi'u gwneud cyn genedigaeth, ond, bod y

gymhariaeth rhwng astudiaethau a wnaed ar blant newydd-anedig ac oedolion o ran emosiwn a defnydd o ochr chwith yr ymennydd yn debyg.

Gellid felly, o bosib ac, o ganlyniad gredu bod hapusrwydd plentyn wedi'i sefydlu ac yn ei le yn barod, sef y ddadl dros eneteg a natur fel map i'n personoliaeth. Nid felly mo'r achos medd eraill. Eglura Haan (2006) fod profiadau bywyd sef y ddadl maethu a phrofiad, yn cael dylanwad ar sut datblyga'r ymennydd ac emosiynau'r unigolyn wrth fynd yn hŷn. Mae'r farn hon yn gytŷn â'r gred a'r ddamcaniaeth bersonol a gynigir gan Bronfenbrenner (1978) a Helliwell *et al.* (2020) bod dylanwadau niferus yn cael effaith ar dwf plentyn. Canolbwytia'r ymchwiliad hwn ar ddylanwad profiadau ysgol ar blentyn a sut mae'r rheini'n creu ymdeimlad o hapusrwydd ynddo.

Gellid dadlau bod diystyru profiadau'r plentyn tu allan i'r ysgol yn colli cyfle neu'n anwybyddu'r dylanwadau amrywiol eraill ar hapusrwydd y plentyn. Ystyrir dewis canolbwytio ar amgylchedd ysgol plant ifanc, yn hytrach na dylanwadau eu cartref, yn ddull cadarn am sawl rheswm. Mae plant ifanc yn tueddu i ganolbwytio ar eu hamgylchedd uniongyrchol yn hytrach na myfyrio'n ddwfn ar brofiadau'r gorffennol neu ragweld canlyniadau yn y dyfodol (Williams-Brown a Mander, 2021; Murray a Palaiologou, 2018). Mae eu hapusrwydd yn cael ei ddylanwadu'n fwy uniongyrchol gan eu rhyngweithio o ddydd i ddydd â chyfoedion, athrawon, a phrofiadau ystafell ddosbarth (Musgrave, 2017; Layard, 2011). Yn ogystal, gellir arsylwi'n uniongyrchol ar amgylcheddau ysgol, gan drafod â'r plentyn yr hyn wnaeth ei lunio i arddangos y dylanwadau (Clark, 2017; Greene a Hogan, 2006). Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws asesu sut mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar hapusrwydd plentyn heb gymhlethdodau amrywiadau bywyd cartref. Cydnabir, heb amheuaeth, gall dylanwadau cartref amrywio'n sylweddol oherwydd statws economaidd-gymdeithasol, gall y rhain gynnwys arddulliau magu plant, a strwythurau teuluol. Amlyga Pole a Bondy (2010), trwy gulhau ffocws yr ymchwil (amgylchedd ystafell ddosbarth yr ysgol yn yr achos hwn), y gellid rheoli newidynnau allanol a darparu cyswllt cliriach rhwng profiadau ysgol a hapusrwydd plant.

Gallai cyfyngu'r ffocws i'r dylanwadau ar hapusrwydd plant yn yr ysgol yn unig, hefyd gwestiynu'r dewis o sylfaen ddamcaniaethol, yn arbennig felly model cymdeithasol-ecolegol Bronfenbrenner. Eglurwyd eisoes (Pennod 1, 1.3) bod damcaniaeth Bronfenbrenner yn amlygu bod datblygiad plentyn yn cael ei siapio gan systemau

amrywiol, a'r system feicro yw'r amgylchedd agosaf (Bronfenbrenner, 1979). Drwy ganolbwyntio ar un ffactor o'r system feicro, sef yr ysgol, yn hytrach nag amgylchedd y cartref (sydd hefyd yn rhan o'r system agosaf ond yn fwy cymhleth ac amrywiol), mae'r ymchwiliad yn archwilio'n uniongyrchol y lleoliad lle mae plant yn treulio llawer o'u bywydau bob dydd a lle mae eu hapusrwydd yn cael ei siapio yn ystod y cyfnod hwnnw. Pwysleisia Bronfenbrenner (1979) mai'r system feicro, yr amgylchedd uniongyrchol lle mae rhyngweithio uniongyrchol yn digwydd, sy'n cael yr effaith gryfaf ar ddatblygiad gwybyddol plant ifanc hefyd. Eglura ymchwiliad, bod plant ifanc yn tueddu i ganolbwyntio ar brofiadau diriaethol, presennol yn hytrach na dylanwadau haniaethol neu ymhellach i ffwrdd ar y pryd fel bywyd cartref (Piaget, 1952). Mae hyn yn gwneud yr astudiaeth yn fwy dibynadwy ac yn llai tueddol o gael amrywiaeth goddrychol.

Er bod y system feicro yn hollbwysig, ehangodd Bronfenbrenner ei ddamcaniaeth yn ddiweddarach (1986) i bwysleisio'r system feso, sy'n archwilio sut mae'r systemau meicro gwahanol yn rhyngweithio er enghraifft, y berthynas rhwng y cartref a'r ysgol. Mae system 'crono' Bronfenbrenner (1994) sy'n amgylchynu'r systemau eraill, yn amlygu sut mae profiadau bywyd yn effeithio ar ddatblygiad plentyn dros amser. Cydnabyddir y gall plant ifanc ganolbwyntio ar yr 'yma fan hyn', ond wrth iddynt ddatblygu, mae profiadau'r gorffennol yn dechrau llywio eu hunan ganfyddiad a'u lles emosiynol. Nid yw ffocws yr ysgol yn yr ymchwiliad yma yn fwriadol yn gorsymleiddio'r ffactorau cymhleth a rhyng-gysylltiedig sy'n siapio hapusrwydd plant, ond, yn hytrach, yn dewis amlygu dylanwadau ar eu hapusrwydd a fedr gefnogi a chyfrannu at wella'r profiadau ar eu cyfer.

Rheswm arall pam fod damcaniaeth Bronfenbrenner yn ddewis cadarn ar gyfer yr ymchwiliad hwn yw ei fod yn amlygu natur ddeugyfeiriadol rhyngweithiadau o fewn y system feicro, sy'n golygu bod plant nid yn unig yn cael eu siapio gan amgylchedd eu hysgol ond hefyd yn medru dylanwadu arno os derbyniant gyfleoedd i wneud hynny, drwy leisio'u barn a gwneud penderfyniadau am yr amgylchedd a'r hyn ddigwydd oddi fewn iddo. Gallant wneud hyn drwy gyfrannu at gynllunio ardaloedd a gweithgareddau beunyddiol gan drafod eu hoffterau a'r hyn hoffent ddysgu amdano. Awgryma ymchwiliad gan Hamre a Pianta (2001) bod perthnasoedd athro-plentyn a derbyniad cyfoedion yn rhagfynegyddion cryf o hapusrwydd a datblygiad emosiynol (Hamre & Pianta, 2001) bydd yr ymchwiliad yma yn cyfrannu at ddeall mwy am hyn.

Drwy ganolbwyntio ar system feicro yr ysgol, yn hytrach nag amgylchedd y cartref (sydd hefyd yn rhan o'r system agosaf ond yn fwy cymhleth ac amrywiol), mae'r ymchwiliad yn archwilio lleoliad lle mae plant yn treulio llawer o'u bywydau bob dydd a lle mae eu hapusrwydd yn cael ei siapio'n uniongyrchol.

Gellid cynnig beirniadaeth dros ddewis model bioecolegol Bronfenbrenner fel sail ddamcaniaethol i'r ymchwiliad. Er enghraifft awgryma Kaushik *et al.* (2023) cyfyngiad posibl o'r model yw nad yw o bosibl yn dal profiadau goddrychol a dehongliadau unigryw unigolion ar draws gwahanol gyd-destunau yn llawn. Mae cydnabod bod unigolion yn llunio ac yn dehongli eu hamgylchedd yn weithredol yn hanfodol, gan fod eu dealltwriaeth o gyd-destun yn cael ei ddylanwadu gan nodweddion personol a phrofiadau byw. Byddai dull mwy trylwyr o ymdrin â chyd-destun yn cynnwys cydnabod natur hylifol a deinamig rhyngweithiadau unigolion â'u hamgylcheddau. Gwna'r ymchwiliad yma gydnabod bod profiadau yn wahanol i bob unigolyn gan gaslu tystiolaeth aml-ddull gan y plant o'u profiadau o hapusrwydd.

Ymhellach dadleua eraill (O'Toole *et al.*, 2019; Rozsahegyi, 2017) bod y model yn symleiddio cymhlethdodau datblygiad dynol drwy ganolbwyntio'n bennaf ar ddylanwad systemau ecolegol ac esgeuluso ffactorau pwysig eraill, megis asiantaeth unigol, geneteg, a phrosesau gwybyddol. Gan na wna'r model bwysleisio pwysigrwydd o sut mae'r systemau hyn yn rhyngweithio ac yn dylanwadu ar ddatblygiad. Cytunir bod dylanwadau eraill y tu hwnt i'r dosbarth yn medru cael effaith ar blentyn, serch hynny gwyddys hefyd pan fo plant ifainc o fewn cyd-destun yna fe wna'r amgylchedd uniongyrchol honno fod yn ffocws ar eu hymwybod ar y pryd (Hosany *et al.*, 2022), a rheswm arall dros ddewis system feicro model Bronfenbrenner yn ddamcaniaeth briodol.

Ceir barn arall na ellid mewn gwirionedd fesur hapusrwydd a chymharu tebyg am debyg gan ei fod yn ymdeimlad unigryw a goddrychol (Waitley, 2007). Ymdeimlad a fedr newid mewn eiliad ac a berthyn i'r ysbrydol yn hytrach na'r gwybyddol yw hapusrwydd mewn gwirionedd medd Waitley (2007). Gellid honni yr ymddangosa hyn o fewn data'r ymchwiliad gan i blant ifainc newid eu hoffterau o fewn cyfnod byr ac, felly, cip lun ar y pryd yn unig a geir wrth ymchwilio i'w bywydau. Ystyria'r ymchwiliad yma, les goddrychol y plentyn o'r hyn sy'n cyfrannu at ei hapusrwydd ar y

pryd o fewn yr ysgol, ac ni wna ystyria'r dylanwadau cefndirol a phrofiadau a gafwyd gan y plentyn ynghynt.

Pwysleisiodd Huebner (2004) yn ei ymchwil am fodlonrwydd bywyd oedolion a phlant yn eu harddegau, bwysigrwydd hapusrwydd yn ystod plentyndod cynnar, gan ddatgan bod plant ifainc sydd wedi profi boddhad cadarnhaol yn dueddol o fod â mwy o sgiliau datrys problemau, hunangysyniad mwy cadarnhaol, ac ymddygiad mwy cymdeithasol. Mae hapusrwydd yn ystod plentyndod cynnar yn cael effeithiau hirdymor pan fydd yn oedolyn (Layard, 2020, Veenhoven, 2015). Teimlir felly, ei bod yn angenrheidiol i addysgwyr plentyndod cynnar archwilio canfyddiadau a phrofiadau plant ifanc o hapusrwydd a chyfrannu at gefnogi eu bywydau hapus yn seiliedig ar y canlyniadau.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn un corff sydd wedi bod yn mesur llesiant cenedlaethol ers deng mlynedd, gan edrych ar sut mae'r DU (DU) yn perfformio mewn deg maes eang o fywyd. Er mai 48 o blant 10 - 15 oed oedd y sampl yn eu gwaith diweddaraf yn 2020, diddorol oedd canfod bod ysgolion yn ddylanwadol iawn ar lesiant y plant. Cyfeiriodd y cyfranogwyr at yr adeiladau, diwylliant ac amgylcheddau'r ysgol, y staff a chynnwys y cwricwlwm a'i gyflwynwyd fel dylanwadau ar eu lles a'u hapusrwydd. Felly, mae'r ymchwiliad hwn i ddarganfod beth sy'n dylanwadu ar hapusrwydd plant yn yr ysgol yn gyfle i ddarganfod a yw'r un themâu yn ymddangos o fewn ymatebion plant ieuengach.

Bydd yr ymchwiliad hwn yn canolbwyntio ar hapusrwydd y plant ar y pryd gan ei fod yn cynnig y wybodaeth am les y plentyn yn gyffredinol a'r hyn sy'n dylanwadu arno o ran profiadau. Mewn cyfrol hydredol sy'n tynnu ar ymchwil byd eang am hapusrwydd, gwna Layard (2018) a'i gyd-ymchwilwyr adnabod y ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar les dynol. O fewn y gwaith, daethant i'r casgliad fod iechyd emosiynol sefydlog fel plentyn yn rhagfynegydd clir o fodlonrwydd a lles uchel fel oedolyn. Ystyriaeth bwysig felly wrth ymgymryd a'r ymchwiliad hwn yw ceisio gwella profiadau cynnar plant gan gynnig cyfleoedd iddynt fynegi eu barn a'u profiadau am eu hapusrwydd.

Awgryma tystiolaeth ddiweddar gan Young Minds (2021), elusen iechyd meddwl ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd yn y DU, fod yna argyfwng iechyd meddwl cynyddol ymhlith ein pobl ifanc. Yn ôl ymchwil a rannwyd gan yr elusen mae gan un

o bob deg plentyn anhwylder iechyd meddwl y gellir ei ddiagnosisio. Daw hanner yr afiechydon meddwl i'r amlwg erbyn 14 oed, 75% erbyn 18 oed, gydag ystadegau'n cyfleu bod bron i 25% o bobl ifanc ym Mhrydain yn arddangos peth tystiolaeth o afiechyd meddwl. Diddorol bod yr un canran ar gyfartaledd rhwng 20% a 25% o blant o fewn ysgolion yng Nghymru sydd ar restr Anghenion Addysgol Ychwanegol ysgolion, er cydnabu fod yr anghenion yn amrywiol o ran y cyflyrau bydd rhai o'r rhain yn cynnwys anhwylderau'n gysylltiedig â lles (LI C, 2019). O ystyried y data, ac er mwyn adabod a medru cynllunio ymyraethau o fewn eu darpariaethau a fydd yn elwa plant (CY2), gellid dweud bod cefnogi athrawon ymhellach i ddeall cyflwr lles plant ifanc yn un ffactor pwysig ar gyfer sicrhau iechyd meddwl llewyrchus a phrofiad cadarnhaol o addysg gynnar.

O ddarllen ymchwil cynt, tybir bod modd addasu lefel bodlonrwydd a hapusrwydd y plentyn wrth newid y cyd-destunau mae'n gweithredu oddi fewn iddynt. Ym Mhrifysgol Penn, cynhaliodd Adler (2016) ymchwil ymyrraeth yn cynnwys dros 700,000 o fyfyrwyr yn Bhutan, Mecsico a Pheriw. Y nod oedd darganfod a oedd dysgu cwricwlwm lles yn cael dylanwad cadarnhaol. Nododd disgyblion yn yr ysgolion lle digwyddodd yr ymyrraeth lesiant sylweddol uwch ac fe wnaethant berfformio'n well mewn arholiadau cenedlaethol safonedig ar ddiwedd ymyrraeth o pymtheg mis. Dengys hyn oll, y gall ysgolion ddysgu 'hapusrwydd' fel maes ynddo'i hun, tebyg i'n sesiynau myfyrio a meddwl yng Nghymru, a bod disgyblion yn elwa. Awgryma gwaith Adler (2016) ei bod yn hanfodol i ysgolion flaenoriaethu hapusrwydd a lles eu disgyblion. Golyga hyn rhoi lles ar y cwricwlwm fel y gwnaed o fewn ein diwygiad addysgol cyfredol Cwricwlwm i Gymru (2020).

Yn flynyddol mae Adroddiad Plentynod Da Cymdeithas y Plant (2020) yn arolygu dros 65,000 o blant yn y Deyrnas Undeg (DU) i fesur eu cyflwr meddyliol a chorfforol drwy ddefnyddio holiaduron amrywiol. Gwelwyd cynnydd cyson yn lles plant rhwng 1995 a 2010, serch hynny mae'r twf wedi'i wrthdroi'n sylweddol gyda lles plant bellach mor isel ag yr oedd 20 mlynedd yn ôl. Mae'r adroddiad yn tynnu ar waith ymchwil eraill megis *The Children's Society Household surveys* (2013-2020), *Children's views on their lives and well-being in 35 countries: A report on the Children's Worlds project* (2016-19) yn ogystal ag *Understanding Children's Well-being: A national survey of young people's well-being*, ymysg eraill. Dengys y data a gesglir gan Gymdeithas y Plant (2020) newidiadau o ran lles plant dros amser a

rhwng gwahanol grwpiau, er yn gyffredinol plant o 8 oed a'n hŷn sy'n rhan o'r cyfranogwyr nid plant ifainc fel yn achos yr ymchwiliad hwn. Awgryma dadansoddiadau'r ymchwil fod gan athrawon cynradd fwy o ddylanwad ar iechyd emosiynol plentyn nag ar eu cynnydd mewn Mathemateg (The Children's Society, 2019), ffactor i'w hystyried wrth gynnal yr ymchwiliad hwn a cheisio ateb Cwestiwn Ymchwil 1 sef beth sy'n dylanwadu ar hapusrwydd plant 3 –7 oed tra yn yr ysgol?

Bwriada'r ymchwiliad ymateb i'r bwlch hwn gan gasglu ymatebion plant ieuangach am eu lles a'u hapusrwydd a hysbysu athrawon o'r hyn sy'n creu hapusrwydd ymysg y plant tra yn yr ysgol. Mae'r safbwynt personol o fewn yr ymchwiliad, bod plentyndod yn gyfnod yn ei hunan ac nid yn baratoad ar gyfer dod yn oedolyn yn gadarn, ac yn unol â pharadeim lluniadol gymdeithasol o'r plentyn medrus. Gwna gydnabod hawl y plentyn a'i allu i fod yn gyfranogwr hafal o ran y penderfyniadau a wnaed sy'n dylanwadu arno. Gan gadw mewn cof bod dylanwad athrawon ar blant ifainc yn sylweddol o ran eu hemosiynau ac yn hyn o beth yn dylanwadu ar y cynnydd a wnânt (Clark *et al.*, 2018), credir felly, fod casglu data am hapusrwydd plant tra yn yr ysgol yn fodd i arfogi athrawon wrth gynllunio ac ymateb i agendâu cenedlaethol o ran eu lles meddyliol a gwybyddol (LI C, 2021; Layard, 2020).

2.4 Lles (CY1)

Nodwyd ynghynt bod cyswllt amlwg rhwng lles a hapusrwydd a'm barn bersonol o ran diffiniad o'r ddau. Yma ceir trafodaeth bellach am les plentyn fel y tuedda ymddangos o fewn cyhoeddiadau a deunydd polisi. Awgryma Musgrave (2017), a Layard (2018), fod ymdrech i wella lles plant ifainc yn fuddsoddiad gwerthfawr i'r unigolyn ac i gymdeithas a bod gan bob oedolyn gyfrifoldeb i gefnogi iechyd a lles ein dinasyddion ieuangaf. Cynigiant yn atodol yn yr un modd â hapusrwydd, mai cysyniad arall sy'n anodd i'w ddiffinio a'i egluro yw lles (Musgrave, 2017; Siraj, 2015; Lewis, 2016). Ceir cynifer o ddiffiniadau parthed lles yn bodoli, fel bod perygl o ddirywio ei bwysigrwydd gan na ellir dod at gytundeb yn ei gylch (Sharman, 2019; Manning-Morton, 2014). Honna Sharman (2019) tra ei bod yn anodd ei ddiffinio, fod cytundeb cyffredinol o fewn llenyddiaeth ymchwil bod lles yn ei natur symlaf yn

golygu emosiynau cadarnhaol tebyg i hapusrwydd a llawenydd, a'r rhain yn goresgyn teimladau negyddol o iselder a thristwch. Yn aml ystyrir lles y plentyn o fewn dogfennau polisi fel modd i gyfleu diffyg o fewn y plentyn sydd angen ymyrraeth i'w wella (Pascal a Bertram, 2009; Statham a Chase, 2010). Fodd bynnag, ystyria cyd-destun yr ymchwiliad hwn lles fel y *plentyn iach neu'r plentyn cyflawn*. Awgryma Pollard a Lee (2002), mai bod yn 'iach' yng nghyd-destun corfforol, seicolegol, gwybyddol, cymdeithasol ac yn economaidd yw'r term cyfannol am les. Er hynny, nid edrychir ar yr holl agweddau hyn o fewn yr ymchwiliad hwn, ond yn hytrach, ar les goddrychol y plentyn o fewn yr ysgol a'r gweithgarwch yr ymgymra ag e; hynny yw, cyfleu drwy ddarlun, sgwrs a ffotograffau y pethau sy'n creu ymdeimlad o hapusrwydd.

Ers sefydlu gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth iechyd cenedlaethol yn 40au'r ganrif ddiwethaf, mae lles wedi derbyn cryn sylw o fewn dogfennau polisi yng Nghymru a thu hwnt, gyda Deddf Plant a Phobl Ifanc (1933), Deddf Plant (1948, 1972, 1989), Cyhoeddiad o Hawliau Plant (1959), Deddf Comisiynydd Cymru (2001) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) (2014) yn rhai enghreifftiau.

Cyd-gyfrifoldeb gweithwyr proffesiynol a rhieni oedd, ac yw gwarantu lles plant. Gwelir bod rhai o'r ffyrdd o fesur lles wedi parhau hyd at heddiw megis cynnal profion ar gyfnodau penodol o brifant o enedigaeth, gan fesur y cynnydd a wnaed gan yr unigolyn o ran ymateb, clyw a phwysau (Bedford *et al.*, 2013). Ond yn ddiweddar, mae lles emosiynol y plentyn yn derbyn fwy o sylw yn y cyfryngau, a lles fel maes canolog o fewn polisiâu domestig yma yng Nghymru yn dilyn cyhoeddi ffigurau tosturiol am les a hapusrwydd plant o fewn adroddiadau megis The Good Childhood Report (2015) a'r Children's Worlds report (2015).

Gosoda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) argymhellion ar gyfer lles ein cymunedau, gyda dogfen Cenhadaeth ein Cenedl (2017) yn sylfaen ar gyfer ein diwygiad addysgol presennol. O fewn dogfennau Cwricwlwm i Gymru (CiG) (2022) gwelir lechyd a Lles fel maes dysgu a phrofiad, sy'n arddangos bod lles erbyn hyn wedi derbyn lle canolog o ran addysg plant yng Nghymru. Anogir ysgolion yn sgil cyhoeddi dogfen Fframwaith NEST (iechyd meddwl a lles) plant, pobl ifanc a'u teuluoedd (LI C, 2023) i sicrhau ymdriniaeth drylwyr o les plant fel rhan o genhadaeth yr ysgol. Er hyn, eglura Musgrave (2017) mai prin yw'r ymchwil i gefnogi

darparwyr o ran lles plant ifainc gan na wyddys beth yw dealltwriaeth y plant eu hunain o les. Bwriada'r ymchwiliad ymateb i'r rhain, felly, o ran y ddau gwestiwn ymchwil.

Mae'r cwestiwn cyntaf sy'n ganolog i'r gwaith hwn sef beth sy'n cyfrannu at ymdeimlad o hapusrwydd y plentyn ifanc yn yr ysgol, yn unol â pharadeim lluniadol cymdeithasol neu ymchwil naratif (Somekh a Lewin, 2012). Ymchwilia'r math yma o baradeim i sut y dehongla a datblyga unigolion eu dealltwriaeth drwy eu rhyngweithiadau gydag eraill ac wrth ymwneud â'r amgylchedd. Gellid dadlau hefyd bod elfennau o baradeim deongliadol ac yn benodol ymhlygiadau symbolaidd (Bleumer, 1992) gan fod y cwestiwn yn cyfleu credoau personol bod plant yn gyffredinol yn hapus i wahanol raddau yn yr ysgol, ond ni wyddys 'beth' sy'n cyfrannu at yr hapusrwydd hwnnw. Eglura Punch a Oancea (2014), y paradeim deongliadol fel paradeim lle canolbwyntir ar yr ystyron a roddir i ddigwyddiadau ac i ymddygiad gan unigolion. Uwcholeua'r ddau baradeim arsylwi a dulliau ansoddol fel y prif fodd o gasglu data, arsylwi pobl, pethau a digwyddiadau yn eu cynefin naturiol sy'n nodweddiadol i ymchwil ansoddol (Punch a Oancea, 2014; Somekh a Lewin, 2012).

Ystyria'r gwaith ymchwil o ran ein dealltwriaeth epistemoleg o ganfod gwybodaeth gan gynnwys lleisiau plant. Ystyrir fod gan blant arbenigedd o ran eu bywydau eu hunain ac wrth ddethol a dewis dulliau addas iddynt fynegi eu hunain gwna gyfrannu at ein dealltwriaeth am blentyndod (Moss, 2017).

Yn ontolegol dilynir y syniadaeth ein bod yn fodau dynol bob un sydd â dehongliad personol o'r byd sydd o'n cwmpas. Cytuna hyn â meddylfryd lluniadaeth gymdeithasol Vygotsky, Bronfenbrenner a Rogoff o ddatblygu syniadau ar y cyd, a chydabod bod cymdeithas a diwylliant yn ffactorau sy'n dylanwadu ar y modd y cyflewn ein syniadau a'n teimladau. Adeiledir ar syniadau Vygotsky (1978) gan Laevers (2015) wrth iddo ychwanegu pwysigrwydd ystyried lles ac ymglymiad y plentyn yn ei ymwneud â gweithgarwch addysgol er mwyn gwella'r sefyllfa iddo.

Yn acsiolegol cydnabyddir i'm barn bersonol gael ei llywio gan fy mhrofiadau personol o arfer dosbarth ac o ddarllen. Felly, dylid nodi efallai nad yw bod yn gwbl ddiuedd yn bosibl i unrhyw ymchwilydd (Burnell a Roffey-Barentsen, 2020), ond

credir bod gwerth mewn gwneud ymchwil gan gynnwys ymchwil plant – ac wrth wneud hynny y gall hyn ond cyfoethogi ein dealltwriaeth o blentyndod.

Nid cysyniad newydd yw lles. Ystyriodd Aristotle y bwysigrwydd cyrraedd y 'delfrydol' (Manning-Morton, 2016) dros dwy fil o flynyddoedd yn ôl, ac, yn yr un modd cyflwynodd Maslow (1943) yr haenau angenrheidiol er mwyn cyrraedd man hunan gweithredol o 'fod'. Ar gyfer yr ymchwiliad hwn, gogwyddir tuag at syniadaeth seicolegol a chymdeithasol Ddwyreiniol o les neu lesiant sy'n mynegi ei natur gyfannol (Ereaut a Whiting, 2008; Laevers, 2015) hynny yw bod hunan fri a lles sefydlog yn arddangos o fewn unigolyn drwy deimladau a gweithredu'n gadarnhaol. Noda Statham a Chase (2010), fod consensws mai rhywbeth aml-ddimensiwn yw lles ac y dylid ystyried agweddau corfforol, emosiynol a chymdeithasol wrth geisio ei fesur. Gwyddys fod adolygiadau o les plant a phobl ifainc megis: *Australian Wellbeing Survey* (2019), *Good Childhood Report* (2018), *Children's World's Report* (2015) ac adolygiad diweddaraf Comisiynydd Plant Cymru *Beth Nawr?* (2018) bob un yn cydnabod bod mwy i'w wneud o ran sicrhau hapusrwydd a lles ein plant ac un ffordd o wneud hyn yw drwy holi'r plant eu hunain. Cymharol newydd oedd y cysyniad o ddefnyddio barn oddrychol plant o fewn ymchwil (Statham a Chase, 2010). Mynega'r ymchwilwyr mai lleisiau a barn wrthrychol 'arbenigwyr' ym maes lles oedd fwyaf amlwg o fewn ymchwil am les plant hyd at yn ddiweddar. Ni holwyd plant eu hunain - yn hytrach, honiadau o'r hyn y dylid ei wneud er mwyn gwella cyflwr addysg a byw ar eu cyfer oedd yr arfer. Ychwanega Anand a Roope (2016) mai, tan yn ddiweddar, ychydig iawn o lenyddiaeth ymchwil sy'n amlygu hapusrwydd a medrau plant ifainc o ran eu lles a'r dylanwadau arno. Ystyria'r ymchwiliad hwn y bwlbh presennol yma gan holi'r plant yn uniongyrchol am eu teimladau a'u profiadau o hapusrwydd (CY1).

Serch hynny, dros y deugain mlynedd diwethaf mae twf o gynnwys plant yn gyfranogwyr wedi cynyddu. O bosib, dyfodiad erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau plant (1989) (CCUHP) sy'n rhannol gyfrifol am hyn. Wrth i wledydd fabwysiadu'r erthyglau o fewn polisïau domestig ac yn ganolog i benderfyniadau sy'n dylanwadu ar blant ceisiant sicrhau bod hawliau plant yn weithredol. Yn ôl Ereaut a Whiting (2008), er bod lles yn ymddangos yn rhywbeth diriaethol, eto, wrth nesáu ato gwna ddatgymalu a diflannu. Cytunaf â'u cwestiwn

ynghlyn â phwy sydd â'r hawl i ddiffinio beth yw ystyr lles i blentyn. Ni all neb ddadlau yn erbyn meddant mai lluniad cymdeithasol ydyw wedi'i fowldio gan ddiwylliant, sydd eto'n unol â syniadau lluniadaeth gymdeithasol Vygotsky (1978), Brofenbrenner (1978) a Rogoff (2003).

Dechreuau'r plentyn ifanc ddatblygu ymdeimlad o'r hunan o ddeunaw mis oed ac erbyn tair blwydd oed, datblyga hunan fri yn seiliedig ar sut ystyria'r plentyn ei hun drwy lygaid eraill (Dowling, 2000). Atega Dowling fod ymdeimlad o hunan fri a sicrwydd yn ddibynnol ar ba mor gadarn a sefydlog rydym yn teimlo. Mae hunan fri sefydlog a dealltwriaeth o'r hunan yn cyfrannu at blentyn hyderus a fedr wynebu newid yn ddi-rwystr. Cytuna Musgrave (2017) gan ategu, wrth fod yn gyfrifol am blant os gofelir am eu hiechyd yna fe hyrwydda hynny, yn ei dro eu lles yn ogystal. Cred Chaplin *et al.* (2020) nad oes gan blant ifainc iawn y gallu gwybyddol angenrheidiol i fedru cysylltu hapusrwydd â digwyddiad neu brofiad. Eglurant mai'r rheswm pennaf yw diffyg gallu'r plentyn ifanc i fesur teimladau eraill. Gwyddys fod datblygiad a chynnydd yn un ffactor ystyriol wrth ymchwilio gyda phlant, ond, canolbwyntia'r gwaith hwn ar unigolion o fewn amser presennol yn hytrach na galw profiadau i gof. Bydd mynegiant y plant o'u hapusrwydd yn berthnasol gan fod yr ymchwiliad wedi ei leoli o fewn eu sefydliadau addysgol ac yn ffocysu ar eu profiadau *ar y pryd*.

Mynega adroddiadau ymchwil (Haan, 2002; Harrison, 2002; Helliwell *et al.*, 2022), nad o reidrwydd yr hyn a gredwn *fel oedolion* sy'n sicrhau hapusrwydd a plentyn yw'r pethau sy'n llwyddo i gadw ei hapusrwydd dros gyfnod hir. Yn y gorffennol rhoddwyd ffocws ar yr anhwylderau oedd yn achosi teimladau o dristwch ac iselder yn hytrach na'r hyn oedd yn codi ymdeimlad o hapusrwydd (Mooney *et al.*, 2009; Martin a O'Neill, 2019), sef yr hyn y ceisir ei wneud o fewn yr ymchwiliad hwn. Un ffactor y cyfeiria polisïau ac ymchwil ato fel dylanwad ar hapusrwydd yw arian neu sefyllfa economaidd y plentyn a'i deulu. Cefnoga hyn y ffaith os yw unigolion yn byw mewn cyflwr o ddifreintedd gall ddylanwadu ar eu hapusrwydd (Martin a O'Neill, 2019). Serch hynny, mae ymchwil Kahneman (1999) ac Argyle (2003) yn nodi, nad yw eu hapusrwydd o reidrwydd yn cynyddu pan ddeunat allan o'r cyflwr hynny i fedru byw bywyd yn gyfforddus.

Cytunir ag ymchwil sy'n cydnabod bod gwrando ar blant yn cyfrannu'n sylweddol at eu lles a'u hiechyd emosiynol gan y gall sefydlu sylfaen gadarn presennol ac i'r dyfodol (NCB, 2021). Mae'r ymchwiliad hwn yn ymwneud â hapusrwydd plant a gall annog plant i gyfrannu at sgysiau, rhannu eu syniadau a gwrando arnynt gefnogi medrau hunan-reolaeth, agweddau cadarnhaol i roi cynnig arni o fewn sefyllfa ddosbarth a deall eu hemosiynau'n well (Musgrave, 2017).

Pwysleisir, nad yw sefyllfa deuluol nac economaidd y cyfranogwyr na chwaith ble lleolir yr ysgolion o ran ardaloedd difreintiedig neu gefnog yn ystyriaethau o fewn yr ymchwiliad yma. Nod Cwestiwn Ymchwil 1 o fewn yr ymchwiliad yw hyrwyddo ffyrdd o alluogi plant i arddangos eu hemosiynau a mynegi eu profiadau o hapusrwydd. Noda Greene a Hogan (2006), fod hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd arddangos galluoedd gwybyddol plant wrth sôn am eu profiadau gan adnabod arwyddocâd cyd-destunau emosiynol cyfoethog.

2.5 Lles o fewn polisi a deddfwriaeth (CY2)

Mae lles plant wedi ennill ei blwyf o fewn dogfennau polisi yng Nghymru dros y ddau ddegawd diwethaf. Lle gwelir lles cyffredinol y plentyn yn hytrach na hapusrwydd yn benodol. Ymddangosodd lles o fewn *Fframwaith ar gyfer dysgu Plant 3 -7 oed y Cyfnod Sylfaen* (LI C, 2018a) sef dogfen bolisi addysg plant yng Nghymru ar y pryd, a nodwyd yn glir mai Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol oedd calon ac enaid y cwricwlwm o ran egwyddor sylfaenol Donaldson (2015). Awgrymodd Donaldson (2015) yn ogystal y dylai lles fod yn ffactor ganolog o fewn y cwricwlwm newydd a rhoddwyd pwyslais pellach iddo gan gynnig lechyd a Lles fel Maes Dysgu a Phrofiad i blant o 3 - 16 oed.

Yn ategol, yr un flwyddyn, cyhoeddwyd *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)*, a'i fwriad o wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gan ei wneud yn ofyniad cyfreithiol i bob sefydliad i gydymffurfio. Gwelir yn ddyddiol ddarlledu yn y cyfryngau am bobl ifainc yn dioddef o iselder neu ystadegau am gyflwr lles y gymdeithas wedi gostwng sy'n arddangos pa mor bwysig yw sicrhau bod lles yn flaenoriaeth gan y llywodraeth er mwyn ymateb a sicrhau ymyrraeth gynnar i anghyfiawnderau economaidd ac addysgol (mentalhealth.org.uk,

2024; complantcymru.org.uk/, 2024). Yn 2017 cyhoeddwyd dogfen *Llesiant Cymru 2017-2018 - Beth ydym yn ei wybod am lesiant? (2017)*. Bwriad y ddogfen oedd cymharu llesiant yn erbyn 46 dangosydd cenedlaethol. Gwnaed datblygu arolwg penodol ar gyfer plant gan addasu peth o'r dangosyddion a gyhoeddwyd yn 2018. Er bod nifer o'r ymatebion yn gadarnhaol o ran sefyllfa plant a bod cynnydd mewn nifer o feysydd megis iechyd ac addysg, tynnwyd y wybodaeth o ddata cenedlaethol yn hytrach na siarad â phlant a ni chynrychiolwyd llais plant ifainc o fewn yr ymchwil.

Yn 2023 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau'n ymwneud â iechyd meddwl a lles plant, pobl ifainc a'u teuluoedd, sef Fframwaith NEST. Bwriad yr ymgyrch yw sicrhau 'system gyfan' o ddatblygu gwasanaeth iechyd a llesiant meddwl gan ddilyn themâu ac egwyddorion craidd (LI C, 2023b). Yn fwy diweddar gwelir lles yn ganolbwynt unwaith yn rhagor o fewn deddfwriaeth yn nogfen ymgynghorol Strategaeth Tlodi Plant Cymru (2023) lle diffinir lles fel 'bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'u bywyd a'r hyn maen nhw'n ei wneud.' (LI C, 2023a, t. 4). Mae llesiant ar draws addysg y plentyn yn un o'r egwyddorion craidd a chydabyddir dull yn un sy'n seiliedig ar hawliau megis tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant. Gwelir yn glir bod ymatebion a chynrychiolaeth o leisiau plant ifainc o fewn yr ymchwiliad hwn yn amserol - a rheswm arall pam bod sicrhau lleisiau plant ifainc o fewn ymchwil yn bwysig.

2.6 Llais y plentyn - gwrando ar blant (CY1 a 2)

Mae cydnabod gwerth cynnwys lleisiau plant ifainc o fewn ymchwil yn gofyn am greu sefyllfaoedd a methodolegau cyfranogol addas. Awgryma Tay-Lim (2013), o fewn ymchwil bod y sgysiaau a gynhelir gyda'r plant cyn bwysiced â'r deunydd a gynhyrchant, sef, yn achos yr ymchwiliad hwn, eu darluniau neu beintiadau. Wrth ymchwilio gyda phlant o fewn cyd destunau adnabyddus iddynt, sef yr ysgol yn achos yr ymchwil hwn, y gobaith yw medr y data ddylanwadu ar arferion ac, o bosib, ar bolisiau a wna sicrhau gweithgarwch sy'n cyfrannu at les yr unigolyn.

Dylid egluro ymhellach o'm safiad personol fel addysgwraig, yr adnabyddaf y plentyn fel unigolyn sy'n fedrus ac yn medru cyfrannu at ei gymdeithas ar lefel feicro neu facro mewn gwahanol ffyrdd – hynny yw nid '*caniatau*' lleisiau plentyn, ond, yn

hytrach hyrwyddo eu lleisiau i fedru rhannu eu meddyliau a wnaed yn yr ymchwiliad (Waters-Davies *et al.*, 2023; Chicken, 2023). Ystyrir llais y plentyn yn ehangach nag ynganiad drwy siarad yn unig o fewn yr ymchwiliad, ond yn hytrach fel disgrifiad, dadansoddiad, a mynegiant o deimladau a phrofiadau'r unigolyn. Pwysleisiodd Loris Malaguzzi (1994), sylfaenydd ymagwedd Reggio Emilia, y cysyniad o "gant o ieithoedd plant." Mae'r cysyniad hwn yn cydnabod y myrdd o ffyrdd y mae plant yn mynegi eu meddyliau, eu teimladau, a'u dealltwriaeth o'r byd o'u cwrpas. Yn ôl Malaguzzi (1994), nid yw plant yn gyfyngedig i gyfathrebu llafar; mae ganddyn nhw gant o ieithoedd gwahanol, gan gynnwys lluniadu, peintio, adeiladu, cerflunio, chwarae dramatig, cerddoriaeth, dawnys, a mwy. Mae'r ffurfiau amrywiol hyn o fynegiant yn galluogi plant i gyfleu eu syniadau a'u hemosiynau mewn ffyrdd sy'n naturiol ac ystyrion iddynt. Mae trosiad y "can ieithoedd" yn ganolog i athroniaeth Reggio Emilia, sy'n gwerthfawrogi creadigrwydd, chwilfrydedd a photensial plant. Mae'n tanlinellu'r gred bod ffurfiau lluosog o fynegiant a dylid annog plant i ddefnyddio gwahanol ddulliau i gyfleu eu dealltwriaeth. Mae hyn yn meithrin creadigrwydd ac yn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth gyfoethocach a mwy cynnil o'u profiadau – tynnir ar y syniadaeth yma o fewn yr ymchwiliad hwn gan gydnabod a pharchu syniadaeth bellach bod pob plentyn yn unigryw. Nodwyd eisoes bod erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau plant (CCUHP, 1989) wedi eu hymgorffori o fewn ein polisïau yng Nghymru. Un o'r erthyglau pwysicaf o ran addysg yw Erthygl 12 sef yr hawl i blentyn fynegi barn am beth ddylai ddigwydd iddo ac i bobl wrando arno. Yn ychwanegol gofyn erthygl 13 am ddefnyddio amrywiaeth o ffyrdd i alluogi'r plentyn fedru cyfathrebu ei deimladau a'i feddyliau.

Mae gwrando ar leisiau plant yn un o'r egwyddorion creiddiol a berthyn i addysgeg yng Nghymru (Estyn, 2016). Gwelir hyn o fewn darpariaethau ac ysgolion yn rheolaidd ac yn amlach o fewn y rhai a'u cydnabyddir fel sefydliadau sy'n 'parchu hawliau'. Nodir yn glir o fewn dogfennau polisi dylai plant deimlo'n hyderus y bydd pobl yn gwrando arnynt a bod eu sylwadau'n cael eu gwerthfawrogi (LI C, 2020). Gyda dogfen *Strategaethau Cynnwys y Dysgwyr* (LI C, 2010, t. 4) yn mynegi 'Er bod yna fframwaith polisi penodol yn ei le ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc, rydym am ymestyn cynnwys y dysgwyr i gynnwys dysgwyr o bob oed'. Gwelir hefyd cyfeiriad o fewn y ddogfen at bwysigrwydd 'cyfranogiad y dysgwyr fel rhan annatod o'r *Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion*' (LI C, 2008) gan gyfeirio at sefydlu Cyngor

Ysgol - ond prin y gwna'r rhain gynnwys cynrychiolwyr o blith y plant ieuangaf. Gwrth ddweud amcan Cenhadaeth ein Cenedl a wna hyn gan beidio â gwireddu 'bod pob llais yn cael ei glywed ac nad yw'r un plentyn yn cael ei adael ar ôl.' (LI C, 2017, t. 42).

Er bod Erthyglau 12 ac 13 yn nodi'n glir y dylai lleisiau plant fod yn amlwg cydnebydd CCUHP bod angen defnyddio dulliau y tu hwnt i ffyrdd llafar i gronni eu barn. Gwyddys fod cynnwys barn a chyfranogiad plant o fewn eu gweithgarwch yn fodd i gymell a chodi eu hunan-fri, cydnebydd hefyd eu bod yn unigolion a werthfawrogi o fewn y system addysg (Rudduck a McIntyre, 2008). O fewn yr ymchwiliad hwn (CY1), y nod yw casglu tystiolaeth a arweinia at ymgynghori a chasglu safbwyntiau plant am eu profiadau, yna annog athrawon i gynnwys eu lleisiau yn amlach o fewn eu cynllunio, ac, o bosib wrth ail-adrodd dulliau ymgynghori'r ymchwiliad eu hunain i werthuso'r ddarpariaeth.

Mae adeiladu perthynas gref â'r plant ac adnabod eu hoffterau a'u tueddiadau yn rôl sylfaenol i ymarferwyr plentyndod cynnar. Gesyd y rhain sylfeini ar gyfer cymdeithasoli a datblygu sgiliau a medrau'r unigolyn wrth ymglymu â gweithgarwch y dosbarth (Chen *et al.*, 2020; Siraj; 2015; Laevers, 2015). Mae swyddogaeth yr oedolyn fel hyrwyddwr a chyd-adeiladwr o fewn addysg gynnar yn bwysig gyda chefnogi lles y plentyn yn ystyriaeth ganolog. Gwelir hyn o fewn System Ecolgol Bronfenbrenner (1979) sy'n darparu fframwaith cyd-destunol lle mae'r plentyn yn datblygu nid ar ei ben ei hun ond trwy gyfres o gysylltiadau-ddiwylliannol-berthnasoedd sy'n bodoli yn y teulu, lleoliadau ysgol, cymunedau a chymdeithas (Carey-Jenkins, 2018). Mae angen i ymarferwyr ymateb i hyn trwy gynllunio ardaloedd a gweithgareddau a fydd yn cyfoethogi ac yn gwella dysgu a datblygu cynnar.

Er mwyn cynllunio ar gyfer dysgwyr ifainc, mae angen i ymarferwyr medrus ddeall ac ymateb i'r ystyron y tu ôl i ymddygiad ac ymatebion plant i sicrhau ymdriniaeth o'u lles (Forbes, 2019; Musgrave, 2017; Dowling, 2000) a chydabod bod gan blant hawliau ac asiantau i fedru cyfrannu at yr hyn sy'n effeithio arnynt o ddydd i ddydd (Ereaut a Whiting, 2008).

Ychwanega Moss (2007) bod rhaid felly ystyried y plentyn fel cyfrannwr pwysig o fewn penderfyniadau. Mae plentyndod fel cysyniad ynddo'i hun wedi esblygu ers y

diwygiad diwydiannol ac, yna'n hwyrach fyth ym Mhrydain, daeth yr angen a chonsyrn gwladol a llywodraethol am lesiant (welfare) plant yn ôl Miller (2009). Cysyniad sydd wedi'i wreiddio mewn diwylliant, gwerthoedd ac arferion yw plentyndod (Rogoff, 2003) gyda phob gwlad a thylwyth yn ystyried a blaenoriaethu'n wahanol ar gyfer ei dinasyddion ieuanc. Serch hynny, cafwyd cytundeb gan nifer o wledydd yn sgil cyhoeddiad erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau plant ac er yn ôl Freeman (2007) mai pwysu ar foesau dynol y gwna'r ddogfen mwy na'i gwneud yn ddeddfwriaeth orfodol, cafodd effaith gadarnhaol ar statws y plentyn o fewn cymdeithas (Roberts, 2011; Musgrave, 2017).

Teimlir bod sicrhau gwranddo ar leisiau plant yn ddeugyfeiriadol ac yn elwa nid yn unig y plentyn wrth iddo deimlo bod ei farn, ei brofiad a'i fedrau yn cael eu hystyried yn bwysig ond cyfoethoga hefyd wybodaeth a dealltwriaeth oedolion o'r plant a'r dysgwyr yn eu mysg (Musgrave, 2017; Williams - Brown a Mander, 2021). Mae gwranddo ar blant yn cynnig gofod i feddwl, i fyfyrwyo ac yn creu cyfle i'r unigolyn wneud synnwyr o'r hyn a brofa yn weithgarwch, lleoliadau a'r deunyddiau o fewn ei amgylchedd. Cyhoeddodd Biwro Cenedlaethol Plant (NCB) ynghyd â ddatblygwyd gan Alison Clark yn 2021 ddogfen ar gyfer oedolion yn amlinellu pwysigrwydd gwranddo ar blant. Ymhlith nodau'r ddogfen, pwysleisir pwysigrwydd gwranddo ar blant fel rhan o arferion beunyddiol i ymchwilio i'r ffyrdd amrywiol y medr plant gyfathrebu ynghyd â'r moddau y medr oedolion gynorthwyo plant i wneud hyn yn rheolaidd (ONS, 2021).

Gwelir bod Estyn (2017), wedi addasu eu harferion arolygu, ac i'r fframwaith arolygu diweddaraf gynnwys llais y plentyn yn glir o fewn y modd y cesglir data mewn arolygon. Gwnânt hyn drwy gynnal sgysiau a theithiau dysgu gyda'r disgyblion tra ar eu harolygon. Adwaen y corff arferion da gan nifer o ysgolion yn eu deunydd enghreifftiol o ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd. Noda Estyn (2016) yn eu harolwg thematig o gyfranogiad disgyblion bod 'cyfranogiad ystyrion a phwrpasol disgyblion wedi ei fwriadu i fod yn nodwedd gref o'r cwricwlwm newydd' (Estyn, 2016, t. 3). Ystyria Estyn (2016) fod cyfranogiad yn gwella perthnasau rhwng staff a phlant a 'phan fydd cyfranogiad disgyblion yn gadarn, mae disgyblion yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at wella'r ysgol' (ibid). Cefnogir y farn gan Samuel (2020) a noda y gall mesur lles ac ymglymiad plentyn arfogi addysgwyr. Os gwêl (yr

athrawon) fod eu hymdrechion yn arwain at lefelau uchel o les ymhlith eu disgyblion mae'n debygol o arwain at gylchdro o welliant (Layard, 2020; Musgrave, 2017).


Gwna hyn gyflwyno ystyriaeth i athrawon o bwysigrwydd cynnal cyfnodau o arsylwi plant tra ar dasg yn rheolaidd, gwna'r ymchwiliad hwn ategu sgysiau gyda'r plant yn ogystal er mwyn darganfod hoffterau a dylanwadau ar eu hapusrwydd. Mae sicrhau darpariaeth sy'n cydnabod a gweithredu hawliau plant yn ofyniad statudol fel yr amlinellir yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu Cymru (2021), gwna'r ymchwil yma gydnabod yr hawliau hyn, a thrwy annog lleisiau plant yn rheolaidd o fewn gweithgarwch, gall gyfrannu at sicrhau cydraddoldeb a pharch i farn ein dinasyddion ieuengaf.

Ystyrir bod nifer o fanteision o wrando ar blant, fel y nodwyd ynghynt maent yn arbenigwyr ar eu bywydau eu hunan, gallant gynnig mewnwelediadau gwerthfawr o'n medrau ni fel addysgwyr i baratoi yn addas ar eu cyfer (Clark, 2017). Gwyddys o ymchwil (Groundwater - Smith *et al.*; Musgrave, 2017) sut mae hyder plant yn tyfu gan wneud iddynt deimlo eu bod yn bwysig. Pan wrandewir ar blant a phan ddeallant eu teimladau eu hunain fe ddônt i ddeall teimladau eraill yn ogystal a gwyddys fod plant yn fwy tebyg o drafod pethau sy'n eu poeni gan gynnwys materion diogeli os yw gwrando yn rhan o arferion pob dydd (NCB, 2021).

Os ydym o'r farn bod lles a hapusrwydd y plentyn yn bwysig, yna fel y noda Holder (2012) yn ei ymchwil ar ddylanwadau ar hapusrwydd plant, rhaid i ni ei ymchwilio o ran profiad yr unigolyn. Amlyga ei ymchwil fod yna wahaniaeth rhwng yr hyn sy'n gwneud plant ac oedolion yn hapus. Ychwanega Holder a Coleman (2008), fod amrywiaethau o ran dylanwadau ar hapusrwydd plant o oedran gwahanol. Gyda gweithrediad Cwricwlwm i Gymru yn 2022, sy'n tanlinellu pwysigrwydd cyd-adeiladu ystyrlon a chyfranogol yna, fel y sonia Hargreaves (2004), dylai ymarferwyr o bosibl ddod yn fwy effro i wrando ar brofiadau'r dysgwyr eu hunain. Gan mai prin yw'r deunydd ymchwil sy'n cynnwys lleisiau plant o 3 - 7 bydd canfod a oes tebygrwydd ai peidio rhwng ymchwil a wnaed eisoes gan gyrff megis yr ONS a Chomisiynydd Plant Cymru a'r gwaith hwn yn fater pwysig.

2.7 Addysgeg plentyn ganoledig – cynllunio'r cwricwlwm (CY2)

Credir mai cyfrifoldeb ymarferwyr blynyddoedd cynnar, yw gwranddo ac ymateb i lais y plentyn, i hyrwyddo'r llais hwnnw a'i hawliau fel dinesydd yn ein hysgolion a'n darpariaethau (Musgrave, 2017; LI C, 2018a). Drwy arsylwi, gwranddo a chynnwys plant o fewn penderfyniadau a wnaed cyfrennir at eu lles a'u hapusrwydd gan roi perchnogaeth iddynt o'r profiadau a dderbyniant. Os ydym yn cytuno â'r ffordd hon o feddwl, bod lles a hapusrwydd plant yn ffactor bwysig i'w hystyried, mae hynny'n ei gwneud yn ofynnol i ni weld pethau trwy wahanol lensys megis pob cyfranogwr (Rose, 2011; Carey-Jenkins, 2018). Derbynnir mai athrawon sy'n gyfrifol am ffurfio a chyflwyno cwricwlwm a'u bod yn hyrwyddwyr addysgol sy'n creu'r hinsawdd o fewn dosbarth fel y nodwyd gan Ginott (1975), athro, seicolegydd a seicotherapydd plant. Gwnaeth un o'i ysgrifau (Ffigwr 5) ddylanwadu'n syfrdanol ar fy nealltwriaeth bersonol o'm swyddogaeth fel addysgwr.




Ffigwr 5 - Dyfyniad o lyfr *Teacher and Child*. H.G. Ginott (1993, cyrchwyd o Van Last, 2019)

Os yw addysgwyr yn unfarn â'r uchod, yna mae'n ddyletswydd arnom i ddarganfod ffyrdd o gasglu gwybodaeth a adeilada darlun cyflawn am y plentyn a'r hyn a

gyfranna at ei awydd i ddysgu (Beckley, 2012; Siraj, 2019). Gellid dadlau bod rhan o'r awydd hwnnw'n ymwneud a hwyliau'r plentyn ar y pryd (Musgrave, 2017) megis teimlo'n gyfforddus a hapus o fewn yr amgylchedd.

Fel y bydd yr ymchwiliad yma yn ceisio ei ddatgelu, mae dylanwadau amrywiol ar y penderfyniadau addysgegol a wna athrawon o ran eu haddysgeg a chynllunio ar gyfer eu darpariaeth. Un o'r dylanwadau hyn sy'n effeithio ar arfer yw'r gefnogaeth a'r ddealltwriaeth sydd gan arweinyddiaeth yr ysgol o ran addysgeg blynyddoedd cynnar (Fabry *et al.*, 2022). Mae arfer addysgeg plentynod cynnar mewn ysgolion cynradd yn aml yn cael ei herio gan ofynion academaidd, dadl am arfer gorau a newid parhaus trwy fentrau polisi newydd (Nicholson, 2018; Siraj, 2007). Mae'r croestoriad rhwng addysg a gofal plentynod cynnar ac arferion o fewn ysgol yn cael ei danio gan heriau addysgegol, o sicrhau bod athrawon yn cynllunio darpariaeth chwareus ac ymarferol. Mae tystiolaeth yn dangos bod ansawdd addysgeg ar graddau y gwna yr athrawon ddarparu addysgeg a'i ystyrir yn briodol i oed plant ifainc yn arwyddocaol gysylltiedig ag ansawdd yr arweinyddiaeth (Siraj-Blatchford a Manni, 2006). Yn achos cyfranogwyr y dosbarthiadau a oedd yn rhan o'r ymchwiliad hwn, roedd gan ddwy o'r tair ysgol arweinwyr ysgol îs fel rhan o'r uwch dim arweinyddiaeth, yn ôl ymchwil, gall hyn wneud gwahaniaeth sylweddol wrth gynllunio ar gyfer addysgeg bwrpasol a'i rhoi ar waith (Fabry *et al.*, 2022; Barblett a Kirk, 2018).

Yn 2009 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen Arferion Effeithiol wrth Ddysgu ac Addysgu - Ffocws ar Addysgeg (LI C, 2009) er mwyn sicrhau gweledigaeth gytûn ymysg addysgwyr o beth a golygir wrth addysgeg a'r amodau allweddol sydd eu hangen i addysgeg ffynnu'n effeithiol (gweler ffigwr 6). O fewn y tair elfen (y broses ddysgu, y strategaethau dysgu, yr amgylchedd dysgu a pherthnasau) ceir cyfeiriadau at y broses ddysgu ei hun. Gyda rhain yn ymwneud â datblygiad y plentyn, creu cyfleoedd sy'n ennyn diddordeb y dysgwr o fewn strategaethau addysgu a gwrando ar lais y plentyn o ran yr amgylchedd dysgu a pherthynas ag eraill. Mae'r tair elfen hyn yn berthnasol i gwestiwn ymchwil 2 (CY2) lle holir yr athrawon am eu harferion cynllunio presennol a darganfod a yw'r moddau o gasglu data wedi dylanwadu ar eu ffyrdd o gynllunio a monitro gweithgarwch gan ystyried lles a hapusrwydd y plant.



Ffigwr 6 - Arferion Effeithiol wrth Ddysgu ac Addysgu (LI C, 2022)

Cydnabu Alexander (2010), yn ei ymchwiliad annibynnol eang i gyflwr a dyfodol addysg gynradd yn Lloegr ar ddechrau saithdegau'r ganrif ddiwethaf, bod ffocws newydd a momentwm ehangach at gynnwys llais y plentyn o fewn cynhyrchu cwricwlwm addas. Cydnabu Alexander (2010) hefyd, yr heriau o'i gyflawni gan fod nifer o ddehongliadau'n bod o ran sut ddylai'r cwricwlwm ymddangos i blant y blynyddoedd cynnar. Yn yr un modd gwelwyd hyn o fewn athroniaeth addysg y blynyddoedd cynnar yng Nghymru, megis Mudiad Meithrin, ac yn hwyrach o fewn syniadaeth y Cyfnod Sylfaen a ddaeth yn statudol i blant 3 - 7 oed yn 2011 wedi cyfnod o beilota ar draws Cymru. Roedd cynnwys y plant fel rhan o'r cynllunio'n flaenllaw, a dysgu mewn modd cydweithredol a fyddai'n annog llesiant cyfannol yr unigolyn (LI C, 2018a).

Yn 2014, cyhoeddwyd adolygiad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen ar ran Llywodraeth Cymru gan Siraj, a rhwng 2011- 2014 ymgwymerodd corff 'Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru' (WISERD) adolygiad ohono. Yn fwy diweddar yn 2017, cyhoeddodd Estyn parthed lles fel rhan un o'u harolygon thematig *Arferion effeithiol... yn nosbarthiadau 1 a 2*. Cydnabu pob un o'r adroddiadau bod agweddau cadarnhaol yn perthyn i'r athroniaeth megis dysgu drwy

brofiadau uniongyrchol, defnydd o'r tu allan a chynnwys syniadau'r plant o fewn y cynllunio, ond, bod lle i welliant i sicrhau gweithrediad cyson o egwyddorion addysgeg y blynyddoedd cynnar (Estyn, 2017).

Un o argymhellion Siraj (2015) oedd bod angen sicrhau parhad o ddatblygiad proffesiynol ymysg y gweithlu. Yn unol â'r argymhelliad un o'r gofynion sydd wedi ei amlygu o fewn Safonau Proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth (LI C, 2019) yw datblygiad proffesiynol gan gynnwys ymchwil (LI C, 2017). Bwriad ail ran yr ymchwiliad hwn (CY2) yw hysbysu athrawon am yr hyn sy'n gwneud plant yn hapus gyda'r bwriad o drafod rhai o'r dulliau o fewn eu harferion beunyddiol a allai fod yn ymchwil gweithredol.

Mae'r gweithlu addysg presennol mewn cyfnod o ddiwygiad addysgol yng Nghymru gydag argymhellion Dyfodol Llwyddiannus Donaldson (2015) erbyn hyn yn ddogfennaeth Cwricwlwm i Gymru a'r gweithrediad ohonynt yn statudol. Ystyriodd Donaldson (2015), fod yr arfer dda, parthed y Cyfnod Sylfaen, yn elwa lles a'r cynnydd a wnaed gan blant ac mai dyma ddylai fod yn sail i athroniaeth Cwricwlwm i Gymru; megis cwricwlwm gweithredol ac ymarferol mewn cyd destunau perthnasol sy'n adleisio syniadaeth luniadol gymdeithasol Vygotsky a Laevers ymysg eraill. Awgryma y dylai'r 'dull' hwn fod yn greiddiol wrth ymestyn yr arfer i blant Cyfnod Allweddol 2 (7 - 11 oed) a thu hwnt i'r ysgol uwchradd at 16 oed. Wrth drafod y dystiolaeth sy'n sail i'w ddiwygiad noda Donaldson (2015) mai rhai o'r 'cryfderau gwirioneddol' sy'n bodoli o fewn y system bresennol yng Nghymru yw '...yn bennaf oll, yr addysgeg sy'n sail i'r Cyfnod Sylfaen a'r ymrwymiad i'r Gymraeg a'i diwylliant' (Donaldson, 2015, t. 19).

Mae cwricwlwm plentyn canoledig yn gyfuniad o fwriadau'r oedolion a syniadau'r disgyblion. Mae cynnwys llais y plentyn yn cyfrannu at ei les a'i hapusrwydd drwy gynnig cyfleoedd iddo wneud dewisiadau, a chynnig amrywiaeth o brofiadau a chyfleoedd i ymarfer sgiliau er mwyn gwneud cynnydd (Thomas a Lewis, 2016; LI C, 2018). Mewn ymchwil hydredol diweddar a wnaed gan Colliver *et al.* (2022) i 2,213 o blant rhwng dwy a phump oed, awgryma'r data bod cynnig cyfnodau gwahanol o ddewis rhydd ac o dan arweiniad oedolyn yn medru datblygu amrywiaeth o sgiliau datblygiadol. Daethant at y casgliad bod yr amser a dreulir yn chwarae rhydd yn ymarferol yn rhagfynegi hunanreoleiddio yn ddiweddarach (Colliver *et al.*, 2022).

Mae addysg y blynyddoedd cynnar o fewn gwledydd datblygedig y DU a thu hwnt, fel arfer, yn annog dysgu drwy brofiadau uniongyrchol a chwarae lle bydd y plentyn a'r oedolion yn cyd-adeiladu syniadau (Miller, 2009; Pritchard, 2009; Bottrill, 2018).

Cyflwynna Bottrill (2018), sut y defnyddir dulliau thematig i gyflwyno prosiectau ac yn y lleoliadau lle mae agweddau plentyn canoledig wedi'u sefydlu, ceir rhyddid i alluogi'r plant i lywio rhan helaeth o'r chwarae eu hunain. Yn achos yr ymchwiliad hwn gwyddys fod y plant y rhan ganolog o'r cynllunio, ond ni wyddys os ydynt yn rhan o werthuso'r ddarpariaeth, sef, yn rhannol beth a wneir wrth gasglu'r data am eu hapusrwydd (CY1).

Gwna polisi deddfwriaethol a diwylliant ddylanwadu ar, a gosod disgwyliadau o ran yr athroniaeth a'u haddysgir (Papatheodorou a Moyles, 2012), dysgu drwy chwarae yw'r modd hwnnw i blant y blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Wrth gydnabod y diwylliant, sut gwelir plentyndod ac addysg briodol, gellid yna gynnig asiantau i blant fod yn rhan o adeiladu eu syniadau a'u dealltwriaeth eu hunain.

Er bod chwarae yn derm a ddefnyddiwyd o fewn addysg gynnar ers sawl degawd bellach mae'n gysyniad sydd wedi'i gam ddehongli yn aml, gyda chwarae yn cael ei ystyried yn gyfnod i ffwrdd o ddysgu lle na fydd plant yn medru dwyn ffrwyth a gwneud cynnydd (Bottrill, 2018). Bydd yn ddiddorol darganfod o ymatebion y plant os dyma yw'r achos ac os yw dirnadaeth y cyfranogwyr ifainc yn gwahaniethu er enghraifft o ran y tu fewn a'r tu allan, a ffafriaeth ohonno (Aasen *et al*, 2009).

Awgryma dogfennaeth Cwricwlwm i Gymru (2022) gan weithredu gofodau addysgu, sy'n cyd-fynd ag athroniaeth dysgu drwy brofiad ac addysgegau a wna feithrin sgiliau'r plant ifainc; y gall gyfranu at iddynt arddangos medrau 'dysgwyr uchelgeisiol galluog, dinasyddion egwyddorol, gwybodus, unigolion iach a hyderus a chyfranwyr mentrus a chreadigol (Donaldson, 2015, t. 31).

Ni ddefnyddir y term chwarae o fewn dogfennau Cwricwlwm i Gymru ond dyna yw'r syniadaeth yn y bôn. Mae chwarae yn cynnig cyfleoedd i blant brofi'r byd, i geisio gwneud synnwyr ohono ac i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i fynegi a chyfathrebu mewn moddau amrywiol (Thomas a Lewis, 2016; Musgrave, 2017). Ymarfer ar gyfer yr annisgwyl, arfer sy'n gymhleth ac yn wybyddol heriol yw chwarae (Spinka *et al*., 2021) a bydd y plant sy'n rhan o'r ymchwiliad hwn wedi derbyn cyfleoedd niferus i brofi dysgu drwy chwarae. Tystiwyd hynny wrth ymweld â'r dosbarthiadau ac

ategwyd eu heffeithiolrwydd o fewn adroddiadau diweddar Estyn o ran arfer dda.

Wrth holi'r plant am eu profiadau o hapusrwydd tybir bydd sôn yn eu hymatebion am y profiadau chwarae sy'n creu hapusrwydd ynddynt. Ystyrir dysgu drwy brofiadau'n fodd addas a theilwng i blant ifainc wneud cynnydd a chymdeithasoli. Gweithreda'r cyfranogwyr sy'n rhan o'r ymchwiliad hwn o fewn lleoliadau lle gwelir yr athroniaeth hon yn amlwg.

Yn achos y Cyfnod Sylfaen y nod oedd cyd-blethu'r arferion da oedd yn bodoli o fewn y sector blynyddoedd cynnar eisoes ac elfennau o gwricwla blynyddoedd cynnar eraill a glodforwyd ar draws y byd (Thomas a Lewis, 2016, LI C, 2018a). Dau o'r rhain oedd Reggio Emilia yng Ngogledd yr Eidal a Te Whariki o Seland newydd. Tynnwyd ynghyd y gwerthoedd o barchu'r plentyn a gosod lles wrth wraidd y ddarpariaeth fel elfennau creiddiol. Cyd-blethwyd themâu ac agweddau yn hytrach na phynciau i adlewyrchu bywydau plant ifainc o fod o fewn cyd-destunau yn hytrach na rhaniadau digyswllt (Thomas a Lewis, 2016).

O fewn athroniaeth Reggio Emilia, cydnabyddir bod deall meddyliau a dulliau dysgu'r plant yn brosiectau ymchwil hir dymor ynddynt eu hunain, lle bydd y plant a'r oedolion yn adeiladu'r presennol gan gofio'r gorffennol ac yn edrych ymlaen at y dyfodol (Rinaldi, 1998; Thornton a Brunton, 2010). Grymusodd a chyfrannodd athroniaeth Te Whariki syniadau megis pwysigrwydd diwylliant ac iaith, gweledigaeth ar gyfer pob unigolyn, i sefydlu ein penderfyniadau addysgegol ar ymchwil a galluogi'r unigolion i ddatblygu'n ddysgwyr cadarn a gwydn. Yn achos Cwricwlwm i Gymru, tynnwyd eto ar arferion da Seland Newydd ymysg gwledydd eraill wrth ffurfio canllawiau'r cwricwlwm newydd ar gyfer lechyd a Lles (LI C, 2018b). Elfennau arall sy'n greiddiol o fewn Cwricwlwm i Gymru yw'r cysyniad 'Cynefin' (Hwb, 2023). Diffinnir gan Gwricwlwm i Gymru 'Cynefin' fel 'y lle rydym yn teimlo ein bod yn perthyn, lle mae'r bobl a'r dirwedd o'n cwrdd yn gyfarwydd, a lle mae'r golygfeydd a'r synau yn gysurus i'w hadnabod'. Wrth gynnig profiadau i'r plant fynegi eu barn a'u dealltwriaeth o'r mannau hynny sy'n dylanwadu arnynt a sut fath o lefydd ydynt deallir ymhellach ystyr cynefin i'r cyfranogwyr ifainc.

Mae Cymru yn wlad unigryw mewn sawl ffordd, yn ieithyddol, yn ddiwyllianol ac yn ddaearyddol; mae'r cysyniad o 'le' felly'n atseinio'n arbennig yng Nghymru ac mae'n atgyfnerthu arwyddocâd cyd-destunau lleol (Davis a Conn, 2024). Fel y nodwyd yn

barod o fewn y gwaith, mae Cwricwlwm i Gymru yn pwysleisio 'Cynefin' sy'n dynodi ymlyniad at le o fewn y cyd-destun Cymreig sy'n awgrymu natur ddwys y berthynas rhwng yr unigolyn a'r wlad maent yn byw ynddi. Yn 2023 cyhoeddodd Chapman *et al.* ymchwil a oedd yn ennyn ymatebion 67 o blant (7–10 oed) mewn ysgolion ledled Cymru. Nod yr ymchwil oedd casglu dealltwriaeth a phrofiadau'r plant o gynefin gan ddefnyddio'r dull o dynnu lluniau i sgaffaldio sgwrs. Yr hyn a ddeilliodd o'r ymchwil sy'n cyd-fynd â meddylfryd James a Prout (2015), yw'r ffaith bod y profiad (o gynefin yn yr achos hwn) yn unigryw i bob disgybl. O'r herwydd, mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd adnabod a pharchu teimladau, meddwl, profiad, a'u hymwybyddiaeth o brofiadau corfforol byw y plant (Chapman *et al.*, 2023). Canfu astudiaeth Chapman *et al.* (ibid) fod ymatebion y plant yn cynnwys themau emosiynol y plant, gyda phobl, lle a gweithgarwch i gyd yn rhan o ddealltwriaeth y plant o gynefin.

Mae'r ymchwiliad a gyflwynir yma yn cynnwys cyfranogwyr iau, plant 3 – 7 oed, ac yn wahanol i ymchwil Chapman *et al.* (2023), ni wna ganolbwyntio'n unig ar yr hyn y mae'r 'lle hwn' (yr ystafell ddosbarth a'r tu allan) yn ei olygu i'r cyfranogwyr; ond yn hytrach ar ba elfennau o'r lle hwn, o'r cynefin hwn, sy'n effeithio ar eu hapusrwydd tra yma. Mae'n bosib wrth gael gwell dealltwriaeth o effaith y gofod dysgu ar hapusrwydd yr unigolion, fe all gyfrannu at hysbysu athrawon sut i addasu neu gyfoethogi'r gofod i ddarparu amgylchedd cadarnhaol.

Mae cynnwys y plentyn o fewn cynllunio'r ddarpariaeth a rhoi amser i ffurfio amgylcheddau sbardunol, i drafod, i arsylwi a chyd ddarganfod yn elfennau creiddiol (Beckley, 2012; Thomas a Lewis, 2016; LI C 2018a). Mabwysiadwyd rhai o'r syniadau hyn o fewn athroniaeth y Cyfnod Sylfaen gan sefydlu lles a gwerthuso arferion er mwyn gwella'r ddarpariaeth gyda'r amlycaf. Dylanwada'r amgylchedd y mae'r plentyn yn preswyllo oddi fewn arno yn yr un modd â'r profiadau a'r bobl y rhyngweithia'r plentyn gyda hwy (Bronfenbrenner, 1978; Rogoff, 2003). O fewn dosbarthiadau oed Cyfnod Sylfaen (3-7 oed), cynllunnir ardaloedd y tu fewn a thu allan sy'n denu, sbarduno ac yn herio plant; mannau sy'n eu cymell i ddod yn arbrofwyr a darganfyddwyr hyderus. Dengys Ffigwr 7 isod enghreifftiau o rai ardaloedd o fewn darpariaethau Cyfnod Sylfaen.



Ffigwr 7 – Darpariaethau parhaus yn y Cyfnod Sylfaen (cyrchwyd o Ysgol 1, 2)

Cyniga'r ardaloedd parhaus (mannau sydd o fewn y dosbarth neu y tu allan o hyd) fannau sefydlog megis ardal chwarae rôl, ardal wlyb a chornel cyfrifiaduron a fydd wedi'u cyfoethogi gydag adnoddau sy'n cynnig cyfleoedd i'r plant ymarfer eu sgiliau, y cysyniadau a'r wybodaeth a gyflwynwyd iddynt gan oedolyn neu blentyn arall. Yn ôl Fisher (2013), fe ddylai'r amgylchedd ddysgu: bryfocio dychymyg, ail-ddatgan, gwestiynu a herio yn yr un modd a wna'r addysgwyr. Un o'r agweddau a'u ddatblygwyd o fewn y Cyfnod Sylfaen yn ystyriaeth o athroniaeth Reggio Emilia, yw'r amgylchedd. Mae addysgwyr Reggio Emilia yn adnabod yr amgylchedd fel y trydydd addysgwr, ac mi ddylai'r amgylchedd fod o'r safon uchaf, sy'n ddisgwyliad ac yn hawl gan bob plentyn (Thornton a Brunton, 2009). Cytunir â'r farn bod dylanwad yr amgylchedd, a sut mae'r plentyn yn teimlo oddi fewn yr amgylchedd hwnnw yn cael dylanwad ar ei barodrwydd i ymglymu i dasgau a gwneud cynnydd. Erys i weld os o fewn ymatebion y cyfranogwyr bod yr amgylchedd ddysgu yn ddylanwad arnynt ac yn eu gwneud yn hapus tra yn yr ysgol.

Cydnabyddir nad yw dysgu'n llinol, bod pob plentyn yn unigolyn a bod ganddo ei lais a'i feddyliau ei hunan (CY1). Gwna addysgwyr feithrin datblygiad plant drwy adeiladu ar eu diddordebau, eu hanghenion, eu hoffterau, eu ffafriaeth a'u medrau o fewn

amgylcheddau diogel a gofalgarg. Dylanwada hyn yn ei dro ar hapusrwydd a lles y plant (CY2). Drwy arsylwi a holi plant, fel y gwneir ar gyfer yr ymchwiliad hwn, o bosib, gellir adeiladu darlun o'r agweddau unigryw a'r rheiny a berthyn yn gyffredinol i blant rhwng 3 a 7 oed.

2.8 Cysylltu – perthyn (CY1 a CY2)

Rhan o swyddogaeth athrawon y blynyddoedd cynnar wrth ddarparu addysg i'w disgyblion yw sicrhau darpariaethau sy'n amrywiol, yn dwyn diddordeb ac yn annog dysgu drwy brofiadau (Siraj, 2015; Marsden, 2021). Wrth greu amgylcheddau a phrofiadau sy'n hyrwyddo lles sefydlog ac ymglymiad y plentyn, y gobaith yw y gwna ddatblygu perthnasau a phrofiadau o fewn ei fydoedd cymdeithasol (Kernan *et al.*, 2010). Yn achos yr ymchwiliad hwn eu bydoedd o fewn yr ysgol yw'r ffocws. Cyniga'r ymchwiliad gyfleoedd i'r cyfranogwyr fynegi a yw'r darpariaethau a'u crëwyd yn cyfrannu at eu hapusrwydd tra yn yr ysgol (CY1). Yn ôl NDA Cymru (2025) a 'Cynefin' yw'r lle lle rydyn ni'n teimlo ein bod ni'n perthyn, lle mae'r bobl a'r dirwedd o'n cwrdd yn gyfarwydd a lle mae'r golygfeydd a'r synau'n adnabyddadwy'n galonogol. Nid dim ond lle mewn ystyr ffisegol neu ddaearyddol yw 'Cynefin'. Mae'n lle hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol sydd wedi llunio ac yn parhau i lunio'r gymuned sy'n byw ynddo.

Bydd canfyddiadau'r ymchwiliad yn cyfleu dangos ymatebion y plant a sut gwnaeth eu Cynefin—o fewn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt—lunio eu dealltwriaeth o hapusrwydd. Dylanwadwyd ar eu lles emosiynol gan amrywiol ffactorau, gan gynnwys argaeledd adnoddau, yr amgylchedd dysgu, rhyngweithiadau cymdeithasol, a'r ymreolaeth a roddwyd iddynt wrth ddewis eu hymgysylltiadau. O ganlyniad, mae strwythur ac awyrgylch yr amgylchedd addysgol yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio hapusrwydd cyffredinol plentyn a'i ymdeimlad o lesiant yn yr ysgol.

Mae datblygu medrau plant ifainc i ddod i adnabod yr hunan yn ogystal â chreu perthnasau ag eraill yn rhan ganolog o weithgarwch dosbarthiadau blynyddoedd cynnar (Thomas a Lewis, 2016; Musgrave, 2017). Yn achos yr ysgolion o fewn yr ymchwiliad, daw'r plant i'r ysgol o gefndiroedd cymdeithasol amrywiol a byddant wedi cymdeithasoli mewn nifer o ffyrdd cyn dechrau fel disgyblion. Mae ymuno â

grŵp o blant o'r un oed -fel arfer - yn cynnig sefyllfa newydd o ryngweithio ac a all ddylanwadu ar eu lles a'u hapusrwydd (Musgrave, 2017).

Amlyga'r ymchwil gan Brooker a Woodhead (2008) ymysg eraill, bod y profiad o gysylltiadau cymdeithasol cadarnhaol a datblygu hunaniaeth gadarnhaol yn ddimensiynau craidd lles plant a'u hymdeimlad o berthyn (Brooker a Woodhead 2008; Kernan *et al.*, 2010). Ymddengys fod hinsawdd emosiynol gadarnhaol yn hyrwyddo datblygiad perthynas â chyfoedion. I blentyn ifanc sy'n creu perthnasau o'r newydd gall hyn fod yn heriol, ond o fewn amgylchedd ffafriol sy'n cydnabod lles y plentyn mi all hyn ddigwydd (Howes, 2010). Cyfeiria Feinauer-Whiting (2020), at y cysyniad o berthyn fel un o anghenion sylfaenol dynoliaeth fel nodwyd gan Maslow (1943) i blant ifanc a bod yr ymdeimlad hwnnw yn ffactor pwysig i lwyddiant academiaidd a seicogymdeithasol. Os felly, mae darganfod a yw rhyngweithiad ffrindiau o fewn grŵp cymdeithasol y dosbarth yn cyfrannu at hapusrwydd y plentyn yn fodd o gefnogi'r llwyddiant hwnnw.

Adnabyddir datblygu perthnasau cadarnhaol fel un agwedd ar ansawdd (Sylva *et al.*, 2004). Datblyga plant ifainc o fewn yr ysgol berthnasau â'r oedolion gan dderbyn cefnogaeth emosiynol, cymorth ac arweiniad wrthynt. Yn ogystal, datblygant berthnasau â'u cymheiriaid fel cyd-chwaraewyr sy'n cyd-adeiladu ystyron a datblygant ddiwylliant-feicro eu hunain (Thomas a Lewis, 2016; Siraj, 2015; Bottrill, 2018). Cymuned ddiwylliannol yw grŵp o unigolion sy'n gytûn o ran credoau, ymarferion beunyddiol a bwriadau (Rogoff, 2003). Bwriadwyd darganfod, fel rhan o'r ymchwiliad hwn, a yw hyn yn wir am blant ifainc o fewn yr ysgol; oes tebygrwydd rhwng yr hyn a ystyriant yn ddylanwadau ar eu hapusrwydd o fewn eu systemau meicro (Bronfenbrenner, 1978) a'u cynefin (Hwb, 2022).

2.9 Myfyrdod athrawon ar eu darpariaeth (CY2)

Mae ail ran yr ymchwiliad yn cywain gwybodaeth am ddulliau athrawon o gynllunio profiadau a darpariaethau i blant, a chanfod a yw deall dylanwadau ar eu hapusrwydd yn fodd i gynorthwyo'r proses cynllunio a thracio lles a chynnydd yr unigolion. Mae ystyried a gweithredu'r egwyddorion sy'n greiddiol i'r Cyfnod Sylfaen

(LI C, 2018a) yn rhan annatod o arfer beunyddiol megis sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc:

- yn cael dechrau da mewn bywyd, ynghyd â'r seiliau gorau posibl ar gyfer tyfu a datblygu yn y dyfodol
- yn cael ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu, gan gynnwys cyfleoedd i feithrin sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol
- yn mwynhau'r iechyd corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posib, gan gynnwys rhyddid o gamdriniaeth, erledigaeth ac ecsbloetiaeth
- yn gallu cael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol
- yn cael rhywun i wrando arnynt, yn cael eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod
- yn byw mewn cartref a chymuned ddiogel sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol
- ddim dan anfantais oherwydd unrhyw fath o dlodi

LI C (2018a, t. 2)

Gweithredir yr uchod yn ymarferol o benderfyniadau a wneir gan athrawon ynglyn â'r math o brofiadau a gynllunnir ar gyfer y plant. Yn gyffredinol noda'r ymchwil bod ein harferion fel addysgwyr yn dod o'n rhagdybiaethau personol o'r hyn ddylai plant ei dderbyn (House, 2022; Brookfield, 2017; Schön, 1983). Daw'r rhagdybiaethau hynny o nifer o ffynonellau megis o ddarllenadau, o arsylwi arferion eraill ac o hyfforddiant. Gall fod ymarferwyr yn dal pob math o gredoau a thybiaethau emosiynol am ddatblygiad a dysgu plant sydd wedi'u tanategu'n bennaf gan eu hanawsterau plentyndod cynnar eu hunain na chan bersbectif gwrthrychol ar hwyluso datblygiad a dysgu plant (House, 2022). Ar adegau mi fydd y rhagdybiaethau'n ddefnyddiol a, thro arall, i'r gwrthwyneb. Gall adfyfrio sicrhau gwiriad o'r rhagdybiaethau gan ystyried y byd drwy wahanol lensys (Brookfield, 2017). Un o'r lensys yw drwy lygaid y plentyn. Noda Brookfield (2017), pan ystyriwn lais a barn plant, fe ddown i ddeall sut mae ein penderfyniadau yn dylanwadu arnynt yn emosiynol ac yn wybyddol.

Un o'r sgiliau a ddatblygir yn aml drwy hyfforddiant ar gyfer bod yn athro ac a barheir drwy gydol gyrfa'r addysgwr yw ymarfer myfyriol (LI C, 2018; Zeichner a Liston,

2014). Dyma'r weithred o fyfyrion ar brofiadau a gynllunir ac a weithredir er mwyn cymryd rhan mewn proses o ddysgu parhaus. Myfyria addysgwyr ar eu harferion drwy gasglu tystiolaeth o arsylwadau, drwy wrando ar blant yn ystod tasgau, marcio cynnyrch, recordio eu hunan yn addysgu a thrafod â chydweithwyr. Dau enw blaenllaw ym maes arfer adfyfyriol yw Schön (1983) ac Eraut (1994). Er eu bod wedi dyddio mae eu syniadau o ddefnyddio myfyrion fel modd o ddadansoddi er mwyn gwella arfer yn parhau'n werthfawr. Mynega Ewens (2014), er mwyn gwella eu gwybodaeth a'u medrau proffesiynol dylai athrawon ddatblygu eu gwybodaeth o gwmpas y cwricwlwm, ddatblygu strategaethau amrywiol er mwyn hybu diddordeb ac ymglymiad ymysg y plant, a sicrhau dealltwriaeth gref o'r unigolion yn eu gofal (Ewens, 2014) gan gynnwys yr hyn sydd yn eu gwneud yn hapus.

Er mwyn annog cyfranogiad y dysgwr, mae angen i'r athro greu amgylchedd ffafriol i ddysgu (Pinsky, 1998; Siraj, 2015; LI C, 2020) yn ogystal â chyfleoedd i blant fedru mynegi eu barn am yr hyn a ddigwydd iddynt (CCUHP, 1989). Fel rhan o'r safonau proffesiynol addysgu ac arweinyddiaeth (LI C, 2019) mae pwyslais ar athrawon i ddod yn ymchwilwyr fel rhan o'u harfer.

Mae'r ymchwiliad hwn yn cyd-fynd ag ymchwil gyfredol sydd ar waith a rannwyd yn ddiweddar mewn digwyddiad ar-lein ym mis Mawrth (Chicken *et al.*, 2025).

Cyflwynwyd y data a'r negeseuon hyd yma gan ymchwilwyr o'r grŵp Cyfranogiad Plant mewn Ysgolion. Mae eu gwaith yn cynnwys cyfranogiad plant ac athrawon ar draws Cymru gan ganolbwyntio ar sut mae Hawliau Plant, yn benodol Erthygl 12, yn cael ei weithredu mewn ysgolion yn rheolaidd. Yn yr un modd â fy ymchwiliad, nid creu allbwn 'sut i' ar gyfer athrawon yw'r nod, ond, yn hytrach, creu cyfle i athrawon i gyfranogi ac o ddarllen y canfyddiadau i fod yn barod a meddwl am eu hymarfer er mwyn cefnogi eu harferion presennol a hyrwyddo addysgeg gyfranogol yn rheolaidd.

Ystyrir myfyrion yn rhan allweddol o broses ymchwiliol. Mewn ymchwil a wnaed yn yr Alban gan y National Improvement Hub (NIH) (2022) o oedd yn cynnwys nifer o athrawon ysgolion meithrin a dosbarthiadau blynyddoedd cynnar teimlwyd bod angen gwrandao'n fwy ar leisiau'r plant. Nod yr ymchwil oedd datblygu cyd-ddealltwriaeth gyda'r athrawon o hoffterau'r plant ac i hyrwyddo eu medrau i wneud ymchwil ymarferol a fyddai'n cael dylanwad uniongyrchol ar y disgyblion o ran eu lles a'u hapusrwydd. O ganlyniad i'r ymchwil, mynegwyd bod plant yn fwy hyderus wrth

i'w lleisiau gael eu clywed trwy gydol y cynllunio ar gyfer eu dysgu. Sylweddolodd y plant eu potensial eu hunain a gwnaethant gysylltiadau rhwng eu syniadau, eu llais a'u gallu i ddylanwadu ar eraill a chael effaith arnynt. Arweiniodd hyn at y gymuned gyfan yn cymryd rhan mewn dathlu cyflawniadau'r plant (NIH, 2022).

Yn yr un modd yng nghanllawiau Lloegr ar gyfer y Cam Sylfaen, nodir bod plant yn dysgu ac yn datblygu'n dda mewn amgylcheddau oedd yn eu galluogi i ymchwilio ac arbrofi yn annibynnol a/neu gydag oedolion. Gwna cyfleoedd i ddarganfod o fewn darpariaeth sy'n ddiddorol ac un sy'n ysbrydoli'r unigolion, ac sy'n ymateb i'w diddordebau a'u hanghenion unigol eu helpu i adeiladu eu dysgu dros amser (DfE, 2014).

Cyniga ail ran yr ymchwiliad gwreiddiol hwn, sef cynnwys yr athrawon yn rhan o'r astudiaeth gyfle i'r athrawon:

1. Dderbyn adborth o'r gweithgarwch a gynhaliwyd i geisio darganfod yr hyn sy'n dylanwadu ar hapusrwydd y plant yn eu dosbarthiadau
2. Rhannu eu dulliau ar gyfer cynllunio a monitro effeithiolrwydd eu darpariaethau presennol
3. Werthuso rhai o'r dulliau o Ran 1 yr ymchwil, gyda'r posibilrwydd o'u mabwysiadu o fewn eu harferion eu hunain.

Yn eu cyfrol am ddatblygu lles plant o fewn ysgolion (Aggleton *et al.*, 2010), datgana'r awduron fod ffocws cynyddol o fewn y DU o ran y ffyrdd y gall ysgolion hybu iechyd corfforol a meddyliol plant. Cynhwysa hynny athrawon, yr ystafell ddosbarth, cynorthwyyr, darparwyr prydau ysgol, gweithwyr iechyd ac eraill sy'n gweithio mewn ysgolion. Yn 2009 cynhaliwyd astudiaeth gan gydweithwyr o'r Fforwm Plentyndod Cynnar yn y Biwro Plant Cenedlaethol (NCB) a'r adran Astudiaethau Plentyndod Cynnar ym Mhrifysgol Fetropolitan Llundain (LMU) i drafod eu syniadau am les. Roedd y term yn cael ei ddefnyddio'n aml o fewn cyd-destun blynyddoedd cynnar ar y pryd. Roedd lles yn ganolog i ddeddf Mae Pob Plentyn yn Bwysig (DfES, 2003) a ffocws ymchwil gan Unicef yn 2007 ac felly o fewn sgysiau darparwyr plant ifainc (Manning-Morton, 2022). Cynhaliwyd yr ymchwil o fewn dosbarthiadau gydag athrawon a phlant, ac un o'r canlyniadau a ddaeth yn sgil yr ymchwil oedd pwysigrwyddderbyn gwrandawriad nawr ar y pryd. Datgelodd y data ffocws y plant ar eu sefyllfa, eu hamgylchedd neu weithgaredd presennol fel

dylanwad ar eu lles; hynny yw, yr hyn sy'n digwydd nawr sy'n berthnasol i les plant ifainc ac nid canlyniadau'r dyfodol yn unig (Manning-Morton, 2022).

Mae llawer o'n nodweddion y gwnawn eu harddangos fel oedolion wedi'u plannu yn ystod plentyndod, sy'n ei gwneud hi'n berthnasol darganfod pa agweddau ar ddatblygiad plentyn sy'n rhagweld bywyd oedolyn boddhaus orau. O dystiolaeth ymchwil (Layard, 2020) dywed bod iechyd emosiynol yn un ar bymtheg oed yn well rhagfynegydd o fywyd oedolyn hapus na'r holl gymwysterau y mae person byth yn eu hennill. Mae'r dystiolaeth yn drawiadol: mae ysgolion cynradd ac uwchradd (a'u hathrawon) yn effeithio ar iechyd meddwl emosiynol plant cymaint â'u rhieni. Gwelir felly rheswm teilwng dros gynnwys athrawon o fewn yr ymchwiliad yma.

Hapusrwydd y plant yw'r ffocws o fewn yr ymchwiliad hwn. Os yw profiadau a lles plant yn eu blynyddoedd cynnar yn sylfaen ac yn dylanwadu'n fawr ar eu datblygiad a'u dysgu yn y dyfodol (Musgrave, 2017; Manning-Morton, 2013), mae arnom ddyletswydd fel athrawon ac ymchwilwyr bywydau plant i sicrhau bod lles a hapusrwydd yr unigolion yn derbyn sylw teilwng o fewn ein paratodau ar gyfer y ddarpariaeth a gynllunnir, sef yr ardaloedd a'r adnoddau a gynigir yn feunyddiol.

2.10 Casgliadau

Cyflwynwyd o fewn y bennod hon y cefndir damcaniaethol a geir ym maes lles neu lesiant, a'r prinder deunydd ac ymchwil o ran hapusrwydd plant ifainc. Mae ymchwil ddatblygiadol yn nodi bod meistrolaeth ar gymwyseddau cymdeithasol-emosiynol megis rhyngweithiad ag eraill a'r amgylchedd, yn gysylltiedig â mwy o les a gwell perfformiad ysgol (Durlak *et al.*, 2011). Yn adroddiad Hapusrwydd y Byd (Helliwell *et al.*, 2022), nodwyd bod lles ac iechyd plant yn hanfodol bwysig, a bod lefelau uchel o broblemau heb eu trin. Daw'r adroddiad i'r casgliad bod gennym ni ffyrdd da sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella hyn. Mynegant fod y dulliau hynny'n cynnwys gwneud llesiant yn fenter mewn ysgolion ar gyfer datblygiad plant yr un mor bwysig â thwf deallusol, a chreu mentrau llesiant cymunedol i blant. Noda'r adroddiad hefyd bod modd rheoli'r gost o weithredu newidiadau o'r fath, gan y bydd cymaint o gostau eraill yn cael eu harbed (Helliwell *et al.*, 2015). Hyderir y bydd ymgymryd â'r ymchwiliad hwn yn cyfrannu at hysbysu athrawon ac ymarferwyr yn y lle cyntaf am yr

hyn sy'n creu hapusrwydd ymysg eu disgyblion (CY1) yn y cyd-destunau a'u hymchwiliwyd. Ond hefyd, bod yr ymarferwyr eu hunan yn cael y cyfle i ystyried ac atgyfnerthu eu moddau o wrando ar lais y plentyn er mwyn gweithredu dull plentyn canoledig (CY2). Cyflwynna'r drydedd bennod sail fethodolegol yr ymchwil a thrafodaeth o'r dewisiadau a wnaed o ran dulliau casglu'r data.

Pennod 3: Methodoleg yr ymchwiliad

3.1 Amlinelliad o'r bennod

Cyflwynna'r bennod hon y penderfyniadau methodolegol a wnaed ar gyfer yr ymchwiliad. Yn isadran 3.2 ceir trafodaeth am gynnal ymchwiliad gyfranogol. Ymwneud mae adrannau 3.3 a 3.4 ag ymchwilio gyda phlant a'r ystyriaethau moesegol mae'n rhaid cadw atynt er mwyn diogelu'r unigolion sy'n rhan o'r ymchwiliad, yn oedolion a phlant. Cynigia adran 3.5 y methodolegau a fabwysiadwyd, a 3.6 yn drafodaeth ar y dull sydd wedi bod mwyaf dylanwadol o ran casglu'r data sef dull Mosaic a dulliau gweledol o gasglu tystiolaeth. Cyflwynir cyfranogi gyda phlant ifainc ac ystyriaethau moesegol yn 3.7 a 3.8 gyda 3.9 yn drafodaeth o dderbyn caniatâd a chydsyniad. Ystyrir y sampl yn 3.10 a'r cyfnod peilot yn 3.11. Yn adrannau olaf y bennod sef 3.12 – 3.16 cyflwynir proses dadansoddi thematig atgyrchol sef y modd a ddewiswyd i ymdrin â'r data, y rhesymeg dros ddethol cyfweiliadau gyda'r cyfranogwyr, sut addaswyd y fethodoleg o'r peilot cychwynnol a chasgliadau'r bennod i orffen.

Astudiaeth ymchwiliol oedd hon yn defnyddio addasiad o'r dull Mosaic (Clark 2017) ar gyfer ateb y cwestiwn ymchwil. Modd aml-ddull ydyw o ymchwilio digwyddiadau o fewn lleoliadau 'naturiol' sef yr ysgolion. Casglwyd y data gan wneud defnydd o ddulliau addas (darlunio, ffotograffu a thrafod) arfogi'r plant i fedru mynegi eu dealltwriaeth a'u teimladau (Greene *et al.*, 2006; Clark 2017, Kim *et al.*, 2017). Peilotwyd y dull mewn prosiect blaenorol ar raddfa fechan mewn modiwl oedd yn rhan o'r modylau a astudiwyd ar hyd y daith Doethuriaeth mewn Addysg er mwyn gwerthuso addasrwydd y dulliau ar gyfer yr ymchwiliad terfynol. Dewiswyd sampl cyfleus a bwriadol ('convenience sample') (Cohen *et al.*, 2018) sef naw o blant a chwe athro ar draws tair ysgol (3 o blant a 2 athro o bob ysgol). Arddangosodd y canlyniadau data sampl o ddosbarthiadau plant rhwng 3 - 7 oed o wahanol ddosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen. Yn ystod y cyfnod peilota gwelwyd bod 12 o gyfranogwyr yn feichus o ran data felly penderfynwyd byddai 6 - 8 o blant ar draws tair ysgol yn cynnig amrywiaeth ddigonol i'w ddadansoddi ac yn ateb gofynion yr ymchwiliad. Rhaid nodi, beth bynnag, o achos y nifer a oedd yn awyddus i gyfranogi ac wedi rhoi caniatâd moesegol codwyd y nifer i naw fel bod cynrychiolaeth gyfartal

o'r tair ysgol - eglurir hyn ymhellach ym Adran 3.10 yn y drydedd bennod.

Ychwanegwyd y penderfyniad i gynnwys trafodaeth â'r athrawon er mwyn medru cyflwyno gwybodaeth a fyddai'n cynnig safbwynt newydd i gynorthwyo eu dealltwriaeth o blant ifainc sef CY2. Teimlir bod deall yr hyn sy'n dylanwadu ar hapusrwydd plant yn ystyriaeth deilwng i addysgwyr ei chydabod wrth iddynt gynllunio eu darpariaeth ofodol a'r gweithgareddau y paratuant ar eu cyfer.

Nodwyd o fewn adroddiadau - Good Childhood Report (2018) yn Lloegr, a adroddiad Beth Nawr? (2018) yng Nghymru bod mwy i'w wneud o ran sicrhau lles a hapusrwydd ein plant, credir y gall yr ymchwiliad hwn gyfrannu at y nod o ddarganfod beth sy'n creu ymdeimlad o hapusrwydd i blant yn yr ysgol drwy wrando ar eu llais (CY1). Drwy ddefnyddio dulliau casglu data amrywiol Mosaic (Clark a Moss, 2017), deuir i ddeall pa ffactorau sy'n dylanwadu ar hapusrwydd plant yn yr ysgol. Dewiswyd y dull Mosaic gan ei fod yn fodd i gasglu tystiolaeth gyfoethog gan blant, dull sy'n adnabod ffyrdd amrywiol o gyfathrebu yn enwedig â phlant ifainc lle y gall eu rhuglder fod yn brin ar lafar (Clark, 2017). Gwna'r dulliau yn eu tro gefnogi ei gilydd i sicrhau dealltwriaeth ddyfnach o leisiau plant ifainc gan fod yn unol â'r fframwaith damcaniaethol personol sef egwyddorion lluniadol cymdeithasol i ateb Cwestiwn Ymchwil 1.

Er mwyn medru trafod y dylanwadau ar hapusrwydd plant ifainc â'r athrawon, casglwyd ymatebion y plant am eu hapusrwydd a'r manau sy'n eu gwneud yn hapus drwy luniau, peintiadau, teithiau trafod a sgysiau dilynol a gyflwynwyd o fewn y dull Mosaic (Clark a Moss, 2017). Datblygir dealltwriaeth bellach am ddarluniau'r plant gan ymgymryd â thrafodaethau a sgysiau i'w holi ymhellach i sicrhau cywirdeb. Mae'r modd hwn yn cydnabod cydraddoldeb y plant o fewn yr ymchwiliad a'u hawl i leisio'u barn sy'n unol â syniadaeth bod y plentyn yn unigolyn galluog a medrus sydd â'r gallu i fynegi ei hun mewn ffyrdd niferus (LI C, 2015; Malaguzzi, 1996, Groundwater-Smith, 2015, Musgrave, 2017). Crisiala eto egwyddorion damcaniaeth lluniadaeth gymdeithasol ac agweddau lluniadaeth ddiwylliannol gan greu sefyllfaoedd sy'n arddangos bod dealltwriaeth yr unigolyn yn datblygu'n rhannol o fewn cyd destunau cymdeithasol a phersonol o fewn y diwylliant maent yn byw ynddo (Vygotsky, 1978; Rogoff, 2003), sef yn yr achos hwn, eu dosbarthiadau yn eu hysgolion.

Deunydd ansoddol a gasglwyd fel rhan o'r ymchwiliad. Awgryma Dalamont (1992), mai gwaith yr ymchwilydd ansoddol yw darganfod sut mae'r cyfranogwyr yn deall a dehongli eu byd. Un o brif ystyriaethau dull ansoddol yw cydnabod a rhoi gwerth ar wrando (Hesse - Biber, 2010) gan alluogi lleisiau'r cyfranogwyr i gael eu clywed, yn achos yr ymchwiliad hwn, lleisiau plant ifainc (CY1) a lleisiau'r athrawon (CY2). Wrth fabwysiadu methodoleg ansoddol (Stanley a Wise, 1993; Clark, 2017) gellid darganfod yr ystyron y rhydd plant ifainc, o'u safbwynt unigryw nhw wrth gyflwyno cipluniau o fywydau'r plant yn yr ysgol a'r hyn ddylanwada ar eu hapusrwydd. Y nod yw darganfod sut y gwna plant 3 -7 oed synnwyr o'r byd cymdeithasol maent yn rhan ohono (CY1) ac, yn ail sut y gall athrawon gyfrannu at eu lles o fewn y byd cymdeithasol hwnnw yn yr ysgol (CY2).

Mae'r ymchwiliad hwn yn ymwneud â hapusrwydd plant ifainc o fewn yr ysgol a chydabyddir nad yw profiadau plant unigol yn union yr un peth ond, yn hytrach, yn amrywiadau a ddibynna ar eu profiad personol (Hesse-Bieber, 2010; Clark, 2017). Rhaid o'r cychwyn gydnabod gogwydd personol fel addysgwraig a allai fod yn anodd eu hanwybyddu mewn sefyllfaoedd oherwydd fy nghredoau a'm gwerthoedd personol (Creswell a Creswell, 2018; Burnell a Roffey-Barensten, 2020). Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y deunydd a gyflwynir yn gynrychiolaeth ddilys o lais y plentyn/ athrawon. Dilynwyd côdau moesegol PCYDDS (2022) a BERA (2024) wrth gasglu'r data i sicrhau na ddaw unrhyw niwed i'r cyfranogwyr wrth ymwneud â'r ymchwiliad. Cadwyd nodiadau manwl ac ail ystyrir y deunydd er mwyn sicrhau dehongliad cywir o leisiau'r cyfranogwyr i leihau posibilrwydd rhagfarn. Mabwysiedir y dull Mosaic (Clark, 2017) o gasglu tystiolaeth gyda'r plant a gweithredir o fewn fframwaith deongliadol er mwyn arsylwi'r cyfranogwyr o fewn eu hamgylcheddau naturiol (Miles *et al.*, 2020). Mewn cyferbyniad i farn Hesse-Biber (2010) bod ymchwil cymysg ansoddol yn tueddi i ffafrio modd bositifaid a data meintiol, mae'r ymchwiliad hwn yn dathlu dulliau ansoddol fel y prif gyfrwng er mwyn adeiladu'r darlun a'n dealltwriaeth yn gliriach o hapusrwydd plant ifainc (Clark, 2021).

3.2 Ymchwil gyfranogol

Noda Barker a Smith (2010), y gall ein safle fel ymchwilwyr ddylanwadu'n sylweddol ar ymateb y cyfranogwyr a naturioldeb y cynnyrch a gesglir. Mae hyn yn wir am ddata a gesglir gyda phlant (CY1) a gydag oedolion (CY2). Modd o leihau hyn oedd dod i adnabod y plant a'r staff gan sicrhau eu bod yn gyfforddus yn fy nghwmni cyn dechrau casglu unrhyw dystiolaeth (Morrison, 2013; Clark, 2017), gwnaed hyn drwy ymweld a threulio cyfnod o fewn yr amgylcheddau cyn dechrau ar yr ymchwiliad. Roedd fy rôl fel ymchwilydd ar gychwyn yr ymchwiliad yn datgan bod gennyf safle arweiniol, gan i mi ddewis y dulliau, amseru a'r hyn a'i fwriadwyd o flaen llaw (Brooks *et al.*, 2014). Beth bynnag, unwaith i'r ymchwiliad gychwyn o ran y data ei hunain, mae'r rôl arweiniol yn cael ei drosi i'r plant (cam 1) gan mai nhw yw'r unigolion mwyaf medrus o ran eu dealltwriaeth o'u profiadau a'u dealltwriaeth o'u bywydau eu hunain (Vygotsky, 1978; Clark, 2017). Yna'n ail yr athrawon oedd yn arwain gan rannu sut y gwnânt gynllunio yn y lle cyntaf (Cam 2) a chynnig adborth os wnaeth ymgymryd â'r ymchwil gael unrhyw ddylanwad ar eu harferion a' darpariaethau (Cam 3).

Cytuna ymchwilwyr os mai arsylwi yw prif gyfrwng casglu data, fod ymchwilio profiadau plant yn gymhleth gan ei fod yn broses o gasglu a thybio ystyron (Green a Hogan, 2006; Farrell, 2007; Horgan, 2017). Penderfynwyd defnyddio'r dull Mosaic (Clark, 2017) o gasglu data gyda'r plant yn gyntaf. Dull cymysg ansoddol yw Mosaic sy'n sicrhau bod y plant yn cynhyrchu a chyfrannu mewn moddau sy'n naturiol iddynt megis darlunio, peintio, ffotograffu a thrafod. Caniatà Mosaic i'r cyfranogwyr fod yn rhan weithredol o'r creu a'r dadansoddi, wrth drafod ac egluro eu profiadau o hapusrwydd (CY1). Roedd y data a gasglwyd yn gynrychiolaeth gan blant unigol o'u profiadau o hapusrwydd a fydd yn ddilys ar gyfer yr unigolion hynny ar y pryd (Lundy a McEvoy, 2011). Fe ddaeth dylanwadau tebyg i'r amlwg ond ni ellir dweud eu bod yn gynrychioliadol o bob plentyn 3 -7 oed o fewn eu hysgolion ar draws Cymru a thu hwnt. Serch hynny, gellid darogan y bydd y data'n berthnasol i athrawon gyfoethogi eu harferion dosbarth wrth ystyried hapusrwydd plant ifainc. Nod a phwrpas defnyddio Mosaic oedd hyrwyddo a sicrhau asiantaeth er mwyn cyrraedd cydsyniad rhyngom wrth drafod. Mynega Light a Littleton (1999), yr ystyrir Mosaic yn broses esblygol o drafod ac ail drafod i sicrhau ystyr y cytunir arno.

Cyn cychwyn yr ymchwiliad rhaid oedd sicrhau egwyddorion i'w dilyn o ran ymgynghori teg a moesegol (BERA, 2024; NCB, 2021; Clark, 2017; Groundwater-Smith, 2015) gwelir isod y rhai y gwnes gadw atynt wrth ymchwilio megis:


1. ystyriaeth o drefniadau pe bai plentyn yn datgelu gwybodaeth - sicrhawyd ystyriaeth a dilyn protocolau'r ysgolion.
2. bod hawl gan y plant i gyfrannu neu dynnu nôl pe dymunent – cynigwyd cyfleoedd ar ddechrau pob trafodaeth i wneud hyn.
3. bod yr adnoddau neu'r gweithgarwch y gofynnwyd i'r plant fod yn rhan ohonno yn ennyn mwynhad, diddordeb ac yn gyfarwydd iddynt - dewiswyd i'r dasg gychwynnol fod yn un arferol a'r offer yn gyfarwydd iddynt ei drin (offer darlunio a pheintio, i-pad).
4. bod yr amgylchedd lle roedd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal yn addas, yn gyfarwydd â'n ofod lle medr y plant deimlo'n gartrefol. Cynhaliwyd y trafodaethau o fewn eu hysgolion ac mewn lleoliadau cyfarwydd ag agored.
5. gwrando'n ofalus ar leisiau'r plant a'u disgrifiadau i osgoi camddealltwriaeth - cynnig cyfleoedd amrywiol (Mosaic) i gyfathrebu eu profiadau a thriongli'r rhain.
6. bod derbyniad o'r hyn ddywedai'r plant heb ragfarn, mai eu profiadau byw oedd yn cael eu dogfennu – gan gadw'n driw at eiriau a chyfathrebu'r plant o ran manylion ac iaith.

Mae deall safle'r ymchwilydd a'r plentyn yn unol ag ystyriaethau moesegol a hawliau plant (Farrell, 2007). Rhaid meddwl am y math o gyfranogiad a ddisgwylir, y dull o gasglu'r data a'r lleoliad lle digwydd hynny (Pyer, 2014). Cynhaliwyd yr ymchwil o fewn lleoliadau addysgol arferol y plant a'r trafodaethau mewn mannau cyfarwydd iddynt lle na theimlant o dan bwysau. Yn achos yr athrawon gwnaethant hwythau'n ddewis y lleoliadau mwyaf addas er mwyn cynnal y cyfweiliadau. Yn ystod y trafodaethau hyn rhaid oedd bod yn ofalus i ddiogelu fy rôl fel ymchwilydd gan gadw at ystyriaethau moesegol o fod yn ddi-dduedd cyn belled ag y medrid ac wrth ymwneud â'r ymchwiliad sicrhau bod y data'n gyson, yn gywir ac yn driw i'r cyfranogwyr.

Eglura Yu (2010), fod amharodrwydd cyffredinol ymysg athrawon i fod yn rhan o, neu gynnal ymchwil, a bod y berthynas rhwng yr ymchwilydd a'r cyfranogwr yn un o'r rhesymau dros hynny (Yu, 2011). Mae'r ymchwil a wnaed gan Yu (2010) yn ymwneud ag athrawon yn Ne Affrica, ac wedi ei ysgrifennu dros ddegawd yn ôl gellid dadlau bod y sefyllfa yng Nghymru'n wahanol erbyn hyn. Mae datblygu ymagwedd ymchwiliol ymysg y gweithlu yn ofyniad o fewn y safonau addysgu ac arweinyddiaeth (LI C, 2019) fel un o'r disgwyliadau ar gyfer athrawon. Dyma reswm arall dros gynnwys athrawon yn rhan o'r ymchwiliad (CY2) fel y medrant drwy ymgymryd ag ymchwil ddatblygu arferion ymchwil a wna fwydo eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ymhellach o'r plant yn eu gofal; ac adeiladau ar eu haddysgeg bersonol .

Mynega Getenet (2019) mai rheswm arall nad ymrwma athrawon i ymchwil yw am na wêl athrawon dosbarth ac arweinwyr ysgol unrhyw gysylltiad ystyrlon rhwng ymchwil addysgol a'i ddylanwad ar eu harferion beunyddiol. Cyn cychwyn yr ymchwiliad presennol trafodwyd y bwriad yn gyffredinol gyda'r cyfranogwyr gan sicrhau eu bod yn deall y rhesymeg dros wneud yr ymchwiliad a thrwy drafodaeth a chydysynio darganfuwyd gan y penaethiaid a'r athrawon sut byddai ymgymryd â'r gwaith yn eu helwa fel ysgol.

Tybiaeth bwysig sy'n sail i ymchwil addysgol yw bod ymarferwyr, ymhen amser, yn cymhwyso canfyddiadau ymchwil i ddatblygu arfer ac, felly, yn y pen draw, yn cael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu (Corbin a Strauss 2014; Plomp 2009) (CY2). Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd mai anaml y ceir digon o gyfleoedd i ymarferwyr wneud hyn (Getenet, 2019). Un o brif amcanion ymchwil addysgol yw i'r canlyniadau hysbysu arferion a all o bosib gyfrannu at gyfoethogi'r dysgu a'r addysgu (Getenet, 2019; Menter, 2017; Pollard, 2010). Dyma'r rhesymeg dros wneud yr ymchwil mewn camau fel gwelir yn Ffigwr 8 isod:



Ffigwr 8 - Camau casglu a rhannu'r data gyda'r cyfranogwyr.

Cynhaliodd Getenet (2019) ymchwil yn 2015 yn ffocysu ar astudiaeth ymyrraeth gyda dau goleg hyfforddi athrawon. Roedd y sampl yn cynnwys 20 athro a chydlynnydd a 246 o fyfyrwyr a'u mentoriaid (athrawon). Noda yn ei ganlyniadau fod perthnasau ymchwilydd a chyfranogwyr yn datblygu dros y cyfnod ymchwilio a'i bod yn bwysig sefydlu'r berthynas o'r cychwyn gydag athrawon. Gwnaed hyn yn yr ymchwiliad yma, gan egluro mai cyd-gasglu ac adeiladu gwybodaeth a wneir yn hytrach na thynnu gwybodaeth oddi wrthynt a allai greu ymdeimlad o wrthdaro o ran pŵer (McDonald, 2021; Getenet, 2019).

Nodwedd ymchwil cyfranogol yw ei allu i oresgyn anghydbwysedd pŵer a grymuso cyfranogwyr drwy rannu pŵer a gwneud penderfyniadau o'r dylunio i'r lledaenu (McDonald, 2021). Sicrhewyd hyn o fewn yr ymchwiliad drwy gynnal trafodaethau cyson a threfnlenni cyn i unrhyw gyfarfod ddigwydd fel bod y cyfranogwyr yn sicr o beth fyddai'n digwydd ymhob cam. (Gweler Atodiadau 2 a 6).

Yn achos yr oedolion sy'n cyfranogi (athrawon) dylid ystyried sut gall rheolaeth argraffiadol fod yn ddylanwad gan achosi iddynt gyfleu sefyllfaoedd nad ydynt yn digwydd mewn gwirionedd (Thompson, 2016; Getenet, 2019). Mae'r athrawon sy'n rhan o'r ymchwiliad yma'n hysbys fel cyd-weithwyr proffesiynol a datblygwyd perthynas waith cyn mynd ati i gasglu unrhyw ddata ffurfiol.

Rhan o'm hystyriaeth oedd sicrhau rhwymedigaeth foesegol a chydaddoldeb o fewn y cyfnod casglu a dadansoddi data gyda'r cyfranogwyr drwy sicrhau cadw at gôdau ymarfer BERA (2024) a PCYDDS (2018). Gwnaed hyn drwy ail gydio mewn data

droeon drwy wirio'r data, croesgyfeirio, ailymweld mewn rhai agweddau mewn sgysiau a rhannu'r canlyniadau gyda'r cyfranogwyr i sicrhau tryloywder a dehongliad gwirioneddol o'r hyn a gasglwyd (Braun a Clark, 2022; Allen, 2017; Barbour, 2001).

Mae methodoleg ansoddol yn wrthrychol ac yn agored i nifer o ddehongliadau a chydabyddir mai cipluniau ydynt yn unig gan y gwna'r plant, wrth brofi ac ymarfer, llunio ac ail lunio eu dealltwriaeth (Burnell a Roffey-Barnten, 2020). Mae'r fethodoleg yn unol â syniadaeth paradeim lluniadaeth gymdeithasol bod unigolion yn cynyddu eu dealltwriaeth o ddylanwadau o fewn eu cylchoedd cymdeithasol ac wrth brofi'r byd. Yn hynny o beth mae eu dealltwriaeth o'u dehongliadau yn addasu'n gyson (Clark, 2017; Hoskin, 2015). Roedd defnyddio fframwaith Mosaic yn cynnig ffyrdd amrywiol felly o gasglu dealltwriaeth y plant o'u hapusrwydd, ac yn gyfle i wirio a sicrhau fy mod fel ymchwilydd yn cynrychioli eu lleisiau'n gywir (CY1).

3.3 Dull Mosaic (CY1)

Mae dull Mosaic yn fodd i gasglu tystiolaeth gymysg lle cyfunir darluniau, ffotograffau, teithiau trafod a mapiau'r plant eu hunain (Brandao a Theodotou, 2020). O fewn yr ymchwiliad hwn, dulliau ansoddol a ddefnyddir o ran casglu data gyda'r plant, darluniau, ffotograffau a thrawsgrifiadau o'u sgysiau. O ganlyniad, modd aml ddull (multi method) cyfeirir ato yng cyd-destun yr ymchwiliad hwn. Defnyddiwyd dulliau o fewn yr ymchwiliad yma er mwyn darganfod dealltwriaeth ddyfnach o safbwyntiau plant am eu hapusrwydd o fewn eu lleoliadau plentyndod cynnar (CY1). Mae'n fodd amlweddol o arsylwi a gwrando ar lais y plentyn o'r profiadau y mae wedi'u profi gan fod gwrando yn sgil hanfodol i athrawon fedru gael mynediad i feddyliau plant ac yn angenrheidiol i'w ddatblygu (Clark, 2005)

'This conveys the multifaceted nature of listening: it is not limited to one exchange between two individuals but is a complex web of interactions'.

(Clark, 2005, t. 29).

Cytunir â'r farn ddeongliadol bod gwybodaeth yn rhywbeth a gyd-gynhyrchir sy'n cydnabod y farn wrthrychol (Creswell, 2003). O fewn yr ymchwiliad hwn, yr hyn a

gyflwynir yw barn a phrofiad y plant am eu hapusrwydd yn yr ysgol. Mae'r farn ontolegol bod realiti yn rhywbeth a'i adeiladir ar y cyd o fewn sefyllfaoedd cymdeithasol yn dod i'r amlwg wrth holi'r plant a'r oedolion am eu profiadau. Yn ôl Bronfenbrenner (1978) profiadau a'u ffurfiwyd o ryngweithiad ag eraill o fewn eu cymdeithasau (y system feicro micro) yw'r rhain. Mae'r modd y casglwyd y data'n gweddu i'r epistemoleg sy'n cydnabod bod anghysondebau'n bodoli o ran yr hyn yr ystyrir yn wirionedd, sef dylanwadau ar hapusrwydd plant yn yr ymchwiliad hwn. Cynigiwyd cyfleoedd i'r plant leisio'u barn mewn gwahanol ffyrdd ac o ganlyniad medrwyd dod yn agosach at y gwirionedd hwnnw. Trwy ddewis y dull Mosaic o gasglu data cadwyd y plentyn yn ganolog fel cyfranogwr cydradd drwy gydol yr ymchwil (CY1).

Dull ansoddol cymysg a ddatblygwyd gan Clark yn 90au'r ganrif ddiwethaf yw Mosaic, dull a esblygwyd wrth gyd-weithio ynghyd ag ymchwilyddyr eraill (Clark, 2021) ac sy'n hyblyg i ateb gofynion ymchwilio gyda phlant ifainc yw hwn. Atega Brandao a Theodotou (2020) ei fod yn un sydd wedi ennill ei blwy fel dull cydnabyddedig i gynnwys lleisiau plant o fewn gwaith ymchwil mewn modd naturiol. Mae'r dull yn cynnig cyfle i'r ymchwilydd a chyfranogwyr i ddod ynghyd i drafod data gweledol a llafar, a chyfleoedd pellach i ail-ymweld â'y creadigaethau a'u dehongli droeon er mwyn cyd-lunio a mynegi ystyron (Allen, 2017; Lundy a McEvoy, 2011).


Ystyria dull Mosaic blant yn gyfranogwyr medrus yn hytrach na gwrthrychau goddefol o fewn yr ymchwil (Johnson *et al.*, 1998) sydd eto'n gytûn a'r ddamcaniaeth luniadaeth gymdeithasol. Mae'r mewnbynnau neu'r dulliau casglu data yn cwmpasu ffotograffau, recordiadau lleisiol, darluniau a grëwyd gan y plant, (Ffigwr 9). Dewiswyd y rhain gan eu bod yn rhoi y cyfleoedd mwyaf priodol i blant ifainc fedru mynegi eu hunain (Clark, 2021). Esbonia Clark ymhellach fod defnyddio ffotograffiaeth a chelf yn ddulliau cyfredol sy'n cefnogi mynegiant y plant o'u syniadau a'u meddyliau.

Mae defnyddio data gweledol o fewn ymchwil yn enwedig darluniau a ffotograffau yn hollbresennol yn ôl Banks (2018). Fe wiredda ymdeimlad o fod yno o fewn y sefyllfa ar y pryd a'r cyfle i droedio i fywyd y cyfranogwyr. Gelwir ymchwil dull cymysg (aml-ddull) yn fodd creadigol o gasglu tystiolaeth. Fe'i cydnabyddir yn gynhwysol gan ei fod yn ehangu cyfleoedd yr ymchwilydd a'r cyfranogwyr o ran y modd y cesglir a

chyflwynir y data (Burke-Johnson a Onwuegbuzie, 2015). Crybwylla Thomas a O’Kane (2000) fod amrywiaeth o ddulliau casglu data yn gallu hyrwyddo ymglymiad y cyfranogwyr. Noda Miles *et al.* (2020) wrth ddisgrifio data ansoddol ei fod yn galluogi’r ymchwilydd i gyflwyno a chynrychioli bywyd cymdeithasol mewn ffyrdd cyfredol newydd.

Yr hyn ceisir ei wneud yw deall bywydau plant bob dydd gan ystyried y cyd-destun a’r broses y gwna’r bywyd hwnnw gymryd lle (Punch a Oancea, 2014). Nid yw hyn yn wahanol i beth wnawn yn ein bywydau arferol sef cyfuno data ansoddol a meintiol er mwyn dod at benderfyniadau. Cyflwyna Creswell a Plano-Clark (2007) ddisgrifiad manylach o’r dull gan bwysleisio ei fod yn ddyluniad triongledig lle cydnabyddir gwerth data sy’n gymysg ynghyd. Mae’r modd aml-ddull o gasglu a dehongli data fel modd dibynnol yn cynnig mewnwelediad cyfoethog i’r hyn a astudir. Mae sicrhau ymwneud â’r deunydd droeon er mwyn dadansoddi a gwerthuso gweithredoedd yr ymchwilydd i sicrhau eu bod yn cyfleu gwir farn y plant (Simons, 2009).

Gall dull ansoddol cymysg yn ôl Caruth (2013) gynhyrchu data a fyddai o bosib wedi’u colli wrth ddefnyddio un modd yn unig. Gwna gynhyrchu fwy o gwestiynau diddorol a allai arwain at ymchwil pellach yn y dyfodol. Gall y rhain ddeillio o unrhyw un o’r dulliau a nodir yn Ffigwr 9 isod. Dechreuwyd gyda darluniau a’u crëwyd gan y plant o fewn gweithgarwch ddosbarth (Atodiad 9) - sef yr hyn sy’n dylanwadu arnynt yn emosiynol yn yr ysgol (eu hapusrwydd). Trafodaethau am eu darluniau oedd yr ail gam, yna, yn ystod y teithiau darganfod, trafoda’r plant ar lafar a thynnu ffotograffau o’r hyn sy’n eu gwneud yn hapus yn yr ysgol (CY1).



Ffigwr 9 - Moddau casglu data (cam 1/ CY1)

Dewiswyd methodoleg Mosaic dros ddull cymysg cyffredinol, megis astudiaeth achos ethnograffig, o achos natur yr ymchwiliad, nodau penodol yr astudiaeth, a sut bwriadwyd casglu a dehongli'r data amrywiol. Mae Mosaic yn gweddu i fethodoleg ddamcaniaethol lluniadaeth gymdeithasol, ac yn ogystal, mae'n galluogi'r plentyn, ac yn sicrhau asiantaeth bersonol i'r cyfranogwyr boed yn blant neu'n oedolion (Car, 2017). Ystyrir Mosaic yn fethodoleg sy'n adnabyddus am ei ffocws ar gasglu data trwy ffynonellau lluosog, weithiau rhai a'u hystyrir yn anghonfensiynol (Blaisdell, 20212) Gallai hyn gynnwys ffotograffau, lluniadau, cyfweiliadau, arteffactau a ffurfiau eraill ar fynegiant. Mae'n fethodoleg sy'n ddefnyddiol pan fydd yr ymchwilydd am gael golwg fwy cyfannol, amlochrog o'r ffenomen sy'n cael ei hastudio (plant a'u hathrawon yn achos yr ymchwiliad yma), ac sy'n hanfodol mewn astudiaethau sy'n cynnwys lleoliadau cymdeithasol neu ddiwylliannol cymhleth (Clark, 2017; Greene a Hogan, 2006).

Gellid dadlau y gallai astudiaethau achos ethnograffig ddefnyddio dulliau ethnograffig traddodiadol fel arsylwi cyfranogwyr, cyfweiliadau, a nodiadau maes (Pellegrini *et al.*, 2012) . Mae'r dulliau hyn yn darparu mewnwelediadau manwl ond wrth benderfynu ar ddull addas, teimlwyd na fyddent yn dal ehangder cyd-destun ymchwil neu ddimensiynau amrywiol profiadau y cyfranogwyr yn ddigonol. Mae methodoleg Mosaic yn annog cyfranogiad gweithredol gan y bobl sy'n cael eu

hastudio, gan ganiatáu iddynt gyfrannu at y data trwy ddulliau creadigol (Clark, 2017). Mae hyn yn ei gwneud yn werthfawr wrth weithio gyda grwpiau amrywiol neu ymylol nad yw eu lleisiau bob amser yn dod drwodd mewn cyfweiliadau ethnograffig traddodiadol - megis plant ifainc iawn. Mewn astudiaethau achos ethnograffig, tra bod yr ymchwilydd yn treulio llawer o amser yn ymgolli yn y maes, mae'r ffocws yn aml yn fwy ar yr hyn y mae'r ymchwilydd yn ei ddehongli o'i arsylwadau a'i gyfweiliadau, a allai gyfyngu ar sut mae safbwyntiau'r cyfranogwyr eu hunain yn cael eu cynrychioli. Drwy ddewis y dull Mosaic, gall ymchwilydd blethu data a gasglwyd ar wahanol adegau ac mewn gwahanol ffurfiau ynghyd, gan greu llif dehongli mwy organig (Clark, 2017; Blaisdell, 2012); Mae hyn yn ddefnyddiol ar gyfer dal hylifedd profiad dynol, yn enwedig mewn lleoliadau deinamig, esblygol fel dosbarthiadau cynradd.

Teimlwyd yn gryf bod gwneud defnydd o elfennau gweledol megis defnyddio ffotograffau, peintiadau a data gweledol arall - yn caniatáu cynrychiolaeth fwy creadigol a chyfoethog o ganfyddiadau. Roedd yr ymagwedd hon i gynnig moddau amrywiol i'r cyfranogwyr fynegi eu hunain yn well trwy ddelweddau neu symbolau na thrwy eiriau yn unig. Mewn cyferbyniad, mae astudiaethau achos ethnograffig fel arfer yn dibynnu ar ddata ysgrifenedig neu lafar, a all weithiau gyfyngu ar gyfoeth cyfathrebu di-eiriau neu symbolaidd (Harvey a Lareau, 2020). Defnyddiwyd methodoleg Mosaic hefyd am fod yr ymchwiliad yn digwydd o fewn lleoliadau cyfranogol, lle mai'r nod oedd nid yn unig deall cymuned yr ardal honno'n well ond hefyd, modd a oedd yn caniatáu cydweithio â chyfranogwyr i lunio'r broses ymchwil. Mae'r fethodoleg yn cyd-fynd â fframweithiau ymchwil democrataidd, cyfranogol neu gymunedol (Harvey a Lereau, 2020; Clark, 2017).

Mae'r dull Mosaic yn tanlinellu'r gred bod plant yn fedrus a gallant gyfathrebu eu profiadau gan gydweithredu mewn gwahanol gyd-destunau (Lewis, 2016; Groundwater-Smith, 2017; LI C, 2020). Mae hefyd yn caniatáu i blant weld, trin ac archwilio'r canfyddiadau eu hunain yn wybyddol, yn gorfforol a thrwy drafodaeth gan ddefnyddio dulliau amrywiol (Clark, 2021). Galluoga'r dull Mosaic y cyfle i gywain a darganfod beth yw profiadau a dealltwriaeth y plant o'u bywydau eu hunain yn yr ysgol a sut dylanwada'r profiadau ar eu hapusrwydd (CY1) . Noda Brooker (2002) oni bai bod oedolion yn effro i'r ffyrdd y mae plant yn gweld a gwneud synnwyr o'r byd ac yn ei gynrychioli, mae'n annhebygol bydd y plant yn llwyddo i uniaethu â

ffordd yr athro o weld. Amlyga hyn y pwysigrwydd i addysgwyr ddeall dehongliadau plant a'r bwriad ar gyfer CY2 o hysbysu athrawon am ymatebion y plant er mwyn cefnogi eu cynllunio, sy'n unol a disgwyliadau addysgegol Cwricwlwm i Gymru (2020).

3.4 Amcanion methodolegol

Awgryma'r llenyddiaeth (Clark, 2017; McKinnes, 2018) y dylai'r dulliau a ddefnyddir i gynnal ymchwil gyda phlant ifainc fod yn gynhwysol. Dylent barchu'r unigolion a bod yn fanteisiol i blant. Hefyd, gall cyfuniad o ddulliau fod yn bwerus o ran datblygu ein dealltwriaeth fel oedolion o fywydau'r plant (Clark, 2017; McKinnes, 2018). Atega Creswell (2015) y dylai'r cwestiynau ymchwil arwain y dewis o fethodoleg. Y ddau gwestiwn o fewn yr ymchwiliad hwn yw:

Cwestiwn Ymchwil 1 (CY1): Beth sy'n dylanwadu ar hapusrwydd plant 3 –7 oed tra yn yr ysgol?

Cwestiwn Ymchwil 2 (CY2): Sut gall hyn gynorthwyo athrawon i gynllunio a myfyrio ar eu darpariaethau?

Mae'r ymchwilydd lluniadol – deongliadol (constructive – interpretive) yn canolbwyntio ar addasrwydd, cydlynid, cyfiawnhad a pha mor gywir a chredadwy yw ei dehongliadau; yn wahanol i ymchwilwyr cadarnhaol sy'n ffocysu ar ddilysrwydd a dibynadwyedd (van der Walt, 2020).

Cynhaliwyd yma ymchwiliad sy'n cynnwys dulliau ansoddol cymysg o gasglu data. Roedd hyn yn sicrhau atgyfnerthiad un ffynhonnell gan un arall drwy gadarnhad (Bryman, 2016), megis cymharu darluniau'r plant â'u trafodaeth a'r lluniau a gasglant o edrych ar ffotograff. Mae'r defnyddio dull cymysg o gasglu data yn gytûn â'r hyn a ddywed Punch ac Oancea (2014, t 144)

'The field of qualitative research is complex, changing and contested - a site

of multiple methodologies and research practices.'

Gall ymchwil ansoddol gynorthwyo ein dealltwriaeth o'r bwlch rhwng polisi ac arfer a datblygu gwell dealltwriaeth o'r sefyllfaoedd cymdeithasol-ddiwylliannol mae plant ac athrawon yn bodoli oddi mewn iddynt (DeJeghere *et al.*, 2020). Ystyriaeth arall o'r ymchwiliad hwn yw i ymateb i'r bwlch o gynnwys lleisiau plant ifainc o fewn ymchwil fel y medrant gyfrannu at gyd-adeiladu darpariaethau priodol ar gyfer eu haddysg.

Nid yw ymchwilwyr ansoddol yn cyffredinol canfyddiadau na ellir eu heithrio'n llawn o'u lle a'u hamser (Stanley a Wise, 1993; DeJeghere *et al.*, 2020). Yn hytrach fe ddatblygant fodd damcaniaethol ac ymarferol i egluro sut y gall y byd cymdeithasol weithredu o dan amodau penodol (DeJeghere *et al.*, 2020). Yn achos yr ymchwiliad hwn yr ysgol yw'r byd cymdeithasol. Noda Bell (2010) mai'r prif wahaniaeth rhwng ymchwil ansoddol ac ymchwil meintiol yw bod y data o fewn ymchwil ansoddol fel arfer yn dod o ddulliau cymysg. Gwna'r math yma o ymchwil gydnabod nad oes rhaid dynodi rhif neu 'gyfri' nodweddion sy'n gysylltiedig â phlant neu addysg plant.

Mae'r ymchwiliad hwn yn cynnwys canfyddiadau o arsylwi, o wrando, o holi, o fesur a dadansoddi amrywiaeth o ddeunydd (CY1/ CY2). Cydnabu Fraser *et al.* (2007) y gall y deunydd gynnwys y plant eu hun fel ffynhonnell werthfawr o wybodaeth fel y gwneir yma o fewn casglu'r data gogyfer â Chwestiwn Ymchwil 1. Ystyrir erbyn hyn nad yw'n addas na'n ddefnyddiol gosod ymchwil ar begynau cyferbyniol (Gage, 1989). Yn hytrach dylai'r wybodaeth fod yn gydblethiad, ac fe ddylai agweddau arni gydweithio a chefnogi'i gilydd er mwyn grymuso dibynadwyedd y data (Rose, 2011; Yin, 2009).

Soniwyd yn barod bod mwyafrif o'r data a gasglwyd ar gyfer CY1 (Cam 1) yr ymchwiliad hwn yn ansoddol megis, ffotograffau, darluniau a nodiadau a thrawsysgrifiadau o recordiadau a gasglwyd yn ystod trafodaethau. Dewiswyd y dulliau yma gan eu bod mwyaf addas fel modd i'r plant leisio'u barn (Clark, 2017). Yn achos Cwestiwn Ymchwil 2, dull ansoddol o gyfweld a ddefnyddiwyd i gywain y data. Mae prosiectau ymchwil yn aml yn dechrau gyda rhagdybiaeth o'r ddamcaniaeth i'w phrofi neu wrthbrofi (Cohen *et al.*, 2018). Defnyddia'r modd deongliadol ganlyniadau i lywio'r ffordd wrth iddynt esblygu a datgelu syniadau gwreiddiol y cyfranogwyr. Mae'r dull lluniadaeth - ddeongliadol yn cydblethu'n un (van der Walt, 2020) gan fod

y ddau wedi'u gwreiddio mewn damcaniaethau tebyg sy'n bwriadu tynnu ystyr o ddata a gasglwyd oddi wrth y cyfranogwyr.


Rhaid cydnabod medd Caputo (2018), y gall dehongliadau a dylanwadau ymddangos yn wahanol i'r unigolyn pan fod yr amodau yn newid, felly, ni ellid dweud bod unrhyw ddata gan yr ymchwilydd yn wirionedd union (Caputo, 2018). Mae'r amrywiaethau rhwng unigolion a'r profiadau y maent wedi derbyn ynghynt, bob un yn mynd i gael dylanwad ar eu hymatebion. Felly ciplun a geir mewn gwirionedd o'r adeg honno pan gasglwyd y data (Grayling, 2019). Serch hynny, gellid datguddio o bosib rhai themâu tebyg ymysg cynnyrch a thrafodaethau'r plant y gellid eu cymharu â gwaith ymchwil a wnaed ynghynt gyda chyfranogwyr hŷn.

I hyrwyddo cynllunio'r broses ymchwil, y dadansoddi, a dehongli'r data defnyddiwyd y model rhesymeg (logic model) (Ffigwr 10) fel man cychwyn i'r gwaith. Yn ôl Henert a Taylor-Powell (2008) fe ddefnyddiwyd y model rhesymeg o fewn y sector breifat a chyhoeddus er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd ymgyrch, a sicrhau cadw'r ffocws ar y prif fwriad. Modd i fesur effeithiolrwydd oedd sail creu'r model gan gwmnïau masnachol yn 70au'r ganrif ddiwethaf medd Riemer *et al.* (2018). Erbyn heddiw, fe'i defnyddir gan fusnesau preifat a chyhoeddus yn ogystal â chan ymchwilwyr fel modd i drefnu gwybodaeth yn weladwy.

Cyniga'r model modd i arddangos y cyd berthynas rhwng yr hyn y bwriedir ei wneud a'r canlyniadau rhagweledig (Wyatt-Knowlton a Phillips, 2009). Eglura Kalu a Norman (2018) fod y defnydd o fodelau rhesymeg wedi'u profi'n ddulliau effeithiol o werthuso, ac yn fodd i ffocysu ar ddull trawsnewidiol medd Frye a Hemmer (2012). Galluoga'r model rhesymeg ffordd o dracio'r broses ymchwil ar hyd pump cam sef: eglurhad o'r cyd-destun i'w ymchwilio, sefydlu nodau ac amcanion yr ymchwil, gosod y rhesymeg dros y gweithgarwch yn glir, cofnodi'r mewnbynnau neu'r fethodoleg ac yn olaf trafod yr allbynnau neu'r data yng nghyd-destun y bwriad gwreiddiol. Mynega Cooksy, Gill a Kelly (2001) ei fod yn ddull effeithiol o hyrwyddo triongli data.

Noda Walliman (2011) serch hynny, na ellid yn aml ddilyn y camau a fwriadwyd a symud i'r nesaf yn drefnus. Rhaid mynd yn ôl ac addasu droeon cyn cwblhau camau penodol o'r ymchwil. Yn achos yr ymchwiliad hwn, rhaid oedd ail ystyried rhai o'r bwriadau gwreiddiol yn sgil y peilota a wnaed er enghraifft addasu nifer y sampl, ychwanegu cyfweliad â'r athrawon er mwyn grymuso'r gwaith. Fel y noda Clark

(2021) mae unrhyw ymchwiliad gyda phlant yn debygol o'ch tynnu oddi ar ffocws y gwaith gan mai dyna sut mae eu meddyliau'n gweithio ar y pryd. Gall dilyn model fod yn fanteisiol felly, i sicrhau trefn wrth barhau ar y trywydd a'i bwriadwyd fel gwelir isod yn Ffigwr 10.



Ffigwr 10 - Model Rhesymeg (Logic model) seliwyd ar fodel Evaluation Toolkit (2022)

3.5 Methodoleg dulliau cymysg a dulliau gweledol

Eglurwyd bod y dulliau a fabwysiedir ar gyfer casglu data'r ymchwiliad hwn mewn dwy ran. Ar gyfer ymateb i Gwestiwn Ymchwil 1 (CY1) defnyddiwyd dulliau ansoddol yn benodol o gasglu'r data gyda'r plant gan ddefnyddio darluniau, ffotograffau a sgysiau fel y ffynonellau. Yn ail ran yr ymchwiliad gyda'r athrawon, defnyddiwyd cyfweiliadau fel y prif fodd i gasglu gwybodaeth (CY2), cyflwynir a thrafodir y data ar ffurfiau ansoddol ym Mhennod 4. Gelwir y modd yma'n ddull cymysg archwiliadol ddilyniannol (Creswell a Creswell, 2018). Eglurir y modd hwn gan yr awduron lle dechreuir ymchwilio drwy ddefnyddio technegau ansoddol a wedi dadansoddi data Rhan 1 defnyddir y wybodaeth hon i adeiladu ail ran y data (CY2).

Wedi peilota'r ymchwiliad, ystyriwyd mai cyfweiliad oedd yr offeryn mwyaf addas o gynnal yr ail ran gan ei fod yn fodd i hysbysu'r staff o ran y data a gasglwyd gan y plant mewn ymateb i GY1, a chynhyrchu gwybodaeth bellach gan yr athrawon eu hunain ar gyfer ateb CY2. Ychwanegwyd cyfweiliad arall i ddiwedd y gylched (CY2)

er mwyn cael ymatebion yr athrawon o'r effaith gafodd ymgymryd â'r ymchwil ar eu harferion dosbarth (Cam 3).

Yn ystod y cyfweiliadau casglwyd data drwy holi'r athrawon fesul pâr o bob ysgol.

Dewiswyd gwneud hyn gan eu bod yn cynllunio fel tîmoedd o ran cynnwys y gweithgareddau cwricwlaidd a chynigwyd cyfleoedd pellach iddynt ymateb yn unigol lle'r roedd achosion dosbarth penodol roeddent am gyfeirio atynt. Cynhaliwyd y cyfweiliadau mewn dwy ffordd, yn uniongyrchol gydag Ysgol 3, a dros app Microsoft TEAMS gydag Ysgolion 1 a 2. Roedd rhaid gweithredu yn y modd hwn am fod salwch ac achosion Covid yn atal mynediad uniongyrchol i'r safleoedd ysgol. Holwyd yr un cwestiynau yn ystod y tri chyfweiliad cychwynnol i sicrhau atgynhyrchiad cyson o gasglu data (Nosek a Errington, 2020) a'u recordio fel y medrid mynd nôl atynt i sicrhau cywirdeb. Cyflwynir y canlyniadau yn adran 4.6 isod. Gwelir enghraifft o drefnlen holi yn ystod y cyfweiliad yn Atodiad 7.


Nid yw ail ran yr ymchwil (CY2) yn ymchwilio ymhellach i ymatebion CY1, fel y gwneir yn arferol mewn ymchwil o'r fath. Yn hytrach, mae'r data a gesglir o GY1 yn sail i hysbysu'r athrawon er mwyn eu harfogi hwythau â gwybodaeth bellach fel modd o hwyluso eu harferion addysgu, sef CY2.

Proses gymhleth yw gweithredu methodoleg dulliau cymysg gan fod rhaid sicrhau trefn a gwirio cyson y data i sicrhau cyfiawnder â'r hyn a'i casglwyd (Creswell a Creswell, 2018; Clark, 2017). Mae'n ddull sydd wedi meithrin poblogrwydd o fewn ymchwil fel dull cydnabyddedig er ei fod yn tynnu ynghyd nifer o syniadau ar draws methodolegau amrywiol (Denscome, 2008). Mae Ffigwr 11 isod yn arddangos y cydgysylltu sy'n bodoli o fewn y broses yn yr ymchwiliad hwn o ddarganfod beth sy'n dylanwadu ar hapusrwydd plant yn yr ysgol (CY1).

Roeddwn o gychwyn yr ymchwil, am i'r plant fod yn ganolog i'r broses a dewis y modd oedd yn eu harfogi i fod yn brif gyfranogwyr o fewn y gwaith. Mae hyn yn gytûn a syniadau Mertens (2009) o gynnwys unigolion yn uniongyrchol o fewn yr ymchwil fel cyfranogwyr cydradd. Ystyrir hyn yn fodd i arddangos mai rhywbeth a wneir ynghyd â cyfranogwyr yn hytrach na rhywbeth sy'n pwysu ar y cyfranogwyr, yw sail yr ymchwil (Mertens, 2009). Roedd sicrhau'r defnydd o ddulliau cymysg oedd yn

gyfarwydd i'r cyfranogwyr ifainc o fewn cyd-destun yr ysgol felly'n synhwyrol (Farrell, 2007; Greene a Hogan, 2006).

Roedd gweithredu yn y modd hwn yn cynnig cyfleoedd i gasglu hanesion o brofiadau naturiol gan y plant o'r hyn sy'n eu gwneud yn hapus tra yn yr ysgol. Noda Banks (2018) fod cynnwys data gweledol o fewn ymchwil yn cyfoethogi a dod â'r sefyllfa yn fyw mewn modd na ellid ei wneud i'r un graddau wrth ddisgrifio mewn testun. Mae defnyddio sefyllfaoedd cyfarwydd hefyd yn ymateb i ystyriaethau moesegol wrth dalu sylw i ofodau lle mae'r plant yn teimlo'n gartrefol a llefydd maent yn gyfarwydd â nhw (Farrell, 2007).



Ffigwr 11 - Allbynnau data cymysg CY1 (Jennings, 2022)

Ar gychwyn yr ymchwiliad roedd gweithredu'r model rhesymu (logic model) er mwyn strwythuro'r gwaith ymchwil yn fanteisiol er mwyn sefydlu man cychwyn cam wrth gam ac i ymchwilio'n systematig. Mae gwahanol fodelau rhesymeg gyda'r bwriad o ddisgrifio camau gweithredu arfaethedig a'i ganlyniadau disgwylledig (Kane a Trochim, 2006). Mae'r model yn giplun o syniadau unigolyn o sut y gallai ei syniad weithio (Knowlton a Phillips, 2012). Arddangosa'r model uchod y broses fanylach o'r allbynnau/ canfyddiadau sef y casglu a'r dadansoddi (Ffigwr 11). Gwelir bod y saethau'n cyd gysylltu gan y bydd un math o ddata'n ategu ac yn atgyfnerthu un arall pan ddaw i drafod gyda'r cyfranogwyr a dadansoddi'r cynnyrch.

Mae dulliau cymysg yn fethodoleg sydd wedi ei ddefnyddio'n fynych o fewn meysydd ymchwil seicoleg, cymdeithaseg, busnes ac addysg (Miles, Huberman a Saldana, 2020; Creswell a Creswell, 2018). Mae dulliau cymysg yn llwyddo i adnabod amrywiadau o fewn sefyllfa ac yn dibynnu ar dystiolaeth o ffynonellau gwahanol megis y dull Mosaic (Clark, 2017). Eglura Clark (2017) fod y data a gesglir yn fwy gonest ac addas gan eu bod yn cydnabod cymhlethdod o fewn ymchwil o'u cymharu â dulliau eraill (Bassey, 1999). Defnyddir arsylwadau, cyfweiliadau a dadansoddiad o ddogfennau cynnyrch y plant yn yr ymchwiliad hwn i gasglu tystiolaeth fel nodwyd yn adrannau 3.3 a 3.5.

Mynega Creswell a Creswell (2018), fod modd defnyddio dull cymysg o fewn ymchwil addysgol er mwyn cyfoethogi ein dealltwriaeth o gyd destunau, cymunedau ac unigolion, Dewisir modd aml-ddull gan ymchwilwyr sydd o'r farn bod casglu data amrywiol yn cynnig dealltwriaeth lawnach o'r cyd-destun na cheir drwy ddefnyddio un math o ddata'n unig (Creswell a Plano-Clark, 2017).

Gwreiddia'r dull y data, o fewn eu cyd-destun gan ystyried y dylanwadau amgylcheddol yn hytrach na'u hanwybyddu. Hynny yw, o ystyried lluniadaeth gymdeithasol fel sail ddamcaniaethol, bydd y plant yn mynegi'r hyn sy'n cael dylanwad ar eu hapusrwydd o fewn eu systemau micro a meso (Bronfenbrener, 1978; Mertoglü, 2020), o fewn y dosbarth a thu allan yn yr ysgol, ac mewn perthynas â'r bobl y profiadau a'r rhyngweithiadau y maent wedi eu profi tra yno (Vygotsky, 1978; Laevers, 2015).

Cydnabu ymchwilwyr (Cohen, Manion a Morrison, 2018; Kajamaa *et al.*, 2020) fod dewis y dull hwn yn heriol gan nad oes un modd penodol cywir o'i weithredu. Mae gweithredu'r dull Mosaic gyda'r Model Rhesymeg wedi caniatáu adnabod y man cychwyn i'r ymchwiliad.

Wrth ddatblygu'r ymchwiliad ymhellach i ddefnyddio model Braun a Clarke i ddadansoddi'r data a gasglwyd, (Ffigwr 15), gwnaeth ganiatáu trefn meddwl o ran sut gellid gwneud synnwyr o'r data gan ddefnyddio strategaeth côdio er mwyn rhannu'r data (Braun a Clarke, 2022). Nid yw casglu data mewn gweithdrefnau ansoddol medd Akinyode a Kahn (2018) wedi'i gyfyngu gan gategorïau ond mae'n caniatáu i themâu ddod i'r amlwg

Mae methodoleg aml-ddull yn benthyg ei hun i gasglu tystiolaeth o ffynonellau amrywiol gan edrych ar y sefyllfa o wahanol gyfeiriadau (Salmonds, 2021), sef yr hyn a wnaed o fewn yr ymchwiliad hwn (CY1) wrth gasglu tystiolaeth o blith plant o fewn eu hysgolion.

Cefnoga Banks (2018) Wiles *et al.* (2008) a Lundy (2007) fod y defnydd o ddulliau gweledol yn hanfodol wrth ystyried plant, yn enwedig plant ifainc fel cyfranogwyr o fewn ymchwil gan eu bod yn caniatáu iddynt fedru cyfathrebu mewn moddau sy'n gyfarwydd ag adnabyddus iddynt. Cyflwyna deunydd gweledol megis lluniau, paentiadau a ffotograffau giplun o gymdeithas fechan y plant (yr ysgol) na ellid o bosib eu cyflwyno i'r un graddau mewn geiriau (Banks, 2018).

Yn yr ymchwiliad hwn, lluniau'r plant yw'r modd cyntaf y defnyddiant i gyfleu eu dealltwriaeth o hapusrwydd. Mae'n eu harfogi i ddefnyddio sgiliau eraill heblaw am ynganu'n unig i egluro eu dealltwriaeth a'u profiadau (Clark, 2017). Mae hyn yn cynorthwyo'r plant ieuangaf sydd â llai o eirfa i fedru mynegi eu hunain ar lafar yn unig. Cynigia'r dulliau aml gyfrwng hefyd gyfle i'r plentyn fod yn ymchwilydd cymdeithasol (Creswell a Creswell, 2018), drwy gynhyrchu a myfyrio ar ei gasgliad er mwyn dogfennu ei fywyd o fewn yr ymchwiliad yma. Wrth dderbyn cyfleoedd i drafod y deunydd ymhellach gwna grisialu ei ddealltwriaeth o beth mae hapusrwydd yn ei olygu i'r unigolyn wrth iddo ail gydio yn y profiad hwnnw. Wrth gasglu'r data ar gyfer Cwestiwn Ymchwil 1, wedi i'r plant greu eu cynnyrch gweledol fe drafodant eu lluniau ar lafar, yna mynd ar deithiau trafod i dynnu ffotograffau o beth sy'n eu gwneud yn hapus.

3.6 Ymchwil cyfranogol gyda phlant ifainc

Teimlaf fod cynnwys plant ifainc fel cyfranogwyr canolog medrus o fewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt fel egwyddor sylfaenol yn anochel i'm gwerthoedd a'm credoau ac fel ymchwilydd ac addysgwraig (Williams - Brown a Mander, 2021; LI C, 2019; Demetriou, 2019; CCUHP, 1989). Ystyriaif fod deall yr hyn sy'n dylanwadu ar hapusrwydd y plentyn yn fanteisiol i oedolion sy'n addysgu plant ifainc er mwyn medru gwireddu syniadaeth blentyn canoledig sy'n allweddol fel rhan o addysg gynradd yng Nghymru. Cadarnhawyd y syniadaeth yma ymhellach tra ar

ymweliad i leoliadau blynyddoedd cynnar yn Sweden a darpariaethau blynyddoedd cynnar Reggio Emilia yn yr Eidal yn ystod wythnosau astudio. Yn y ddau achos, profwyd yn uniongyrchol y defnydd canolog a wnaed o wyllo a gwrando ar blant gan amserlenni amser i oedolion wneud hynny yn rheolaidd.

Cyflwynwyd ar ddechrau'r ymchwiliad yma, y rhesymeg dros ddewis hapusrwydd plant ifainc fel canolbwynt, gan fod lles a llais y plentyn wedi bod yn obsesiwn ymchwiliol personol ers tro byd. Mae'r gwaith yn dilyn safiad lluniadaeth gymdeithasol sy'n unol â safbwynt sy'n seiliedig ar hawliau plant, a oedd yn rhan greiddiol o'r modd aed ati i weithredu'r ymchwiliad. Cadwyd felly yr erthyglau canlynol gan Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau plant yn ganolog sef y 'dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant bob amser wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn'(Erthygl 3),bod gan bob plentyn 'yr hawl i ddweud beth ddylai digwydd ac i rywun wrando' arno (Erthygl 12) ac yn ogystal yr 'hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol' (Erthygl 28), a'r 'hawl i fod y gorau gallant fod' (Erthygl 29) (CCUHP, 1989; complantcymru.org, 2024).

Dylid pwysleisio yma, bod y dosbarthiadau a'r gofodau wedi eu cynllunio yn bennaf gan athrawon y plant, a gwnaeth y plant sôn am y dylanwadau ar eu hapusrwydd o fewn y gofodau yma. Felly medrid dadlau nad dylanwadau 'gwreiddiol' ar hapusrwydd y plant yw'r rhain, ond yn hytrach rhai oedd yn eu lle yn barod, a wedi eu llunio o ddealltwriaeth eu hathrawon o beth sy'n addas ac yn fwriadol yn addysgegol (Chicken, 2023). Cynigïaf drwy gyfrwng y data bod gwrando ar leisiau amrywiol y plentyn drwy wahanol gyfryngau'n medru bod o fantais i athrawon. Wrth ystyried cynllunio a gweithredu darpariaeth ac wrth sicrhau lles yr unigolyn ac o ganlyniad yn cyfrannu at sefydlu amgylcheddau a chyfleoedd lle bydd plentyn yn ffynnu yn gorfforol, yn gymdeithasol, yn wybyddol ac ysbrydol.

Dechreuwyd ar y gwaith gan ystyried y cyd-destun sef hapusrwydd plant a phwysigrwydd cynnwys llais y plentyn o fewn yr ymchwil. Mae cynnwys plant fel partneriaid ymchwil yn ymateb i Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant (UNCRC, 1989) sef bod gan blant yr hawl i ddweud eu barn pan fod oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Noda sefydliad Participation works (2018), wrth gyflwyno modd i gynnwys plant o fewn penderfyniadau, y cydnabyddir eu hawliau dynol. Mynega Wall *et al.* (2019), er bod

swmp o ddeunydd wedi ei gynhyrchu am hawliau plant yn enwedig yr hawl i fynegi barn am yr hyn ddigwydd iddynt, mai prin yw'r deunydd am hyrwyddo lleisiau plant ifainc o fewn cyd destunau pob dydd neu o fewn ymchwil. Mae'r cysyniad nad oes gan blant ifainc ddim i'w gynnig, neu na ellid dibynnu ar eu dehongliadau yn un sydd wedi dyddio bellach (Cremin a Burnett 2018; Clark, 2017, Kim *et al.*, 2017).

Tanlinella Hammersley (2017), na ddylid cymryd barn oedolion am fywydau plant fel diffiniad cywir fel y gwneir yn gyffredinol gan na all oedolion ddarogan meddyliau plant. Atega McGovern (2020) a Horgan (2017), fod cydnabod lleisiau plant ifainc o fewn ymchwil yn eu sefydlu fel asiantau gweithredol sydd â'r gallu i ddylanwadu ar addysg neu agweddau eraill ar eu bywydau. Gwelir felly sut llenwa'r ymchwiliad hwn fwll wrth gydnabod plant ifainc yn ymchwilyr cyfartal drwy eu cynnwys o fewn proses o gasglu a dadansoddi'r data.

Dylid hefyd diffinio eto beth ystyrir yn 'lais' o fewn y gwaith hwn (Taylor a Robinson, 2011). Mae'n fwy na'r hyn a ddywedir ar lafar, ac yn cynnwys strategaethau sydd yn ategol i eiriau, yn ddehongliadau gweledol a chlywedol a fedr gyflawni mwy na geirfa plant ifainc yn unig. Rhydd gyfleoedd i'r plant fynegi eu hunain mewn moddau sy'n naturiol iddynt o fewn eu bywyd ysgol (Clark, 2017). Yn y moddau hyn medrant ddehongli drwy eiriau, darluniau, ffotograffau a mynegiant corfforol o'u profiadau personol. Hyrwydda casglu amrywiaeth o ddata gan blant ein dealltwriaeth o'r dylanwadau amgylcheddol ar eu hapusrwydd gan atseinio'r meddylfryd bod plant yn arbenigwyr ar eu bywydau eu hunain (UNCRC, 1989).

Un ffactor ychwanegol roedd yn rhaid ei ystyried o fewn yr ymchwiliad oedd cynnwys cyfranogwyr Cymraeg ac eraill yn ddwyieithog, felly un penbleth oedd dewis ym mha iaith y cyflwynid y wybodaeth honno. Holwyd y cyfranogwyr yn eu mamiaith (Cymraeg neu Saesneg) er mwyn casglu'r dystiolaeth ond o ran rhannu'r data o fewn y gwaith yn weledol rhaid oedd penderfynu ar y ffordd fwyaf addas ac egwyddorol o wneud hynny. Roedd dwy ran o dair o'r data a recordiwyd wedi'u casglu'n wreiddiol yn y Saesneg a theimlwyd yn gryf er mwyn sicrhau cywirdeb a bod yn driw i'r cyfranogwyr, y dylai'r ymatebion ymddangos yn yr iaith wreiddiol o fewn y gwaith gorffenedig.

Mae trosi deunydd a data maes i waith ymchwil yn broses llawn cymhlethdodau, a'r penderfyniadau a'r dewisiadau y mae'r ymchwilydd yn eu gwneud yn y ffordd mae'n

defnyddio'r damcaniaethau sy'n dylanwadu ar y dadansoddi a'r dehongli (Lapadat a Lindsay, 1999). Mae'r broses yn fwyfwy cymhleth os yw'r data'n ddwyieithog neu'n amlieithog (Halai, 2007). Gall cyfieithu groesi ffiniau dau ddiwylliant, er bod y mwyafrif o'r cyfranogwyr 90% o'r plant yn frodorol o Gymru, mae'r ystyriaeth ieithyddol yn benodol yn un i'w uwchleuo. Wrth wraidd dewis y dull cyfweld, yw'r diddordeb mewn deall profiad pobl eraill a'r ystyr y rhoddant i'r profiad hwnnw (Seidman, 1991). Cyflwyna Duranti (1997) y farn, fod trawsgrifio gair llafar yn destun yn llawer mwy na ysgrifennu'r hyn a ddywedir. Diffinia Duranti (1997) trawsgrifio fel techneg ar gyfer y gosod (e.e., ar bapur, ar sgrin cyfrifiadur) digwyddiadau dros dro (e.e. ymadroddion, geiriau) at ddiben dadansoddiad (Duranti, 1997). Ychwanega Greer (2003) restr o rai o'r heriau cynhenid wrth drawsgrifio data amlieithog, sef: (a) cyfieithu, (b) dewis sgript ar gyfer cynrychioli data a gyfieithwyd, (c) a ddylid cynnwys y testun a gyfieithwyd yn y sgript, ac (ch) lleoliad sgript o'r fath a'r defnydd o ffont.

Penderfynais o reddf ddilyn yr hyn a ystyriais yn fwyaf moesegol a'n unol ag un o ddulliau Kostoulas (2014) sef cyflwyno'r data gair am air (verbatim), yn yr iaith a'u casglwyd, gyda chyfieithiad i'r Gymraeg lle bo hynny'n briodol. Teimlais mai gweithredu yn y modd sydd mwyaf dilys a thryloyw a cheidw at y modd gwirioneddol y cyrchwyd y data drwyddo. Mae'n fanteisiol i ddarllenwyr ymgysylltu â'r gwaith yn ei ffurf wreiddiol. Yn ôl Kostoulas (2014), mae hyn yn arddangos y daith ymchwil yn gliriach ac yn rhoi dibynadwyedd i'r data. Rwyf wedi ymrwymo i fethodolegau a dulliau cyfranogol mewn ymchwil a gynhaliwyd gyda'r sawl sy'n cyfranogi o fewn yr ymchwiliad hwn, y plant a'u hathrawon. Ni ellid mynd i'r afael â'r ymchwiliad heb i leisiau'r cyfranogwyr hyn fod yn ganolog i'r gwaith (Clark, 2017; Parsons, 2012).

3.7 Ymchwil cyfranogol gydag oedolion – Cwestiwn Ymchwil 2

Yn yr un modd â chynnwys lleisiau plant o fewn ymchwil sy'n cyfeirio at eu bywydau, rwyf o'r farn bod lleisiau'r oedolion sy'n rhan o'r gymuned honno yn bwysig i'w hystyried yn ogystal, gan eu bod yn gwneud y penderfyniadau o fewn yr ysgol sy'n dylanwadu ar hapusrwydd y plant. Roedd deall safiad yr athrawon o ran

pwysigrwydd hapusrwydd y plant a'u hystyriaeth ohono o fewn eu cynllunio yn allweddol.

Mae annog athrawon i ymgymryd ag ymchwil fel rhan o ddatblygiad proffesiynol yn cael ei argymhell i'r proffesiwn yng Nghymru (LI C, 2018). Datblygwyd strategaeth genedlaethol Cymru ar gyfer ymchwil ac ymholiad addysgol yn 2021 er mwyn *harneisio ymchwil i wella polisi ac arfer mewn addysg*' (LI C, 2021). Nod y strategaeth yw hyrwyddo'r ddeialog rhwng ymchwilwyr academiaidd ac ymarferwyr er mwyn grymuso'r proffesiwn yn seiliedig ar ymchwil ac i adeiladu ar ehanger a chyfoeth y profiadau dysgu a gynllunnir i blant (LI C, 2021).

Gellid cyfeirio at Gwestiwn Ymchwil 2 yr ymchwiliad hwn fel ymholiad i ymarferwyr a'i gydnabod fel modd i ddatblygu dealltwriaeth o ffyrdd i dynnu ar ddamcaniaeth er mwyn gwella deilliannau addysgol buddiol i'r disgyblion (Gutierrez, 2019). Nodwyd eisoes bod ymgymryd ag ymchwil yn medru bod yn feichus i athrawon ar ben gofynion niferus beunyddiol eraill. Roedd 4 o'r 6 o athrawon a gyfranogodd i'r ymchwiliad hwn wedi bod yn rhan o ymchwiliadau ysgol ganolog ynghynt (Ysgol 1, Ysgol 3) ac athrawon Ysgol 2 yn awyddus i gychwyn ar ymchwilio o'r newydd. Mae gweithredu'n ymchwil-weithgar yn greiddiol i feddylfryd Cwricwlwm i Gymru wrth i ysgolion fynd ati i ddylunio eu cwricwlwm ar sail anghenion cymunedol ac unigol y plant. Ystyrir os yw ymarferwyr yn ymgymryd â dysgu proffesiynol, dylent fod yn glir ynghylch sut y mae ymchwil yn cefnogi eu gwaith mewn perthynas â'r safonau proffesiynol (LI C, 2020). Golyga hyn i'r ymchwiliad hwn bod y trafodaethau a'u cynhaliwyd o flaen llaw yn glir o ran pwrpas a phernasedd y gwaith a sut fedr fod o fantais broffesiynol i'r athrawon a ddewisodd gyfranogi.

Ar gychwyn yr ymchwiliad ceisiwyd cyfranogiad penaethiaid yn gyntaf, mewn egwyddor, ac yna fe ofynnnon hwythau am fynegiant o ddiddordeb gan eu staff i fod yn rhan o'r gwaith. Roedd hyn yn siwrhau na osodwyd unrhyw bwysau ar unigolion i gyfrannu a bod yr athrawon yn gwirfoddoli gan fod ffocws canolog yr ymchwil, sef hapusrwydd plant o ddiddordeb iddynt. Holwyd pum ysgol ar ar y dechrau a sicrhawyd ymglymiad tair wedi iddynt dderbyn gwybodaeth bellach am swmp a sylwedd yr ymchwiliad a llinell amser y casglu data.

Nod yr ymchwiliad o ran Cwestiwn Ymchwil 2 oedd darganfod dulliau presennol cynllunio'r athrawon ac amgyffred a yw'r wybodaeth am hapusrwydd y plant yn eu

dosbarthiadau yn medru cyfrannu at eu cynllunio a'u monitro o'r ddarpariaeth a gynigir ganddynt. Cyd-adeiladu dealltwriaeth yn unol â damcaniaeth lluniadaeth gymdeithasol y gwnawn ar gyfer yr ymchwiliad hwn (Clark, 2017). Trafod, darganfod, dadansoddi a chyflwyno'r modd y medrir gwella ein dealltwriaeth o hapusrwydd plant ac yn ei dro, o bosib, y profiadau a dderbyniant fel rhan o'u haddysg. Fel yn achos CY 1, mae'r berthynas rhwng ymchwilydd a chyfranogwyr yn bwysig i'w chynnal drwy gydol ymchwiliad i sicrhau cysondeb a thryloywder o'r trefniadau gogyfer casglu'r data a'r modd y'u deallir (Mayer a Menter, 2021; Parsons, 2021).

Fe ddylai ymchwil sy'n canolbwyntio ar ymarfer ymwneud yn greiddiol â chael effaith ar ymarfer ac, felly, mae perthynas effeithiol rhwng ymchwil ac ymarfer yn golygu mynd i'r afael â materion pŵer a democrateiddio (Parsons, 2021; Elis a Loughland, 2016). Mae CY2 yn ymwneud yn benodol ag ymarfer yr athrawon ac felly rhaid ystyried materion o bŵer ac agweddau sensitif a allai godi o ymatebion yr athrawon yn ystod sgysiau. Er mwyn osgoi teimladau anghysurus ymysg yr athrawon gwnes eu cadw yn rhan o'r trafodaethau gan eu hysbysu drwyddi draw o'r bwriadau cyn gwneud unrhyw benderfyniadau fel eu bod yn teimlo'n gyfforddus i rannu a chyfranogi. Rhannwyd y cwestiynau y bwriadwyd eu holi i'r cyfranogwyr gyda grŵp o athrawon eraill cyn eu gweini o fewn yr ymchwiliad hwn, er mwyn derbyn adborth o ran addasrwydd a theimladau'r athrawon a lefel yr holi a allai greu ymdeimlad o anesmwythder.

Soniwyd ynghynt bod yr athrawon sy'n rhan o'r ymchwil yn gyfarwydd i mi fel cydweithwyr proffesiynol. Ystyrir yn ogystal yr hyn dywed Yu (2011) (yn ei ymchwil yn ymwneud ag adnabod y berthynas rhwng yr ymchwilydd a'r athro) - bod yn gyffredinol, amharodrwydd gan athrawon i ymgymryd ag ymchwil o achos diffyg diddordeb, amser neu eu canfyddiad o'u briodoledd (Yu, 2011). Mae cred gyffredinol ym maes hyfforddi cychwynnol athrawon y dylai addysgwyr fabwysiadu "arfer 'ymchwiliol'" (Lingard a Renshaw, 2010). Hynny yw, y gall, ac fe ddylai athrawon fod yn athrawon ac yn ymchwilwyr. Mewn gwrthgyferbyniad cyfeiria Bakker a van Eerde (2015) at farn Hattie (2012) nad oes yna unrhyw dystiolaeth i gefnogi bod ymchwil agos i arfer yn gwella ymarfer dosbarth. Nid yw hon yn farn a rennir o ran arfer yng Nghymru.

Mae'r berthynas rhwng ymchwilydd a chyfranogwr felly yn un a all fod yn gymhleth (Bergmark, 2020; Yu, 2011). Ymhlith yr enghreifftiau o waith ymchwil sydd yn bodoli eisoes, cyflwyno Yu (2011) ddull o 'ddysgu ar y cyd' - dull a all hyrwyddo cydweithio rhwng yr ymchwilydd a'r athro. Nid ceisio gwella arfer drwy ymyrraeth ar y cyd yw nod yr ymchwiliad hwn. Gwelir bod potensial cadarnhaol i'r math hwn o berthynas ond o achos y math o gwestiynau y ceisir eu hateb, cyfyngder amser a sefyllfa gyfredol pandemig Covid, ni fyddai hwn wedi bod yn opsiwn ar gyfer yr ymchwiliad. Yn ogystal efallai byddai gwneud ymchwil o'r fath wedi achosi cymhlethdodau pellach mewn perthynas â gwahaniaethau o ran barn addysgegol rhyngof a'r athrawon a fyddai'n dylanwadu ar y dulliau casglu data neu'r gweithgarwch a gynllunnid (Bergmark, 2020; Menter, 2017).

Drwy ddefnyddio dull cyfranogol a sylfaen lluniadol cymdeithasol gwnaed pob ymgais i osgoi creu sefyllfa lle mae'r athrawon (a'r plant) yn teimlo fel gwrthrychau (Bergmark, 2020). Mae gennyf fel ymchwilydd oblygiadau moesegol o ran gofal sy'n ymwneud a'r berthynas rhyngom a lleoliad yr ymchwiliad (Noddings, 2013).

3.8 Ystyriaethau Moesegol

'Including child participants in research, as respondents...raises ethical and legal dilemmas about children's rights and the obligations of the researcher.'

Fraser et al (2007, t. 43)

Mae cynnwys plant o fewn ymchwil fel cyfranogwyr medrus, erbyn hyn yn gyffredin o fewn disgyblaethau'r gwyddorau cymdeithasol (Demetriou, 2019; Farrell, 2007). Law yn llaw â'r cynnydd o fewn y maes, daeth i'r amlwg bod rhaid sicrhau ac amddiffyn plant a'u hawliau fel unigolion. Noda Cribb (2004) fod ymddwyn yn foesegol yn deillio o'r awydd i gydymffurfio. Mae ein hystyriaeth o blentyndod wedi esblygu i un sy'n ystyried plant yn alluog ac yn abl i gyfranogi neu dynnu yn ôl o ymchwil (Farrell, 2007; Mackay, 1991; Early Education, 2014). Atega Farrell (2007) dylid ar y cychwyn

ystyried i bwy ac i ba bwrpas yr ymgwymerir â'r ymchwil, yna meddwl o ddifrif a yw'n foesegol addas i barhau.

Mae anniddigrwydd wedi bodoli o fewn nifer o sefydliadau am gynnwys plant o fewn ymchwil, aniddigrwydd a wnaeth wrthdroi eu cynnwys am gyfnod yn ystod 60au'r ganrif ddiwethaf (Tudge *et al.*, 1996). Serch hynny, sefydlwyd deunydd grymus o fewn y byd ymchwil dros y ddau ddegawd nesaf a ddiogelodd gyfranogiad plant gan sicrhau na fyddent o dan anfantais o achos eu hoed na'u cam datblygiadol (Christiansen a James, 2000). Dywed Greene (1994) fod y twf o ran bodlonrwydd yn ystod y 90au yn deillio o waith a syniadau a ddarganfuwyd o'r newydd gan Bronfenbrenner a Vygotsy, a oedd yn tanlinellu pwysigrwydd cydnabod bod plant eu hunain yn asiantau gweithredol wrth greu eu bywydau eu hunain.

Sicrhawyd bod yr ymchwil yn unol âg egwyddorion a chanllawiau moesegol Cymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain (BERA) (2024), sef y dylid ymgymryd ag ymchwil o fewn y gwyddorau cymdeithasol gydag integreidd gan sicrhau ein cyfrifoldeb cymdeithasol wrth gasglu a rhannu'r data a gasglwyd. Pwysig nodi yma, er cynhaliwyd yr ymchwil cyn cyhoeddi'r fersiwn diweddaraf o ganllawiau moesegol Cymdeithas Ymchwil Addysgiadol Prydain (BERA) yn 2024, mae'r adrannau y cyfeirir atynt yn yr astudiaeth hon yn parhau i fod yn gyson o ran cynnwys rhwng y fersiynau cynharach a chyfredol. Er mwyn sicrhau tryloywder a chynnal trylwyrdd moesegol, rwyf wedi dyfynnu'r fersiwn ddiweddaraf o ganllawiau BERA (2024). Mae'r ymagwedd hon yn tanlinellu perthnasedd parhaus yr egwyddorion moesegol hyn i'r ymchwil ac yn adlewyrchu fy ymrwymiad i gynnal aliniad â'r safonau mwyaf diweddar yn y maes.

Cadwyd hefyd at y canllawiau hynny o ran sicrhau addasrwydd y dulliau ymchwilio, ac wrth geisio cydsyniad a chaniatad a hawliau plant i gyfranogi. Dilynwyd canllawiau moesegol Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) (2022) i sicrhau gonestrwydd wrth ymchwilio, gofal a pharch at bob cyfranogwr, tryloywder wrth drafod yr ymchwiliad, yn ystod casglu'r data ac wrth gyflwyno'r canlyniadau. Sicrhawyd hefyd y dilynwyd polisïau'r ysgolion oedd yn ymwneud â'r ymchwil o ran diogelu plant, gofynion awdurdodau lleol a chanllawiau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant (CCUHP) (1989).

Yn achos hawlio cydsyniad moesegol gan PCYDDS, wrth i'r ymchwiliad ddatblygu, roedd yr hyblygrwydd, i fedru gwneud mân addasiadau i'r bwriadau gwreiddiol yn fanteisiol. Wrth gynnwys plant a staff fel cyd-gyfranogwyr ac 'arbenigwyr' roedd yna ambell gyd-destun yn codi yn anochel rhwng ymweliadau â'r ysgolion o achos esblygiad naturiol yr ymchwiliad lle byddai angen sicrhau cydsyniad y panel moeseg cyn parhau megis ategu dogfen adborth neu holiadur i'w chymeradwyo. Yn achos defnyddio rhai mathau o ddata, gan nad yw'n ganiataol o achos materion cyfrinachol ffotograffu rhai plant, rhaid oedd cydymffurfio â gofynion polisiâu sirol ysgolion o ran defnyddio ffotograffau a ffilmio. Hefyd os penderfynnodd y plant nad oeddynt am fod yn rhan o'r ymchwil medrant dynnu dol ar unrhyw adeg gan fynegi hyn neu gan ddangos y cerdyn coch (Gweler Atodiad 5).

Fel rhan o'r ystyriaethau moesegol ac er mwyn derbyn cydsyniad y plant (CY1) eglurwyd bwriad yr ymchwiliad i'r plant, sef dod i ddeall 'beth sy'n creu ymdeimlad o hapusrwydd i'r plant tra eu bod yn yr ysgol'. Roedd cydsyniad y plant bod deall hyn yn bwysig yn amlwg o'u hymatebion gydag un yn datgan "That is extremely important" (P2, Y1). Roedd yn bwysig i mi sicrhau eu bod yn deall y rhesymeg dros ymgymryd â'r ymchwiliad, gan nad oeddwn yn aelod llawn o'r tîm addysgu. Credir bod gosod gweithgarwch o fewn ei gyd-destun yn arddangos parch at y plant a phriodoledd y dasg i'w bywydau.

Er mwyn sicrhau naturioldeb yr ymchwil lleolwyd y tasgau darlunio, y trafodaethau a'r teithiau darganfod o fewn amgylcheddau ysgol arferol y plant, penderfyniad a fyddai'n gwneud y data'n fwy ystyrlon (Greene a Hogan, 2006; Clark, 2017) gan y cytunaf â'r farn bod bodau dynol yn bodoli o fewn eu gyd-destun ac o ganlyniad a ddylanwada arno (Laevers, 2015; Bronfenbrenner, 1979). Roedd hyn yn sicrhau bod y plant yn gyfarwydd â'r lleoliadau ac yn medru defnyddio'r ardaloedd, yr adnoddau'n a'r offer yn uniongyrchol wrth ddisgrifio'r dylanwadau ar eu hapusrwydd.

Ystyriwyd moeseg yn fanwl o fewn yr ymchwiliad a sicrhewyd bod yr ymchwilydd wedi derbyn cydsyniad gan yr holl gyfranogwyr. Cynhwysa'r rhain cydsyniad y staff a'r rhieni gan osgoi cynnwys ffotograffau o unrhyw blant neu oedolion, naill ai'r sawl oedd yn rhan o'r ymchwil neu blant eraill nad oeddynt yn rhan o'r ymchwil yn unol â chanllawiau'r British Educational Research Association (BERA, 2024).

Sicrhawyd na ddaeth unrhyw niwed i'r plant drwy bwysu arnynt yn ormodol i gyfrannu a allai fod wedi dylanwadu ar eu lles (BERA, 2024) drwy fabwysiadu cyfnodau byrion addas ar gyfer cynnal diddordeb a chanolbwyntio'r cyfranogwyr. Defnyddiwyd iaith addas a pherthnasol y byddai'r plant yn ei deall er mwyn osgoi unrhyw gam ddealltwriaeth. Ymdriniwyd â'r deunydd yn sensitif a chyda gofal (PCYDDS, 2022), er enghraifft lle roedd angen 'niwlwyd' wynebau plant ac oedolion o fewn y ffotograffau fel na ellir adnabod plant wrth ymdrin â'r data, a chadwyd y deunydd dan glo wedi i'r ymchwili ddod i ben hyd at nes medrid ei ddifa.

Yn achos y trafodaethau gyda'r plant, yn dilyn creu eu cynhyrchion, ceisiwyd cydsyniad gan yr athrawon er mwyn canfod eu diddordeb i rannu eu cynhyrchion gyda rhywun arall - canfu fod digon yn awyddus i gyfranogi a danfonwyd llythyron at eu rhieni i dderbyn eu caniatâd (Atodiad 3). Yna, cyn y trafodaethau ddigwydd, gwnes hawlio eu cydsyniad gan ofyn iddynt lenwi ffurflen a lliwio bodiau cyn parhau a'r trafodaethau, y teithiau a'r adborth gweler Atodiad 5. Gwnaethant hefyd arddangos cerdyn i ddynodi eu bod yn hapus i barhau yn ystod y trafodaethau. Hawliwyd cydsyniad parhaus drwy gydol y cyfnod casglu data oddi wrth y plant a'r athrawon.

Cynhaliwyd y gweithgarwch trafod gyda'r plant mewn ystafelloedd agored lle roedd staff eraill yn medru gweld yr hyn oedd yn digwydd, ond nid oedd gormod o darfu gan eraill yn mynd a dod. Roedd hyn yn sicrhau gofynion diogelu a bod yr unigolion yn teimlo'n gyfforddus i drafod a heb fod o dan bwysau (Farrell, 2007). Cydnabuwyd fod yn rhaid ystyried moeseg ymchwil cyn cyfweld megis derbyn caniatâd, egluro'r bwriad i'r cyfranogwyr a sicrhau hygrededd a thegwch wrth gynnal y cyfweiliadau. Yn ogystal dylid bod yn wyliadwrus o'r eirfa a ddefnyddir, iaith y corff a lleoliad eisteddleoedd y cyfranogwyr (Clark, 2017; Simmons, 2009). Ystyriwyd yr uchod cyn y cyfweiliadau gyda'r staff a'r plant i osgoi ymdeimlad o bwysau.

Ni ffocyswyd ar oed a rhywedd fel prif faterion gan mai ffocws ar y profiadau sy'n dylanwadu ar hapusrwydd y plant oedd bwysicaf. Mae cadw ffocws yn gytûn â barn Groundwater-Smith (2015) sef cydnabod bod y plentyn yn ddinesydd ac yn unigolyn nawr. Ystyriwyd materion o berthnasau, o ddewis cyfranogi ai peidio, o gyd destunau amrywiol, o gyfrinachedd a gofal o'r unigolyn gan gadw at gôd ymarfer moeseg ac integreidd ymchwil PCYDDS (2022) a chanllawiau BERA (2024). Nodwyd o fewn y

ffurflen foeseg, pe byddai plentyn yn datgelu unrhyw wybodaeth a ystyriwyd yn fater o bryder, y dilynid trefniadau a phrotocol yr ysgol o ran materion diogelu plant. Yn achos yr athrawon dilynir canllawiau moesegol a enwyd eisoes o ran cydweithrediad, tryloywder a chyfrinachedd, a phe wna'i yr athrawon ddatgelu unrhyw fater o bryder yna trosglwyddid y wybodaeth at y pennaeth. Wrth gasglu'r data, ni chafwyd unrhyw reswm i osod y gweithredoedd hyn ar waith.

Wrth ystyried cyfrinachedd yn rhan o'r ymchwiliad. Sicrhwyd cyfrinachedd gan weithredu strategaethau penodol i ddiogelu preifatrwydd a gwybodaeth bersonol cyfranogwyr, boed yn blant, athrawon, neu randdeiliaid addysgol eraill (PCYDDS, 2022; Cohen, Manion a Morrison, 2018). Dyma rai camau ymarferol cymerwyd i sicrhau cyfrinachedd:

Cyn casglu'r data sicrhwyd derbyn cymeradwyaeth foesegol gan banel moeseg ymchwil PCYDDS. Gwnaeth hyn yn sicrhau bod yr astudiaeth yn bodloni safonau moesegol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chyfrinachedd.

Hysbyswyd y cyfranogwyr a cheidwaid y plant drwy gynnig am ganiatâd gwybodus (Atodiadau 3 - 5). Eglurwyd o fewn y wybodaeth sut bydd data'r cyfranogwyr yn cael eu defnyddio, eu storio a'u diogelu. Sicrhwyd bod y cyfranogwyr yn deall eu hawliau, gan gynnwys yr hawl i dynnu'n ôl os dymunent.

Derbyniwyd caniatâd a chydsyniad gan y cyfranogwyr, eglurir ymhellach drwy'r ymchwiliad pryd a sut y ceisiwyd y rhain yn ôl addasrwydd yr unigolion (caniatad drwy arwyddo gan athrawon a rhieni, cydsyniad drwy liwio a defnyddio cardiau lliw gan y plant).

Datblygwyd strategaeth bersonol anhysbysiad ar gyfer gwneud data'n ddienw i atal adnabod cyfranogwyr. Defnyddiwyd talfyriadau codau a oedd yn hysbys i mi yr ymchwilydd yn unig i fedru adnabod unigolion yn ystod casglu'r data a pharhawyd a'r un codau wrth leihau'r data (Braun a Clarke, 2022). Casglwyd y data angenrheidiol yn unig gan gyfyngu ar gasglu data i'r hyn sy'n hanfodol ar gyfer amcanion yr ymchwiliad.

Gwnaed yn sicr yr ymdriniwyd a'r data'n ddiogel gan ddefnyddio ddulliau diogel i gasglu data, megis arolygon ar-lein wedi'u hamgryptio neu ddeunydd papur wedi'u cloi. Storiwyd y data'n ddiogel gan ddefnyddio storfa ddigidol wedi'i hamgryptio neu

storfa gorfforol dan glo ar gyfer cofnodion papur (PCYDDS, 2022). Cyfyngwyd ar fynediad at ddata i bersonau awdurdodedig yn unig. Dilewyd neu guddio (niwlo) unrhyw wybodaeth a allai adnabod cyfranogwyr, megis enwau, rhifau adnabod myfyrwyr, neu fanylion personol penodol. Defnyddiwyd ddisgrifiadau cyffredinol er enghraifft Plentyn 2 Ysgol 1 neu Athrawes 3 Ysgol 2 yn hytrach na darparu manylion penodol a allai arwain at adnabyddiaeth.

Storiwyd data mewn copïau caled, megis darluniau'r plant a nodiadau bras yr ymchwilydd, o fewn cadwrfa dan glo, a deunydd a recordiwyd ar beiriant â chyfrinair a oedd yn hysbys i'r ymchwilydd yn unig. Dilynwyd arferion o gadw'r data gan unigolion ar ffurf lle mae'r ymchwilydd yn unig oedd yn medru adnabod awduron y cynnyrch a'i gadw am gyfnod at ddibenion yr ymchwiliad hwn yn unig i gychwyn gan ddilyn canllawiau PCYDDS (2022). Trwy ddilyn y camau hyn, sicrhwyd bod cyfrinachedd y cyfranogwyr yn cael ei gynnal trwy gydol yr ymchwiliad.

3.9 Caniatâd a chydysyniad y plant a'r athrawon

Mae ystyriaethau moesegol niferus wrth wneud unrhyw waith ymchwil, ond yn enwedig ymchwil sy'n cynnwys plant. Ar y naill law, ceisir diogelu'r unigolion, tra ar y llaw arall, cynnig cyfle iddynt fedru cyfranogi (Groundwater-Smith, 2015).

'Researchers have an obligation to act in ways that bring benefit and avoid harm' (ibid t. 48). Mae caniatâd a chydysyniad yn ddwy agwedd sy'n aml yn achosi pryderon. Sicrhwyd derbyn ymatebion gan yr ysgolion, rhieni a'r plant eu hunain ar gyfer y gwaith ymchwil hwn gan ddilyn canllawiau BERA (2024) a PCYDDS (2022) yn ogystal â Chod Moeseg Addysg Gynnar (Early Education, 2014).

Noda BERA (2024) y dylai ymchwilydd wneud popeth yn eu gallu i sicrhau bod pob cyfranogwr a chefnogwr yn deall bwriad yr ymchwil, pwrpas y gwaith, a sut defnyddir y wybodaeth. Mae gan athrawon, rhieni a'r ymchwilydd gyfrifoldeb i sicrhau bod y plant yn gyfforddus ac yn hapus i barhau drwy gydol yr ymchwil. Wedi derbyn caniatâd moesegol gan banel cydsynio PCYDDS, cysylltwyd â'r pedair ysgol drwy e-bost gan egluro bwriad yr ymchwil ac er mwyn derbyn eu cydsyniad mewn egwyddor yn y lle cyntaf. Yn dilyn eu cadarnhad, cynhaliwyd cyfarfod â'r penaeithiaid a'r staff a

fyddai'n cefnogi'r ymchwil i egluro'r gwaith. Y cam nesaf oedd i'r athrawon adnabod unigolion o'u dosbarthiadau a fyddai'n hapus i gyfranogi. Anfonwyd llythyr at y rhieni i dderbyn caniatâd yn egluro'r ymchwil a chaniatâd i ffotograffu ac i gyfweld eu plant. Yna, cynhaliwyd grŵp trafod gyda'r plant ymhob lleoliad er mwyn dod i adnabod a datblygu perthynas â'r cyfranogwyr a sicrhau eu bod yn hapus i gyfrannu.

Gelwir oedolion sy'n amgylchynu plant o fewn maes ymchwil yn geidwaid (Fraser *et al.*, 2012; Thomas, 2017) megis, er enghraifft, rhieni, gwarcheidwaid neu athrawon. Ystyrir y rhain fel y bobl sy'n diogeli plant rhag niwed, a dylent sicrhau y gwnânt gydymffurfio â hawliau plant gan ganiatáu i'r unigolion sy'n rhan o unrhyw ymchwil gyfrannu heb ofn (Masson o Fraser *et al.* (2012). Casglwyd tystiolaeth o ganiatâd yr oedolion ac ysgolion yn uniongyrchol drwy arwyddo ffurflen gydsynio. Eglurwyd nod yr ymchwil a sut defnyddid y wybodaeth a gesglid cyn cychwyn, a chynigwyd i'r cyfranogwr dynnu'n ôl cyn, yn ystod, neu ar ôl casglu'r dystiolaeth pe dymunent (Gweler Atodiad 5). Rhaid oedd egluro'r ymchwil i'r staff a'r rhieni gan ni ellid cymryd yn ganiataol bod ymddiriedaeth eisioes yn bodoli o achos cytundeb yr ysgolion â'r ganolfan hyfforddi athrawon. Gellid dinistrio perthnasau os nad eglurir o'r cychwyn y bwriadau a sut gallai'r data neu'r gwaith ymchwil elwa'r unigolion/ ysgolion neu ddylanwadu arnynt mewn ffyrdd eraill (Bell, 1993). Yn achos yr ymchwiliad hwn roedd recordio sain plant yn rhan o'r dystiolaeth, roedd angen sicrhau bod y rhieni yn cydsynio i'w plentyn:

- gyfrannu yn ymarferol
- gyfrannu ar lafar (cyfweliad)
- gael eu recordio

Y cam nesaf oedd sicrhau cyfranogiad y plant eu hunain o fewn yr ymchwil. Gwnaed hyn ar ddechrau'r sesiwn drafod gan egluro i'r plant y bwriad a sicrhau eu bod yn hapus i gyfranogi drwy liwio'r bodiau (gweler Atodiad 4). Ar ddechrau pob sesiwn roedd gan y plant ddwy garden, un goch ac un werdd, i'w harddangos cyn cychwyn ac, os oeddent am dynnu nôl yn ystod y sesiwn, yna byddent yn arddangos y cardiau hynny ar unrhyw adeg. Noda Clark (2017) fod sicrhau'r un manylder yn yr eglurhad i blant ac oedolion yn hanfodol. Datblygwyd perthynas â'r unigolion o flaen llaw fel bod yr ymchwilydd yn adnabyddus iddynt, a chynhaliwyd yr ymchwil o fewn

amgylcheddau cyfarwydd i'r plant fel nad oeddent yn teimlo o dan bwysau i gyfrannu. Ar gyfer Cam 2 (CY2) yr ymchwil cafwyd cydsyniad yr athrawon i fod yn rhan o'r ymchwil, ac eto cyn iddynt fod yn rhan o'r cyfweiliadau gwelir isod y camau cymerwyd i sicrhau cadwyd at foesege ymchwil yn ystod ail ran yr ymchwiliad.

Mynega Cohen, Manion a Morrison (2018) fod dulliau cymysg yn cael eu cydnabod fel modd i gynnig esiamplau o bobl go iawn mewn cyd destunau go iawn. Maent yn fodd i gydblythu data meintiol ac ansoddol ac un o'u cryfderau yw y medrant gynnig effeithiau o fewn y cyd-destun. Mae gan ddull Mosaic fantais o gynnwys arsylwadau uniongyrchol a chyfweiliadau gan gyfleu yn union sut mae i fod o fewn y sefyllfa honno. Galluoga hyn yr ymchwilydd i ddal '*close up reality and thick description*' o'r sefyllfa yn ôl Cohen *et al.* (2018, t.289). Gan fod y dull Mosaic wedi'i ymgorffori o fewn diwylliant yr unigolyn, cytuna ymchwilwyr ei fod yn ddull sy'n caniatáu casglu data sy'n adlewyrchu realiti, ac o ganlyniad yn ddarlun cywir o sefyllfa, er y dylid cydnabod y gall fod yn anodd ei drefnu (Clark, 2017; Creswell a Creswell, 2018; Cohen *et al.*, 2018). Ystyria mabwysiadu dulliau cymysg y cymhlethdod o fewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Yn achos yr ymchwiliad hwn mae'r ymchwilydd a'r cyfranogwyr yn rhan annatod o gasglu a dadansoddi'r data er mwyn darganfod y gwirioneddau a ymddangosant.

Mae cynnal ymchwil gydag athrawon yn cynnwys nifer o ystyriaethau moesegol er mwyn sicrhau bod yr ymchwil yn cael ei gynnal yn gyfrifol, yn parchu hawliau ac urddas y cyfranogwyr, ac yn cynhyrchu canlyniadau dilys a dibynadwy. Amlinellir yr egwyddorion moesegol allweddol y glynwyd atynt trwy gydol yr ymchwiliad hwn.

Yn achos caniatâd gwybodus ceisiwyd cyfranogiad gwirfoddol a hysbyswyd yr athrawon am ddiben, gweithdrefnau, risgiau a manteision yr ymchwiliad. Sicrhawyd cyfathrebu clir drwy sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu mewn modd dealladwy, hygyrch (ar lafar ac yn ysgrifenedig), gan gynnwys yr hyn y mae'r ymchwil yn ei olygu a sut y byddai'r data'n cael ei ddefnyddio (PCYDDS, 2022).

Fel yn achos y plant a gyfranogodd, hysbyswyd yr athrawon y gallent dynnu'n ôl o'r astudiaeth ar unrhyw adeg heb gosb. Yn achos cyfrinachedd a phreifatrwydd, tynnwyd dynodwyr cyfranogwyr o'r data er mwyn diogelu hunaniaeth y cyfranogwyr gan ddefnyddio talfyriadau megis A1 am Athrawes 1 ac yn y blaen. Roedd yr


ymatebion a gasglwyd gan yr athrawon wedi'u storio'n ddiogel dan glo neu ar gyfrifiadur wedi'i amgryptio a dim ond personél awdurdodedig oedd ar gael iddynt. Sicrhawyd parch at ymreolaeth yr athrawon trwy ganiatáu iddynt wneud penderfyniadau gwybodus am eu cyfranogiad(PCYDDS, 2022; Cohen, Manion a Morrison, 2018). Trwy drafod a chynllunio'r amserlen ymlaen llaw gyda'r athrawon, sicrhawyd nad oedd y casglu data yn amharu ar gyfrifoldebau proffesiynol athrawon nac yn creu gwrthdaro o ran eu rolau proffesiynol. Sicrhawyd tryloywder a gonestrwydd drwyddi draw yn cynnwys rhannu'r holl wybodaeth yn ymwneud â phwrrpas yr ymchwiliad, y gweithdrefnau, a'r canlyniadau yn glir i'r cyfranogwyr.

Cafwyd trafodaethau ar y cychwyn yn ymwneud â'r gwerth cymdeithasol a'r ffyrdd y gallai'r ymchwiliad, o bosib, gyfrannu'n gadarnhaol at wybodaeth addysgol, polisi, neu ymarfer. Yn achos ennill dealltwriaeth newydd trwy gyfranogiad, gwnaed y manteision posibl, uniongyrchol neu anuniongyrchol i'r athrawon neu'r gymuned addysgol yn amlwg. Dangoswyd parch at gyd-destun diwylliannol a chymdeithasol yr athrawon trwy fod yn ymwybodol ac yn sensitif i'r cyd-destunau diwylliannol a chymdeithasol roedd yr athrawon yn gweithio ynddynt, gan sicrhau bod y dulliau ymchwilio a'r cwestiynau yn briodol a pharchus – gwnaed hyn drwy drafod y bwriadau a gwirio ymlaen llaw, trwy dreialu gydag athrawon eraill i gael eu hymatebion priodol.

Trwy gydol yr ymchwiliad sicrhodd yr ymchwilydd fod agweddau moesegol yr ymchwil yn cael eu monitro'n barhaus, a bod yn barod i wneud addasiadau os byddai pryderon moesegol yn codi; fel oedd yn wir yn dilyn sefyllfa Covid 19 yn cael effaith ar gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Sicrhewyd bod canlyniadau'r ymchwiliad yn cael eu rhannu gyda chyfranogwyr a'r gymuned addysgol ehangach mewn modd sy'n hygyrch a defnyddiol a dangoswyd cydnabyddiaeth i gyfraniadau'r athrawon. Gwnaeth gweithredu'r egwyddorion hyn sicrhau fod ymchwiliad oedd yn ymwneud â'r plant (CY1) a'r athrawon (CY2), yn cael ei gynnal mewn modd oedd yn barchus, yn deg ac yn fuddiol i'r cyfranogwyr a'r gymuned addysgol ehangach.

3.10 Y sampl

Rhaid wrth gynllunio ymchwil wneud penderfyniadau yngyn â'r cyfranogwyr fel rhan o'r fethodoleg gan ddethol pa unigolion sy'n fwyaf addas i'w cynnwys er mwyn medru casglu'r data angenrheidiol er mwyn ateb cwestiynau'r ymchwil (Kimmons, 2022). Samplu cyfleus a phwrpasol a ddewiswyd ar gyfer yr ymchwiliad hwn.



Ffigwr 12 - Samplu cyfleus (Kimmons, 2022)

Mae sampl cyfleus yn cael ei dynnu o'r boblogaeth sy'n hysbys i'r ymchwilydd ac fel yr ymhlygir fwyaf cyfleus i'w cynnwys, yn achos yr ymchwiliad hwn, athrawon a disgyblion o fewn ysgolion y bartneriaeth sy'n addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Samplu cyfleus yw'r dull a ddefnyddir amlaf o fewn ymchwil addysgol (Kimmons, 2022; Vasileiou *et al.*, 2018). Er ei fod yn fodd addas, fe all fod yn broblematig gan nad oes modd cyffredinol i'r data i athrawon ar draws Cymru gyfan (yn achos yr ymchwiliad hwn). Teimlir serch hynny fod dethol athrawon ar draws tair sir yn fodd o'i dynnu ar gynrychiolaeth o'r gweithlu ar raddfa fechan a ellid ei uwchraddio pe bai angen.

Fe all samplau mewn ymchwil ansoddol addysgol fod yn fach, er mwyn sicrhau dyfnder y dadansoddiad sy'n seiliedig ar achosion sy'n sylfaenol i'r dull hwn o ymholi (Sandelowski, 1996). Yn ogystal, mae samplau ansoddol yn bwrpasol; hynny yw, wedi'u dewis yn rhinwedd eu gallu i ddarparu gwybodaeth gyfoethog, sy'n berthnasol i'r grŵp sy'n cael ei hymchwilio. Y dull a ddewiswyd ar gyfer yr ymchwiliad oedd dull samplu cyfleus oherwydd rhwyddineb cyswllt â'r ysgolion a phriodoledd yr ysgolion i ffocws yr ymchwil gyda phlant 3 – 7 oed. Yn ogystal, roedd dewis ysgolion ar draws De Ddwyrain Cymru'n cynnig ehangder pan ddoed at drafod yr achosion yn unigol a'u cyfuno os oedd data tebyg yn ymddangos ar draws y lleoliadau (Yin, 2018).

Dewiswyd ysgolion ar draws tair sir wahanol oedd yn wybodus i mi fel addysgwraig. O ran y cyfranogwyr neu'r unigolion, dull samplu 'bwriadol' a ddewiswyd gan ei fod yn 'feature of qualitative research where cases are hand picked...on the basis of their typicality or particular characteristics' (Cohen *et al.*, 2018, t. 218). Ystyriwyd pe dewisid ymestyn yr ymchwil i raddfa fwy - at bwrpasau eraill yn y dyfodol, gellid nes ymlaen ei ail-gynnal ar draws siroedd eraill.

Mae digonolrwydd sampl mewn ymholiad ansoddol yn ymwneud â phriodoldeb a maint y sampl. Mae'n ystyriaeth bwysig mewn gwerthusiadau o ansawdd a dibynadwyedd llawer o ymchwil ansoddol (Vasileiou *et al.*, 2018). Wrth ddewis sampl yr ymchwil, yr hyn fel arfer sy'n gyrru'r dewis yw rhwyddineb mynediad yr ymchwilydd a bod y grŵp yn gynrychioladol am resymau penodol (Yin 2017; Somekh a Lewin, 2012). O fewn yr ymchwiliad hwn, sampl fechan o blant 3 - 7 oed a'u hathrawon a geir ac oherwydd y syniadau lluniadol cymdeithasol, ni honnir eu bod yn gynrychioladol o'r holl boblogaeth ond, fe ellid tynnu rhai themâu tebyg a berthyn i'r cyfranogwyr o'r data a'i casglwyd.

Credir gan ymchwilwyr yn gyffredinol bod mwy o sampl yn sefydlu hygyrdd gwaith ymchwil (Ponce a Maldonado, 2017). Wedi dweud hyn, cred eraill bod lle i ymchwil gynnwys samplau bychain (Etz a Arroyo, 2015) a bod ymchwil sampl fach yn hollbwysig gan fod y cwestiynau ymchwil mewn samplau bach yn aml yn cynrychioli poblogaethau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol fel arfer; yn achos yr ymchwiliad hwn lleisiau plant ifainc. Gall ymchwil a sampl fechan hefyd gyfrannu at ein dealltwriaeth o grwpiau o wahanol wasgariad daearyddol yn addysgol (Van de Schoot a Miočević, 2020) sydd â'r potensial i arwain at well dealltwriaeth o rôl cydestun plant ifainc o fewn eu ddarpariaethau ysgol yn yr achos yma.

Gwahaniaetha Bassey (2001) rhwng cyffredinoli 'agored', lle hyderir y gellir allosod y gwaith y tu hwnt i'r canlyniadau o fewn data, i ddigwyddiadau tebyg; a chyffredinoli 'caeedig', sef canlyniadau na ellid eu hallosod i ddigwyddiadau tebyg. Gwna Bassey hefyd ddefnyddio'r term 'perthnasedd' wrth drafod ymchwil addysgol, sef y modd y gellid cysylltu'r ymchwil i'r hyn sy'n digwydd mewn ystafell ddosbarth arall. Er y gwna Bassey gydnabod mai cyffredinoli "agored" yw'r mwyaf defnyddiol mewn ymarfer addysgegol, gwna hefyd danlinellu bod perthnasedd y gwaith yn bwysicach na'i gyffredinoli (Bassey, 2001). Gan fod nifer y sampl o fewn yr ymchwiliad yma'n

fechan teimlir bod perthnasedd yr ymchwiliad i athrawon yn briodol. Gall gynnig cyfle i athrawon uniaethu a'r ymchwiliad a datblygu eu dealltwriaeth ymhellach o hapusrwydd plant ifainc, a ffyrdd o gynnig cyfleoedd i blant fynegi eu teimladau o fewn cyd-destun eu gwaith hwythau.

Mynega Cohen, Manion a Morrison (2018) bod ansawdd ymchwil yn dibynnu ar ddau beth sef - y fethodoleg a ddewiswyd ac effeithiolrwydd y dull samplu a fabwysiadwyd. Awgryma Cohen *et al.* (2018) y dylai penderfyniadau am y sampl ddigwydd yn gynnar, ac y dylid sicrhau bod y nifer sydd o fewn y sampl yn addas er mwyn medru tynnu casgliadau dilys. Yn ôl y llenyddiaeth (Creswell a Creswell, 2018; Yin, 2018) dechreuha ymchwilwyr profiadol gyda'r boblogaeth gyfan ac yna gweithio yn ôl hyd at y sampl, lle bydd rhai llai profiadol yn dechrau gyda'r sampl ei hun.

Mae Morse (2000) yn honni po fwyaf o ddata defnyddiadwy a gesglir megis yn achos yr ymchwiliad hwn, data dull gymysg, y lleiaf o gyfranogwyr sydd eu hangen. Rhaid i ymchwilwyr i ystyried paramedrau, megis cwrmpas yr astudiaeth, natur y pwnc, ansawdd y data, a chynllun yr astudiaeth (Morse, 2000). Nodwyd y rhesymeg dros y niferoedd eisoes a theimlir bod y sampl yn ddigonol i wireddu ateb cwestiynau'r ymchwil.

Yn achos y 9 cyfranogwr (plant) a 6 (athrawon) o fewn y sampl, roeddynt bob un yn ddisgyblion rhwng 3 - 7 oed ac yn mynychu'r ysgol llawn amser. Roedd 5 o'r cyfranogwyr yn ferched a 4 yn fechgyn - 3 phlentyn o bob ysgol. Roedd pob un wedi mynychu eu dosbarthiadau'n llawn ers dychwelyd wedi Covid ac eithrio P3 Y3 a oedd yn ddisgybl newydd i'r ysgol. O ran yr athrawon roedd y chwe athrawes wedi bod yn dysgu yn eu hysgolion/ dosbarthiadau ers dros 5 mlynedd, ni gadwyd gwybodaeth bellach o ran eu cefndir personol na addysgol gan nad oedd yn berthnasol i brif fwriad yr ymchwiliad..

Cwestiwn sy'n codi'n aml ymysg ymchwilwyr yw beth ddylai maint y sampl fod. Awgryma Gorard (2003) a Cohen *et al.* (2018) fod 30 yn rif a gydnabyddir fel isafswm addas o fewn ymchwil. Noda Vasileiou (2018) ei fod yn fwy cymhleth ar gyfer ymchwil ansoddol. Yn sgil y peilota a'r amser oedd wedi ei glustnodi 15 oedd

nifer y sampl o fewn yr ymchwiliad presennol (9 phlentyn a 6 oedolyn). Deuai'r athrawon o wahanol ddosbarthiadau Cyfnod Sylfaen o fewn yr ysgolion.

Ysgol 1 – 3 phlentyn (6 oed, 6 oed, 5 oed) a 2 athrawes (2 ddosbarth)

Ysgol 2 – 3 phlentyn (5 oed, 6 oed, 6 oed) a 2 athrawes (2 ddosbarth)

Ysgol 3 – 3 phlentyn (3 oed, 4 oed, 6 oed) a 2 athrawes (2 ddosbarth)

Pan hysbyswyd yr ysgolion yn y lle cyntaf am y niferoedd ystyriwyd dau blentyn o ddau ddosbarth o bob ysgol yn addas. Yr athrawon ddewisodd yr unigolion – megis dethol ar hap o blith y weithgaredd a wnaed ar y cychwyn (darlunio). Penderfynwyd o achos cyfnod salwch Covid ac absenoldebau cyffredinol dewis tri neu bedwar o blant i gyfrannu a cheisio caniatâd ffurfiol gan y rhieni. Ar ddiwrnod casglu'r dystiolaeth o'r ysgolion roedd pob plentyn yn bresennol ac yn awyddus i gyfrannu - cyfanswm o 21 plentyn ar draws y tair ysgol. Noda BERA (2024) ei bod yn driw i syniadaeth CCUHP (1989) o ran yr hyn sydd fwyaf buddiol i blentyn a ni ddylai unrhyw unigolyn fod o dan anfantais na chael ei ddiystyru o'r broses ymchwil os yw'n dymuno cyfranogi (BERA, 2024). Gan gadw at y côd penderfynwyd casglu'r data oddi wrth bob un o'r plant ac yna dethol data naw phlentyn ar hap i'w cynrychioli o fewn y gwaith gorffenedig. Roedd hyn yn naw phlentyn o ddau ddeg un, tua 43% o'r nifer a gasglwyd ac, o ystyried y peilot cychwynnol, teimlwyd ei fod yn ddigon i gynrychioli'r nifer o fewn yr ymchwiliad hwn. Roedd cynnwys y chwech athrawes yn rhan o'r ymchwiliad yn deillio o'r sawl a wnaeth arddangos diddordeb, ac yn cynrhychioi yr athrawon a arwinia y dosbarthiadau oedd y plant yn rhan ohonynt.

3.11 Y peilot ac addasiadau

Dylid nodi cyn dechrau ar y gwaith o gasglu data, sut y cynhaliwyd peilot gyda grŵp o blant er mwyn treialu'r deunydd a chael syniad a oedd yr hyn a fwriadwyd yn addas ar gyfer bwriad yr ymchwil ac i oed y cyfranogwyr. Awgryma Punch (2009) fod peilota'n angenrheidiol o ran perthnasedd a manylion cyffredinol o ran amseru ac ati. Roedd deall faint o amser y byddai'n cymryd ar gyfartaledd yn bwysig fel y medrid egluro i'r staff o fewn yr ysgolion cyn iddynt drefnu cyfnodau ar gyfer ymweliadau a phwyso a mesur sut byddai hyn yn dylanwadu ar eu trefniadau beunyddiol arferol. Roedd hyn yn bwysig gan y ceisiwyd cadw at amserlen debyg (boreau'n unig) o ran

y cyfnodau casglu data ar gyfer pob lleoliad i sicrhau tegwch a chysondeb. Roedd dewis y cyfnodau hyn yn gweddu â phryd oedd yn fwyaf cyfleus i'r ysgolion yn ogystal. Mae peilota'n gallu cyfrannu at wella'r data a gesglir (Malmqvist *et al.*, 2019; Cohen *et al.*, 2018; Punch, 2009). Yn sicr roedd hyn yn wir am nifer o agweddau yn ymwneud â phenderfyniadau a wnaed o ran yr ymchwiliad hwn, er enghraifft, lleoliad y trafodaethau â'r plant ar gyfer CY1. Mewn un ysgol oedd yn y peilot, digwyddodd y drafodaeth mewn cyntedd lle roedd plant ac oedolion yn mynd heibio a thynnu sylw'r cyfranogwyr yn sylweddol wrth iddynt geisio trafod a rhannu eu darluniau. O ganlyniad cafwyd trafodaeth flaenorol gyda'r staff i sicrhau gofod a fyddai'n addas o ran hwylustod, tawelwch ac esmwythder y plant.

Yn sgil y peilot hefyd, penderfynwyd recordio ymatebion y plant yn y sgwrs am eu darluniau gan ei bod yn anodd trawsgrifio'r cyfan ond dewiswyd peidio â recordio tra ar daith o gwmpas eu lleoliadau ysgol i sicrhau hwyluser defnyddio offer arall (ipad). Cynigiodd cyfnod o arbrofi gyfle i dreialu'r cwestiynau a'u holwyd i'r plant am yr hyn oedd yn eu gwneud yn hapus. Cyniga Bell (2010) y gall y ffordd y gofynnir cwestiynau a'r nifer a holir ddylanwadu ar y berthynas rhwng yr ymchwilydd a'r cyfranogwyr. Dywed Sharp (2012) y dylai'r cwestiynau symlaf i'w hateb ddod yn gyntaf a'r rhai sy'n gofyn am fwy o feddwl a phrosesu ddod tua'r diwedd. Soniwyd ynghynt beth oedd y cwestiwn cyntaf a holwyd er mwyn creu ymdeimlad o hyder yn yr unigolion, megis: 'Dywed wrtha'i am dy lun?'. Y cwestiwn nesaf oedd 'Sut mae'r pethau/ pobl/ llefydd yma yn gwneud i ti deimlo?', 'A wyt ti'n gallu disgrifio sut deimlad yw bod yn hapus?' Sgyrsiau lled strwythuredig oedd y rhain o fewn yr ymchwil felly, o achos oed y plant roedd yn rhaid talu sylw i'r eirfa a ddefnyddiwyd, tôn y llais, mynegiant corfforol yr holwr, lleoliad eistedd (cyfochrog) i osgoi materion o bŵer ac amser digonol i'r cyfranogwyr feddwl a chynhyrchu ymateb. Addaswyd rhai o'r cwestiynau (gweler Atodiad 6) i sicrhau cysondeb o ran yr holi, yr eirfa a ddefnyddir ac i gynorthwyo'r broses ddadansoddi er mwyn cywain tebygwyd rhwng ymatebion y plant.

Un o'r datblygiadau mwyaf sylweddol ers y peilota oedd ail ran yr ymchwiliad a datblygiad CY2 sef:

Sut gall hyn gynorthwyo athrawon i gynllunio a myfyrio ar eu darpariaethau?

Teimlwyd bod CY1 yn cynnig gwybodaeth bwysig o ran deall yr hyn a ddylanwada ar hapusrwydd a lles plant (Clark, 2021). Wrth drafod ymhellach â'r athrawon yr hyn sy'n bwydo eu cynllunio, teimlwyd ganddynt o bosib, y gellid defnyddio'r data at bwrpas hyrwyddo eu gwybodaeth ymhellach a datblygu eu dealltwriaeth yntau o ran y penderfyniadau addysgegol y gwnânt yn eu dosbarthiadau (LI C, 2021), sef CY2. Yn sgil y diwygiad addysgol a chyflwyno Cwricwlwm i Gymru o fewn ysgolion ym mis Medi 2022, roedd ychwanegu'r ail ran i'r ymchwiliad yn gyfle i gyflwyno gwybodaeth newydd, megis o lawr y dosbarth i'r athrawon sy'n gyfranogwyr ac i ddarllenwyr y gwaith a fedr eu helwa o ran eu datblygiad addysgegol proffesiynol (Yu, 2011; Gutierrez, 2019). Er bod yr athrawon yn wreiddiol wedi bod yn rhan o'r peilota fel ceidwaid a hyrwyddwyr Rhan 1 yr ymchwiliad, nid oeddent yn rhan greiddiol o'r gwaith. Roedd cynnwys yr athrawon fel cyfranogwyr wedi creu cyfle o'r newydd i gyd-weithio a chyd-gynhyrchu ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n dylanwadu ar hapusrwydd plant ac ystyried moddau y medrant wneud defnydd effeithiol o'r data at bwrpasau lles a chynnydd y disgyblion. Gwelir o ddata CY2 os mai dyma'r achos ac os ydynt wedi ymgorffori'r dulliau amrywiol o fewn eu harferion hwythau.

3.12 Casglu'r data

Wedi dethol a dewis y sampl ysgolion a derbyn caniatâd moesegol i ymgymryd â'r ymchwiliad, aethpwyd ati i gasglu'r dystiolaeth gan ddilyn y drefn isod yn Ffigwr 13. Gwelir o'r ffigwr bod y data wedi ei ddadansoddi'n ddilyniannol ar hyd y ffordd er mwyn bwydo rhan nesaf yr ymchwil.

Ymweliad 1: Cyfarfod gyda'r staff – dwy athrawes o bob ysgol yn y cyfarfod. (Cyfarfodydd – Ysgol 1, 2 a 3) Pwysigrwydd sefydlu perthnasau. (Simmons, 2009)	Ymweliad rhithiol dros TEAMS gan ei fod yn ystod cyfnod Covid (Chwefror 2022)
Athrawon a phlant yn ymgymryd a'r dasg gychwynnol o beintio/ darlunio.	
Ymweliad 2: Dod i adnabod y plant Pwysigrwydd sefydlu perthnasau. (Clark 2017, 2021)	Ymweliad ysgol: • cyfnod dod i adnabod • cyfweld plant gyda eu darluniau • Teithiau darganfod a ffotograffu (Mawrth/ Ebrill 2022)
Dadansoddi data Cwestiwn Ymchwil 1	
Ymweliad 3: Trafodaeth gyda'r staff Pwysigrwydd sefydlu perthnasau. (Ellis, 2016)	Ymweliad ysgol: • Cyfarfod i drafod arferion cynllunio • Adborth – canlyniadau ymweliad 2 (Mehefin 2022)
Dadansoddi data Cwestiwn Ymchwil 2	
Ymweliad 4: Adborth gan y staff ynglyn â'r effaith defnyddio dulliau ymchwiliol. (Kemmis, 2009)	Cyfweliad rhithiol dros TEAMS Dylanwad yr ymchwil ar eu harferion + e-holiadur. (Tachwedd/ Rhagfyr 2022)
Dadansoddi ymatebion y cyfweliad olaf (CY2)	

Ffigwr 13 - Eglurhad o gamau'r ymchwil

Gwelir uchod y cynhaliwyd **Ymweliad 1 (CY1)** yr ymchwiliad yn rhithiol. Yn ystod y drafodaeth honno, eglurwyd yn fanylach:

- rhesymeg yr ymchwil i'r staff,
- y prif gwestiynau ymchwil a'r dasg gychwynnol y byddai'r athrawon yn gwneud gyda'r plant
- y modd y bwriadwyd casglu'r data dilynol yn ystod Ymweliad 2 gan ddefnyddio dull Mosaic fel sail.

Trafodwyd yn ystod y cyfarfod mai prif fwriad yr ymchwil oedd dod i ddeall yr hyn sy'n dylanwadu ar hapusrwydd plant yn yr ysgol er y medrai'r dasg gynnwys pethau a oedd yn creu gwahanol emosiynau pe bai'r plant yn dewis eu cynnwys. Cytunwyd

yn ystod y drafodaeth, pe cawn amgyffred yn llawnach yr hyn sy'n dylanwadu ar les/hapusrwydd y plant, yna, o bosib gallai'r wybodaeth honno gyfrannu at siapio penderfyniadau a wnaed gan yr athrawon yn y dyfodol o ran addysgegau a chynllunio (Gutierrez, 2019; Clark, 2017; Yu, 2011). Penderfynwyd y dylai'r dasg ddigwydd fel rhan arferol o weithgarwch beunyddiol i osgoi creu sefyllfa afreal ymysg y plant. Mae hyn yn gytûn â syniadaeth lluniadaeth gymdeithasol (Paltit, 2018; Clark, 2017) o gyd-lunio ystyron gan ddatblygu ymagwedd ymarferol, drwy drafodaeth a rhyngweithiadau ag eraill; yn yr achos hwn drwy ddarlun yn y lle cyntaf.

Yn ystod y drafodaeth â'r staff eglurwyd pwysigrwydd bod yr iaith a'r eirfa y byddent yn ei defnyddio gyda'r plant yn rhan o drafodaeth arferol ac yn galluogi'r plant i ddeall y dasg. Sefydlwyd trefnlen yn dilyn y drafodaeth a danfonwyd at y staff fel y cadwyd at yr un anogwyr llafar yn ystod y gweithgaredd darlunio neu beintio a'i chadw mor debyg ag oedd modd o fewn y chwe dosbarth (gweler Atodiad 6). Yn wahanol i ddull gwreiddiol Mosaic lle cesglir y data cychwynnol drwy ddefnyddio arsylwadau a thrafodaethau'r plant (Clark, 2017), fe'i addaswyd i gynnig cyfle gwahanol i'r plant leisio'u profiadau a'u dealltwriaeth drwy ddarlunio, fel bod cofnod diriaethol ar y pryd ganddynt o'r hyn oedd yn eu gwneud yn hapus. Trafodwyd yr addasiad gydag Alison Clark (2021) mewn cyfarfod a gynhaliwyd dros Microsoft TEAMS gan fynegi nod yr ymchwiliad ac o ystyried oed y cyfranogwyr ifainc, cydsyniwyd gan Clark, y byddai'n fanteisiol iddynt gael y cyfle i beintio neu ddarlunio'n ogystal. Cytunwyd o fewn y drafodaeth bod tynnu ynghyd amrywiaeth o ddeunydd yn cynnig argraff fanylach o safbwyntiau plant (Clark, 2021; Clark, 2017). Mae gan dull Mosaic Clark (2017) y potensial i fod yn offeryn i gasglu data ar gyfer ymchwil, i werthuso arfer ac i'w ymgorffori o fewn arferion dosbarth beunyddiol, sef, rhesymau dilys dros ddewis y dull o fewn yr ymchwiliad hwn.

Yn ystod **Ymweliad 2** (CY1) deuthum i adnabod y plant yn well gan dreulio amser o fewn eu dosbarthiadau yn rhyngweithio a thrafod cyn cynnal sgwrs gyda'r cyfranogwyr mewn ardal dawelach a bennwyd yn addas gan yr athrawon. Dewiswyd tri phlentyn o bob dosbarth ar hap. Tra eu bod yn yr ardal drafod, eglurwyd i'r plant nod yr ymchwiliad mewn modd addas i'w hoed, a chasglwyd eu cydsyniad i barhau gyda'u cyfranogiad, (gweler Atodiad 5), (BERA, 2018). Wedyn trafodais â'r plant eu darluniau/ paentiadau wrth fwrdd gan ddilyn yr un drafodaeth â phob plentyn.

Recordiwyd y rhain yn ogystal â theclyn sain. Wedi'r drafodaeth aethom ar daith ddarganfod fel y medrai'r plant ddefnyddio i-pad i dynnu lluniau'r pethau oedd yn dylanwadu ar eu hapusrwydd. Yn olaf dychwelwyd yn ôl i'r man trafod i'r plant dderbyn cyfle pellach i sôn am unrhyw ran o'u darlun yr oeddent yn awyddus i wneud, cyn diolch iddynt am eu cyfraniadau a'u tywys yn ôl at eu gweithgareddau beunyddiol. Bwriadwyd defnyddio Graddfa Leikert ar ddiwedd y drafodaeth i'r plant gynnig mesuriad o'r hyn oedd yn eu gwneud hapusaf, ond wedi ei dreialu, penderfynwyd peidio â'i ddefnyddio yn y pen draw gan y teimlwyd na fyddai'n cynnig unrhyw wybodaeth a oedd yn werthfawr i'r ymchwiliad yma gan ei fod yn ceisio mesur *pa mor hapus* mewn modd meintiol, a oedd yn gysyniad anodd i blant ifainc.

Mynega Clark (2017) na ddylid ceisio cyflymu plant i egluro a thrafod eu profiadau, gan mai proses araf ydyw a dylid rhoi amser iddo. Dyma un o'r rhesymau dros ddewis y dull Mosaic gan ei fod yn ddull fethodoleg gymysg sy'n tynnu ymatebion amrywiol ynghyd i gyflwyno darlun mwy cyflawn dros gyfnod. Gan nad oes cadernid i sicrhau mai un ystyr yn unig sydd, a bod ystyr yn newid dros amser mae ymchwil tebyg i hwn yn ôl Hall (2012) yn perthyn i'r garfan ymchwil ddeongliadol. Cytunir â'r farn yn enwedig wrth ystyried barn plant ifainc wrth iddynt gynyddu o ran eu profiadau a'u dealltwriaeth yn ddyddiol.

Mae'r pwyslais ar wrando'n gryf o fewn y moddau isod Ffigwr 14, sef y dulliau a fabwysiadwyd i gasglu a thrafod y data gyda'r plant.



Ffigwr 14 - Y broses o gasglu'r data gyda'r plant

Gwelir nad oedd y broses yn llinol gan roedd rhaid ail gydio a mynd yn ôl i drafod ac edrych dros ddeunydd er mwyn sicrhau dealltwriaeth a thriongli'r canlyniadau.

Proses bwysig yw hon er mwyn adnabod patrymau (Braun a Clarke, 2022; Punch ac Oancea, 2014). Nodwyd ynghynt defnyddiwyd y model rhesymeg (tudalen 63 o'r ymchwiliad) ar gyfer trefnu'r broses ymchwil gychwynnol ac i gefnogi trin y data defnyddiwyd model Braun a Clarke (2022) o ran adnabod themâu yn y man cyntaf heb golli ar swmp a chyfoeth y deunydd cyflawn gweler Pennod 3 (3.12).

Ystyriwyd yr hyn a fynegwyd gan y plant yn ystod pob cam o'r ymchwiliad (Ffigwr 15) ac yna tynnu ynghyd yr elfennau gwahanol i'w dadansoddi er mwyn darganfod os oedd yn gysonderau neu newid o ran meddwl a theimladau'r plant o hapusrwydd yn dibynnu ar y peth, lle neu'r digwyddiad y byddent yn sôn amdano. Mae'r cam o gwtogi'r data'n digwydd drwy gydol yr ymchwil er mwyn dod o hyd i batrymau a chlystyrau, gwnaed hyn drwy godio, a thrawsysgrifio.

Nesaf, roedd cyflwyno'r data yn fodd o leihau gan fod data ansoddol yn swmpus fel arfer; gwnaed hyn gan ddefnyddio ffigurau, siartiau a diagramau. Yn olaf ffurfiwyd casgliadau cychwynnol o gwestiwn ymchwil 1 (yn unol â'r Logic Model) (Kalu *et al.*,

2018; Wyatt-Knowlton a Phillip, 2013) a'u cyflwyno yn ystod cyfweiliad yr athrawon ynghyd a'u trafod ar ddiwedd y gwaith.

Yr athrawon oedd ffocws **Ymweliad 3 (CY2)**. Trefnwyd cyfweiliad o tua hanner awr i ddeugain munud â'r staff o fewn eu hysgolion er mwyn i) cyrchu gwybodaeth a thrafod i) eu dulliau presennol o gynllunio ardaloedd a gweithgareddau a ii) i rannu canlyniadau a'r hyn a gasglwyd o drafodaethau â'r plant yn ystod Ymweliad 2.

Roedd chwech aelod o staff yn rhan o'r ymchwiliad. Recordiwyd a holwyd y staff drwy ddefnyddio'r un cwestiynau (Atodiad 7) gan gynnig cyfle iddynt ymhelaethu ar eu harferion a'u hystyriaeth o hapusrwydd plant wrth wneud hynny. Roedd y sesiynau'n lled strwythuredig (Cohen *et al.*, 2017) a oedd yn gyfle i ddatblygu'r drafodaeth ymhellach er mwyn siwrhau dealltwriaeth o'r hyn a fynegwyd gan yr athrawon. Rhaid oedd gwneud rhai addasiadau i'r drefn a fwriadwyd ar gyfer y cyfnodau hyn o achos digwyddiadau brys a gododd ar ddiwrnodau'r ymweliadau – sef yr hyn a drafodir hyn ymhellach ym Mhennod 4.

Ymweliad 4

Cynhaliwyd cyfarfod rhithiol olaf yr ymchwiliad â'r staff tua hanner tymor wedi'r sesiynau casglu data gwreiddiol i ddigwydd. Gwnaed hyn yn bwrpasol er mwyn darganfod a oedd cyfranogi i'r ymchwiliad wedi cael dylanwad ar arferion yr athrawon pan wnaethant ddechrau ar themâu newydd o'r cychwyn a derbyn plant newydd i'w dosbarthiadau. Sicrhawyd eto bod y cwestiynau a holwyd yn dilyn yr un drefn i bawb (gweler Atodiad 8) a chynigwyd cyfle iddynt ymhelaethu pe mynnent, trafodir yr holl ganfyddiadau ym mhennod 4.

Trafodwyd yn adran 3.5 mai dull cymysg a ddefnyddiwyd i gasglu'r data. Pwysleisia Clark (2021) a Simmons (2009) bwysigrwydd ymrwymo'r cyfranogwyr drwy gydol y broses er mwyn cofnodi eu meddyliau, trafod ystyron gan ddefnyddio iaith addas er mwyn cyfathrebu. Noda Wiles *et al.* (2008) fod cynnydd sylweddol yn y defnydd o 'dulliau gweledol' o fewn ymchwil sy'n cynnwys plant. Ychwanega Lundy (2007) nad yw lleisiau plant yn ddigonol i arddangos eu dealltwriaeth yn llawn nac yn ateb gofynion Erthygl 12 CCUHP (1989). Fel y nodwyd ynghynt ynglŷn â'r gwaith yma, ystyrir 'llais' y plentyn yn glywedol ac yn weledol. Gwêl Fielding (2004) hyn fel

dehongliad o'r hunan sy'n cael ei gyfathrebu mewn modd democrataidd ac at bwrpasau trawsnewidiol.

Mewn modd i geisio gorchfygu anawsterau pŵer yn ystod casglu'r data a allai ddylanwadu ar ymatebion y plant a'r oedolion, datblygwyd perthynas rhwng y cyfranogwyr a'r ymchwilydd o flaen llaw fel eu bod yn gyfarwydd â hi mewn moddau anffurfiol. Gall pŵer fod yn broblematic os yw oedolion yn arddangos eu safiad drwy ymddwyn mewn moddau pendant (assertive) neu o achos dealltwriaeth sydd eisioes wedi ei ymgorffori o fewn y plant i feddwl eu bod yn llai medrus neu alluog (Bergmark, 2020; Robinson, 2011). Cynhaliwyd sgysrsiau â'r plant a chyfleoedd i rannu o fewn gweithgareddau hunan ddewis er mwyn osgoi tyndra ac i'w harfogi i deimlo'n gyfartal o fewn y broses.

Gwnaed yn siŵr y cynigwyd amrywiaeth o ffyrdd i'r unigolion egluro a chyfleoedd i'r ymchwilydd i wrando'n astud gan gefnogi a chynnig moddau eraill o hyrwyddo iaith lafar ynghyd â defnyddio deunyddiau a gynhyrchwyd gan y plant ac adnoddau oedd yn gyfarwydd iddynt o fewn eu hamgylcheddau dysgu (Clark, 2017). Yn yr un modd wrth drafod â'r staff roedd yn gyfle iddynt rannu unrhyw strategaethau neu gynlluniau roeddynt yn eu defnyddio'n barod pe dymument.

Nod CY1 y gwaith yw lleoli lleisiau plant fel bod eu 'byd' o fewn yr ysgol yn cael ei ddehongli. Y gobaith yw, wrth gynnig cyfleoedd i'r plant fynegi eu profiadau, medrid adeiladu cyd-ddealltwriaeth o ymatebion y plant eu hunain, ymatebion addysgwyr, i fwydo ymwybyddiaeth gwneuthurwyr polisi a dylanwadu ar y moddau y gesglir ac a ddarperir gwybodaeth am bwysigrwydd sicrhau hapusrwydd plant ifainc tra yn yr ysgol (Forbes, 2019). Yn ystod y cyfnodau 'dod i adnabod' gyda'r plant, trafodwyd y ffyrdd maent fel arfer yn arddangos eu dealltwriaeth o wahanol gysyniadau neu er mwyn dehongli hoffterau. Daeth i'r amlwg bod cynnal sgysrsiau, darlunio a thynnu ffotograffau yn ffyrdd y byddent fel arfer yn gwneud yn ddyddiol o fewn eu hysgolion a thu hwnt yn eu cartrefi. Awgryma Groundwater-Smith *et al.* (2015) bod ymgynghori â'r rhanddeiliaid ar gychwyn paratoi ymchwil yn sicrhau eu cynwysoldeb fel cyd ymchwilwyr.

Mae'r moddau a ddewiswyd yn unol â'r rhai a awgrymir gan Clark (2017) wrth iddi drafod y dull Mosaic ac, felly, yn ateb y gofyn o ran hwylustod a phriodoledd i'r cyfranogwyr. Cam cyntaf dull Mosaic yw casglu dogfennaeth (Clark, 2021).

Ymgwymerodd y plant â'r dasg hon o fewn sesiwn arferol yn eu dosbarthiadau. Roedd hyn yn fwriadol gan y byddai'n digwydd yn naturiol a ni fyddai wedi ei gynllunio mewn modd clinigol go gyfer a'r ymchwiliad yn unig.

Mae'n bwysig nodi hefyd na ddewiswyd y ddau blentyn oedd yn cyfranogi o bob ysgol cyn iddynt greu eu darluniau, ac ni ddefnyddiwyd eu cynhyrchion fel sail i'r dewis hwnnw. Penderfynwyd mai'r dasg a osodwyd gan eu hathrawon oedd darlunio neu beintio'r pethau, pobl neu lefydd sy'n cyfleu gwahanol deimladau ynddynt o fewn eu hamgylchedd dysgu. Roedd hyn yn unol ag awgrymiadau Clark (2021) o ran mannau cychwyn arferol neu briodol i blant ifainc ac yn unol â'm profiadau personol o holi plant am eu barn fel athrawes blyneddau cynnar. Roedd pob plentyn unigol wedi treulio'r un cyfnod o amser o fewn ei hamgylcheddau'n gyffredinol (o fis Medi hyd at Fis Mai) ac felly wedi derbyn cyfleoedd tebyg i ymdrin â'r deunyddiau oedd ar gael iddynt.

O fewn maes ymchwil Seicoleg, mae darluniau wedi bod yn fodd i fesur safonol a ddefnyddiwyd yn aml i gofnodi gweithrediadau gwybyddol ac emosiynol (Greene a Hogan, 2006). Dywed Anderson (1994), y gall darluniau fod yn gyfathrebwyr effeithiol. Yn dilyn cynhyrchiad y darluniau ac o fewn pythefnos er mwyn cadw'r gweithgaredd yn effro ym meddyliau'r plant, cynhaliwyd cam nesaf casglu'r data sef y sgysiau anffurfiol.

Gelwir y modd hwn yn ddadansoddiad disgwrs. Fel y noda awduron, bydd y pwyslais wrth drafod ar yr ymchwilydd i wrando, dehongli a chynrychioli lleisiau'r plant (Greene a Hogan, 2006). Mae dadansoddi disgwrs yn fodd o adolygu anstrwythuredig, sy'n cysylltu'r gweledol a'r clywedol Thomas (2017). Cadwyd recordiadau o'r sgysiau ac fe'u trawsgriwyd at bwrpasau rhannu'r data (gweler Pennod 4).

Cam nesaf cynhyrchu'r data oedd mynd ar deithiau darganfod ar droed 'walking interview'. Noda Evans a Jones (2011), fod y modd hwn o gyfweld yn cynhyrchu mwy o ddata na chyfweliadau pen bwrdd. Dywedant fod y data a gasglwyd o fewn

eu hymchwil yn 'profoundly informed by the landscapes in which they take place, emphasising the importance of environmental features in shaping discussions' (Evans a Jones; 2011, t 849). Cynigia'r cyfweiliadau hyn gyfleoedd pellach i'r plant atgyfnerthu'r hyn y gwnaethant eu darlunio ac i adnabod mannau ac adnoddau eraill teimlent oedd yn cyfrannu at eu hapusrwydd.

Tra ar daith, byddai'r plant yn dewis yr hyn roeddent am ffotograffu gan ddefnyddio'r iPad. Noda Cohen *et al.* (2020) fod data gweledol yn cynnig data niferus o fewn un darlun a bod gan ffotograffau le canolog o fewn ymchwil addysgol. Roedd y data hyn yn gofnod gwahanol o hoffterau'r plant ac yn gyfle i weld y byd drwy lygaid y plentyn a'i bersbectif yntau.

Gan fod y mwyafrif y deunydd yn weledol ac, mewn rhai achosion prin oedd ehangder geirfa a thrafodaeth y plant, penderfynwyd, mai trawsgrifio'r cyfweiliadau â llaw oedd y modd mwyaf addas o drin y data arsylwadol, fel y medrid amlygu'r themâu yn llawnach (gweler Atodiad 9). Y rhain ynghyd â'r deunydd gweledol, yw sail canlyniadau CY1 a drafodir yn y bennod nesaf. Drwy gyfuno'r dulliau a fabwysiadwyd, cadwyd at egwyddorion Mosaic o sicrhau y derbyniodd y cyfranogwyr oll gyfleoedd i gyflwyno, i ddehongli ac i gyd-adeiladu dealltwriaeth; sef, yn yr achos hwn, yr hyn a gyfrannai at hapusrwydd plant ifainc yn eu hysgolion (Clark, 2017; Musgrave, 2017).

3.13 Cyfweiliadau - cyfweld plant ac athrawon

Modd arall a dewiswyd o gasglu data ar gyfer yr ymchwiliad hwn oedd drwy gyfweiliadau gyda'r plant (CY1) a chyda'r athrawon (CY2). Dewiswyd y dull hwn gan ei fod yn caniatáu ymchwilio pellach i ddeunydd a gynhyrchwyd eisoes gan y plant neu i olrhain llinynnau a holi er mwyn sicrhau mwy o fanylder (Thompson, 2016; Hochschild, 2009). Mae'n fodd i'r plant a'r athrawon fynegi eu profiadau a'u dealltwriaeth o'u bydoedd fel y medraf fel ymchwilydd ddeall mwy am eu profiadau'n uniongyrchol (Spradley, 1979). Ystyrir cyfweiliadau fel gwybodaeth a'i cynhyrchir gan fodau dynol yn aml drwy drafodaeth (Clark, 2017; Kvale, 1996). Gelwir y math o ymchwiliad sy'n defnyddio cyfweiliadau yn ymchwil ffenomenegol a ddaw o gefndir

seicoleg ac athroniaeth yn wreiddiol (Thompson, 2016). Mae maes seicoleg yn ymchwilio i hwyliau a thueddiadau emosiynol yn fynych, megis damcaniaeth emosiwn (Izard, 2007) ac felly'n cyd-fynd â ffocws yr ymchwiliad hwn i hapusrwydd plentyn. Gwnes, fel ymchwilydd, gronni a chywain digwyddiadau a brofwyd gan unigolion (Giorgi, 2009) o fewn yr ymchwiliad hwn. Profiadau plant ifainc o hapusrwydd yn yr ysgol a ffyrdd y cynllunia'r athrawon ar eu cyfer yw'r prif ffocws. Modd i gyd adeiladu gwybodaeth yw cyfweld wrth i'r cyfranogwyr a'r cyfwelydd rhyngweithio, er mwyn adrodd profiadau'r cyfranogwyr (Kvale, 2008) sy'n unol â damcaniaeth luniadol gymdeithasol (Allen, 2017).

Roedd y cyfranogwyr o fewn y sefyllfaoedd cyfweld yn wybyddus i'w gilydd cyn cynnal y cyfweliadau, felly roedd yna berthynas wedi'i sefydlu eisoes, a cynyddodd hyn yr ymdeimlad o gyd-ddarganfyddwyr yn hytrach na phŵer anghydradd rhwng y cyfranogwyr (Cohen *et al.*, 2018; Greene a Hogan, 2006).

Cyfweliadau yw un o'r ffurfiau mwyaf cyffredin o gasglu data mewn ymchwil gyda phlant (Clark, 2017; Einarsdottir, 2007). Mae'r rheolau'r un peth â chynnal cyfweliadau gydag oedolion o gynnwys cwestiynau dealladwy, defnyddio llais clir, geirfa bwrpasol, datblygu cydberthynas addas a gwrando'n astud (Ponizovsky-Bergelson *et al.*, 2019; Clark 2017). Cyfweliadau lled strwythuredig (Thompson, 2016) a gynhaliwyd gyda'r plant gan ofyn rhai cwestiynau cyffredin i bob unigolyn (gweler Atodiad 7). Cynigiwyd hefyd gyfleoedd iddynt ehangu os oeddynt yn dymuno siarad am bethau cysylltiedig eraill o fewn y sgwrs (Ponizovsky-Bergelson *et al.*, 2019). Mae cynnig cyfleoedd i drafod rhydd yn addas i blant ifainc gan mai dyma yw eu sgwrsiau'n aml, yn mynd o un peth i'r llall (Clark, 2017; Docket *et al.*, 2011).

Cynigia Clark (2017) hefyd rai argymhellion ynghylch sut i gychwyn cyfweliad." Er enghraifft, "Dwed wrtha'i am dy lun ..."" sef yr hyn a wnaed o fewn yr ymchwiliad hwn er mwyn i'r plentyn arwain ac arddangos ei fedrau fel yr unigolyn mwy medrus sy'n arbenigwr ar ei fywyd (Vygotsky, 1978). Mae lleoliad y cyfweliad hefyd yn fater arall y gall ddylanwadu ar y drafodaeth (Clark, 2021). Cynhaliwyd y trafodaethau gyda'r plant mewn lleoliadau cyfarwydd iddynt a ddewiswyd gan yr athrawon tu fewn a thra ar deithiau darganfod a thu allan ar droed.

Mae cyfweliadau ansoddol yn ôl Creswell a Creswell (2018) yn cynnwys cwestiynu rhydd fel arfer er mwyn cywain profiadau a barn yr unigolion. Yn achos yr ymchwiliad

roedd y cyfweiliadau gyda'r plant (CY1) yn lled-strwythuredig, sef cyfuniad o gwestiynau agored a rhai wedi'u strwythuro o flaen llaw er mwyn canfod gwybodaeth benodol naill ai'n deillio o gynnyrch neu yn dilyn ymatebion a dderbyniwyd ynghynt. Dewiswyd y cwestiynau yn ofalus i sicrhau dealltwriaeth ymysg y plant ac wrth holi, rhoi amser digonol heb dorri ar draws y plentyn neu gynnig sylw (Greene a Hogan, 2006). Sicrhawyd bod ieithwedd y cwestiynau yn unol â dealltwriaeth y plant o ran eu hoed a'u medrau ieithyddol.

O brofiad addysgu mewn dosbarth gwyddys yr angen i ddefnyddio geirfa gywir ac addas gyda'r plant (Ponizovsky-Bergelson, *et al.*, 2019). Mewn rhai achosion roedd yn rhaid ail adrodd y cwestiwn yn Saesneg i blant cyfrwng Cymraeg oedd yn ddysgwyr (Cymraeg fel ail iaith) i sicrhau eu dealltwriaeth. Awgrymir gan Creswell a Creswell, (2018) y dylid paratoi'r cwestiynau ar daflen o flaen llaw, gydag uchafswm o ddeg cwestiwn ar y mwyaf ynghyd â gwybodaeth gyffredinol am y dyddiad, lleoliad, a'r cyfranogwyr wedi'u codio ar y daflen (Creswell a Creswell, 2018). Gwnaed hyn i sicrhau na orlwythwyd y plant a chwestiynau gan sicrhau eu lles a chysondeb ar draws yr astudiaeth.

Cynhaliwyd y cyfweiliadau unigol gyda'r plant a'r athrawon o fewn lleoliad addas o ddewis staff yr ysgolion gan eu bod yn gwybod ble byddai'r plant yn teimlo'n gyfforddus ac yn gyfarwydd â nhw. Roedd y teithiau darganfod yn sgysiau ar droed, lle wnaeth y plentyn arwain y sgws o fewn eu hamgylcheddau dysgu tu fewn a thu allan. Ni drawsgrifiwyd y sgysiau yma, yn hytrach, e'u recordio'n unig fel cadarnhad llafar o'r cynnyrch darluniadol a ffotograffig. Noda Greene a Hogan (2005), gall y data a'i cynhyrchir drwy gyfweiliadau fod yn eang a chyfoethog gan gynnwys gwybodaeth am fywyd y plentyn y bydd angen ei ddadansoddi a'i drafod ymhellach. Gwneir hyn drwy fynd yn ôl at y data gwreiddiol o ddarluniau, ffotograffau a'r sgysiau tra oeddent ar y teithiau cerdded.

Defnyddiwyd darluniau'r plant yn ystod eu cyfweiliadau gan fod ystyr yn datblygu drwy ein hymwneud â deunyddiau amrywiol (Goodman, 1978; Clark, 2017). Yn achos yr ymchwiliad hwn bu'r plant yn trafod eu darluniau a'u ffotograffau, gyda bob darn yn cyfrannu at y cyd-adeiladu ystyr rhwng yr ymchwilydd a chyfranogwr ac o fewn cyd-destun cyfarwydd. Roedd y cyfleoedd hyn yn cyfrannu at asiantaeth y plentyn o fewn amgylchedd sy'n fforddio cyfleoedd iddo leisio'i farn a chyfranogi.

Mae'n fodd sy'n cyd-fynd ag egwyddorion lluniadaeth gymdeithasol gan y bydd y drafodaeth yn caniatáu (CY1 a CY2) atgyfnerthiad i'r plentyn o'r hyn a ddarluniodd (y plentyn mwy medrus a galluog) neu o drafodaeth yr athrawes (yr oedolyn mwy gwybodus), a datguddiad mwy pendant i mi fel ymchwilydd (wrth ddatblygu fy mharth procsimol) Vygotsky (1978).

Roedd cyfweld yn galluogi cywain ymatebion llawnach oddi wrth y cyfranogwyr. Noda Kvale (1996), fod cyfweiliadau'n gyfarfyddiadau rhyngersonol (Thompson, 2016; Kvale, 1996). Ffyrdd o adalw digwyddiadau a phrofiadau'r plant a'r athrawon yw'r cyfarfyddiadau rhyngersonol o fewn yr ymchwiliad hwn, a thrwy drafodaeth gwnaethom gyd-luniadu ystyron (De Pedro, 2017). Cynigia cyfweiliadau gyfleoedd i gynhyrchu a dehongli sefyllfaoedd drwy drafodaeth. Roedd y cyfweiliad gyda'r athrawon yn yr ymchwiliad hwn yn ddeublyg gan y cesglais wybodaeth yn ystod y rhan gyntaf ac yna cyd-adeiladu gwybodaeth yn ystod yr ail ran (Ruslin *et al.*, 2022) (gwelir Ffigwr 14 isod).

Cyfuniad o ddull strwythuredig a lled-strwythuredig a gafwyd o fewn yr ymchwiliad. Defnyddiwyd cwestiynau caeëdig wedi'u paratoi o flaen llaw i gychwyn ac gan gynnig cyfle pellach i sicrhau bod gan y cyfranogwyr fwy o gyfle i siarad ac ehangu ar bwynt. Gelwir y dull hwn gan Tomlinson (1989) yn fodd ffocws hierarchaidd, am ei fod yn elwa'r ymchwilydd a'r cyfranogwyr. Sicrhodd y dull fy mod yn derbyn ehangder ymatebion gan gynnig cyfleoedd i drafod ymhellach a lleihau fy nylanwad ar ymatebion yr athrawon (Ruslin *et al.*, 2022).

Gofynnwyd yr un cwestiynau i'r athrawon drwy gydol y cyfweiliadau (gweler Atodiadau 7 a 8). Roedd cwestiynau Rhan 1 yn ymwneud â'u dulliau cynllunio a'r hyn sy'n bwydo eu penderfyniadau cynllunio. Yna rhannwyd y data a gasglwyd wrth y plant cyn symud i ran 2 y cyfweiliad a oedd yn cynnig cyfle iddynt fyfyrir ar y data hwnnw. Gwelir isod yn Ffigwr 15 trefn Rhan 2 yr ymchwil o ran casglu data'r athrawon (CY2).

Cyfweliad athrawon - Rhan 1 Cwestiynau am eu dulliau cynllunio (1 – 13) Cwestiynau parod + cyfle i ehangu Rhannu data o ran 1 yr ymchwiliad
Cyfweliad athrawon – Rhan 2 Cwestiynau'n deillio o'r data Cwestiynau parod + cyfle i ehangu

Ffigwr 15 - Trefn y cyfweliad gyda'r athrawon

Penderfynwyd holi cwestiynau am ddulliau presennol cynllunio'r athrawon yn gyntaf, rhag i'r data a gasglwyd o ymatebion y plant am eu hapusrwydd ddylanwadu ar eu hatebion.

Gwnaed hyn gan fod y cwestiynau'n deillio o'r data a gasglwyd wrth y plant ar gyfer CY1. Penderfynwyd ar ddiwedd y cyfweliad y byddai cyfle i'r athrawon gyfrannu unrhyw sylwadau ychwanegol y dymunant eu gwneud o ran yr ymchwiliad, neu o ran y themâu a drafodwyd i sicrhau na chollwyd unrhyw wybodaeth a fyddai fel arall wedi ei heithrio (Hobson a Townsend, 2010).

Gall athrawon wynebu ffactorau sy'n eu rhwystro neu'n eu galluogi wrth ymgymryd ag ymchwil medd Ellis (2016). Mae'r amrywiadau o ran diwylliant academiaidd ac ymarferol yn medru creu rhwystrau rhag cyd weithio'n effeithiol (McFarlane, 2004). Gall datblygu perthynas broffesiynol gymryd amser er mwyn meithrin ymddiriedaeth a chaniatáu athrawon i fedru cyfranogi (White, 2011). Wrth ddatblygu perthynas â'r unigolion o flaen llaw, cyflwyno fy nghefnidir personol o fod yn athrawes ddosbarth, ynghyn â'm gwerthoedd ymarferol fel academydd o wneud gwahaniaeth i fywydau plant a'u cadw'n rhan annatod o'r ymchwiliad drwyddi draw (Clark, 2017) teimlwyd y datblygwyd perthnasau priodol.

Yn ystod y cyfweliadau gwnaed recordiadau o'r sgysiau gyda chaniatâd fel y medrid mynd yn ôl i sicrhau cywirdeb, a chymerwyd nodiadau ysgrifenedig yn ogystal rhag

ofn i'r dechnoleg ballu ac er mwyn cefnogi'r dystiolaeth ymhellach wrth ddadansoddi'r data (Silverman, 2020).

3.14 Dulliau dadansoddi'r data – dadansoddi thematig

Safiad lluniadaeth gymdeithasol sy'n llywio'r ymchwiliad ac sy'n cydnabod gwerth lleisiau plant ifainc (a'u hathrawon) am eu profiadau yn yr ysgol, ac i lenwi'r bwlch o ran cynnwys plant tair i saith oed o fewn ymchwil am eu profiadau bob dydd. Y nod oedd casglu data amrywiol a chyfoethog er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o deimladau a phrofiadau plant o ran eu hapusrwydd. Nid y bwriad oedd dod at un gwirionedd o beth sy'n dylanwadu ar hapusrwydd plant ond yn hytrach cydnabod bod yna oddrychedd amrywiol a dod i ddeall cyd-destunau cymdeithasol diwylliannol y plant yn well drwy drafodaeth am eu hamgylcheddau dysgu o'u cynhyrchion a'u sgysiau (Clark, 2017).

Dull Miles a Huberman (1994) oedd gennyf yn wreiddiol fel modd i ddadansoddi ar ôl peilota'r ymchwil yn wreiddiol. Teimlwyd wedi darllen yn ehangach am ddadansoddi thematig a mynychu seminar o'u gwaith a gyflwynwyd gan Braun a Clarke (2021) y byddai'n briodol i fabwysiadu'r dull hwnnw gan ei fod yn gweddu i ofynion yr ymchwil. Er bod y mwyafrif o'r hyn a drafodwyd ganddynt yn ymwneud ag ymchwil gydag oedolion teimlwyd bod y dull yn cadw at syniadaeth ddamcaniaethol yr ymchwiliad yn fwy effeithiol oherwydd ei fod yn cynnig cyfle i'r data a'r eglurder ohonynt esblygu yn hytrach na chael eu tynnu o'r deunydd yn unig.

Mae proses o ddadansoddi thematig atgyrchol yn cydnabod rôl ganolog yr ymchwilydd wrth ddadansoddi, dehongli a datblygu patrymau o fewn data ansoddol. Mae'r penderfyniadau a wnaed gan yr ymchwilydd ynghylch sut yr ymdrinnir â'r ymchwil yn cynnwys atebolrwydd a chymryd cyfrifoldeb am y penderfyniadau hynny (Timberlake, 2015). Mae hyn yn unol a'm gwerthoedd personol o sicrhau lleisiau plant fel ffynhonnell angenrheidiol o fewn ymchwil sy'n ymwneud â'u bydoedd. Cefnoga hyn hefyd fy safiad lluniadol cymdeithasol ddeongliadol lle cydnabyddir yr angen i ddeall y byd o lygad y ffynnon (Creswell a Plano-Clark, 2017) sef o enau'r plant eu hunain (a'u hathrawon) yn achos yr ymchwiliad hwn. Noda Braun a Clarke (2022) fod rhaid, fel rhan o'r broses i ystyried fy ngwerthoedd personol fel

ymchwilydd a'm diddordeb ym maes plentyndod cynnar gan ymhelaethu ar unrhyw ragdybiaethau a allai effeithio ar y data yn ystod y casglu a'r dadansoddi.

Yng nghyd destun yr ymchwiliad hwn, dadansoddiad thematig yw proses adnabod patrymau neu themâu sy'n ddiddorol neu'n bwysig o ran hapusrwydd y plant (CY1) a darganfod dulliau cynllunio a pharatoi'r athrawon (CY2) o fewn data ansoddol (Braun a Clarke, 2021). Adrodda'r themâu a ddewisir wybodaeth a hystyrir yn bwysig o fewn y data. Cynigia batrwm wrth dynnu'r data ynghyd sydd yn deillio o'r cwestiwn ymchwil gwreiddiol. Roedd dewis y themâu'n deillio o'm penderfyniad goddrychol personol (Braun a Clarke, 2022; Timberlake, 2015) ynglŷn â:

- beth ymddangosai yn arwyddocaol o ran dylanwadau ar hapusrwydd y plant yn ogystag a
- beth ymddangosai'n arwyddocaol o ran dylanwadau ar foddau cynllunio a pharatoi'r athrawon

Mae'r broses ddadansoddi thematig atgyrchol (Braun a Clarke, 2022) yn un chwe cham sy'n ymwneud â dadansoddi'r data'n systematig er mwyn adnabod themâu (Ffigwr 16). Gwna'r ymchwilydd atgyrchol gydnabod ei rôl, ei ymarferion ymchwil a'r prosesau a'u defnyddiwyd o fewn ymchwil wrth ystyried, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth (Braun a Clarke, 2022).

Atega Braun a Clarke (2022) fod ymchwil ansoddol llwyddiannus yn arddangos ystyriaeth o naws, cymhlethdod ac, ar brydiau y gwrthgyferbyniadau o fewn y data ac yn cofleidio'r ffaith bod gwybodaeth yn unol â sefyllfa'r unigolyn boed yn gyfranogwr neu ymchwilydd. Cadwyd at y meddylfryd hwn gan sicrhau bod cyfraniadau'r cyfranogwyr yn cael eu hystyried yn unigol ac yn unigryw cyn tybio bod themâu neu dueddiadau yn debygol o ymddangos.

Dadansoddi data yw'r broses o grynhoi ac adrodd data. Gall fod yn ddata darluniadol, llafar neu ysgrifenedig (trawsgrifiadau) (Silverman, 2020; Anderson a Arsenault, 1998), ac yn ôl Thorne (2000), y rhan fwyaf rhyfedd ac anodd o ymchwil ansoddol gan na eglurir y broses o ddadansoddi'n ddigon manwl (Thorne, 2000). Arweinia'r diffyg eglurder hwn at sefyllfa lle mae'n anodd i'r darlennydd ddeall sut y gwnaethpwyd y dadansoddi ac, o ganlyniad sut y dylid dehongli'r data (Nowell *et al.*, 2017). Gweithredwyd y dadansoddi gan archwilio'r darnau o wahanol ddisgyrsau

cyfathrebol a'u dehongli ar lefel semanteg megis y peintiadau a wnaed gan y plant, y sgysiau am ddeunydd a gynhyrchwyd ganddynt a'u ffotograffau a dynwyd gyda'r ipad.

Mae defnyddio data gweledol a chlywedol yn gyffredin erbyn hyn o fewn ymchwil (Silverman, 2020; Ong, 2020; Banks, 2018; Clark, 2017). Wrth gynnig cyfleoedd amrywiol i blant ac athrawon gyfleu eu syniadau a'u dehongliadau ceir casgliad mwy cynhwysfawr a chyfoethog o ddata yn ogystal â chynnig fforddiadwyedd i'r cyfranogwyr (Silverman, 2020; Clark, 2017).

Fel y soniwyd ynghynt dull chwe cham gyflwyna Braun a Clarke (2022) i hyrwyddo'r broses ddadansoddi, fel yr amlygir yn Ffigwr 16 isod. Noda Braun a Clarke, (2017) ei fod yn ddull hyblyg o drin data gan nad ydyw wedi ei wreiddio o fewn un damcaniaeth benodol. Gwelir eglurhad o'r camau yn Ffigwr 16 ac eglurir bob cam ymhellach yng nghyd-destun yr ymchwiliad hwn yn isadran 3.14.

Cam 1 – cyfarwyddo â'r data Trochi yn y data gan ddarllen ac ail ddarllen/ gwrando ac ail wrando ar recordiadau gan wneud nodiadau am yr eitemau unigol a'r data cyflawn. Cymharu y darluniau a grewyd gan y plant gyda'r ffotograffau a dynwyd ganddynt.	Cam 4 – Adolygu a datblygu'r themâu Mynd yn ôl drwy'r data i sicrhau bod y themâu a ddewiswyd yn addas a dibynadwy - a yw pob thema'n ddilys ac yn ychwanegu at ein dealltwriaeth am hapusrwydd plant a chynllunio athrawon.
Cam 2 – Cynhyrchu codau cychwynnol Ffocysu ar eiriau/ ymadroddion sy'n berthnasol i'r cwestiynau ymchwil.	Cam 5 – Diffinio'r themâu Egluro'r themâu a enwebwyd a sicrhau bod gan bob thema stori i'w chyflwyno o ran ymateb i'r cwestiynau ymchwil.
Cam 3 – Chwilio am themâu Adnabod ystyr gytûn ar draws y data sy'n ateb y cwestiynau ymchwil yna clystyru'r rhain i gynhyrchu themâu (125 yn achos yr ymchwiliad hwn. Codio'r data gan ddefnyddio dull uwchleuo lliwiau gwahanol). (Dechrau ysgrifennu'r canlyniadau)	Cam 6 – Ysgrifennu'r canlyniadau Tynnu elfennau gwahanol y data ynghyd er mwyn cyflwyno gwybodaeth sy'n ateb i'r cwestiynau ymchwil mewn modd diddorol a chymhellol.

Ffigwr 16 - Fframwaith chwe cham (Braun a Clarke, 2022)

Atega Braun a Clarke (2022) nad dull llinol yw hwn a dylid bod yn barod i fynd yn ôl ac ar draws gan gymharu ag ail ystyried y data droeon cyn dod at gasgliadau. Mae ymgymryd mewn ymarfer ail adroddus yn rhan o'r broses atgyrchol o ddadansoddi thematig sy'n arwain at ymgysylltu dyfnach rhwng y data (Braun a Clarke, 2022; Kiger a Varpio, 2020).

3.15 Trochi o fewn y data - Codio a phennu themâu

Mynega Braun a Clarke (2022) y dylai'r côdio leihau'r 'llanast' gan adnabod ystyron o fewn y data. Dylai'r enw neu dalfyriad a roddir fel côd alluogi'r ymchwilydd i adnabod cynnwys y data gwreiddiol heb orfod mynd drwy'r deunydd llawn (Miles a Huberman, 1994). Mae ymchwilydd deongliadol / lluniadol yn tueddu i ddibynnu ar farn cyfranogwyr am y sefyllfa sy'n cael ei hastudio (Creswell, 2003).


O fewn yr ymchwiliad hwn archwilir profiadau plant o hapusrwydd tra yn yr ysgol a'r hyn sy'n bwydo dulliau cynllunio athrawon drwy fabwysiadu dulliau dadansoddi a chôdio thematig a awgrymir gan Braun a Clarke (2022). Wrth ymdrin â data ansoddol, mae mireinio gofalus yn bwysig (Miles *et al.*, 2020). Serch hynny rhaid bod yn bwyllog gan os gwnaed lleihau yn ormodol gellid colli hygrededd a manylder y data. Enwebu neu roi teitl i ddata yw bwriad côdio sef y broses o dorri darnau hirion yn rhai o lai o fewn cyd destunau penodol (Cohen, Manion a Morrison 2018; Maguire a Delahunt, 2017). Gwelir yng Ngham 2 o'r broses isod sut aed ati i wneud hyn.

Trawsgrifwyd y trafodaethau a gafwyd â'r plant i gychwyn (ac yna o ymatebion y staff nes ymlaen) yn gyntaf, yna defnyddiwyd dull dadansoddi thematig (Braun a Clarke, 2022) i adnabod themâu a ymddangosai o'r sgysiau yn ymwneud â'u hapusrwydd. Dyma'r dull ffafriwyd gan nifer o ymchwilydd wrth ddefnyddio dulliau data ansoddol (Norwell *et al.*, 2017; Gregory *et al.*, 2015; Vaismoradi *et al.*, 2013). Gall data ansoddol fod yn gymhleth a dylid ystyried dadansoddi thematig fel modd i fapio'r data er mwyn adnabod patrymau, themâu a thueddiadau (Braun a Clarke, 2021). Gallai hyn fod yn wir o ran yr ymchwiliad yma gan fod nifer o foddau gwahanol o gasglu data wedi digwydd. Rhaid cydnabod o fewn yr ymchwiliad hwn bod y

dehongli a'r dadansoddi'n dod o ddisgrifiadau'r plant (CY1) a'u hathrawon (CY2) yn y lle cyntaf ac yna o'm dehongliadau personol i fel ymchwilydd, o linyddau tebyg a berthyn iddynt.

Wrth ddefnyddio dull côdio gellid darganfod patrymau gan dynnu ynghyd gasgliadau o ddeunydd cymhleth mewn modd sy'n fwy hydrin. Codio agored (Cohen *et al.*, 2018) fel arfer yw'r dull cyntaf a ddefnyddir o godio. O fewn yr ymchwiliad hwn defnyddiwyd codio semanteg i osod trefn ar ymatebion y plant a'r staff o ran eu hymatebion hwythau (gweler **Cam 2** isod). Gall grwpio helpu i drefnu'r data (Braun a Clarke, 2022; Miles *et al.*, 2020) drwy dynnu ynghyd gysyniadau, geiriau neu ystyron a berthyn i'r un math o grŵp er enghraifft yn achos y plant o fewn yr ymchwiliad fe allai eu hymatebion gynnwys cyfeiriadau at bobl, llefydd, adnoddau neu brofiadau.

Wedi **casglu'r data ynghyd (Cam 1** – (Braun a Clarke, 2022) a throsglwyddo'r darnau i drawsgrifiau ac i ddull digidol fel y medrid eu defnyddio a'u cyflwyno. Gwelir isod yn Ffigwr 17 rhai o'r mathau o ddata a gasglwyd megis recordiadau, ffotograffau a thrawsgrifiadau.



Ffigwr 17 - Casgliad o'r data gwreiddiol

Ystyriwyd darluniau a phaentiadau'r plant (Atodiad 9) gan adnabod gwahanol fanylion a berthyn iddynt megis tystiolaeth o'u hoffterau neu bethau oeddynt a diddordeb ynddo neu sut roeddent yn amgyffred y byd o'u hamgylch. Roedd y rhain

yn cynnwys cofnodion cyffredin o unigolion eraill, adnoddau a llefydd – pethau a allai fod yn bwysig iddynt. Mynegiant emosiynol y sawl oedd yn eu darluniau a oedd yn cynnig syniad o deimlad y plentyn. Cafwyd yn ogystal sgysiau gyda'r plant am eu cynhyrchion a oedd yn cynnig mewnwelediad uniongyrchol i'w hoffterau a'u prosesau meddwl, roedd hefyd yn fodd i sicrhau fy mod wedi deal yn iawn yr hyn roeddynt yn ceisio ei gyfleu.

Ail gam y broses yw **cyrchu côdau cynnar** (Braun a Clarke, 2022). Gall cyflwyno a throsi geiriau a lluniau cyfranogwyr i storiâu a moddau gweledol fod yn fwy grymus na disgrifiadau hirfaith yn unig (Braun a Clarke, 2022; Miles, Huberman a Saldana, 2020). Awgryma Cohen *et al.* (2018) fod gan ymchwilyr syniadau o flaen llaw o ran côdio data ac fe ychwanegant at, addasu ac ail wampio wrth ymdrin â'r deunydd. Dylid dechrau côdio'n gynnar o fewn y broses ymchwilio medd Miles a Huberman (2020) ac i gadw nifer fechan o gôdau gweler Ffigwr 18 yn amlinellu'r côdau a fabwysiadwyd ar sail ymatebion y plant:

Côd Côdau semantig o'r data darluniadol a llafar	Thema (cynhyrchwyd gan yr awdur)	Esiaml
Côd - nhw eu hunain, oedolion a phlant eraill	Dynol-emosiynol	"That's Miss.... and that's me." (P4, Y1) "(enw ffrind). a fi sy' fan hyn." (P2, Y3) "Ffrind gore fi." (P6, Y3) "Chwarae gyda ffrindie." (P4, Y3) "Me and Miss." (P4, Y2)
Côd - llefydd a gweithgareddau	Gofodol-emosiynol:	"Chwarae gyda ffrindie." (P4, Y3) "Going to the forest school." (P4, Y1) "Deinosoriaid mas tu fas." (P3, Y3) "Learning about the penguins." (P6, Y3) "I play football it makes me happy." (P4, Y2)
Côd - adnoddau a gweithgareddau	Corfforol-emosiynol:	"Chwarae gyda ffrindie." (P4, Y2) "Deinosoriaid mas tu fas." (P3, Y3) "I play football it makes me happy." (P4, Y2) "Playing on my i-pad." (P7, Y2) "(we) love doing challenges." (P2, Y1)

Ffigwr 18 - Codau a gasglwyd o ddata'r plant


Dylid bod yn ofalus wrth gôdio na chollir manylion megis ystyr, cyd-destun neu ymddygiad yn ystod casglu'r data ac o bosib bydd angen gwneud rhai nodiadau pellach ynghyd â côdio er mwyn cynnwys yr elfennau yma (Braun a Clarke, 2022; Cohen *et al.*, 2018; Maguire a Delahunt, 2017). Fel rhan o'r ymchwiliad ysgrifennais bytiau byrion yn nodi'r dyddiad, y gofod a'r amser fel rhan o'r data a oedd yn rhoi mwy o fanylder i gyd-destun y casglu. Awgryma'r llenyddiaeth na ddylid hefyd gor-gôdio a chwilio am batrymau nad ydynt yn bodoli (Braun a Clarke, 2022; Silverman, 2020). Gwnaed osgoi hyn wrth fynd drwy'r gwahanol fathau o ddata droeon a throchi o fewn y deunydd, Noda Braun a Clarke (2022) fod gwneud hyn yn galluogi'r ymchwilydd i ddatblygu dull deublyg o ddarllen y data megis drwy gyfarwyddo a thrwy ddadansoddi critigol er mwyn gweld y cyfoeth o fewn y deunydd ac o bosib, y patrymau sy'n dechrau ymddangos.

Defnyddiwyd dull côdio agored ystyregol (Braun a Clarke, 2022; Cohen *et al.*, 2018; Maguire a Delahunt, 2017) i gategoreiddio data i ddarnau llai ac a oedd yn cysylltu'n uniongyrchol â'r cwestiynau ymchwil. O fewn **ail gam** y dadansoddi cynnar adnabyddais gôdau geirfaol a gweledol o fewn y darluniau a thrawsgrifiadau'r trafodaethau megis enwau neu ansoddeiriau (gweler Ffigwr 19). Roedd y geiriau hyn yn cyflwyno gwybodaeth am ddylanwadau ar hapusrwydd y plant a'r disgrifiadau roeddynt yn rhoi o'u darluniau, dylid cydnabod y buasai rhywun arall o bosib wedi nodi rhai gwahanol.


Yn fwy na defnyddio'r geiriau'n unig roeddwn yn defnyddio'r lluniau eu hunain a ffotograffau'r plant i gadarnhau mai dyna oedd yn dylanwadu ar eu hapusrwydd yn unigol, a fy mod yn deall y data'n gywir (Clark, 2017; Banks, 2018). Roedd sicrhau'r cam hwn yn angenrheidiol gan fod lleisiau plant ifainc yn wahanol i rai oedolion a rhaid oedd sicrhau bod yr hyn a oedd yn dylanwadu ar eu hapusrwydd yn cael ei fynegi'n glir a chywir.

Datblygodd y côdau wrth i'r **dadansoddi parhau i themâu** sef **trydydd cam** fframwaith Braun a Clarke (2022) a oedd yn gysylltiedig â chysyniadau neu ystyr tebyg er enghraifft pobl, lleoedd neu adnoddau (gweler Ffigwr 19). Tybiwyd wrth ddadansoddi byddai angen côdio pellach wrth i themâu pellach ymddangos (Maguire a Delahunt, 2017) (Ffigwr 19 – sy'n arddangos tanlinellu geiriau allweddol). Ar


ddiwedd y cam hwn roedd y codau wedi'u trefnu'n themâu disgrifiadol ehangach sy'n cyflwyno rhywbeth penodol am y cwestiynau ymchwil.



Ffigur 19 - Tanlinellu geiriau allweddol o drawsgrifiad




Ffigur 20 - Adnabod y themâu



Ffigur 21 - Datblygu'r themâu ymhellach

Ail ystyriwyd y themâu (Cam 4 – Braun a Clarke, 2022) wrth fynd yn ôl drwy'r data a chroesgyfeirio i sicrhau cywirdeb y deunydd er enghraifft yr hyn a ddarluniwyd â'r hyn a ddywedwyd gan y plant (CY1) (Ffigur 20 a Ffigur 21), neu'r hyn a nodwyd fel dylanwadau ar gynllunio yn y cyfweiliad a'r hyn nodwyd yn yr holiadur o ran dulliau presennol o gynllunio (CY2).

Eglurir y themâu yng **Ngham 5** o'r **dadansoddi, sut daethpwyd at ddiffiniadau'r** themâu gan nodi er enghraifft pa mor aml ymddangosodd geiriau cysylltiedig neu gysyniad a berthyn i'r thema ac ystyr y thema o fewn cyd-destun yr ymchwiliad hwn Ffigur 22 - cofnod amllder y themâu.



Ffigur 22 - Amllder y themâu o fewn sgysiau'r plant

Yn olaf, tyn **Cam 6 (ysgrifennu a dylunio'r data)** y gwahanol ddulliau ynghyd i gyfleu a chyflwyno data'r plant a'r athrawon mewn moddau sy'n egluro'r broses a'r ymatebion yn gywir a chynnil. Noda King (2004) a Braun a Clarke (2022) y dylai'r deunydd terfynol symud y tu hwnt i ddisgrifio'r côdau a'r themâu i fod yn naratif sydd wedi ei gwau'n gelfydd i egluro sut y dehonglwyd y data, trafod goblygiadau'r canfyddiadau, a chwestiynu'r rhagdybiaethau a arweiniodd at y themâu (Kieger a Varpio, 2020). Gwelir enghreifftiau o sut y sicrhawyd hyn yn adran 4.4 lle cyflwynir ymatebion y plant ar ffurf cywaith o'r data a gasglwyd.

Gwnaed y penderfyniad i ddefnyddio y fethodoleg dadansoddi thematig (Braun a Clarke, 2023) ar gyfer yr ymchwiliad yma am y rhesymau a'u nodir uchod. Yn ogystal dylid nodi yma oherwydd bod yna ddau gwestiwn ymchwil a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig, lle'r oedd data cwestiwn ymchwil 1 yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi, ac yna ei ddefnyddio'n benodol i hysbysu a chasglu data newydd fel rhan o gwestiwn ymchwil 2. Defnyddiwyd methodoleg ddilyniannol fel noda Berger (2018), gall fod yn fanteisiol sylweddol i ddefnyddio'r fethodoleg hon gan ei fod yn caniatáu i rannau o'r data gael eu dadansoddi wrth i'r ymchwil fynd rhagddo. Gall hyn hwyluso'r swmp o ddata i'w ddadansoddi ar ddiwedd y cyfnod casglu, ac felly gall themâu ddechrau dod i'r amlwg yn gynt yn y broses ymchwil.

Yn aml gydag ymchwil sy'n defnyddio'r fethodoleg hon, mae data meintiol yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi yn gyntaf ac yna'r data ansoddol (Ivankova *et al.*, 2006). Yn achos yr ymchwiliad hwn roedd y ddwy ran o natur ansoddol gydag CY1 (data disgyblion) yn cael blaenoriaeth oherwydd yr angen am y set gyntaf o ddata i hysbysu'r ail ran (data athrawon) sef CY2.

Defnyddiwyd dulliau megis darlunio, peintio, ffotograffu a thrafodaethau (dull Mosaic) ar gyfer data CY1 ac wedi dadansoddi'n thematig doed at themâu a phrif negeseuon a'u rhannwyd gyda'r athrawon yn ystod y cyfweiliad cyntaf (gweler Atodiad 7) a oedd yn eu hysbysu o'r hyn a ddylanwada ar hapusrwydd y disgyblion tra yn yr ysgol. Ni wnaeth dadansoddi data rhan 1 gan ddefnyddio methodoleg ddilyniannol ddylanwadu ar y dulliau a'u dewiswyd ar gyfer rhan 2, sef cyfweld, ond mi wnaeth rymuso'r drafodaeth gyda'r athrawon o ran ffocws yr ymchwiliad.

Mae defnyddio'r model damcaniaethol wedi'i addasu i lywio penderfyniadau ar gyfer y cam dilynol yn hollbwysig er mwyn gwella trylwyrdd mewn astudiaethau o ddulliau cymysg dilyniannol (Haynes-Brown, 2023). Yn yr astudiaeth hon, drwy ymgorffori nodweddion penodol o'r cyfnod dylunio wrth ddewis yr ysgolion i sicrhau amrywiaeth (yn ddaearyddol, maint, iaith) ar gyfer yr achosion, llwyddais i adnabod patrymau yn y data ar hyd y ffordd. At hynny, roedd y penderfyniad i ddefnyddio dulliau cymysg wedi fy ngalluogi i archwilio'n fanylach i ba raddau y mae ymatebion emosiynol cadarnhaol disgyblion i'w hamgylcheddau dysgu (CY1). Gyda CY2 yn archwilio a allai'r data yma gyfrannu at wybodaeth athrawon i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'u disgyblion a chyfrannu at eu gweithredoedd cynllunio a pharatoi i'r dyfodol.

Mae astudiaethau dulliau cymysg dilyniannol yn gyffredinol yn elwa o ddefnyddio'r canlyniadau ansoddol i ehangu neu egluro'r canlyniadau cychwynnol (Creswell, 2014). Amlygwyd hyn yn yr astudiaeth hon lle'r oedd y themâu a ddeilliodd o'r data cymysg yn rhoi mwy o fanylion i ddeall y themâu a'r cysyniadau a oedd yn amlwg ym mhrofiadau a dealltwriaeth y plant o'u hapusrwydd (CY1), a chredoau'r athrawon yn ymwneud â chynnwys hapusrwydd plant yn eu cynllunio a'u harferion beunyddiol (CY2).

Mae dadansoddi data dilyniannol yn ddull effeithiol o wneud ymchwil addysgol sy'n cynnwys plant ac athrawon oherwydd ei fod yn caniatáu i ymchwilwyr archwilio patrymau. Yn ôl Creswell (2014), mae dull dilyniannol, yn enwedig mewn ymchwil

dulliau cymysg, yn galluogi casglu a dadansoddi data gwahanol fesul cam, gan arwain at ddealltwriaeth ddyfnach o ffenomenau addysgol. Trwy ddefnyddio dadansoddiad data dilyniannol, gall ymchwilwyr ddeall natur esblygol addysg yn well a gwella profiadau addysgu a dysgu yn seiliedig ar dystiolaeth. Yn yr achos hwn roedd yn caniatáu gwell dealltwriaeth o'r agweddau hynny sy'n cael effaith ddofn ar hapusrwydd plant ifanc yn yr ysgol.

Aed drwy'r un broses o gasglu a dadansoddi'r data gan ddefnyddio fframwaith Braun a Clarke (2022) ar gyfer CY2 sef y cyfweiliadau â'r athrawon er mwyn darganfod yn gyntaf eu harferion presennol o ran hapusrwydd y plant. Gwelir isod yn Ffigwr 23 y cam o gynhyrchu côdau o ddata cyfweiliadau â'r athrawon a cheir trafodaeth bellach ym Mhennod 4. Yn Ffigwr 23 isod, mae ymatebion yr athrawon ynglŷn â sut oeddynt yn casglu gwybodaeth o ran eu dulliau cynllunio a'u hystyriaeth o les a hapusrwydd y plant cyn cychwyn yr ymchwiliad hwn. Holwyd pob par o athrawon (dwy ynghyd o bob ysgol) gan ddilyn y cwestiynau a welir yn Atodiad 11. Sicrhawyd bod y modd y casglwyd y data'n cael ei ddyblygu yn yr un modd ymhob lleoliad ysgol i sicrhau cysondeb o ran yr iaith a ddefnyddiwyd a'r modd holwyd y cwestiynau (Peels, 2019).

Côd Côdau semantig o'r data darluniadol a llafar	Disgrifiad	Esiampl
Côd- Ymateb o ddeunydd ymchwil addysg.	Ymatebion oedd yn cynnwys terminoleg neu strategaethau a ddefnyddiwyd gan ymchwilwyr addysg.	'We use a type of Leuven survey to assess on occasion.' (A2, Y1) 'During circle time activities occasionally or the TA's or teachers will gather children's comments.' (A2, Y2) 'To feed back into our planning, to readdress or consolidate aspects eg positive praise methods used. (A2, Y2) 'Byddwn yn cywain barn plant ar ddechrau thema i annog perchnogaeth o ardaloedd.' (A2, Y3)
Côd -	Ymatebion oedd yn cynnwys terminoleg a ddeillia o	'We start with the four purposes' (A1, Y1)

Ymateb o ddeunydd polisi	ddogfennau polisi cwricwlaidd.	'Curriculum for Wales.' (A1, Y2) 'The environment we plan and prepare. (A1, Y2) 'Sgiliau y cwricwlwm..' (A1, Y3)
Côd - Ymateb o ethos cymuned ysgol	Ymatebion oedd yn cynnwys geirfa a oedd yn awgrymu moddau ysgol gyfan o weithredu.	'..we do for example UNCRC Children's Rights...' (A2, Y1) 'we have an 'empathy lab' where we discuss feelings and emotions in different ways, we also use the Paths programme and self-regulation check-ins.' (A1, Y1) 'Children's ideas and interests are a starting point for us.' '..the big questions the children may have relating to the theme explored.' (A2, Y2) 'Children's relationships and check-ins. (A2, Y2) we will be using the new platform on Hwb next year to track children's emotional development so that it is seen as something that is valued (A1, Y2) 'We are a Rights respecting school therefore wellbeing is central' (A1, Y2) 'Byddwn yn siarad gyda rhieni ben bore ac yn gwyllo plant wrth eu tasgau.' (A1, Y3) 'Bydd staff yn modelu defnyddio'r ardaloedd ar gychwyn thema fel arfer.' (A2, Y3) '..Oes, amser cylch yn enwedig.' (A1, Y3)
Côd - Ymateb o addysgeg personol	Ymatebion oedd yn amlygu addysgeg personol yr athrawon o fewn eu dosbarthiadau blynyddoedd cynnar.	'We hold daily check-ins and keep an eye throughout the day on children's wellbeing.' (A1, Y1)

		‘..in the Foundation Phase (FP) we have characters eg Healthy Harry (A2, Y1) ‘..holi’r plant am eu syniadau a clymu cwestiynau’r plant gyda’r thema. (A1, Y3) ‘Ni’n defnyddio system Speaker a gosod enw wrth gwahanol emoji. (A1, Y3) ‘Rydym yn defnyddio system gofrestru a gwobrwyo cyson’ (A2, Y3) ‘Byddwn yn cywain barn plant ar ddechrau thema i annog perchnogaeth o ardaloedd.’ (A2, Y3)
--	--	--

Ffigwr 23 - Codau a themau o ddata’r athrawon

3.16 Casgliadau’r bennod

Trwy gydol y broses o ymdrin â’r data, cadw’n driw at ymatebion y cyfranogwyr oedd wrth wraidd y penderfyniadau a wnaed.

Fel ymchwilydd roeddwn yn benderfynol yn ystod y broses fethodolegol pa bynnag benderfyniadau a wnaed, roedd yn rhaid iddynt:

1. Ymateb i’r cwestiynau ymchwil, yn bennaf beth sy’n dylanwadu ar hapusrwydd plant ifainc yn yr ysgol.
2. Gynnig mewnwelediad i beth yw dealltwriaeth a phrofiad plant o hapusrwydd yn yr ysgol.
3. Gynyddu ein dealltwriaeth fel addysgwyr o fywydau plant yn enwedig y pethau sy’n gyfrifol am ddylanwadu ar emosiynau plant
4. Ddatblygu ein hymwybyddiaeth o hapusrwydd plant a chyd-lunio ein penderfyniadau pedagogaid wrth gynllunio ar gyfer plant.
5. Gyfrannu at wneud gwahaniaeth i fywydau plant a’r hyn dderbyniant o ran profiadau yn yr ysgol.

Roedd sicrhau cyfranogiad digonol gan bob unigolyn (gan gasglu deunydd aml gyfrwng) yn llywio'r addasiadau a wnaed i'r cyfnod peilota, gyda'r bwriad o wneud y data yn ddefnyddiol a phwrpasol i'r staff, ac yn amserol o ran ymateb i ofynion y diwygiadau cenedlaethol parthed addysg yng Nghymru (LI C, 2019a, LI C, 2020).

Yn ei dro gallai cyfranogi mewn ymchwiliad o'r fath helpu i rymuso llais y plentyn a'i hawliau (Comisiynydd Plant Cymru, 2021; CCUHP, 1989) a chyfrannu at well profiadau addysgol. Gallai hefyd annog hyder athrawon i gydio o'r newydd neu barhau i ymgymryd ag ymchwil tebyg gan fyfyrion ar arferion er mwyn adeiladu ar eu crefft fel addysgwyr (Tripney *et al.*, 2018). Yn bersonol fel ymchwilydd, roedd yn fodd i mi ledaenu fy nealltwriaeth o gyflwr emosiynol plant o ran eu lles, yn benodol eu hapusrwydd, a dirnad sut y gall hyn gael ardrawiad ar arferion cynllunio darparwyr a fedr fwydo fewn i'm gwaith fel hyfforddwr addysg darpar athrawon.

Pennod 4: Canlyniadau'r data

Cyflwyno'r bennod hon ganfyddiadau o'r data a gasglwyd ar gyfer yr ymchwiliad i ateb y cwestiynau canlynol sef:

CY1: Beth sy'n dylanwadu ar hapusrwydd plant 3 –7 oed tra yn yr ysgol?

CY2: Sut gall hyn gynorthwyo athrawon i gynllunio a myfyrio ar effeithiolrwydd y profiadau a'u darperir?

Dadansoddwyd ymatebion darluniadol, llafar a ffotograffig y plant er mwyn darganfod yr hyn sy'n dylanwadu ar eu hapusrwydd, yn ogystal â data o drawsysgrifau sgysiau â'r athrawon am eu harferion yn ymwneud â hapusrwydd plant wrth ddarparu a chynllunio.

Mynega Silverman (2020), wrth ymgymryd ag unrhyw ymchwil, rhaid ar y cychwyn feddwl am y dulliau casglu data y bwriedir eu defnyddio a hefyd y modd cyflwynir data mewn modd dealladwy, synhwyrol a threfnus. Penderfynwyd defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyflwyno er mwyn cadw'n driw at y data gwreiddiol i fynegi'r ystyron yn glir fel y gwnaeth ddatblygu wrth ymchwilio.

Gwelir isod yn Ffigwr 24 sut tynnir ynghyd y cwestiwn ymchwil, y ddamcaniaeth sy'n sail i'r ymchwiliad a'r dulliau dadansoddi a ddefnyddiwyd er mwyn cynhyrchu'r canlyniadau o fewn y bennod hon.

Cwestiwn ymchwil (CY)	Cefndir damcaniaethol	Dull(iau) ymchwilio	Moddau casglu'r data	Dull(iau) dadansoddi
CY1: Beth sy'n dylanwadu ar hapusrwydd plant 3 –7 oed tra yn yr ysgol?	Lluniadaeth gymdeithasol / ddiwylliannol (Bronfenbrenner, 1979; Vygotsky, 1978; Rogoff, 2003; Cwricwlwm i Gymru, 2022)	Ansoddol cymysg (Cohen, Manion a Morrisson, 2018; Punch a Oancea, 2014; Dalamont, 1992)	Darlunio Peintio Ffotograffu Trafod (cyfweiliad) (Clark a Moss, 2017)	Codio Dadansodddi thematig Cymharu croesgyfeirio deunydd (Braun a Clark, 2022; Clark a Moss, 2017)
CY2: Sut gall hyn gynorthwyo athrawon i gynllunio a myfyrio ar effeithiolrwydd y profiadau a ddarperir?	Lluniadaeth gymdeithasol / ddiwylliannol (Bronfenbrenner, 1979; Vygotsky 1978; Rogoff, 2003; Cwricwlwm i Gymru, 2022)	Ansoddol cymysg Dull archwiliadol dilyniannol (Creswell a Creswell, 2018; Simmons, 2009; Bassey, 1999)	Cyfweiliadau (Simmons, 2009; Bassey, 1999)	Codio Dadansodddi thematig (Braun a Clark, 2022)

Ffigwr 24 – Tynnu'r seilwaith ynghyd

Wedi ymdrin â'r data, doed at nifer o ganfyddiadau o ran:

Cwestiwn Ymchwil 1 sef:

- bod gwahanol sefyllfaoedd, unigolion ac adnoddau'n dylanwadu ar hapusrwydd plant
- bod plant yn datblygu ymlyniadau at adnoddau, gweithgareddau, mannau a phobl a ddylanwada ar eu teimladau o hapusrwydd
- er bod rhai sefyllfaoedd tebyg, dylid ystyried bod plant ifainc yn unigryw o ran beth sy'n eu gwneud yn hapus
- y gwna plant gydnabod pwysigrwydd ymateb i'w anghenion (hapusrwydd) eu hunain fel unigolion yn ogystal â gweithgarwch gymdeithasol a wna greu hapusrwydd ynddynt
- y dylid cofio bod yn ofalus a rhagdybio beth sy'n dylanwadu ar hapusrwydd plant gan y gallai'r dylanwadau fod yn rhai dros-dro

Cwestiwn Ymchwil 2 sef:

- i athrawon gydnabod ymhellach bod eu haddysgeg wedi'i ddylanwadu gan sawl nodwedd a bod parhau i ehangu eu dealltwriaeth yn rhan bwysig o'u rôl
- bod deall beth sy'n dylanwadu ar blant yn medru cyfrannu at, a chyfoethogi arferion cynllunio ac ymarfer
- bod nifer o ffactorau dylanwadol y dylid eu hystyried i sicrhau hapusrwydd fel rhan ganolog o les plant
- er mwyn deall priodoledd y ddarpariaeth y dylid parhau i gydnabod bod angen meddylfryd addysg ddwyffordd er mwyn dod i adnabod yr unigolyn

Dechreuir y drafodaeth gan gyflwyno mynegiant y plant o'u dealltwriaeth o hapusrwydd (4.1). Yn 4.2 gwelir cyweithiau'n arddangos deunydd o'r gwahanol ddata a gyfrannodd yr unigolion a thrafodaeth o gasgliadau CY1 i gychwyn. Yna, ceir trafodaeth o'r tair prif thema o ran y dylanwadau ar hapusrwydd y plant sef 4.2.1- dylanwadau dynol, 4.2.2 - y dylanwadau gofodol a 4.2.3 - y dylanwadau corfforol . Yn adran 4.3 ceir trafodaeth o'r canlyniadau o ddata'r plant. Yn adran 4.4 a 4.5 cyflwynir y data a gyrchwyd o ymatebion yr athrawon o ran eu dulliau cynllunio ynghyd a'u myfyrion ar ddiwedd yr ymchwiliad ar ddylanwad cyfranogi i'r ymchwil ac ar eu harferion o gynllunio a monitro effeithiolrwydd y ddarpariaeth. Yn benodol, mae'r bennod yn rhannu sut atebwyd y cwestiynau ymchwil (CY1 a CY2) yn eu tro.

Er hwylustod a dealltwriaeth cyflwynir y data fel a ganlyn:

Cwestiwn Ymchwil 1 a 2 - CY1/ CY2

Ysgol 1,2,3 – Y1, Y2

Plentyn: P1, P2

Athrawon A1, A2

Felly, byddai Athro 2 o ysgol 3 yn ymddangos fel A2, Y3 a Phlentyn 1 o Ysgol 2 fel P1, Y2.

Mae Ysgolion 1 a 2 yn ysgolion cyfrwng Saesneg ac Ysgol 3 yn un cyfrwng Cymraeg.

4.1 Hapusrwydd - dealltwriaeth a diffiniadau'r plant o hapusrwydd

Prif nod y gwaith yw canfod y dylanwadau ar hapusrwydd y plentyn a'r cyflwr emosiynol sy'n cyfrannu at yr hapusrwydd hwnnw (CY1). Amcanion CY1 oedd ceisio dal cipluniau a sefyllfaoedd pob dydd sy'n bwydo profiadau hapusrwydd y plant.

Cyn cychwyn yr ymchwiliad i ddarganfod beth oedd y dylanwadau ar hapusrwydd plant yn yr ysgol (CY1) a sut gall y wybodaeth hon gynorthwyo athrawon wrth gynllunio (CY2), rhaid oedd ceisio caniatâd yr athrawon a'r rhieni fel yr eglurwyd ym Mhennod 3. O drafodaeth a'r staff ar gychwyn yr ymchwiliad ni deimlent dan bwysau i gyfranogi a gwnaethant fynegi diddordeb gan fod y testun yn apelio atynt. Yn yr un modd, pan ddosbarthwyd y llythyron ymysg y rhieni nodwyd gan yr athrawon bod gwir ddiddordeb ymysg y rhieni i wybod mwy am hapusrwydd eu plant. Awgryma hyn fod y maes ffocws yn un sy'n ennyn sylw ac yn werth ei ymchwilio ymhellach.

Roedd dechrau'r ymchwiliad o fewn amgylchedd y dosbarth yn angenrheidiol i'r ymchwiliad gan mai dyna oedd ffocws y gwaith sef dylanwadau ar hapusrwydd y plant tra yn yr ysgol. Ni fyddai wedi gwneud synnwyr i osod y dasg ddarlunio yn weithgarwch cartref gan na fyddai wedi bod yn ddilys ac hefyd yn anoddach i'r plant beidio â chynnwys dylanwadau eraill o'r cartref. Wrth leoli'r dasg o fewn amgylchedd yr ysgol, medrai'r ddefnyddio'r amgylchedd roeddent ynddi ar y pryd fel atgoffwr o'r mannau, y gweithgareddau a'r gwrthrychau oedd yn dylanwadu ar eu hapusrwydd.

Gan droi yn ôl at Gwestiwn Ymchwil 1 o'r hyn sy'n bwysig i blentyn o ran ei deimladau a'i brofiadau o hapusrwydd yn yr ysgol, trafodir ymhellach oblygiadau hyn. Roedd y canfyddiadau fel a ganlyn: esboniodd y plant ystyr hapusrwydd gyda chyflyrau emosiynol cadarnhaol megis mwynhau, bod yn gynnes, cael hwyl, hoffi, a chyffro wrth chwarae. Roedd y cyfranogwyr ifainc yn teimlo'n hapus wrth ymgysylltu â'u hoff fath o weithgarwch neu chwarae, cael cyfleoedd i fod ar eu pen eu hunain neu gyda'u hoff berson, derbyn gwobr, bod o fewn amgylcheddau amrywiol, cael dewis eu hoff offer, a chyflawni'r hyn oedd yn dod a mwynhad yn ei sgil.

Cychwynnwyd gan holi'r plant ystyr hapusrwydd iddyn nhw. Gwnaed hyn gan fod canfod dealltwriaeth plant o hapusrwydd yn bwysig am sawl rheswm allweddol, gan

y gall eu dealltwriaeth o hapusrwydd effeithio ar eu datblygiad emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol. Mae deall hapusrwydd yn helpu plant i adnabod a gwahaniaethu eu hemosiynau (Musgrave, 2017). Mae'r ymwybyddiaeth hon yn sylfaenol ar gyfer deallusrwydd emosiynol, gan ganiatáu iddynt ddeall eu teimladau a theimladau pobl eraill yn well. Pan fydd plant yn deall beth sy'n eu gwneud yn hapus, gallant ddatblygu ffyrdd iach o geisio a chynnal hapusrwydd. Fe all y ddealltwriaeth hon hefyd helpu i reoli emosiynau negyddol a llywio heriau, gan gyfrannu at wydnwch emosiynol cyffredinol (Seligman, 2000; Clark, 2017). Mae deall hapusrwydd yn annog plant i ganolbwyntio ar brofiadau ac emosiynau cadarnhaol, sy'n hanfodol ar gyfer datblygu meddylfryd cadarnhaol. Gall agwedd gadarnhaol leihau'r risg o bryder. Pan fydd plant yn sylweddoli beth sy'n eu gwneud yn hapus, awgrymir eu bod yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hybu eu hunan-barch a'u hyder. Mae annog plant ifainc i gyfleu eu dealltwriaeth yn fanteisiol mewn sawl ffordd yn addysgol gan ei fod yn arddangos eu dealltwriaeth, gallu i fynegi a'r ffyrdd y gwnânt brofi'r byd o'u cwrmpas.

Nodwyd ynghynt ym Mhennod 3 y rhesymeg o sicrhau amgylchedd gyfarwydd i'r plant fel man cychwyn a bod y gweithgaredd cychwynnol yn gweddu i weithgarwch arferol y dosbarthiadau, fel bod ymatebion y plant yn fynegiant ffeithiol o'u profiadau a'u dealltwriaeth o hapusrwydd tra eu bod yn yr ysgol. I geisio dal diddordeb y plant, roedd dewis sesiwn ddarlunio neu beintio fel sbardun cychwynnol er mwyn sicrhau eu cyfranogiad yn fodd effeithiol (Clark, 2017, McPhail, 2010). Gweler enghreifftiau o'u darluniau yn Adran 4.2 ac yn Atodiad 9. Llwyddodd hyn i ddal eu sylw i ryngweithio a pharhau â'u sgysiau dilynol am eu hapusrwydd, gan fod y drafodaeth yn deillio o'u gwybodaeth a'u profiadau nhw eu hunain. Golyga hyn mai nhw oedd yr 'arbenigwyr' yn rhannu eu meddyliau fel unigolion mwy medrus (Vygotsky, 1978; Clark, 2017).

Braf hefyd oedd eu gweld yn fyrlymus yn trafod eu cynhyrchion a pharod i ehangu ar eu sgysiau cychwynnol gan ddangos yn y fan a'r lle, yr hyn roeddent wedi rhoi ar bapur eisoes sef gwrthrychau oedd o fewn a thu allan eu hamgylcheddau dysgu. Drwy ddarlun, trafodaeth a defnydd o dechnoleg medrent gyfathrebu eu profiad a'u dealltwriaeth o hapusrwydd mewn moddau gwahanol a oedd yn eu cynorthwyo lle byddai geirfa gyfyng wedi llesteirio eu gallu i fedru gwneud hynny (Banks, 2018; Clark, 2017). Roedd yn bwysig eu bod yn teimlo'n gyfforddus i gyfranogi gan fod

mynegiadau plant ifainc o'u bydoedd fel rhan o waith ymchwil yn greiddiol i'm credoau personol. Braf hefyd oedd darganfod bod y plant yn awyddus i ail adrodd y profiad gan i nifer ohonynt holi "Wyt ti'n dod 'nôl rhywbryd eto?" (P1, Y3) a "Can we do this again tomorrow?" (P3, Y2) neu fynegiadau tebyg.

Gyda'r bwriad o ddarganfod beth roedden nhw'n ei gadw yn eu hatgofion fel atgoffwyr hapusrwydd, a pha sefyllfaoedd ac amodau yn eu bywyd bob dydd yn yr ysgol y maen nhw'n eu nodi fel rhai sy'n gysylltiedig â'u hapusrwydd. Holwyd y plant am yr hyn oedd yn eu gwneud yn hapus, ond, yn gyntaf ceisiwyd darganfod o'r trafodaethau beth yn union roeddent yn ystyried yw hapusrwydd fel cysyniad.

Nodwyd ynghynt (3.6) y cedwir yn driw at yr iaith a'r eirfa a ddefnyddiodd y plant yn wreiddiol wrth drafod (Ffigwr 25); gwnaed hyn er mwyn diogelu risg gan gadw at ystyriaethau diwylliant ac iaith (PCYDDS, 2020).




Ffigwr 25 – Geirfa'r plant o hapusrwydd

Yn ôl Thoilliez (2011) mae dau fodd i astudio hapusrwydd; yn gyntaf ystyried beth a olygir wrth hapusrwydd, a'r ail, holi unigolion beth sy'n eu gwneud yn hapus. Gwnaed y ddau o fewn yr ymchwiliad hwn gan ddechrau gyda dealltwriaeth y plant o'r cysyniad hapusrwydd fel man cychwyn i'r drafodaeth gan ddefnyddio eu darluniau fel sbardun.

Yn ystod y cyfnodau dod i adnabod a thrafod eu darluniau cafwyd sgrysiâu â'r plant am ystyr hapusrwydd iddyn nhw yn bersonol, ac fe'u hanogwyd i geisio egluro ei ystyr; gan fynegi o'u profiadau ac thrwy ddisgrifio eu cynhyrchion. Roedd hyn yn fan

cychwyn allweddol bwysig i mi er mwyn sefydlu a oeddynt yn deall yr hyn a oedd yn ofynnol, sef egluro'r dylanwadau ar eu hapusrwydd, ac yna yn medru arddangos eu dealltwriaeth o'r cysyniad mewn moddau amrywiol.

Gwelir o fewn y swigod uchod yn Ffigwr 25 rhai o'r geiriau oedd yn ymddangos o fewn ymatebion y plant a gysylltai â'u dealltwriaeth o hapusrwydd. Dewisiwyd y rhain gan iddynt gael eu mynegi o fewn eu disgrifiadau llafar a theimlwyd eu bod yn eirfa oedd yn cyfleu hapusrwydd mewn amrywiaeth o ffyrdd, yn uniongyrchol yn yr ystyr diraethol corfforol (cwtsh, smile, gwenu) ac yn emosiynol haniaethol (teimladau megis neis, lyfli). Rhoddai ymatebion y plant darlun cliriach o sut gwnânt ddehongli hapusrwydd a'u medr i gyfleu mewn ffyrdd amrywiol sut gwnânt brofi a phrosesu ystyr hapusrwydd yn uniongyrchol eu hunain (Clark, 2017; Rinaldi, 1998). Isod yn Ffigwr 26, gweler enghreifftiau o rai o sylwadau'r plant am hapusrwydd.



Ffigwr 26 - Ymadroddion hapusrwydd plant

O ymatebion y plant, gellid dadansoddi bod dealltwriaeth gan ddysgwyr tair i saith oed o'r cysyniad hedonaidd o hapusrwydd a phryd mae'r ymdeimlad hwn yn ymddangos ynddynt, megis yn ymateb P2, Y3 a Phlentyn 1 Ysgol 2. Mynegodd 4 plentyn mai 'bod yn hapus' yw bod yn rhan o weithgarwch gyda ffrindiau (P1, Y1; P1 a P2, Y2; P3, Y3). Roedd mynegiant wynebol a'r profiadau sy'n gysylltiedig ag hapusrwydd yn allweddol fel rhan o'r hyn roedd y plant yn ei ddeall am hapusrwydd gyda saith o'r naw yn sôn am wenu neu chwerthin.

Awgrymodd P3 o Y3 'Pan ni'n cael neud tocyn aur' sef pan oedd y plentyn yn cael dewis o wirfodd beth i'w wneud yn y dosbarth. Gwnaeth pob cyfranogwr gyfleu hapusrwydd o fod yn eu lleoliadau ysgol,

'I like being in school' (P1, Y2), 'Coming to school makes me happy' (P3 Y3) er gwelwyd bod yna amrywiaeth o ran beth, a pha mor hapus roeddent o fewn gwahanol fannau ymchwilio, o unigolion, ac o'r gweithgarwch oedd ar gael iddynt.

Diddorol ac annisgwyl oedd dadansoddi bod y plant yn cyfleu hapusrwydd eu hunain a phethau oedd yn dod a mwynhad iddynt fel unigolyn yn ystod cyfnodau o fod ar eu pen eu hunain yn ogystal ag ymwneud ag eraill. Trafodir hyn ymhellach yn y bennod ac ym mhennod 5.

4.2 Llais y plentyn: y dylanwadau ar hapusrwydd y plant (dull cywaith) (CY1)

Soniwyd ynghynt fod y dasg gychwynnol o beintio neu ddarlunio yn un a wnaed fel rhan o arfer dosbarth. Dyma oedd sail y drafodaeth gychwynnol â'r plant ynghyd â thrafod hapusrwydd yn gyffredinol. Roedd mabwysiadu'r dull Mosaic yn werthfawr er mwyn sicrhau dealltwriaeth o'r ystyron a roddai'r plant i'w syniadau eu meddyliau a'u darluniau ac yn cynnig cyfleoedd iddynt ymhelaethu ymhellach ar eu cynhyrchion.

Cytunir â Clark (2017), bod Mosaic yn tynnu ynghyd y deunydd a luniwyd o wahanol ffynonellau sy'n galluogi darlun manwl gael ei adeiladu ac sy'n caniatáu cynnwys pob plentyn yn rhan o ymchwil waeth beth fo'i oedran neu ei gam datblygiadol. Atega hyn feddylfryd BERA (2024) na ddylid eithrio unrhyw blentyn rhag bod yn rhan o ymchwil ac mae'n gytûn ag athroniaeth gynhwysol ar gyfer addysg plant yng Nghymru (LI C, 2018). Gwnaeth y broses dddadansoddi arddangos y rhyngweithrediadau a'r

mewnweithrediadau oedd gan y plant â'u hamgylcheddau, adnoddau, ardaloedd a'r bobl oedd yn rhan o'u cymunedau ysgol (Lenz Taguchi, 2010). Daeth hyn yn amlwg yn eu darluniau pan wnaethant gyfleu gweithgarwch unigol a gydag eraill ac yn eu trafodaethau wrth sôn am yr hyn oedd yn dod â mwynhad iddynt a'i gwneud yn hapus tra yn yr ysgol.

Ni chyflwynir trafodaethau llafar llawn y plant ar y cyweithiau sydd i ddilyn isod (Ffigurau 27 - 35) ond yn hytrach grynoded er mwyn arddangos y croesgyfeirio y medrwyd ei wneud gan ddefnyddio'r dulliau amrywiol o gasglu data. Er gwybodaeth, cyflwynir y darluniau ar raddfa o fwy yn Atodiad 9 a'r trawsgrifiadau llawn o'r trafodaethau yn Atodiad 10.

Er mwyn derbyn darlun cyflawn, cyflwynir data o'r gwahanol ffyrdd a gasglwyd megis o ddarluniau'r plant, eu sgysiau, eu ffotograffau ynghyd â sylwadau'r ymchwilydd. Yn unol ag egwyddorion ymchwil ansoddol, cyflwynir disgrifiadau dwys a chyfoethog (Cohen *et al.*, 2018) er mwyn arddangos ystyriaeth o unigrwiaeth pob plentyn a pharch at eu cyfranogiadau. Cedwir geiriau'r plant fel y gwnaethant eu hynganu er mwyn bod yn driw i'w syniadau a'u dealltwriaeth (Clark, 2017).

I ddechrau, cadwyd data ar gyfer pob plentyn unigol a phob ysgol ar wahân i gydnabod eu bod yn unigryw. Yn dilyn hyn, dadansoddwyd y data ar y cyd i nodi themâu a oedd yn dod i'r amlwg, gan ddilyn y dull dadansoddi thematig a amlinellwyd gan Braun a Clarke (2022). Roedd hyn yn bwysig fel rhan o'r broses oherwydd ei fod yn sicrhau bod unigoliaeth pob plentyn ac ysgol yn cael ei gydnabod cyn adnabod patrymau ehangach. Mae hyn yn cyd-fynd â dull dadansoddi thematig (*ibid*), sy'n pwysleisio nodi themâu'n systematig wrth gadw cyfoeth ffynonellau data unigol.

Cyfranogwyr Ysgol 1

Cyfranogwyr o ddau ddosbarth gwahanol. Nid oes mynediad uniongyrchol i'r ardal allanol o'r dosbarthiadau.



Ffigwr 27 - P1 Y1 (Merch – 6 oed)

Nododd Plentyn 1 mai'r ardal fwdlyd yn yr ysgol goedwig oedd un o'r pethau yn dylanwadu ar ei hapusrwydd, gyda'r ardal allanol yn brif hoffter ganddi (Ffigwr 27). Soniodd yn ogystal ei bod yn bles y medrai chwarae gyda'r beiciau unwaith yn rhagor gan nad oedd modd gwneud hynny pan oedd y germau'n lledu (cyfeiriad at Covid). Roedd yr athrawes yn ddylanwad cadarnhaol ar ei hapusrwydd gan ei bod yn hoff o ateb cwestiynau wrth eistedd ar y carped. O bosib gallai hyn awgrymu bod Plentyn 1 yn derbyn adborth cadarnhaol gan yr athrawes a oedd yn creu ymdeimlad o ymfalchïo ynddi (Chen *et al.*, 2020). Cysylltodd Plentyn 1 ei darlun gwreiddiol â'r ffotograffau ar yr i-pad gan bwyntio ac atgyfnerthu a chadarnhau ei dewisiadau heb unrhyw anogaeth. Ni wnaeth ffotograffu lluniau pellach wrth fynd o gwmpas ar daith gan gadw at ei dewisiadau gwreiddiol a oedd yn ei darlun. I Plentyn 1, roedd cael dewis personol o leoliad, gyda'r gofod y tu allan yn ddylanwad pennaf ar ei hapusrwydd. Nododd Plentyn 1 yn glir mwy o weithgareddau y tu allan o'u cymharu â rhai y tu mewn ac yn ddiddorol gweithgarwch annibynnol oedd yn apelio ati.



Plentyn 2 Ysgol 1 (P2, Y1)

My picture: 'Tell me about your picture.'

'I reading, doing work, climbing **in the yard**, climbing trees in **the forest school**, **Bee-bot**.
That's me and my **friend ******* playing and me and **Miss *******. That's me in the **shop**.'

Discovery walk:


'This is the pet shop and I like sitting here in the **forest school**.'

Discussion: 'Why did you choose these pictures then?'

'Coz they make me happy.'

Ffigwr 28 - P2 Y1 (Merch 6 oed)

I Blentyn 2, ei ffrindiau oedd y dylanwad amlycaf arni. Gwelir hyn o'i darlunio gwreiddiol ac o'r drafodaeth a gafwyd. Gwelir o'i darlun ei bod yng nghwmni eraill ymhob un o'i lluniau. Roedd yr ysgol goedwig yn bwysig iddi a'r tu allan yn amlwg o fewn ei darluniau er bod cydbwysedd o weithgarwch y tu mewn a thu allan i'w gweld. Yn ystod y daith ddarganfod, y siop anifeiliaid anwes oedd ei hoff le o fewn y dosbarth. Pan holwyd pa un o'r darluniau oedd yn ei gwneud fwyaf hapus pwyntiodd Plentyn 2 at ei ffrind a'i henwi sydd eto'n unol a'r data ar gyfer y sampl cyfan o ran poblogrwydd. Adnabu Carter & Nutbrown (2016) bwysigrwydd addysgeg sy'n annog perthnasau a ffrindiau ymysg plant ifainc, ac amlygwyd hyn yn ymatebion Plentyn 2 lle'r oedd perthnasau'n ganolog i'w hymatebion gyda'r athrawes a'i ffrind gorau yn ymddangos.




Ffigwr 29 - P3 Y1 (Bachgen - 5 oed)

Pan holwyd P3 i geisio disgrifio hapusrwydd soniodd ei fod yn 'nice and warm' 'like when it's my birthday'; dau gysyniad tra gwahanol ond yn cyfleu hapusrwydd o safbwynt emosiwn a theimlad mewnol. O fewn darluniau a sgwrs yr unigolyn roedd y tu allan eto'n hoff le iddo a bod ymysg ei ffrindiau'n bwysig iawn o ran ei hapusrwydd. Gwelir hyn yn amlwg yn y darlun a greodd yn wreiddiol. Pan holwyd Plentyn 3 am fod y tu allan nododd 'Coz I get to have fun and have nice playing outside'. Yn ddiddorol roedd ei ymateb yn amlygu ymdeimlad o ryddid na nodwyd gan P1 a P2. O bosib nad yw'r unigolyn yn teimlo'r un rhyddid i fedru chwarae o fewn y dosbarth gan ei fod yn cyfeirio at 'amser chwarae'. Gwelwyd ymatebion tebyg mewn ymchwil gan Kapasi & Gleave (2009) am farn plant 7 -14 oed am eu chwarae. Dywedodd 5 o'r plant yn yr ymchwiliad hwn yn ystod eu sgwrsiau eu hoff gyfnod oedd amser chwarae egwyl yn ystod yr ysgol oherwydd y gallent chwarae gyda'u ffrindiau. Yn ogystal roedd amseroedd egwyl ysgol yn golygu bod y plant yn gallu cyfarfod yn rheolaidd â llawer o'u ffrindiau a chael y rhyddid i benderfynu gyda phwy roedden nhw'n chwarae a'r gemau roedden nhw'n eu chwarae (Kapasi & Gleave, 2009).

Cyfranogwyr Ysgol 2

Ymatebion gan dri phlentyn o dri dosbarth gwahanol yn yr ysgol. Roedd mynediad lled-uniongyrchol o ddosbarth P1 a P2 i'r tu allan (ar hyd cerddfan fer) a mynediad uniongyrchol i'r tu allan i'r dosbarth gan P3.



Plentyn 1 Ysgol 2 (P1, Y2)

My picture: 'Tell me about your picture.'

'I like how I play with my friends and on the pad and in the pirate ship and that's a comic book.'

Discovery walk:

'Here is the pirate ship the writing table and outside are my friends.'

Discussion: How do you feel when you are doing these things?

'Happy.'

Ffigwr 30 - P1 Y2 (Merch - 5 oed)

Roedd Plentyn 1 o Ysgol 2 yn awyddus i ddisgrifio ei holl ddarluniau ar lafar. Cyflwynodd bob un llun yn ei dro gan ddefnyddio 'me', 'I' a 'my' o fewn ei sgwrs a oedd yn cydnabod pethau pwysig iddi hi'n bersonol fel unigolyn. Amlygodd hefyd berthynas yn aml gan nodi 'with' neu 'share' a 'play along' o fewn ein trafodaeth ac o fewn ei darlun/ ffotograffau. Ystyria Williams-Brown & Mander (2021) bod cyswllt cryf rhwng perthnasau ffrindiau a lles y plentyn, a gall fod yn fanteisiol fel modd o ddatblygu gwytnwch nes ymlaen o fewn plentyndod. Roedd ymatebion P1, Y2 yn cyfleu bod perthnasau ag eraill, yn ffrindiau neu oedolion yn ei gwneud yn hapus. Soniodd Plentyn 1 am ei 'cousin', wrth ddisgrifio chwarae ar y llithren ond eglurodd er ei bod yn ei gwneud yn hapus 'but she isn't in this school'. Amlygodd Plentyn 1 bod y weithred o ddod i'r ysgol yn ei gwneud yn hapus 'I enjoy coming to school'. Golyga hyn fod perthnasau'n bwysig i'r plentyn o ran sicrhau ei hapusrwydd a lleoliad yr ysgol yn creu ymdeimlad o hapusrwydd ynddi.



Ffigwr 31 - P2 Y2 (Merch - 5 oed)

Disgrifiodd Plentyn 2 o'r ail ysgol mai gwneud 'work with Miss' oedd yn ei gwneud hapusaf tra ei bod yn yr ysgol, er ei bod hefyd yn hapus yn chwarae y tu allan gyda'r llong môr-ladron a'r briciau gyda ffrindiau. Awgryma hyn fod gan P2 berthynas gadarnhaol â'r athrawes. Mynega ymchwil Chen et al (2020) bod rhyngweithio ag athrawon a chyfoedion yn hanfodol ar gyfer datblygiad cymdeithasol, ymddygiadol ac academaidd plant yng nghyd-destun yr ystafell ddosbarth. Atega Chen et al (2020) mae'n bur debyg bod perthynas athro-plentyn cadarnhaol yn medru hybu ymgysylltiad cydweithredol plant â gweithgareddau dosbarth ac yn gwella eu cymhwysedd cymdeithasol. Tra gyda pherthnasoedd athro-plentyn negyddol, gall plant osgoi ysgol ac yn dangos mwy o allanoli problemau ymddygiad a llai o ymddygiadau gymeithasol-gadarnhaol yn ystod rhyngweithiadau rhyngpersonol. Roedd yn ddiddorol bod P2 o fewn ein sgwrs yn ystyried yr hyn a elwir ganddi yn 'waith' (sef gweithgaredd pen bwrdd a arweiniwyd gan oedolyn) yn rhywbeth pleserus iddi. Gallai hyn awgrymu bod Plentyn 2 wedi datblygu perthnasau cadarnhaol â'r oedolyn ac o ganlyniad dylanwada'r rhyngweithio rhyngddynt ar ei

hapusrwydd. Trafodir gweithgarwch tebyg ymhellach yn adran olaf y bennod hon, sef is-adran 4.5.





Plentyn 3 Ysgol 2 (P3, Y2)

My picture: 'Tell m about this picture you've painted.'

'It's me and my friend playing football. That's****, I shot and it's in the goal.'

Discovery walk:

'I like doing Bee-bots and being outside playing with my friend ****'

Discussion: Why did you paint this picture?


'Because it makes me smile and happy.'

Ffigwr 32 - P3 Y2 (Bachgen - 7 oed)

Gwelir o'r cywaith bod P3 yn mwynhau chware pêl droed ac yn ymwneud â'i ffrind y tu allan. Roedd dwy o'r tair ardal nododd fel rhai oedd yn ei wneud yn hapus y tu allan ac, fel yng nghyd-destun plant blaenorol cyfeiriodd at 'gyd-chwarae' yn ogystal â chwarae ynysig. Mynegodd Plentyn 3 bod pêl droed yn ei wneud yn hapus a'i fod yn y darlun yn gwisgo crys Abertawe, a oedd yn awgrymu bod gwybodaeth gefndirol ganddo o dîmau pêl droed. Roedd lleoliadau'r gweithgareddau yma ymhellach o'r dosbarth sy'n unol ag ymchwil Brockman (2011) bod bechgyn yn dueddol o grefu gofodau ymhellach i ffwrdd oddi wrth ofalwyr. Cyfeiriodd P3 hefyd at adnoddau technolegol y Bee-bots fel rhywbeth oedd yn ei wneud yn hapus.

Cyfranogwyr Ysgol 3

Ceir yma ymatebion gan tri phlentyn o ddau ddsbarth gwahanol. Roedd mynediad uniongyrchol gan bob dosbarth i'r ardal allanol.



Ffigwr 33 - P1 Y3 (Merch – 4 oed)

Amlygodd Plentyn 1 o Ysgol 3 mai lleoliadau ac adnoddau oedd y pethau oedd yn ei gwneud yn hapus. Yn ei darlun gwelir mannau a gwrthrychau yn ei hamgylchynu fel dylanwadau ac wrth drafod pwyntiodd ac enwi'r gwahanol bethau megis 'tu fas', 'si-so', 'tŷ doli'. Roedd P1 yn teimlo hapusrwydd wrth dderbyn cyfleoedd i chwarae gyda gwrthrychau o'i dewis hi. Canfu ei bod yn cael pleser a phrofi emosiynau cadarnhaol wrth ymgymryd â gweithgareddau tebyg o achos bod yr awydd i chwarae yn cael ei gyflawni (Hong *et al*, 2016). Efallai ei bod yn cael bodlonrwydd pellach o deimlad ac ansawdd y gwrthrychau'n ogystal er ni ellid cadarnhau hyn heb ymchwilio pellach. Ni chyfeiriodd P1 at blant eraill nac oedolion fel dylanwadau. Roedd hyn yn rhyfedd o ystyried bod y si-so yn fan lle'r oedd yn teimlo'n hapus a gweithgarwch chwarae pâr ydyw fel arfer. Golyga hyn o bosib fod plentyn 1 yn cael fwy o foddhad o wrthrychau na chyfeillgarwch ffrindiau o ran ei hapusrwydd.



Plentyn 2 Ysgol 3 (P2, Y3)

Trafod y darlun: 'Beth wyt ti wedi ei roi yn y llun yma?'

Deinosoriaid, rocks, ym cerrig tu fas.

Taith ddarganfod


'Ma'r hewla'r cerrig i chwarae'r dinosaurs.'

Trafodaeth: 'Pam wyt ti wedi tynnu'r lluniau hyn, wyt ti'n cofio?'

'Ie, achos fi hapus.'

Ffigwr 34 - P2 Y3 (Bachgen - 4 oed)

Pan holwyd P2 am ei ddarluniau nid oedd yn cofio beth oedd pob un i gychwyn ac edrychai o gwmpas er mwyn atgoffa ei hun. Ddefnyddiodd ei ddarlun fel map er mwyn mynd ar y daith ddarganfod a'm tywys at y gwahanol wrthrychau a lleoliadau oedd yn ei wneud yn hapus. Y tu allan oedd y man lle'roedd y gwrthrychau a ddisgrifiai fel rhai oedd yn bleserus iddo. Atgyfnertha hyn y farn fod ffactorau amgylcheddol corfforol a chymdeithasol yn gallu dylanwadu ar awydd a pharodrwydd plentyn i ymwneud â thasgau (Reimers *et al.*, 2018). Chwarae unigol gydag adnoddau oedd y prif ddylanwad ar hapusrwydd P2. Yn yr un modd â Phlentyn 1, roedd P2 yn ffafrio gwrthrychau ac adnoddau o ran dylanwadau ar ei hapusrwydd. Awgrymir bod hyn yn bwysig i athrawon plant ifanc i'w ddeall wrth gynllunio gweithgareddau, gan ei fod yn ymddangos ar y naill law i blant o'r oed hwn, o achos eu cam datblygiadol bod ffafiaeth o wrthrychau'n amlycach. Ar y llaw arall, gallai hyn fod o achos y profiadau maent wedi eu derbyn gynt a'r hoffter o fod ar eu pen eu hunain ar brydiau. Gellid dadansoddi y dylid cynllunio amgylchedd a gweithgareddau sy'n cefnogi'r plentyn i ddatblygu wrth iddo brifio fel unigolyn yn ogystal â'i fedrau a'i bresenoldeb cymdeithasol.



Ffigwr 35 - P3 Y3 (Bachgen – 6 oed)

Sylwir bod darlun Plentyn 3 wedi ei grwpio i wahanol ddylanwadau ar ei hapusrwydd, rhai yn ymwneud ag ef fel unigolyn ac eraill gyda ffrindiau. Yn ystod y drafodaeth cyfeiriodd at ei ffrind gorau a'r gweithgareddau byddai'n ymwneud â'i ffrind megis 'dodge-ball'. Soniodd P3 am fwy o weithgareddau a wna'i yn unigol fel rhai oedd yn ei wneud yn hapus, 'learning about the penguins', 'Aled Afal' a 'tocyn iaith'. Gallai hyn fod o ganlyniad iddo fod yn ddisgybl cymharol newydd i'r ysgol a heb sefydlu ei grŵp cymdeithasol yn llawn eto. Mae'r 'tocyn iaith' yn arfer canmoliaeth yn y dosbarth i'r sawl sy'n siarad Cymraeg yn rheolaidd sy'n arddangos ei fod yn teimlo mwynhad a hapusrwydd wrth dderbyn y wobwr gan yr athrawes. Ymddangosai P3 yn aeddfed o ran oed a chanddo eirfa gref i ddisgrifio'r hyn oedd yn creu hapusrwydd ynddo. Gallai hyn fod yn rheswm arall am ei fod yn ffafrio pethau ynysig o gymharu â chydweithredu ag eraill (Williams - Brown a Mander, 2021).

Mynega Clark (2017) fod dod o hyd i ystyron plant, (ystyr hapusrwydd yn achos yr ymchwiliad yma), yn cychwyn gyda phob dull unigol ac yna wrth eu cyd-glymu

datgelant wybodaeth bellach. Cyflwyno'r cyweithiau uchod y moddau gwahanol y cyfleoedd y plant eu dealltwriaeth a'u profiadau o hapusrwydd tra yn yr ysgol. Drwy ddarlun, siarad â ffotograffu cawsant ofod i adalw a disgrifio ymhellach yr hyn a ddylanwada ar eu hapusrwydd. Roedd cynnig modd cyfunol i'r plant rannu eu profiadau, wedi sicrhau bod yr ymchwiliad yn dal y galluoedd cyfathrebol amrywiol sydd gan bob plentyn i fynegi ei farn. Gwnaeth yn ogystal enghreifftio gwerth defnyddio mwy nag un modd er mwyn i'r cyfranogwyr fedru myfyrio a phrosesu eu meddyliau (Clark, 2017), na fyddent fel arall o bosib i wneud heb dderbyn cyfle tebyg. O fewn yr isadranau nesaf ceir trafodaeth bellach o'r data a gasglwyd gyda'r plant a gyflwynwyd o ran prif themâu'r astudiaeth.

Gwelir o'r darluniau uchod ac yn Atodiad 9, ddealltwriaeth y plant o'r dasg a'r amrywiaeth o ddylanwadau y gwnaethant eu nodi. Roedd y rhain yn cynnwys cynrychiolaethau o bobl, llefydd, adnoddau ac, yn rhai, y tywydd yn ogystal. Tystiwyd o'u paentiadau fod y plant yn medru mynegi ystyr hapusrwydd yn weledol gan ddethol a dewis mynegiant wynebol ar eu portreadau a oedd yn cyfleu hynny (Ffigurau 27 - 35). Ni anogodd yr athrawon iddynt osod gwen ar eu hwynebau peintiedig dim ond disgrifio'r dasg fel 'yr hyn sy'n eich gwneud yn 'hapus'. Mae hyn yn arddangos sut y medrai'r plant ddeall agwedd gorfforol sy'n gysylltiedig ag hapusrwydd beth bynnag eu hoed ac, o ganlyniad, adnabod mynegiant gorfforol weledol o hapusrwydd (Williams - Brown a Mander, 2021).

Cynigiwyd cyfleoedd triphlyg i'r plant fynegi'r hyn oedd yn dylanwadu ar eu hapusrwydd (CY1); yn gyntaf wrth greu eu darluniau, yn ail, wrth drafod eu darluniau ac yn drydydd, tra ar deithiau darganfod ar droed. Cyn cychwyn ar yr ymchwiliad a'r dulliau casglu tystiolaeth a fyddai'n rhan o gywain data gwnaed yn siŵr bod y plant yn gyfarwydd â defnyddio ipad ar gyfer lluniau ffotograffig (Clark, 2017). Roedd yn bwysig gwybod pa foddau roedd y plant yn gyfarwydd â'u defnyddio o flaen llaw o fewn eu dosbarthiadau er mwyn osgoi newydddeb y ddyfais a'i ddylanwad ar gofnodion y plant. Pe na bai'r plant yn gyfarwydd â defnyddio ipad gallai fod yn drafferthus iddynt i'w drin. Beth bynnag - gan fod y plant yn gyfarwydd â'r ddyfais roeddynt yn gwbl gartrefol yn mynd o gwmpas eu darpariaethau'n ffotograffu pethau oedd yn ddylanwad ar eu hapusrwydd. Wedi bod ar y teithiau darganfod, adalwais y ffotograffau i sicrhau bod y plant yn gytun ac roeddem wedi llwyddo i ddal yr hyn

roeddynt am wneud. Roedd defnyddio'r iPad yn fodd i sicrhau cynhwysiant i'r plant ac i wirio a chyfoethogi eu darluniau gwreiddiol a'u sgysiau ymhellach.

Ymddangoswyd o ddata'r ymchwiliad bod hapusrwydd, o brofiadau'r plant, yn gyflwr emosiynol cadarnhaol, ond dylid cydnabod bod profiad pob unigolyn o'r cyflwr emosiynol cadarnhaol hwnnw yn oddrychol. Gall pryd a pham y mae rhywun yn profi hapusrwydd fod o ganlyniad i nifer o ffactorau yn cydweithio (Vinney, 2020; Sharman, 2019). Noda Sharman (2019), wrth sôn am les oedolion, y gall lles neu hapusrwydd newid, ac addasu o un funud i'r nesaf, o ddydd i ddydd ac o fis i fis. Dyma un rheswm fe awgrymir y dylid arsylwi, holi a chywain barn plant yn aml er mwyn sicrhau darpariaeth wedi'i phersonoli sy'n ymateb i'w diddordeb, awydd ac anghenion. Sicrha hefyd fod yr unigolyn yn derbyn gwrandawriad a bod hynny'n cynnig modd i rymuso'i lais o fewn ei addysg. Er bod peth amser rhwng y cyfnod darlunio a'r drafodaeth, canfuwyd bod cysondeb yn y data wrth gymharu darluniau, ffotograffau a sgysiau'r plant. Roedd yr hyn oedd yn dylanwadu ar eu hapusrwydd wedi aros yn gyson o fewn y tymor byr rhwng cynhyrchu'r darluniau a'u trafod ymhellach. Adnabu Statham a Chase (2010), yn eu gwaith gyflyrrau gwahanol o les oedd yn cynnwys agweddau a berthyn i ffactorau emosiynol, corfforol ac a oedd yn ymwneud ag eraill yn ymarferol. Roedd hapusrwydd hedonaidd y plant, hynny yw, yr hyn oedd yn gwneud iddynt deimlo'n hapus (pobl, mannau, gweithgareddau ac ati), yn amrywio yn yr ysgol ac yn deillio o ddangosyddion goddrychol a boddhad hunan-gofnodedig. Roedd y rhain yn gysylltiedig â chyfnodau o chwarae unigol, gyda'u ffrindiau, yn ymwneud ag adnoddau neu wrthrychau a oedd o ddiddordeb iddynt o fewn ardaloedd yn oeddent yn eu hystyried yn ddiddorol.

4.2.1 Perthyn: dylanwadau dynol emosiynol (pobl a ffrindiau) (CY1)

Yn unol ag ymchwil Holder a Coleman (2008) bod perthnasau cymdeithasol yn bwysig, cynhwysodd nifer sylweddol o'r plant yn yr ymchwiliad ffrindiau fel dylanwad ar eu hapusrwydd. Roedd y data'n cyfleu bod perthnasau a ffurfiwyd yn bwysig o ran lefel eu hapusrwydd. Soniodd rhai am eu hapusrwydd yng nghwmni oedolion ac

athrawon yr ysgol yn ogystal. Ni ymchwiliwyd i fanylder pryd, na sut yn union roeddent yn teimlo hapusaf yng nghwmni staff allweddol, o'r plant a wnaeth fynegi eu hapusrwydd, awgryma hyn eu bod yn mwynhau cwmni'r oedolion o fewn sefyllfaoedd dosbarth. Mae hyn yn ystyriaeth allweddol wrth arfarnu effeithiolrwydd darpariaeth medd Taggart *et al.* (2015) yn eu gwaith ym mhrosiect amgylcheddau effeithiol o fewn darpariaethau blynyddoedd cynar (EPPE), gan fod y lleoliadau oedd yn cynnig cydbwysedd o weithgarwch a arweiniwyd gan oedolion a rhai a lywiwyd gan y plant eu hunain yn arddangos ansawdd. Nid mesur ansawdd oedd bwriad yr ymchwiliad yma, ond, mae'r data'n arddangos bod ystyried perthnasau oedolion a phlant yn dylanwadu ar eu hapusrwydd tra yn yr ysgol, a dylid, felly, dalu sylw i ddatblygu perthnasau priodol a chryfion pellach fel rhan o arfer dosbarth. Gallai datblygu perthnasau cadarn rhwng oedolion a phlant fagu hyder ac ymdeimlad o berthyn ymysg y dysgwyr ac arwain at ymglymiad a fyddai'n cyfrannu at eu hapusrwydd a'u lles ehangach.

Er bod y sampl yn gymharol fach, o fewn y data mynegodd y merched gan amlaf eu bod yn mwynhau ac yn gysurus bod yng nghwmni'r athrawes ac, o ganlyniad yn eu gwneud yn hapus. Cyfeiriasant at weithgareddau a arweinir gan oedolyn yn amlach na'r bechgyn, sy'n gyson a'r syniad bod gwrywod ifainc fel arfer yn crefu rheolaeth bersonol ac annibyniaeth wrth brifio (Lundberg *et al.*, 2007). Ni ddylid ystyried hyn yn factor negyddol, ond yn fodd i ddatblygu gwell ystyriaeth o wahaniaethau rhwng plant wrth iddynt brifio a ffyrdd y gellid datblygu perthnasau a gweithgarwch sy'n annog rhyngweithiadau ag oedolion. Mynega ymchwil Chen *et al.* (2020), fod rhyngweithio ag athrawon a chyfoedion yn hanfodol ar gyfer datblygiad cymdeithasol, ymddygiadol ac academaidd plant yng nghyd-destun yr ystafell ddosbarth. Atega Chen *et al.* (2020), mae'n debyg fod perthynas athro-plentyn cadarnhaol yn medru hybu ymgysylltiad cydweithredol plant â gweithgareddau dosbarth ac yn gwella eu cymhwysedd cymdeithasol. Tra mewn perthnasoedd athro-plentyn negyddol, gall plant osgoi ysgol, arddangos mwy o broblemau ymddygiad a llai o ymddygiadau cymdeithasol-cadarnhaol yn ystod rhyngweithiadau rhyngbersonol (Chen *et al.*, 2020).

Roedd ffrindiau'n bwysig i fwyafrif y plant yn eu hymatebion i'r hyn sy'n dylanwadu ar eu hapusrwydd. Cytunir y gall cyfeillgarwch plant yn aml gael ei esgeuluso gan athrawon ac ymchwilwyr (Carter a Nutbrown, 2016) gan mai setio plant yn ôl eu

medr academiaidd (o oed ifanc) yn hytrach na grwpio amrywiol ar hap neu o ran cyfeillgarwch yw'r arfer cyffredin. Gall gosod plant mewn grwpiau gallu gael dylanwad andwyol ar eu hunan gred a'u hapusrwydd drwy ddylanwadu ar eu hemosiynau. Ystyria Williams-Brown a Mander (2021) fod cyswllt cryf rhwng perthnasau ffrindiau a lles y plentyn, a gall fod yn fanteisiol fel modd i ddatblygu gwytnwch nes ymlaen o fewn plentyndod. Fel nodwyd ar gychwyn yr ymchwiliad mae'r lles yn cyfeirio at deimladau o hapusrwydd yr unigolyn o fewn y gwaith ymchwil hwn.

4.2.2 Perthyn: dylanwadau gofodol emosiynol (llefydd a gweithgareddau) (CY1)

Adnabuwyd gweithgareddau mwy ffurfiol/ pen bwrdd (megis gweithgarwch mwy traddodiadol papur a phensil) - fel dylanwad cadarnhaol ar hapusrwydd ymysg y merched yn bennaf, yn enwedig lle'r oedd yr athrawes yn bresennol. Gallai hyn fod oherwydd bod merched yn gyffredinol yn ystyried eu hunain yn ysgrifenydd ynghynt na bechgyn fel arfer, a bod eu sgiliau cofnodi ar gyfartaledd yn datblygu ynghynt yn ôl yr ymchwil (Bradford a Wyse, 2013). Noda Zhang a Wyse (2020), bod diddordeb plant mewn ysgrifennu yn siapio eu dewisiadau chwarae yn ogystal â'u rhyngweithio a phobl. Mewn ymchwil a gynhaliwyd gan y National Literacy trust yn 2021, dangoswyd bod llawer o blant yn dal i fwynhau ysgrifennu yn eu hamser rhydd, yn enwedig merched: 2 o bob 5 merch o gymharu ag 1 o bob 4 bachgen o fewn yr astudiaeth. Er yr adroddwyd am ostyngiad mewn mwynhad ysgrifennu ar draws yr holl ymatebwyr, roedd bechgyn o gefndiroedd difreintiedig wedi profi gostyngiad arbennig o amlwg (National literacy trust, 2021). Er mai y tu allan i'r ysgol y sonnir amdano yn yr ymchwil hwnnw, a gyda phlant hŷn, gellid amau bod yr arferion yn cael eu sefydlu o blentyndod cynnar. Mae goblygiadau yma o ran gwybodaeth athrawon am ddatblygiad corfforol a gwybyddol y plentyn a'r angen i sicrhau targedu gweithgareddau ar draws y rhywiau yn hytrach na pharhau i ddilyn syniadau ystrydebol.

Daeth mynegiant y plant o ran llefydd gwahanol yn amlwg o'r data, megis ardaloedd y tu fewn a thu allan. Ni chanfuwyd unrhyw wahaniaethau rhwng y plant o ran lefelau gweithgarwch corfforol. Roedd hyn yn syndod oherwydd bod y canfyddiad hwn yn wahanol i astudiaethau eraill megis Hill (2019) bod plant yn ffafrio gweithgarwch llonydd y hytrach nag ymgymryd mewn gweithgareddau corfforol. Gwelwyd ymatebion tebyg mewn ymchwil gan Kapasi a Gleave (2009) ynglŷn â barn plant 7 - 14 oed am ffafriaeth o ran eu chwarae.

Fodd bynnag, roedd y mathau o weithgaredd oedd yn eu gwneud yn hapus yn amrywio rhwng bechgyn a merched, sy'n unol â chanfyddiadau astudiaeth a wnaed yn bersonol o ffafriaeth plant ifainc yn ystod cyfnodau hunan dewisedig: dangosai'r ymchwil hwnnw y byddai'r merched yn cymryd rhan yn amlach mewn gweithgareddau ar eu heistedd, neu weithgareddau ar offer maes chwarae, ac roedd bechgyn yn fwy tebygol o chwarae chwaraeon neu gemau egnïol gydag offer symudol (Richards, 2004). Roedd lleoliadau'r gweithgareddau hynny ymhellach o'r dosbarth sy'n unol ag ymchwil Brockman (2011) bod bechgyn yn dueddol o grefu gofodau ymhellach i ffwrdd oddi wrth ofalwyr. Tybir bod yna ystyriaethau yma i athrawon pan yn cynllunio gweithgarwch o ran gofodau sy'n apelio ac sy'n cynnig elfen o ryddid i'r plant o ran hapusrwydd yr unigolion.

Awgryma'r data fod y tu allan yn lleoliad sy'n creu ymdeimlad o hapusrwydd ymysg y cyfranogwyr ifainc yn yr ymchwiliad hwn. Cytuna hyn â gwaith Assen *et al.* (2009). Er gwaethaf manteision hysbys chwarae ac amser awyr agored i iechyd plant, mae tystiolaeth yn awgrymu eu bod wedi bod yn lleihau dros y blynyddoedd (Lee *et al.*, 2021), yn enwedig o ran yr amser a dreulir y tu allan gan blant tra eu bod gartref. Awgryma data'r ymchwiliad hwn, er mwyn hyrwyddo chwarae awyr agored lle gall plant fod yn ddigymell a chreadigol, byddai canolbwyntio mwy ar chwarae hunan ddewisol plant a'u hunan-gyfeiriad yn creu hapusrwydd ynddynt yn amlwg; ac o bosib byddai cynnig mwy o brofiadau tebyg a chanolbwyntio llai ar weithgareddau a arweinir gan oedolion â chanlyniadau mesuradwy (e.e., datblygu sgiliau, lleihau gordewdra) fod yn bwysig i'w hapusrwydd. Mae hyn yn gyd-fynd ag egwyddorion addysgegol Cwricwlwm i Gymru (2018) o'r angen am brofiadau amrywiol o fewn cyd-destunau diddorol sy'n apelio at blant.

Y canfyddiad mwyaf trawiadol oedd y modd roedd pob plentyn wedi cydnabod mwynhad gweithgarwch roeddent yn ei wneud yn annibynnol heb eraill yn bresennol – gwelir hyn o fewn y data yn Atodiad 9. Nid oedd oed, na cham datblygiadol y plentyn yn arddangos unrhyw batrymau yn y data hyn fel y nodir yn aml yng ngwaith Malik a Marwaha, 2022; Musgrave, 2017 a Harrison, 2002. Gellid dehongli nad yw hyn yn annisgwyl gan mai y cwestiwn a holwyd ar gychwyn yr ymchwiliad oedd ‘beth sy’n dy wneud yn hapus yn yr ysgol?’ Cytunir â hyn, ond ni ddisgwyliwyd i gynifer o’r ymatebion y disgyblion amlygu ffafriaeth o dreulio cyfnodau ar dasg eu pen eu hunain.

Cyhoeddodd Comisiynydd Plant Cymru ddogfen ‘Effaith Covid-19 ar blant a phobl ifanc’ (Senedd, 2020), yn cydnabod ‘nid oes mawr o amheuaeth fod effeithiau ehangach Covid-19 - a’r mesurau a gymerwyd i’w reoli - wedi effeithio cryn dipyn ar eu bywydau’ (LI C, 2020, t. 1). Yn dilyn effaith y pandemig hwnnw ar yr ysgolion dan sylw soniodd rhai o’r plant am bethau roeddynt ‘nawr yn medru eu gwneud eto’ (P1, Y1) a chrybwyllodd eraill am sut roedd wedi dylanwadu ar eu gallu i gwneud y pethau oedd yn eu gwneud yn hapus. O ganlyniad, gellid dadlau felly o bosib, bod effaith Covid wedi dylanwadu ymhellach ar hoffter plant o ymwneud gweithgareddau’n annibynnol.

Rheswm arall a allai fod yn gyfrifol am ffafriaeth gwneud gweithgarwch yn unigol ymysg y plant yw fod hynny’n osgoi cystadleuaeth â chymheiriaid. Awgryma dull Montessori (2024), os gosodir plant mewn grwpiau cydweithredol yn rheolaidd eu bod yn rhan o sefyllfa gystadleuol lle gall ymgeisio i ddod i ben ar dasg neu dderbyn y sgôr uchaf fod yn gymhellant. Gall hyn fod yn wrthgynhyrchol gan mai’r dasg o ennill yn hytrach na datblygu dealltwriaeth o gysyniadau a sgiliau sydd amlycaf. Cytunir gyda’r farn mai mwynhad o’r broses ddysgu yw’r nod ac fe gyfranna plant at eu cymdeithas mewn modd cadarnhaol pan gynigir rhyddid iddynt fod ar eu gorau (Montessori.org, 2024).

Amlygir felly os yw’r amodau’n ffafriol i’r unigolyn, hynny yw, yr amgylchedd lle deimla’r plentyn yn hapus, gyda gweithgarwch ac adnoddau difyr, yna, fe aiff ati ar dasg yn annibynnol a mwynhau. Mae yma yn sicr, oblygiadau o ran cynllunio gweithgareddau dosbarth i gynnwys cyfnodau hunan dewisedig a gweithgareddau lle datblygir sgiliau’n annibynnol, o fewn grwpiau bychain ac fel dosbarth cyfan.

Awgryma'r data drwy wneud hyn byddai'n ymateb i hoffterau'r plant ac yn personoli'r dysgu gan gynnig cyfle iddynt arwain eu dysgu ar brydiau a chymryd perchnogaeth ohono. Fe gyfrannai hynny at eu hymdeimlad o hapusrwydd a'u lles.

Nodwyd ym Mhenodau 1 a 2 bod lles neu lesiant plant yng Nghymru wedi sefydlu ei hun yn ganolog o fewn polisïau domestig ac addysgol a'r prif fwriad felly, o ran yr ymchwiliad oedd darganfod manylder pellach o ran hapusrwydd, sef, beth sy'n cyfrannu at hapusrwydd y plentyn tra yn yr ysgol.

Ymddengys o ymatebion y cyfranogwyr ifainc yn yr ymchwiliad hwn, fod ar blant ifanc angen amser ar eu pennau eu hunain i ddarganfod a chwarae. Gall cyfnodau annibynnol gynnig lluo o fanteision addysgol i blant ifainc megis: fe all feithrin annibyniaeth, gan fod cyfnodau ar eu pennau eu hunan yn galluogi plant i ddatblygu annibyniaeth a hunangynhaliath. Gwelwyd hyn o fewn sgysiau'r plant am y dylanwadau ar eu hapusrwydd tra yn yr ysgol. Dysgant drwy gyfnodau unigol i ddibynnu ar eu galluoedd a'u hadnoddau eu hunain i ddatrys problemau a difyrru eu hunain. Gall bod ar eu pen eu hunain ar dasg hefyd fod yn fodd i annog creadigrwydd gan y gall ysgogi creadigrwydd a dychymyg. Heb ddylanwadau allanol, gall plant greu eu straeon a gêmau eu hunain, sy'n meithrin meddwl creadigol ac arloesedd. Credir hefyd bod modd i gyfnodau annibynnol adeiladu sgiliau datrys problemau. Credir pan fydd plant yn chwarae ar eu pen eu hunain, deuant ar draws heriau a phosau y mae'n rhaid iddynt eu dehongli, gan wella eu sgiliau datrys problemau a meddwl yn feirniadol.

4.2.3 Perthyn: dylanwadau corfforol emosiynol (adnoddau a gweithgareddau) (CY1)

Yn wahanol i ymchwil Lopez-Perez *et al.* (2016) lle nodwyd mai un peth y cysyllta plant â hapusrwydd, roedd y cyfranogwyr a fu'n rhan o'r ymchwiliad hwn yn ystyried nifer o ffactorau dylanwadol. Canfuwyd bod y plant yn yr ymchwiliad yn profi hapusrwydd eudaiaemonic ar lefel y gellid ei hysytired yn ddealltwriaeth ddofn, gan eu bod yn medru egluro sut deimlad oedd bod yn hapus (megis 'cyffrous' a'i fod yn deimlad 'cynnes') yn ogystal â beth oedd yn gyfrifol am y teimlad hwnnw, boed yn offer, mannau neu gweithgarwch gwahanol. Awgryma hyn os rhoddir cyfleoedd

addas i blant fynegi eu hunain ar lafar ac mewn ffyrdd eraill y medrant gynnig disgrifiadau manwl o'u profiadau.

Cyfeiriodd pob un o'r plant at wahanol adnoddau oedd yn eu gwneud yn hapus gyda phlant ifancaf yr ymchwiliad yn ffafrio adnoddau dros ffrindiau fel dylanwad. Gall hyn fod yn arwydd o gam datblygiadol y plentyn o ran ei allu i gymdeithasoli ond hefyd fod yn ymwneud â'r dewis o adnoddau ac offer ar gael i'r plant ryngweithio gydant o fewn eu hardaloedd dysgu. Gallai oedolion ddatblygu ddealltwriaeth am ffafriaeth unigolion o offer ac adnoddau drwy arsylwi a holi'r plant. O ganlyniad medrid addasu darpariaethau a chynllunio i sicrhau bod y plant yn ymwneud ymhellach â gweithgarwch dosbarth, a modelu defnydd o wrthrychau o fewn eu dysgu a fydd yn cyfrannu at godi eu diddordeb a'u hapusrwydd o'r deunyddiau ar gael.

Nid oedd yn syndod i'r plant amlygu fod chwarae yn eu gwneud yn hapus - gyda'r bechgyn yn ffafrio chwarae ag offer symudol a thechnolegol mewn rhai achosion (peli, dinosoriaid) a gyda ffrindiau, a'r merched gydag offer dychmygus (tŷ dol, llyfrau). Roedd hyn eto'n cyd-fynd ag ymchwil cynt am ffafriaeth gyffredinol bechgyn o offer technolegol wrth chwarae, er rhaid bod yn ofalus rhag chwyddo'r farn mai gweithgarwch i fechgyn yw technoleg (Stiffler, 2021; Wiseman, 2019; Richards, 2004). O bosib mai o achos arferion diwylliannol (Rogoff, 2003) a'r mathau o deganau a deunydd anogwyd iddynt drin ers babandod. Gall casglu gwybodaeth am hoffterau'r plant o'r hyn sy'n cyfrannu at eu hapusrwydd gynnig cyfleoedd i addysgwyr addasu eu darpariaeth a chynllunio i sicrhau bod mannau ymchwiliol amrywiol ac apelgar o fewn y dosbarthiadau a thu hwnt. Mae'n gyfle yn ogystal i feddwl am ble gosodir oedolion i hyrwyddo a chefnogi'r plant a fedr o bosib gyfrannu at eu hymglymiad a'u hapusrwydd.

4.3 Trafodaeth o'r data a gasglwyd gyda'r plant

Drwy ddefnyddio'r dull Mosaic yn yr ymchwil hwn, rhoddwyd cyfle ystyrlon i gyfranogwyr ifanc fynegi eu lles emosiynol a'u hapusrwydd fel y dylanwadwyd yn uniongyrchol arnynt gan eu hamgylchedd addysgol (Clark, 2017). Mae'r dull hwn yn cyferbynnu â dulliau confensiynol o wirio teimladau plant yn unig ar ddechrau sesiwn addysgu, a all gael eu llywio gan brofiadau cyn iddynt gyrraedd yr ysgol. Fel y

trafodwyd yn flaenorol, nid diystyru'r dylanwadau allanol hyn oedd yr amcan, ond yn hytrach, canolbwyntio ar sut mae'r amgylchedd a gweithgareddau penodol o fewn lleoliad yr ysgol yn cyfrannu at gyflwr emosiynol cadarnhaol disgyblion. Gall derbyn y mewnwleddiad hwn alluogi ymarferwyr i fireinio a gwella mannau dysgu, gan sicrhau eu bod yn cael eu teilwra i ddiwallu anghenion unigol, fel yr argymhellir gan Gwricwlwm i Gymru (2022). Mae hyn, yn ei dro, yn meithrin profiad dysgu cynnar mwy personol a chyfoethog.

Ymdrochwyd o fewn y data er mwyn cyfarwyddo a'r deunydd (Braun a Clarke, 2022) cyn mynd ati i dynnu ar y themâu a amlygai o'r sgysiau ac o drawsgrifiadau'r darluniau a'r ffotograffau (Atodiadau 9 a 10). Roedd y côdio cynnar yn deillio o ddarluniau ac o eiriau oedd yn ymddangos yn fynych o fewn y data. Ni chlustnodwyd lliw yn syth rhag adnabod côdau'n ddiddwythol yn unig ac anwybyddu eraill oedd o fewn y cynnyrch. Trawsgrifiwyd y drafodaeth ac adolygwyd gan nodi rhai côdau posib wrth fynd ymlaen drwy'r set. Ystyriwyd y data droeon gan edrych arnynt fel setiau ar wahân i gychwyn, yna pan benderfynnwyd nad felly mo'r modd mwyaf pwrpasol i'w dadansoddi, ail ymwelwyd gan osod data cyflawn pob plentyn gyda'i gilydd fel gwelir yn Ffigurau 31- 39, ac yna medrwyd adnabod y côdau'n gliriach. Fel y gwelir uchod yn Ffigwr 27 roedd y codau yn cynnwys cyfeiriadau at bobl, lleoedd, adnoddau ac ati.

Cynhyrchwyd themâu fel gwelwyd ynghynt ym mhennod 3 (Ffigurau 17 – 22) o'r côdio cychwynol o'r darluniau, peintiadau, sgysiau a ffotograffau'r plant, fel a ganlyn:

Thema o'r drafodaeth	Enghraifft o'r hyn ddywedwyd gan y plant	Lliw codio
Ffrindiau	'I like playing with my best friend.' (P3, Y2)	Yellow
Mannau	'Tu fas (gyda'r cerrig),' (P2, Y3)	Red
Gweithgareddau	'I like it in the forest school'. (P1, Y1)	Grey
Adnoddau	'The pirate ship' (P1, Y2)	Purple
Athrawon	'That's Miss *****' (P2, Y1)	Blue
Covid	'When the germs were here a lot...' (P1, Y1)	Orange
Eraill	'Going on the bus on the trip.' (P2, Y2)	Green

Ffigwr 36 - Themâu o sgysiau'r plant

Wedi côdio, trefnwyd y côdau o dan themâu cyffredin ehangach. Roedd gosod deunydd y plant mewn cywaith wedi cynorthwyo gyda'r cam hwn o'r dadansoddi gan y medrid gweld y patrymau oedd yn ymddangos nid yn unig o ran yr unigolyn ond ar draws y deunydd cyfan. O fyfyrir, gwelwyd perthynas rhwng geiriau ac ymadroddion oedd yn cyd-fynd gyda'i gilydd, a oedd yn fodd i i gyflwyno y dylanwadau ar hapusrwydd y plant tra yn yr ysgol.

Gwelir o'r themâu a gododd o ddarluniau, ffotograffau a sgysiau'r plant uchod yn Ffigwr 36, sef dynol-emosiynol (pobl), gofodol-emosiynol (llefydd ac offer) a chorfforol-emosiynol (gweithgareddau tu hwnt); eu bod yn unol â'r dylanwadau ar brifant a nodir gan Bronfenbrenner (1979) sef o fewn y system ecolegol feicro gyntaf. Hon yw lefel fwyaf dylanwadol y ddamcaniaeth systemau ecolegol, sef o fewn y lleoliadau amgylcheddol mwyaf uniongyrchol. Cynhwysir fel arfer y teulu, ffrindiau a chymuned yr ysgol (Evans, 2020).

Gan fod yr ymchwiliad wedi'i leoli o fewn system feicro, sef 'yr ysgol' nid yw'r ymatebion yn syndod, a diddorol yw'r hyn nododd y plant fel pethau o fewn y system feicro honno megis adnoddau, lleoliadau, pobl a gweithgareddau.

Gwelir yng ngwaith hwyrach Bronfenbrenner (1995), iddo gydnabod bod datblygiad yn digwydd trwy'r broses o ryngweithiadau dwyochrog cynyddol gymhleth. Digwydda hyn rhwng unigolyn esblygol a'r personau, gwrthrychau, a symbolau yn ei hamgylchedd allanol agos (Evans, 2020).

Amlyga damcaniaeth Bronfenbrenner o fewn addysg (Bradbury a Swailes, 2022; Evans, 2020) dylai'r plentyn fod wrth wraidd unrhyw gwricwlwm a dylai unrhyw ddigwyddiad gael ei ddarparu er lles yr unigolyn. Yn yr un modd, rhaid i'r plentyn hefyd fod yn weithgar yn ei ddysgu, yn academiaidd ac yn gymdeithasol. Dylai dderbyn cyfleoedd i weithio fel tîm gyda'i gyfoedion a chymryd rhan mewn profiadau dysgu ystyrlon i alluogi datblygiad cadarnhaol (Evans, 2020). Awgryma ymatebion y plant mai'r hyn sy'n eu gwneud hapusaf yw bod ymysg eu ffrindiau, cael dewis o sefyllfaoedd a gweithgareddau yn annibynnol, a chan amlaf yn achos yr ymchwiliad hwn gweithgarwch y tu allan sy'n apelio atynt. Gwna'r ymatebion gyd-fynd â damcaniaeth Bronfenbrenner mai y profiadau a'r perthnasau agosaf at blentyn sy'n dylanwadu fwyaf arno.



Ffigwr 37 - Dylanwadau hapusrwydd

(CY1)

Gwelir mai un o'r ymatebion mwyaf cyffredin a ymddangosodd o'r data oedd eu hoffter o adnoddau amrywiol. Cynigiodd tua hanner y plant ferfau i ddisgrifio gweithgareddau oedd yn eu gwneud yn hapus er enghraifft peintio (P1, Y3), playing /chwarae (P1, Y1); reading/ darllen (P1, Y2).


Yn ogystal â ffrindiau, roedd athrawon yn ffocws rhai o ymatebion y plant. Gwyddys fod athrawon yn ddylanwad ar blentyn tra eu bod yn yr ysgol (Clark, 2017, Siraj, 2015). O'r data a gasglwyd tri phlentyn soniodd yn uniongyrchol am eu hathrawes fel rhywun oedd yn dylanwadu ar eu hapusrwydd.

'That's me and that's Miss *****', I like answering Miss' questions and it makes me happy' (P1, Y1).

'Miss yw hwnna, fi lico Miss' (P2, Y3).

Dylid cydnabod o'r 21 plentyn a fu'n rhan o'r trafodaethau gwreiddiol, cyfeiriodd 7 unigolyn at eu hathrawes naill ai'n uniongyrchol fel rhywun oedd yn eu gwneud yn hapus neu yn anuniongyrchol sef pan fyddent yn gwneud gweithgaredd gyda 'Miss' byddent yn hapus.


Gellid gosod y dylanwadau ar hapusrwydd y plant o fewn systemau ecolegol Bronfenbrenner (1979):



Ffigwr 38 - Y dylanwadau o fewn systemau Bronfenbrenner

Gosodwyd yn Ffigwr 38, y dylanwadau ar hapusrwydd plant o fewn 3 prif gôd yn unol â systemau ecolegol Bronfenbrenner (1979) gyda'r rhai oedd yn dylanwadu amlycaf yn y system feicro.

Roedd y dylanwadau'n cwmpo o fewn y categorïau a ganlyn: (i) pobol, (ii) llefydd a gweithgareddau, (iii) adnoddau a gweithgareddau. Penderfynwyd eu henwi fel prif themâu megis dynol-emosiynol (pobl), gofodol-emosiynol (llefydd ac offer) a chorfforol emosiynol (gweithgareddau tu hwnt). Mae'r themâu craidd yn eistedd ar frig y dadansoddi gyda'r côdau oddi tano a'r is-gategorïau yn rhannu'r côdau ymhellach. Mae Ffigwr 39 isod yn arddangos cymhlethdod y systemau sy'n dylanwadu ar hapusrwydd y plant gan fod rhai ohonynt yn gorgyffwrdd yn ogystal.



Ffigwr 39 - Gorgyffwrdd y dylanwadau

Roedd y dylanwadau a fynegwyd gan y plant o fewn y categori dynol-emosiynol yn ymwneud â nhw eu hunain, eu ffrindiau neu eu hathrawon. Dylanwadau o fewn y

categori gofodol-emosiynol oedd ardaloedd a gweithgareddau, gyda llefydd neu brofiadau eraill o fewn a thu hwnt i'r ysgol yn y categori corfforol-emosiynol.

Fel y gwelir yn Ffigwr 39, gellid fod wedi gosod y data o fewn îs-gategorïau pellach megis ardaloedd y tu mewn a thu allan, amser fel ffactor, hynny yw digwyddiadau'r gorffennol a'r presennol a gweithgareddau ffurfiol a arweinir gan oedolyn neu weithgareddau o hunan ddewis. Trafodir y rhain ymhellach yn y bennod nesaf.

Ymysg yr adborth ychwanegol roedd ambell blentyn wedi sôn am brofiadau y tu hwnt i'r dosbarth megis ymweliad addysgol neu amser cinio, a thri phlentyn wedi cyfeirio at deulu neu weithgarwch adref. Ni ellir tynnu profiadau ehangach y plentyn o'i emosiynau ac yn naturiol bydd rhai yn cysylltu hapusrwydd gyda gweithgarwch arall o fewn eu bywydau. Mae canlyniadau'r ymchwiliad hwn yn gyson gydag ymchwil arall bod achosion hapusrwydd yn amlweddog (OECD, 2020; Badri *et al.*, 2018).

Amlygodd y data bod gan y plant ddealltwriaeth gadarn o'r hyn oedd yn dylanwadu ar eu hapusrwydd tra yn yr ysgol. Gwnaethant egluro drwy drafodaeth, darlun a ffotograffau bod ffactorau amrywiol yn gyfrifol am y modd roeddynt yn teimlo. Mae'r wybodaeth hon yn arddangos medrau plant ifainc i gyfathrebu eu teimladau a'r posibilrwydd o ddefnyddio'r wybodaeth at bersonoli'r dysgu ar gyfer unigolion fel yr awgrymir yn nogfennau cwricwlaid presennol Cwricwlwm i Gymru (2021). Gwelir yn y rhan nesaf (4.4) ymatebion athrawon y plant (CY2).

4.4 Cwestiwn Ymchwil 2 – Data yr athrawon

Nod ail ran yr ymchwiliad oedd ateb Cwestiwn Ymchwil 2 sef:

Sut gall deall beth sy'n dylanwadu ar hapusrwydd plant ifainc gynorthwyo athrawon i gynllunio a myfyrio ar effeithiolrwydd y profiadau a ddarperir?

Gwelwyd ym Mhennod 3 ac yn Atodiad 10 y data a gasglwyd wrth yr athrawon o'r ddau ymweliad.

Cyflwynir isod ymatebion yr athrawon yn ystod yr ymweliad cyntaf. Nodir rhif y cwestiwn mewn cromfachau o ran y drefn a'u holwyd er hwylustod (er enghraifft C1).

Dylid egluro yma sut y gosodwyd y cwestiynau cyntaf o fewn cyd-destun 'lles' yn fwriadol. Gwnaed hyn oherwydd dyna'r gair a ddefnyddir fel arfer o fewn dogfennaeth a phhecynnau masnachol ac mewn cyflwyniadau hyfforddiant i athrawon o ran lles emosiynol y plentyn.

Gwelir bod yr atebion gan yr athrawon yn perthyn i bedair carfan benodol sef:

1. ystyriaethau am les plant a ddeillai o ddamcaniaeth
2. penderfyniadau cynllunio a ddeillia o ystyriaethau polisi gwnaeth yr athrawon ei gyfleu:
3. ymatebion a ddeilliau o drefniadau cymunedol ysgol o ran cynllunio
4. Penderfyniadau'n ymwneud â gweithgarwch lles a ddeillia o addysgeg bersonol yr athrawon eu hunain

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â beth oedd eu man cychwyn ar gyfer cynllunio, gan ystyried lles/ hapusrwydd y plant. (C1 a C8),

1. ystyriaethau am les plant a ddeillai o ddamcaniaeth

Cafwyd ymatebion megis

'We use a type of Leuven survey to assess on occasion.' (A2, Y1)

'During circle time activities occasionally or the TA's or teachers will gather children's comments.' (A2, Y2)

'To feed back into our planning, to readdress or consolidate aspects eg positive praise methods used. (A2, Y2)

'Byddwn yn cywain barn plant ar ddechrau thema i annog perchnogaeth o ardaloedd.' (A2, Y3)

5. O ran penderfyniadau cynllunio a ddeillia o ystyriaethau polisi gwnaeth yr athrawon ei gyfleu:

'We start with the four purposes' (A1, Y1)

'Curriculum for Wales is the starting point.' (A1, Y2)

'The environment we plan and prepare that includes wellbeing. (A1, Y2)

'Sgiliau y cwricwlwm yw'r man cychwyn (A1, Y3)

6. Ymatebion a ddeilliau o drefniadau cymunedol ysgol o ran cynllunio megis:

‘..we do for example, UNCRC Children’s Rights...’ (A2, Y1)

‘We have an ‘empathy lab’ where we discuss feelings and emotions ion different ways. We also use the Paths programme and self-regulation check-ins.’ (A1, Y1)

‘Children’s ideas and interests are a starting point for us.’

‘..the big questions the children may have relating to the theme explored.’ (A2, Y2)

‘Children’s relationships and check-ins. (A2, Y2)

‘we will be using the new platform on Hwb next year to track children’s emotional development so that it is seen as something that is valued (A1, Y2)

‘We are a Rights respecting school therefore wellbeing is central’ (A1, Y2)

‘Byddwn yn siarad gyda rhieni ben bore ac yn gwylio plant wrth eu tasgau.’ (A1, Y3)

‘Bydd staff yn modelu defnyddio’r ardaloedd ar gychwyn thema fel arfer.’ (A2, Y3)

‘..Oes, amser cylch yn enwedig.’ (A1, Y3)

7. Penderfyniadau’n ymwneud â gweithgarwch lles a ddeillia o addysgeg personol yr athrawon eu hunain:

‘We hold daily check-ins and keep an eye throughout the day on children’s wellbeing.’ (A1, Y1)

‘..in the Foundation Phase (FP) we have characters eg Healthy Harry (A2, Y1)

‘..holi’r plant am eu syniadau a clymu cwestiynau’r plant gyda’r thema. (A1, Y3)

‘Ni’n defnyddio system Speaker a gosod enw wrth gwahanol emoji. (A1, Y3)

‘Rydym yn defnyddio system gofrestru a gwobrwyo cyson’ (A2, Y3)

‘Byddwn yn cywain barn plant ar ddechrau thema i annog perchnogaeth o ardaloedd.’ (A2, Y3)

Pan holwyd: Wrth gynllunio, ydy lles y plentyn yn ystyriaeth wrth ddewis thema (c2). cadarnhaodd pob athrawes bod lles yn un o’r ystyriaethau gan fynegi

‘Yes, the UNCRC is included in everything we do as a Rights respecting school.’ (A2, Y1)

‘It has to be.’ (A1, Y2)

‘Mae’n mynd drwy’r cwbl’ (A1, Y3).

Ymddengys fod lles yn ei ystyr ehangaf, yn un o’r agweddau a gynhwysir o fewn cynlluniau’r athrawon yn rheolaidd. Holwyd sut y cynlluniant i helpu’r plentyn fod yn

hapus (C3). Nododd staff o'r tair ysgol mai trwy ymgymryd â gweithgarwch gwirio teimladau y gwnaed hyn yn bennaf gan gynnal 'check-in's' sef holi'r plant am sut roeddent yn teimlo ar gychwyn pob dydd. Ymhelaethodd staff Ysgol 2 ar hyn gan nodi ei bod yn ystyried yr amgylchedd dysgu yn ogystal â chreu awyrgylch lle byddai'r plant yn teimlo'n gyfforddus. 'During circle time activities occasionally or the TA's or teachers will gather children's comments – not formally but to inform our future planning' (Athrawes 2, Ysgol 2). Ni fynegodd ymatebion staff Ysgol 1 a 3 bod eu darpariaeth ynddo'i hun yn ddylanwad ar y plant. Awgryma hyn o bosib fod staff Ysgol 2 yn ystyried gwahanol ddylanwadau ar hapusrwydd eu disgyblion a oedd yn deillio o'r hyn a wnaethant yn bwrpasol fel addysgwyr i geisio sicrhau lles y plant, megis dewis offer addas, gosodiad yr ardaloedd a'r ffordd addurnwyd y muriau.

Gofynnais i'r athrawon a fyddent yn cynnwys y plant a'u barn am eu hapusrwydd yn rhan o'u harferion tracio effeithiolrwydd (C4) megis cywain barn/ teimladau'r plant am yr amgylchedd dysgu a'u profiadau (C5). Gwnaethant ymateb gan ddweud y gwneir hyn mewn moddau anffurfiol gan amlaf gan y staff yn y tair ysgol ac fel arfer ar gychwyn thema yn hytrach nag yn ystod gweithgarwch tymhorol. Er mwyn gwirio teimladau'r plant yn amlach byddai ystyried holi'r disgyblion a'u harsylwi'n amlach yn ystod tymhorau er mwyn amgyffred os ydynt yn profi hapusrwydd yn gyson yn ystod eu gweithgareddau.

Gan fod arsylwi'n rhan greiddiol o gasglu tystiolaeth am blant ifainc (Siraj, 2015) holais a fyddai'r oedolion yn amserlennu cyfnodau arsylwi'n unig ar gyfer y staff o fewn yr amgylchedd (C6) gan ystyried a oes gwerth mewn trafod ac arsylwi plant o ran eu datblygiad emosiynol (C7). Cytunodd pob aelod o staff bod gwerth mewn arsylwi er mwyn bwydo cynllunio ar gyfer y dyfodol ond nid oeddent yn ffurfioli cyfnodau arsylwi fel arfer nac yn amserlennu staff penodol ar gyfer arsylwi.

Cyn parhau rhannais ddata cychwynnol CY1 gyda'r staff gan gynnig y prif benawdau o ran y dylanwadau ar hapusrwydd y plant a chan gyflwyno taflen wybodaeth. Gwnaed hyn drwy rannu'r data cyfan (pob cyfranogwr) yn ogystal â'r data ar gyfer eu hysgol nhw yn benodol.

Parhawyd â'r cyfweiliadau gan holi'r athrawon a oedd unrhyw elfennau o syrpreis yn y data parthed hapusrwydd y plant (C9). Nid oedd y ffaith bod ffrindiau (C10) a'r tu allan (C11) yn syndod i'r staff, er wrth ystyried y data'n gyfan, roedd y ffaith bod oed

y plant a ddetholodd dylanwadau penodol yn taro tant gyda'r athrawon o ran ystyriaethau cynllunio - er enghraifft, bod plant ieuangach yn ffafrio gwrthrychau, a phlant yn hŷn yn ffafrio eu ffrindiau fel dylanwadau ar eu hapusrwydd. Roedd y ffaith bod y plant yn mynegi eu bod yn mwynhau cyfnodau annibynnol hefyd yn amlygu gwybodaeth nad oeddynt wedi sylwi o'u profiadau personol. Cyn ymwneud â'r ymchwil nid oedd yr athrawon wedi ystyried cymharu'r hyn a wyddent am hoffterau'r disgyblion, na chwaith mynd yn ddyfnach i weld patrymau yn nheimpladau'r plant er mwyn bwydo cynllunio'r dyfodol.

Cydnabu'r athrawon fod eu harferion gan amlaf yn cwmpasu lles cyffredinol y plant ac mai gwirio teimpladau emosiynol ar lefel gyffredinol a wnaed. Er bod sawl gwahanol strategaeth yn cael ei gweithredu yn feunyddiol roeddynt wedi dod yn arferion dosbarth yn hytrach na'n wybodaeth y medrent ei hystyried ymhellach at bwrpasau cynllunio.

Yn ôl Gutierrez (2019), yn dilyn unrhyw ddiwygiad, mae cyfarwyddo a mabwysiadu ffordd wahanol o feddwl a gweithredu yn hanfodol. Gellid dweud hyn am ein diwygiad addysg yng Nghymru - Cwricwlwm i Gymru. Eglura Gutierrez (2019) mai'r rheswm dros hyn yw er mwyn rhoi digon o sgiliau ac amser i athrawon i'w galluogi i ailunio eu harferion ar gyfer y gofynion newydd. O ystyried cyfnod y pandemig Covid a gweithrediad Cwricwlwm i Gymru (2020-2021) gellid dadlau bod cyfranogi i'r ymchwiliad hwn wedi digwydd ar adeg amserol fel modd o gyfrannu at gefnogi lles a hapusrwydd plant wedi iddynt dychwelyd ar ôl cyfnod o golli addysg. Roedd yn adeg pan roedd ysgolion yn ail gydio gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru (2021) o ran sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol disgyblion.

O safbwynt cysylltu â'r ysgolion a fu'n cyfranogi yn yr ymchwiliad hwn. Nodwyd ym Mhennod 3 y rhesymeg dros ddefnyddio ffurf fidio gynadledda Microsoft TEAMS achos y cyfnod yn dilyn pandemig Covid, ac er hwylustod o ran amser. Roedd y berthynas rhyngom wedi'i sefydlu eisoes yn ystod yr ymweliadau ar gyfer CY1. O ganlyniad, roedd yr athrawon yn gysurus i drafod yn rhydd yn ystod y sesiynau dilynol. Teimlir bod defnyddio'r modd hwnnw wedi manteisio'r athrawon o ran hygyrchedd a hyblygrwydd gan iddynt ymddangos yn gyfforddus i ymateb, ac, o

bosib ei fod yn fodd llai prysur, i ffwrdd o'r dosbarth ac mewn man tawel a oedd yn caniatáu iddynt fedru cyfranogi.

Roedd angen sicrhau dibynadwyedd y cyswllt rhyngrwyd ac argaeledd offer technolegol cyn mynd ati i gynnal y cyfweiliadau (Weller, 2017). Gwnaed hyn drwy brofi'r cyswllt o flaen llaw. Roedd y defnydd o Microsoft TEAMS yn ddewis pwrpasol gan y gwyddys bod yr ysgolion yn defnyddio'r feddalwedd eisoes yn feunyddiol a byddai'r cyfranogwyr felly yn gyfarwydd â'i drin.

Yn seiliedig ar fy mhrofiadau o'r ymchwiliad hwn, credir y gall cyfweiliadau fideo-gynadledda fod yn ddilys ac yn ddibynadwy os yw ymchwilydd wedi cynllunio'n briodol megis rheoli ffactorau o ran ymgartrefu'r cyfranogwyr, egluro'r disgwyliadau o ran ymatebion, paratoi'r cwestiynau amrywiol, a materion sy'n gysylltiedig â chyfweiliadau o'r fath. Er y dadleua peth llenyddiaeth na ellid profi'n llawn iaith y corff a chliwiau di-eiriol y cyfranogwyr (Khalil a Cowie, 2020). Roedd cynnal y cyfweiliadau cydamserol dros TEAMS yn hollbwysig i mi, yn enwedig wrth ymgysylltu â chyfranogwyr o wahanol ysgolion. Hebdo, ni fyddai casglu'r data yn y modd hwnnw wedi bod yn bosib.

Pan holwyd yr athrawon yn ystod y cyfweiliad cyntaf am eu ffyrdd o ystyried lles y plant, dywedodd y rhan fwyaf o ymarferwyr eu bod yn teimlo'n hyderus wrth wneud hynny. Ymddangosai fod yr hyder hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â'u blynyddoedd o brofiad yn gweithio gyda phlant blynyddoedd cynnar a'u hangerdd ac ymrwymiad i gefnogi plant. O fewn eu hymatebion myfyriodd ymarferwyr ar les fel ystyriaeth sy'n sail addysg a datblygiad y plant yn eu gofal. Gwelwyd o ymatebion y staff i Ymweliad 1 a 2 bod pedair prif ffactor yn ymddangos o ran eu harferion o sicrhau lles y plant yn feunyddiol. Cynhwysir y rhain o ran dylanwadau addysgegol yr athrawon eu hunain o fewn systemau ecolegol Bronfenbrenner (1979) sef:

1. strategaethau ac arferion a ddeillia o addysgeg bersonol yr unigolion eu hunain – y system feicro
2. penderfyniadau a wnaed ar lefel ysgol gyfan o ran lles plant - y system feso
3. gofynion polisi cwricwlaid – y system eco
4. dylanwadau o ddeunydd ymchwil addysg – y system macro

Mae'r cyswllt rhwng ymatebion yr athrawon a damcaniaeth Bronfenbrenner (1979) yn amlwg, roedd y dylanwadau ar eu harferion presennol o ran ystyried lles/hapusrwydd y plant yn deillio o wahanol lefelau o brofiad a dealltwriaeth yr unigolion.

Amlyga'r data o GY2 y ceir yma ystyriaethau ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon a hyfforddiant mewn swydd i geisio sicrhau ymdriniaeth ddigonol o ran gwybodaeth a dealltwriaeth am ddatblygiad y plentyn ac yn benodol datblygiad emosiynol yr unigolion drwy gynnwys hapusrwydd o fewn eu rhaglenni. O'm profiad personol teimlir bod rhaglenni yn dueddol o ffocysu ar wybodaeth ddamcaniaethol yn ymwneud ag addysgeg ac ar flaenoriaethau yn seiliedig ar fodelau diffyg megis cau'r bwlch addysgol. Er bod pwyslais o fewn Cwricwlwm i Gymru ar iechyd a lles yr unigolyn a'r pedwar diben yn yrwyr i'r cwricwlwm, cynigir bod dadl dros sicrhau ymdriniaeth bellach o ddatblygiad y plentyn fel rhan annatod o hyfforddiant athrawon.

Casgliad cadarnhaol a ddaeth o'r ymchwiliad ac yn benodol o gyfranogiad yr athrawon oedd y mwynhad a gawsant o rannu'r hyn oeddynt yn ei wneud yn barod tuag at ddatblygiad emosiynol y plentyn, ond yn ogystal, sut roedd eu harferion o wirio hapusrwydd y plant yn fwy rheolaidd wedi datblygu o ganlyniad. Roedd yr ymchwiliad hwn yn un cyfranogol a oedd yn cynnwys athrawon mewn cyd-destun cydweithredol. Cynigwyd cyfle i'r athrawon archwilio a myfyrio'n feirniadol ar y profiadau a gynigiant yn eu hystafelloedd dosbarth a thrwy drafodaeth werthuso effeithiolrwydd y profiadau hynny (Henson, 2001). Gwnaeth y profiadau yma gweithgareddau alluogi athrawon i gymryd rhan weithredol yn natblygiad gwybodaeth ymarferol am addysgu. Gwnaethant gydnabod bod cyfranogi yn yr ymchwil wedi cynnig gogwydd newydd iddynt ar gyfer ffocysu ar hapusrwydd y plant yn benodol.

Datgelwyd o ymatebion yr athrawon eu bod yn ystyried lles y plant o fewn eu harferion beunyddiol cyn ymgymryd â'r ymchwiliad er ni wnaethant ffocysu ar hapusrwydd yn benodol. Roedd eu harferion wedi'u dylanwadu gan ddeunydd damcaniaethol, polisi gwladol ac ysgol yn ogystal ag addysgeg bersonol. Braff oedd darganfod bod yr athrawon o'r farn bod hapusrwydd y plant yn bwysig ac yn synhwyrol fel canolbwynt i gychwyn trafodaeth am emosiynau. Wrth adolygu eu

profiadau o gyfranogi dywedasant fod eu harferion wedi'u haddasu rhywfaint i sicrhau bod hapusrwydd yn ystyriaeth o fewn eu harferion a gwnaethant fewnosod rhai o'r dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymchwiliad i wneud hynny megis trafodaethau am hapusrwydd y plant, defnyddio celf i'r plant fynegi eu teimladau a'u profiadau a thynnu ynghyd gwahanol foddau o gyfathrebu yn dibynnu ar y dasg ac oed y plant.

Mae hwn yn arddangos bod yr athrawon a'r plant wedi elwa o fod yn rhan o'r ymchwiliad gan iddo gael dylanwad cadarnhaol ar y profiadau a dderbynia'r plant. Mae hefyd wedi dyfnhau dealltwriaeth yr athrawon o'r plant, eu profiadau a'r modd y dylanwada eu cynllunio ar hapusrwydd a mwynhad eu dysgwyr.

4.5 Effaith cyfranogi ar arferion addysgegol yr athrawon – CY 2 - ymweliad 4

Er mwyn cynnig cyfle i'r athrawon fyfyrir ar y data a gasglwyd o GY1, ac i ystyried ei werth fel rhan o'u harferion, ail ymwelwyd â'r staff drwy gyfarfod rhithiol tua hanner tymor wedi cyflawni'r ymchwiliad gwreiddiol er mwyn darganfod a oedd cyfranogi i'r ymchwiliad wedi cael unrhyw ddylanwad ar eu harferion cynllunio, arsylwi a thracio hapusrwydd fel rhan o les eu disgyblion.

Yn Atodiad 8 gwelir y cwestiynau oedd yn sail i'r ail ymweliad â'r athrawon drwy gynhadledd fidio TEAMS fesul pâr. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol i gasglu gwybodaeth am eu dulliau presennol o ddarparu ar gyfer lles emosiynol a hapusrwydd y plant, yna ail ymwelwyd ar ôl cyfnod o dymor wedi casglu'r data gwreiddiol. Nod ei gynnal yn ystod y cyfnod hwnnw oedd darganfod a dylanwadodd cyfranogi i'r ymchwiliad ar eu harferion.

Gadawyd y cyfnod estynedig hwn yn fwriadol (Dewey, 1933; Ku, 2011; Demetriou, 2019) er mwyn darganfod os oedd yna agweddau y medrid eu mabwysiadu o fewn eu harferion. Fel y noda Dewey (1933) nid y profiad sy'n dadlennu gwybodaeth newydd ond y weithred o fyfyrir ar y profiad.

Roedd yr athrawon yn unfryd eu bod yn fwy effro i hapusrwydd y plant gan nodi:

'Yes, we are using children's drawings now to gather information about their feelings.' (A2, Y1).

'We delve a little deeper during daily check-ins and ask 'why' you are feeling that way.' (A2, Y2).

'Ni wedi ychwanegu beth sy'n gwneud fi'n hapus i'r proffil un dudalen mae pob plentyn yn ei lenwi ar ddechrau'r tymor.' (A1, Y3).

Mynegodd staff Ysgol 1 eu bod yn cynllunio cyfleoedd trafod teimladau'n amlach ac wedi creu 'me bags'. Mae'r plant yn gosod eitemau sy'n eu gwneud yn hapus o'r cartref a rhai o amgylchedd y dosbarth. Yn Ysgol 2 mae pob plentyn ar ddechrau'r tymor yn creu print o'i law ac yn gosod pum peth sy'n ei wneud yn hapus ar y llaw, ac fe'u gosodir ar furlun.

Holwyd nesaf a oeddent wedi defnyddio rhai o'r dulliau o'r ymchwiliad o fewn eu harferion cynllunio a beunyddiol. Dywedodd yr athrawon ar draws y tair ysgol bod darlunio, peintio a chyfleoedd i'r plant drafod eu profiadau'n digwydd yn fwy cyson. Ymgwymerodd Ysgol 1 â hyfforddiant therapi (o ganlyniad i fagu diddordeb wrth fod yn rhan o'r ymchwiliad) bwriad yr hyfforddiant oedd annog emosiynau cadarnhaol o fewn gweithgarwch chwarae plant.

Cynigiwyd cyfleoedd i'r staff rannu unrhyw sylwadau pellach am y profiad a sut wnaethant deimlo i fod yn rhan ohono. Meddai A1 o Ysgol 1:

'It has made us take stock and to reinforce that we prepare a happy safe environment, it's made us revisit.'

Ategodd A2 o Ysgol 2 'We are now ensuring that children's happiness is part of our continued vision.'

'Mae e wedi ein helpu i ddatblygu ffyrdd gwahanol o weld a deall teimladau plant a sicrhau hapusrwydd ein disgyblion.' (A1, Y3).

Awgryma Ilisko *et al.* (2010) mai un o'r ffyrdd o ysgogi newidiadau addysgol o fewn amgylchedd ysgol yw trwy ymgymryd ag ymchwil gweithredol. Mae ymchwil a gynhwysa leisiau athrawon yn un o'r posibiladau i addasu a newid. Mae cyfranogiad athrawon mewn ymchwiliadau addysgol yn awgrymu posibilrwydd i'w llais gael ei

glywed ac iddo wneud gwahaniaeth. Yn ôl Dewey (1916), mae angen i athrawon gael llais wrth lunio polisi addysgol. Dilynwyd y bwriadau gwreiddiol a amlinellwyd yn y bennod fethodoleg o ran casglu'r data gydag ambell eithriad. Trafodir y prif ganfyddiadau ymhellach yn y bennod nesaf gan fyfyrion ar yr hyn a ddarganfuwyd drwy'r broses ymchwiliol.

Pennod 5 - Trafodaeth

Cyflwyno'r bennod hon drafodaeth o brif ganfyddiadau'r ymchwiliad gan gyflwyno'r mewnwleidiadau i'r broses ymchwilio ac i'r hyn sy'n dylanwadu ar hapusrwydd plant ifainc tra yn yr ysgol (CY1). Cyflwyno hefyd sut gall deall hyn am hapusrwydd plant fod yn fanteisiol i athrawon sy'n darparu ar eu cyfer (CY2). Cyniga myfyrdod ar y broses ymchwiliol a gwna gydnabod rhai o'r cyfyngderau.

5.1 Prif ganfyddiadau data Cwestiwn Ymchwil 1 – y broses ymchwil

Roedd cynnwys plant ifainc o fewn yr ymchwiliad yn bleserus a heriol. Rhaid oedd ystyried y dulliau a ddetholwyd yn ofalus er mwyn casglu'r data, a thalu sylw i fanion megis yr eirfa a ddefnyddiwyd wrth egluro bwriad yr ymchwiliad gan ddatblygu perthynas â'r cyfranogwyr cyn cychwyn. Roedd casglu a gweithredu o fewn cyd-destun arferol y plant yn sicrhau mai eu bydoedd pob dydd oedd yn cael eu hystyried nid sefyllfaoedd anghyfarwydd iddynt. Casglwyd ymatebion ar y pryd gan y plant am eu hapusrwydd gan ddefnyddio'r ardaloedd, yr adnoddau a bod ymysg yr unigolion o fewn y gymuned honno a oedd yn ddylanwadau.

Roedd fy fframwaith damcaniaethol a'm safiad ontolegol yn ystyried bod y wybodaeth a gasglwyd ar gyfer yr ymchwiliad o fewn cyd-destun lluniadaeth gymdeithasol (Vygotsky, 1978; Bronfenbrenner, 1979) lle'r oedd yr ystyron a roddwyd gan y plant i'r hyn oedd yn dylanwadu ar eu hapusrwydd yn greiddiol.

Gellid dadlau bod fy mhresenoldeb fel oedolyn lled-anghyfarwydd wedi dylanwadu ar ymatebion y plant, megis Effaith Hawthorne (Cook, 1962). Teimlwyd fy mod wedi sefydlu perthynas addas o flaen llaw lle'r oedd y plant yn fy ystyried yn ymwelydd yn hytrach nag yn athrawes yn enwedig ar ôl i mi egluro fy rhesymeg dros drafod eu darluniau ar y cychwyn. Dylid hefyd cydnabod posibilrwydd gwahaniaethau o ran pŵer rhwng oedolyn a phlentyn (Rodgers a Boyd, 2020), ond gan fod yr oedolyn fel rhan o'r ymchwiliad am sicrhau gwybodaeth bellach am brofiadau'r plentyn, gyda'r bwriad o gyfrannu at gyfoethogi profiadau'r plant mewn modd cadarnhaol (Gallagher, 2008) gorchfygir unrhyw amheuan o ran pŵer.

Ystryrir felly, fod hapusrwydd i'r plant yn ffactor hanfodol ar gyfer bywyd da a llawn. Dylid felly, geisio darparu profiadau apelgar i blant ifainc er mwyn iddynt allu cynnal bywyd hapus yn yr ysgol. Cyflwynwyd y dasg wreiddiol o ddarlunio neu beintio llun ohonynt eu hunain a'r pethau oedd yn eu gwneud yn hapus yn yr ysgol o fewn cyddestun arferol beunyddiol o arfer dosbarth. Y rhesymeg dros hyn oedd fel na fyddai'n ymddangos yn wahanol na'n glinigol ei naws. Roedd hynny'n gytûn â syniadaeth Groundwater-Smith *et al.* (2015) a Farrell (2005) o sicrhau cynnwys plant o fewn ymchwil mewn modd moesegol heb darfu arnynt. Cawsant ddewis o ddeunyddiau oedd yn gyfarwydd iddynt a chyflwynwyd y dasg gan eu athrawon arferol fel rhan o weithgarwch cyfarwydd. Awgrymir y gellid trosglwyddo'r math yma o weithgarwch o ddarlunio ac yna trafod ar gyfer gwahanol brofiadau a wna'r plant eu profi yn emosiynol, neu, i alw i gof er mwyn sicrhau dealltwriaeth yr unigolion, strategaeth arferol ac effeithiol o ddod i adnabod y plentyn ar lefel ddyfnach.

Creodd yr ymchwiliad ofodau a chyfleoedd i blant siarad a rhannu eu profiadau mewn amrywiaeth o ffyrdd, sef rhan greiddiol o ddull Mosaic (Clark, 2017). Roedd sicrhau'r cyfleoedd hyn yn codi hyder ymysg y plant a chynnig cyfle pellach i adeiladu perthnasau rhyngom. Fel y soniwyd eisoes, roedd plant y tu hwnt i'r grŵp cyfranogi yn awyddus i rannu eu darluniau a thrafod yr hyn oedd yn dylanwadu ar eu hapusrwydd. Fe ddaeth yn amlwg wrth i'r unigolion barhau a'u sgysiau eu bod yn rheoli'r drafodaeth fwy ac, wrth ddehongli eu darluniau yn gwneud synnwyr o'r cysyniad o hapusrwydd iddynt yn bersonol wrth i'r drafodaeth barhau. Gwelir hyn yn sgysiau'r plant yn Atodiad 10.

Cynigir felly fod darparu gofod ag amser i blant drafod yn rhydd am gyfnodau penodol yn eu manteisio ar sawl lefel (Vygotsky, 1978). Ddatblyga'u gallu i alw i gof brofiadau personol gan brosesu'r dylanwad a gafodd y profiadau arnynt ac yn ogystal, fe ddatblyga eu defnydd o eirfa na fyddent fel arfer yn derbyn cyfle i'w ddefnyddio'n gyson (Clark, 2017). Cynigir felly fod trafod teimladau a phrofiadau plant o fewn darpariaethau yn cyflwyno cyfleoedd sy'n cefnogi datblygiad ieithyddol ac ymwybyddiaeth emosiynol.

Roedd cynnig gwahanol gyfleoedd i'r plant fynegi eu dealltwriaeth a'u profiadau o hapusrwydd yn cyfrannu at osgoi gogwydd personol yr arsylwr, wrth driongli'r hyn a ddarluniwyd, a welwyd ac a ffotograffwyd gyda disgrifiadau llafar y plant. Wrth ddilyn

yr arfer hon, roedd llai o debygrwydd o gam ddeall neu gam ddehongli y dylanwadau ar eu hapusrwydd.

Roedd dewis mannau cyfarwydd â lled dawel wedi hyrwyddo'r drafodaeth (Clark, 2017) gan fod y plant yn gyfforddus ac yn barod i rannu a disgrifio eu cynnyrch gweledol. Wrth fyfyrio, roedd y teithiau darganfod sgysiol wedi annog trafodaeth oedd yn fwy bywiog yn enwedig ymysg y bechgyn wrth iddynt gadarnhau'r hyn oedd yn eu gwneud yn hapus, yn eu mysg adnoddau a gofodau chwarae amrywiol. Teimlwyd bod siarad a cherdded yn rhoi mwy o fantais arbenigol i'r cyfranogwyr gan eu bod yn arwain y daith a'r sgwrs, a bod ganddynt wybodaeth uniongyrchol o'r lleoliad nad oedd gen i, ac, felly yn fodd plentyn canoledig o gywain eu profiadau. Cyfleoedd hefyd eu balchder o fannau y tu mewn a thu allan i'w dosbarthiadau oedd yn dylanwadu ar eu hapusrwydd yn enwedig os oeddynt wedi bod yn rhan o siapio'r ardal honno. Roedd y plant yn mynegi a chysylltu eu profiadau corfforol, emosiynol a chymdeithasol o fewn y sgysiau er enghraifft Plentyn 3, Ysgol 2 'I like doing games and being outside with my friend.'

Wrth bwysu a mesur y broses ymchwilio ac ystyried y llenyddiaeth a'r fethodoleg a fabwysiadwyd, gwelir yn glir bod gennym, llawer i'w ddarganfod ar draws y disgyblaethau (Demetriou, 2019). Roedd deunyddiau ymchwil seicoleg heb os wedi bod yn fanteisiol fel rhan o'r llenyddiaeth a'i casglwyd, wrth dynnu ynghyd cysyniadau damcaniaethol, methodolegol ac ymarferol o arfer dosbarth, gellid adeiladu darlun mwy cyflawn o'r hyn a ellid ei gyflawni o ran deall yr unigolyn a darparu ar ei gyfer gan bersonoli'r dysgu, sef un o brif negeseuon Cwricwlwm i Gymru (2018).

Wrth i mi fyfyrio ar y profiadau o wrando a sgysio â'r plant, mae'n amlwg bod eu hyder wedi cynyddu yn ystod y cyfnodau hynny gan eu bod yn awyddus i mi edrych ar eu darluniau wrth iddynt drafod (a phwyntio) neu fy annog i ddod i weld y mannau a'r adnoddau oedd yn eu gwneud yn hapus yn ystod y teithiau. Roedd ein rhyngweithadau yn cynnig cyfle iddynt arwain a dangos arewiniad o'r trafodaethau. Tybir eto, wrth gynnig cyfleoedd cyson i drafod ar lefel ddyfnach, gwna roi hyder i'r plentyn a'r teimlad o fod yn unigolyn sy'n medru cyfrannu mewn modd gwybodus.

Awgrymodd Alderson a Goodey (1996), fod plant yn cael eu gwithio i'r cyrion mewn cymdeithas sy'n canolbwyntio ar oedolion. Maent yn profi anghyfartaledd o achos

penderfyniadau a wnaed gan yr oedolion yn eu bywydau. Nid yw'r prif resymau dros hyn yn deillio o anallu plant ond yn hytrach y moddau y'u hystyir â'u medrau i gyd-gyfranogi. Nid felly mo'r syniadaeth sy'n rhan o athroniaeth Cwricwlwm i Gymru (2021) na chwaith yr ymchwiliad hwn. Tystiwyd wrth drafod a gwrando ar leisiau'r plant bod cynnig cyfleoedd iddynt fynegi eu hunain mewn amrywiaeth o ffyrdd yn hyrwyddo hunan-barch a theimlad o bwysigrwydd ynddynt. Wrth wrando ar blant ifainc, ceir mynegiant newydd o'r plentyn, sefyllfa sy'n grymuso plentynod lle mae'r unigolyn yn cael ei gydnabod fel asiantau i'w amgylchedd cymdeithasol yn ogystal â chael ei ddylanwadu gan eu hamgylchiadau a dewisiadau a wnaed gan eraill. Amlygir hyn yn glir yng ngwaith a system fioecolegol Bronfenbrenner (1978).

Mae'r ymchwiliad hwn, sy'n cyfleu fy marn personol, yn un sy'n cefnogi'r y meddir, symud o safbwynt lle gwneir penderfyniadau polisi sydd yn seiliedig ar ymchwil *ar blant*, i fan lle ymchwilir *gyda phlant* a'u lleoli fel cyd-gyfranogwyr yn hytrach na 'gwrthrychau' yr ymchwil. Gwna gydnabod diddordeb epistemoleg gymharol newydd mewn plant fel hunangofianwyr gwybodaeth ac asiantau cymdeithasol gweithredol (Clark, 2017, Musgrave, 2017). Safbwynt yw hwn lle sylweddolir rôl annibynnol sydd gan blant fel aelodau llawn o'n cymdeithas. Cynigwyd cyfleoedd drwy'r ymchwiliad i ddathlu eu hunaniaeth bersonol a chymdeithasol a chryfhau eu hymdeimlad o gymuned.

5.1.1 Prif ganfyddiadau data Cwestiwn Ymchwil 1 – hapusrwydd plant yn yr ysgol

Gwnaeth y data amrywiol megis y darluniau, ffotograffau a geiriau o enau'r plant gyfleu bod nifer o ffactorau yn cyfrannu at eu hapusrwydd a serch eu hoed, bod ganddynt hunan ddealltwriaeth eudaimonig o hapusrwydd, hynny yw, roeddynt yn medru egluro eu teimladau o fod yn hapus. Adnabu'r ymchwiliad bod hapusrwydd yn fwy na theimlad neu emosiwn i'r unigolion, fe olyga gwedd a mynegiant o wenu neu chwerthin (fel mynegwyd yn eu darluniau ac wrth drafod ar lafar), bod mewn gofod penodol neu gydag unigolion arbennig. Roedd profiadau'r plant o hapusrwydd yn yr ymchwiliad a'u dehongliadau'n debyg i'r rhai a ddarganfu o blant 10 - 15 oed gan y Swyddfa ar Gyfer Ystadegau Cenedlaethol (ONS, 2020). Yn ymchwil yr ONS (2020) roedd perthnasau cadarnhaol a mannau a phethau i wneud yn faterion a ffafriwyd

ganddynt sy'n gytun â damcaniaeth Bronfenbrenner (1979) o'r hyn a brofa plant yn gyson sy'n cael y dylanwad mwyaf.

Ystyrir o ganlyniadau'r data bod angen i gyrsiau hyfforddi athrawon a datblygiad proffesiynol addysgol gynnig bwydlen ehangach a fydd yn hysbysu staff o bwysigrwydd hapusrwydd unigolion tra yn yr ysgol. Gwelwyd o ddata'r plant bod y dylanwadau ar eu hapusrwydd yn cwmpasu cysyniadau o'r hunan, yn ogystal â pherthyn i grŵp, i le, ac i bobl eraill. Noda Eaude (2020), pan fydd plant yn profi ymdeimlad o berthyn a balchder yn eu teuluoedd, eu cyfoedion, a'u cymunedau, gallant fod yn emosiynol gryf, yn hunan-sicr, a medrant ddelio â heriau ac anawsterau sy'n creu sylfaen bwysig ar gyfer eu dysgu a'u datblygiad. Mae Cwricwlwm i Gymru a chwricwla ehangach yn tanlinellu pwysigrwydd perthyn a diwylliant fel ffactorau pwysig i'w meithrin ymysg plant o oed ifanc (LI C, 2019a; NCCA, 2009).

Nid ystyria athroniaeth Cwricwlwm i Gymru lles (hapusrwydd yn yr achos yma) a gallu gwybyddol y plentyn yn ddau begwn ar wahân ond bod y naill yn brithweithio er mwyn ategu'r llall (LI C, 2022). Cytunir â'r farn honno, a gwelir o'r data pan fo lles, a hapusrwydd y plentyn yn y cyd-destun hwn yn gadarn, yna, cynigia gyfleoedd i ddatblygiad emosiynol ddigwydd yn fwy naturiol (Clark, 2020).

Roedd ymgymryd â'r ymchwiliad yn gyfle i wrando ar blant yn mynegi hapusrwydd ac i ddechrau deall y cysyniad o'u profiad nhw fel dinasyddion ifainc. Awgryma'r data bod y 'pwyl' (y bobl), a'r 'ble' (gofodau penodol) cyn bwysiced â'r 'beth' sef y gwrthrychau ac adnoddau o ran yr hyn sy'n cyfrannu at eu hapusrwydd; gyda mwyafrif y cyfranogwyr yn mynegi mai cyfleoedd o'u dewis, eu ffrindiau neu wrthrychau oedd y ffactorau pwysicaf a gofodau neu ardaloedd hefyd yn ystyriaethau pwysig.

Mae Chaplin (2009) o'r farn bod ymchwil oedd yn ymwneud â hapusrwydd yn dueddol o ffocysu ar 'pa mor hapus' oedd unigolion yn hytrach nag 'beth' oedd yn eu gwneud yn hapus. Honna ymhellach fod y mwyafrif o'r gorylygon yn holiaduron a dadleua nad hynny oedd y modd gorau i ymrwymo plant (Sugay, 2019).

Mae'r ymchwiliad hwn wedi cyfranogi lleisiau plant ifainc ynglŷn â 'beth' sy'n dylanwadu ar eu hapusrwydd tra yn yr ysgol yn hytrach nag ymchwilio, ydynt yn

hapus neu '*pa mor*' hapus ydynt o fewn eu lleoliadau. Mae'r pwyslais ar ddarganfod beth sy'n dylanwadu ar hapusrwydd plant yn yr ysgol yn llenwi bwlch o ran ymchwil ond hefyd o ran gwybodaeth am arferion presennol athrawon ac oedolion.

Gwelir o ymatebion yr athrawon mai 'sut wyt ti'n teimlo?' yw'r wybodaeth a geisir fel arfer. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn mynd ymhellach i gynnig y '*beth*' sy'n dylanwadu ar hapusrwydd y plant o fewn yr ysgol. Mae holi'n ddyfnach yn grymuso'r unigolyn ond hefyd yn cynnig gwybodaeth bellach am effeithiolrwydd a pherthnasedd yr amgylchedd ddysgu.

Gall arsylwadau gan athrawon, rhieni, a rhanddeiliaid eraill ddweud tipyn wrthym amy effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'i gynigir. Wedi dwed hyn, credir yn gryf o ganlyniad i'r ymchwiliad, mai'r ffordd orau o werthuso effeithiolrwydd emosiynol amgylchedd dysgu yw ceisio adborth uniongyrchol gan y disgyblion eu hunain, gan mai nhw yw prif fuddiolwyr yr amgylchedd. Gall eu profiadau a'u canfyddiadau uniongyrchol roi mewnwelediad gwerthfawr i'r awyrgylch emosiynol, cynhwysiant, a'r ymdeimlad o ddiogelwch a chefnogaeth y maent yn ei deimlo.

Cynigiodd y dull Mosaic foddau amrywiol a phwrpasol o gasglu data gyda phlant ifainc. Disgrifia Pring (2015) y math hwn o ymchwil fel modd i gynnig mewnwelediad ffenomenolegol o fyd gwrthrychol y plentyn gan iddo fynd y tu hwnt i arsylwi'n unig. Gall dibynnu ar arsylwadau fod yn gymhleth o ran dehongliad, ond wrth gynnwys lleisiau a chynhyrchion y plant eu hunain o fewn y broses o greu a thrafod, sicrhewir y sylwir ar tebygrwydd rhwng agweddau ar y data yn ogystal â'u unigrywedd (Pring, 2015).

Cyfleu'r data fod nifer o ffactorau yn cyfrannu at hapusrwydd plant ifainc. Adnabu'r ymchwiliad fod hapusrwydd yn fwy na theimlad neu emosiwn i'r unigolion. Fe olyga bod mewn gofod penodol yn annibynnol neu gydag unigolion arbennig. Canfuwyd bod y plant yn yr ymchwiliad yn profi hapusrwydd ar lefel fanylach gan eu bod yn medru egluro sut deimlad oedd bod yn hapus megis 'cyffrous' a'i fod yn deimlad 'cynnes'. Fel y nodwyd gan Carter (2004) gall emosiynau, os ydynt yn gadarnhaol, gyfrannu at dwf sgiliau a chymwyseddau newydd (ac felly llif a chyflawniad) (Seligman a Csikszentmihalyi, 2000); os ydynt yn negyddol, maent yn aml yn tanseilio twf o'r fath. Ceir yma ystyriaethau y dylid eu cydnabod ar lefel bolisi ac

ysgol. Gall creu awyrgylch a darpariaethau cadarnhaol sy'n hyrwyddo ymdeimlad o fod yn gysurus a hapus arwain at gynnydd addysgol yr unigolyn.

Gan fod gwahanol barthau (domains) o les neu hapusrwydd yn bodoli, anodd ydyw i gymharu tebyg â thebyg (Saethem a Chase, 2010). Ers 1996, pan sefydlwyd The Multi-National Project for Monitoring a Measuring Children's Well-being mae cyrff cyhoeddus, elusennau, a sefydliadau ymchwil megis UNICEF, Children's Society, CCUHP ac Estyn wedi ceisio defnyddio dulliau meintiol dibynadwy i fesur lles plant. Cynigia Gregory a Brinkman (2015) mai'r rhesymeg dros yr amrywiaeth rhwng hapusrwydd plant ifainc a phlant yn hŷn yn bennaf o achos eu hanianawd greddfoll tuag at deimladau cadarnhaol a negyddol a'u sefyllfa economaidd-gymdeithasol.

Wedi dweud hyn gwelir wrth gymharu'r ymchwiliad hwn ag ymchwil gan eraill ynghynt bod yna themâu cyffredin yn ymddangos. Noda Chaplin (2009) pan ofynnwyd i blant 8 - 18 oed i ysgrifennu neu ddarlunio 'Beth sy'n eich gwneud yn hapus?' amlygodd y data bum thema sef pobl, anifeiliaid anwes, cyraeddiadau, hamddena a chwaraeon i'r plant ieuengaf 8 - 11 oed. Gwelir rhai agweddau yn unol â chanlyniadau'r ymchwiliad hwn. I'r plant 8 -11 oed (yn ymchwil Chaplin, 2009) eu diddordebau oedd bwysicaf, ac i blant 12 a 13 oed gwrthrychau ac i'r plant hŷn cyrhaeddiad oedd amlycaf. Yn adroddiad The Good Childhood Report (2019), noda'r Children's Society bod hapusrwydd plant o ran eu lles wedi dirywio o 2009 ymlaen er bod eu hapusrwydd o ran gwaith ysgol wedi cynyddu dros yr un cyfnod.

Teimlir y gwna ymholi am hapusrwydd a theimladau plant, gynnig cyfleoedd iddynt leiso'u barn ymateb i faterion cyfiawnder cymdeithasol a'u hawliau i hapusrwydd, llesiant a datblygiad. Drwy ystyried y goblygiadau hyn, gall llunwyr polisi yng Nghymru greu dull llywodraethu cynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn blaenoriaethu ei hapusrwydd a'i lesiant, gan feithrin cymdeithas iachach, mwy cynhyrchiol a gwydn.

Adeilada'r ymchwiliad hwn ar ganfyddiadau eraill gan iddo gynnwys lleisiau plant ifainc tair i saith oed am y dylanwadau ar eu hapusrwydd tra yn yr ysgol. Arddangosa fod dylanwadau o ran ffafriaeth unigolion, grwpiau cymdeithasol (ffrindiau), gofodau ac adnoddau, a'r math o weithgarwch bob un, yn dylanwadu ar lefel hapusrwydd y plentyn. Cynigia'r ymchwiliad yma mewnwelediad i'r sawl sy'n cynllunio

amgylcheddau, gweithgarwch ac adnoddau i fedru personoli'r dysgu a chyfrannu at bryfiant emosiynol yr unigolyn.

5.1 Prif ganfyddiadau data Cwestiwn Ymchwil 1 – lles plant ifainc

Awgrymir bod systemau addysg wedi dechrau mynd i'r afael â materion a godwyd mewn adroddiadau am les plant dros y dau ddegawd diwethaf a bod eu teimladau pan yn yr ysgol yn fwy cadarnhaol nag ydynt gadref. Ymgwymerodd Backman (2016) ag ymchwil i hapusrwydd plant y glasoed gan ddarganfod bod cysylltiadau rhwng lefel hapusrwydd plant â chymdeithasu, ymglymiad i weithgarwch ysgol, anianawd i ddysgu, a rhwng hapusrwydd a chynnwys y gweithgarwch neu'r gwersi. Mae hyn yn unol â chanlyniadau'r ymchwiliad hwn lle arddangosai'r plant fod cyfeillgarwch a'u diddordeb o ran gweithgarwch yn ffactorau oedd yn dylanwadu ar eu hapusrwydd.

Mae deall beth sy'n gwneud plant yn hapus â goblygiadau sylweddol i lunwyr polisi yng Nghymru, gan eu harwain i greu amgylcheddau a systemau sy'n hybu lles a datblygiad plant. O ystyried polisiâu addysg ceir yma oblygiadau i athrawon o ran datblygu cwricwlwm, megis ystyriaeth bellach o'r angen i annog ac integreiddio dulliau dysgu creadigol sydd yn seiliedig ar chwarae er mwyn darparu ar gyfer diddordebau a hapusrwydd plant. Cefnoga'n ogystal agenda iechyd meddwl lle gall trafod a holi plant am eu teimladau, yn benodol yr hyn sy'n eu gwneud yn hapus osod rhaglenni a strategaethau ar waith mewn ysgolion i gefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol plant. Gall hefyd gyfrannu at sicrhau addysg gynhwysol gan y gall deall dylanwadau ar blant gyfrannu at ddarparu ar gyfer anghenion a dewisiadau dysgu amrywiol, gan feithrin amgylchedd mwy cynhwysol a hyrwyddo arferion iechyd cyfannol sy'n ystyried lles corfforol, emosiynol a seicolegol.

Cyniga Shay a Brown (2021) o'u hymchwil hwythau a oedd yn cwmpasu lles plant yn gyffredinol dystiolaeth sy'n dangos yn glir bod angen mannau amlwg ar blant a phobl ifanc i archwilio, datblygu a chryfhau eu hunaniaeth. Eglurant mai un modd y medrid gwneud hynny yw drwy gydnabod a datblygu dealltwriaeth am y cymunedau sy'n dylanwadu ar y disgyblion. Yn achos yr ymchwiliad hwn, yr ysgol ac yn fwy penodol y dosbarthiadau a'r amgylcheddau cysylltiedig yw'r cymunedau hynny sy'n ddylanwadau (eu cynefin). O ystyried faint o amser y treulia plentyn o fewn

amgylchedd yr ysgol, gellir dadlau bod sicrhau mwynhad a hapusrwydd yr unigolion yn ystyriaethau canolog.

Wrth ystyried ymchwil a wnaed yn chwedegau'r ganrif ddiwethaf, cydnabu Hunter (2022) fod y cysyniad o hunaniaeth-bersonol yn gysylltiedig ond yn wahanol i hunaniaeth gymdeithasol. Mae hunaniaeth bersonol yn ymwneud â chasgliad o nodweddion unigryw y mae'r unigolyn yn eu harddangos. Yn achos yr ymchwiliad hwn roedd y nodweddion yn cynnwys yr hyn sy'n creu ymdeimlad o hapusrwydd ymysg y plant. Gall deall dylanwad a lleoliad y rhain fod yn fanteisiol i athrawon fedru cynllunio gweithgareddau sydd yn apelio ac yn ymrwymo'r plant o fewn darpariaeth ac o ganlyniad sefydlu awyrgylch sy'n lles ystyriol o hapusrwydd. Tybir felly, byddai creu awyrgylch o'r fath yn cyfrannu at awydd y plentyn i ymglymu at dasgau a datblygu sgiliau fel rhan o'i addysg.

Cytunir â'r ddadl gref a gyflwynir gan Moore (2013), bod angen mesuriad clir a chywir o les a hapusrwydd plant er mwyn hysbysu gwneuthurwyr polisi o batrymau ac i adnabod unigolion neu grwpiau sydd mewn perygl. Gwelir bod adroddiadau byd eang ar hapusrwydd yn cynnwys mesuriadau ynghyd â rhifolion Gross Domestic Product (GDP) fel arwyddion o gynnydd. Y rhain sy'n sylfaen o ran gwneud penderfyniadau polisi o fewn y DU fel arfer. Dadleuaf nad yw hyn yn ddigon na'n fesuriad teilwng er mwyn gwneud y fath benderfyniadau. Dylid ystyried lleisiau'r unigolion a data perthnasol o ran profiadau'r unigolion o fewn eu cymunedau addysgol. Gwyddys fod Cwricwlwm i Gymru yn crisialu pwysigrwydd adnabod unigrywedd gwahanol ardaloedd a chymdeithasau, pob un yn dylanwadu ar brofiadau'r plant sy'n byw ynddynt. Drwy ehangu ar y gwaith yma a gwrando ar leisiau plant o fewn y gwahanol leoliadau addysgol gellid adeiladu darlun cliriach o'r hyn sy'n dylanwadu ar eu hapusrwydd. O ganlyniad medrid sefydlu fframwaith cyffredin i gychwyn - o bwysigrwydd hapusrwydd plant fel rhan o'u lles, sy'n adeiladu ar broffil un tudalen pob plentyn ac annog ystyriaeth o bersonoli ar gyfer unigolion yn y modd hwnnw.

5.1.2 Prif ganfyddiadau data Cwestiwn Ymchwil 1 – plentyndod ac addysg gynnar

Mi ddaeth yn amlwg wrth drin y data bod 'yr hunan' yn bwysig i blant, hynny yw roeddent yn amlygu'r pethau oedd yn dod â mwynhad iddynt, gan mai dyna oedd y dasg gychwynnol. Gellid dweud bod hyn yn unol â syniadau Piaget (1951) o blentyn yn ystod y cyfnod prifant dwy i saith oed. Credai Piaget fod plant yn parhau i fod yn egosentrig trwy gydol y cyfnod cynweithredol. Mae hyn yn golygu na allant ddeall bod pobl eraill yn meddwl mewn ffyrdd gwahanol iddyn nhw (Piaget, 1951).

Teimlir y dylid herio'r farn hon gan i'r plant o fewn yr ymchwiliad hwn, arddangos yn glir o fewn eu hymatebion bod rhai mannau, gweithgareddau ac adnoddau roeddynt yn mwynhau ar eu pen eu hunain ac eraill gyda chymheiriaid. Gellid dadlau felly, bod y plant yn ystyried teimladau a hoffterau eu ffrindiau o fewn cyd destunau'r ymchwiliad hwn. Mae yma botensial am ymchwil pellach yn sicr, ond rhaid peidio â gwibio o'r ffocws.

Gellid defnyddio data o'r ymchwiliad hwn ac eraill tebyg i gyfrannu at godi ymwybyddiaeth ac hefyd ymwneud ag ymchwil pellach ym maes cyflwr emosiynol plant o ran yr agenda llesiant ac yn y pendraw'r cynnydd a wnaed gan blant yn addysgol. Gwyddys o waith Laevers (2015) bod plant sydd â lles (gan dybio ei fod yn cynnwys hapusrwydd) ac ymglymiad uchel, yn datblygu'n llwyddiannus, yn sgîl hyn gall fod yn fanteisiol i addysgwyr wrth iddynt gynllunio darpariaethau ar gyfer eu dysgwyr. Pe byddai athrawon yn ystyried ymhellach, ac yn amlach, hoffterau plant o ran eu grwpiau cyfeillgarwch, ffafriaeth o offer a gofodau, gellir darogan y byddai hynny'n cyfrannu at eu hapusrwydd, eu hunan-fri, eu lles ac felly, yn debygol o ddylanwadu ar eu cynnydd fel dysgwyr hyderus.

Mae gweithredu addasiad o'r fethodoleg Mosaic wedi caniatáu cyfle pellach i ateb pa gyfraniadau gall plant ifainc wneud i ymchwil. Wedi cyd-ymchwilio gyda phlant 3-7 oed o fewn yr ymchwiliad hwn; gwelwyd sut gallant gynnig deunydd manwl a byw o'u profiadau a bod ganddynt y gallu i wneud hynny mewn moddau gwybodus sy'n gytûn a'r farn a gynigwyd gan ymchwil cynt (Farrell *et al.*, 2004; Clark, 2007). Mae lles a llais y plentyn yn ganolog i'n system addysg yma yng Nghymru ac felly mae

ymchwiliad i brofiadau plant o hapusrwydd yn cefnogi polisi llesiant ynghyd â gofynion Erthygl 12 o CCUHP (1989) o wrando ar leisiau plant.

5.2 Casgliadau o ddata CY2


Mynega Demetriou (2019), fod gwrandu ar blant yn mynegi eu teimladau'n maethu lles a hunan hyder yn yr unigolion ifainc; gan fod yr ymlyniadau a grëir a'r gallu i leisio'n barn yn dylanwadu arnom wrth brifio (Demetriou, 2019). Mynegodd yr athrawon bod lles y plant yn flaenoriaeth fel rhan o'u harferion dosbarth, a hapusrwydd y plant yn rhan o hwnnw, er, wedi cyfranogi i'r ymchwiliad hwn roedd yr athrawon o'r farn bod eu harferion wedi datblygu a'u hogs i barhau i sicrhau hapusrwydd y disgyblion fel blaenoriaeth. Felly, mae'r ymchwiliad hwn yn ymestyn y llenyddiaeth gyfredol trwy gynnig mewnwelediad sut mae rhai staff yn cefnogi lles emosiynol ac yn benodol hapusrwydd i gyd-destun y blynyddoedd cynnar o fewn addysg y plentyn.

5.2.1 Casgliadau o ddata CY2 – y broses

Roedd cynnwys yr athrawon yn ail ran yr ymchwiliad yn gam bwriadus. Ystyriwyd ei bod yn hanfodol eu cynnwys yn y broses o rannu a myfyrio ar eu harferion yn hytrach na diystyru'r hyn a wnaent yn barod. Roedd eu cynnwys yn cydnabod bod eu lleisiau hwythau'n ddilys gan eu bod yn adnabod eu dysgwyr a bod clywed eu barn am eu trefniadau presennol a'r hyn wyddant am arferion y plant yn werthfawr (Clark, 2017). Cawsant gyfleoedd yn ystod y cyfweiliadau, ac yn y cyfnod rhwng y cyfarfodydd i fyfrio ar eu cynlluniau a'u bwriadau o ran strwythur a gwedd eu darpariaeth. Canfuwyd bod lleisiau plant wedi bod yn rhan o rai o'r gweithgareddau a gyflwynid yn flaenorol ymgymryd â'r ymchwiliad ond cydnabuwyd ganddynt bob un eu bod yn sylwi'n amlach ar blant o fewn gofodau amrywiol a thra ar dasg yn amlach o ran eu hapusrwydd a'u hymglymiad i weithgarwch.

Cyflwynna Ffigwr 40 isod y dylanwadau ar y plentyn wrth brifio (model ecolegol Bronfenbrenner, 1979) ynghyd â'r broses addysgol o arsylwi a gwrandu ar lais a

chyfathrebiadau'r unigolyn (dull Mosaic, Clark 2017) ac arferion effeithiol wrth ddysgu ac addysgu (LI C, 2009) o addasu'r ddarpariaeth gan fyfyrion ar yr hyn a welir. Drwy dynnu'r rhain ynghyd gall arwain at greu amgylcheddau sy'n ceisio sicrhau hapusrwydd a phrofiadau sydd wedi eu teilwra i'r unigolyn.



Ffigur 27 - Model cyd-dynnu damcaniaeth ac arfer

Awgryma'r canfyddiadau o CY1 a CY2 bod derbyn amser a chyfleoedd i ymwneud â'r amgylchedd yn lleoedd a mannau amrywiol, rhyngweithio a phlant a phobl eraill ac ymdrin ag adnoddau yn bwysig i ddisgyblion ifainc o ran eu hapusrwydd tra yn yr ysgol. Fel y nodwyd uchod, os tynnir ynghyd amodau allweddol Llywodraeth Cymru (2009) o ran arferion effeithiol wrth ddysgu a dylanwadau systemau bioecolegol

Bronfenbrenner (1979) gall fod yn fanteisiol i'r dysgwr. Cynigir, wrth ystyried hapusrwydd y plant yn rhan annatod o gynllunio, gellid o ganlyniad creu model ac allbwn 'y fi hapus' (Atodiad 11) a fydd yn amgyffred y dylanwadau ar emosiynau'r plant a'u hapusrwydd tra yn yr ysgol. Gallai plant a'r oedolion gyda'i gilydd ddefnyddio'r adnodd er mwyn casglu gwybodaeth drwy arsylwadau, gweithgareddau darlunio, peintio, ffotograffu a thrafod er mwyn dyfnhau'r proffiliau un dudalen am yr unigolyn a grëir fel rhan o arferion dosbarth ar hyn o bryd (LI C, 2021). Byddai hyn yn cynnig modd i gynnwys lleisiau'r plant am yr hyn sy'n apelio atynt ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu hemosiynau.

Mae'r ymchwiliad wedi datgelu mai i blant ifainc amser, cyfleoedd, cyfeillgarwch a phrofi mwynhad yw'r pethau sy'n cyfrannu at eu hapusrwydd pennaf pan yn yr ysgol, nid efallai canlyniad annisgwyl pan ysgrifennwyd rhan hwn o'r gwaith gan fod plant led led y byd ar y pryd yn cael eu hynysu oddi wrth eu ffrindiau o achos pandemig Covid-19 (Tyrle *et al.*, 2022).

Roedd casglu data a gweithredu o fewn cyd-destun arferol y plant a'r athrawon yn sicrhau mai eu bydoedd pob dydd oedd yn cael eu hystyried nid sefyllfaoedd anghyfarwydd iddynt. Casglwyd profiadau go-iawn, ar y pryd y cyfranogwyr am eu hapusrwydd gan ddefnyddio'r ardaloedd, yr adnoddau a bod ymysg yr unigolion o fewn y gymuned honno a oedd yn ddylanwadau arnynt sef eu cynefin a'r system feicro yn nhermau Bronfenbrenner (1979).

5.3 Heriau, cyfyngderau a phosibiliadau o ran ymchwil pellach

Teimlir bod ymgymryd â'r ymchwiliad wedi bod yn fanteisiol gan ei fod wedi datgelu gwybodaeth newydd am brofiadau plant o hapusrwydd yn yr ysgol a hefyd sut gwna athrawon elwa o gywain gwybodaeth gyda'u dosbarthiadau. Serch hynny rhaid cydnabod bod cyfyngderau a heriau yn dod yn sgil pob ymchwil (Ponce a Maldonado, 2017).

Yr her amlycaf ar gychwyn yr ymchwiliad oedd sicrhau eglurhad o les a hapusrwydd o fewn cyd-destun y gwaith hwn. Eglurwyd mai lles yw'r gair a ddefnyddir amlaf o fewn dogfennau polisi ond i blant y teimladau a'r profiadau emosiynol a ddaw yn sgil profiadau yw'r lles hwnnw ac yn achos y gwaith hwn hapusrwydd yn benodol.

Ceisiwyd felly darbwyllo'r darllenydd mai hapusrwydd plant oedd y ffocws am y rheswm eu bod yn medru deall a chyfathrebu eu dealltwriaeth ohono'n gliriach na lles ehangach, ac am ei fod yn fodd i ddatblygu dealltwriaeth athrawon o gyflwr emosiynol eu dysgwyr.

Rhaid wrth reswm cydnabod mai sampl fechan oedd yn rhan o'r gwaith presennol gan i'r plant gael eu dewis ar hap gan eu hathrawon, ac na ellid felly, gyffredinolï'r deunydd yn gyfangwbl. Wedi dweud hyn, roedd perthnasedd yr ymchwiliad i arferion dosbarth yn caniatâu adnabod rhai patrymau cyffredin o ran y dylanwadau ar hapusrwydd plant ifainc a ffyrdd y gellid defnyddio'r wybodaeth i fwydo cynllunio athrawon i'r dyfodol.

O ran ymarferoldeb ceisiwyd drwy gyfathrebu a pharatoi gwybodaeth o flaen llaw i sicrhau cysondeb o ran gweini casglu'r data cychwynol (darluniau a peintiadau'r plant) ar draws y tri sefydliad. Yn anffodus, ni lwyddwyd i'w wneud yn llawn, er enghraifft yn achos y drafodaeth ar y darluniau, roedd un ysgol wedi penderfynu mai trafodaeth grŵp ddylai ddigwydd yn hytrach na thrafodaeth un wrth un. Roedd hyn yn amlwg yn wahanol i'r drafodaeth â gweddill y cyfranogwyr a wnaeth o bosib dylanwadu ar 'ryddid' y plant i drafod gan fod athrawes yn bresennol.

Wrth ymgymryd â gwaith tebyg eto, byddwn yn sicr yn cynnig trosolwg manylach ac eglurhad clir i'r athrawon fyddai'n cyfrannu at weini'r dasg o ddarlunio neu beintio fel eu bod yn cyflwyno'r gweithgareddau yn yr un modd. Gan i un lleoliad greu 'taflen waith' a lle i ysgrifennu arni - nid oedd hyn yn rhan o'r gofyn ac, o bosib torrodd ar hwylustod y dasg dan sylw.

Nodwyd ynghynt bod rhaid i nifer o'r cyfweiliadau ddigwydd yn rhithiol gan ddefnyddio Microsoft TEAMS. Byddwn yn bersonol wedi ffafrio cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r athrawon, er mwyn medru cynnal trafodaeth oedd yn fwy naturiol a chynnil ei naws. O bosib medrid dadlau bod cyfweld yn y modd hwnnw wedi rhoi llai o bwysau ar y staff i ymateb gan fod 'bwllch' gofod ac amser rhyngom. Noda Archibald *et al.* (2019), sut gall defnyddio dulliau rhithiol fod yn fanteisiol yn nhermau cyfleuster, hyblygrwydd, costau ac yn fodd llawn mor effeithiol o gasglu'r data.

Ffactor arall gwelwyd yn rhwystredigaeth oedd penderfynu ar ddull addas o ddadansoddi'r data. Prin yr ystyria'r llenyddiaeth sy'n bodoli lleisiau plant ifainc a

chynnig enghreifftiau i ymchwilyr eu hystyried a'u mabwysiadu. Mae lleisiau plant yn wahanol i leisiau oedolion a rhaid cydnabod y bydd y lleisiau hynny yn newid o fewn cyfnodau prifant. Tuedda'r llenyddiaeth ffafrio gwaith ymchwil yn ymwneud a data oedolion, a ni chynhwysant wnânt gymhlethdodau lleisiau plant ifainc. O bosib mae hyn yn rhannol ymwneud a sensitifrwydd cynnwys plant o fewn ymchwil a'r ffyrdd defnyddir y data, a'r modd y cesglir moeseg cynnwys plant - ymgyrch sy'n ganolog i ganllawiau BERA (2024), gwaith ymchwil Colliver (2017) a manifesto UNICEF (2021). Byddai datblygu storfa o ddulliau dadansoddi data ymchwil a gynhwysai blant yn cynnig cefnogaeth gref i ymchwilyr wrth fedru cyfeirio ato ac ychwanegu gyda phob canfyddiad newydd a ddeuai i law.

Heb os, roedd ymgymryd â'r ymchwiliad yn ddwyieithiog a dewis ei ysgifennu trwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynnig heriau megis y diffyg deunydd ymchwil a thermâu ymchwil y medrid eu mabwysiadu. Yn aml, wrth draethu am y llenyddiaeth oedd yn bodoli eisioes, rhaid oedd cyfieithu a thrawsieithu er mwyn sicrhau eglurder gan osgoi colli ystyr – nid tasg hawdd mohonni, a gwelwyd fel rhan o'r broses bod perygl o hyn ddigwydd pan nad oes gan yr awdur gefndir addysgol a dealltwriaeth o derminoleg ymchwiliol. Wedi dweud hyn, pleser yw cyflawni'r gwaith yn fy mamiaith a medru cyfrannu at y gadwrfa brin sy'n bodoli ym maes hapusrwydd plant yn y blynyddoedd cynnar.

Pe bai cyfnod ymchwilio hydredol wedi caniatâu, gellid fod wedi datblygu'r gwaith hwn ymhellach i gynnwys canlyniadau o ran rhywedd, megis astudiaethau pellach yn dadansoddi sut y gallai rhyw fod yn ddylanwad ar hoffterau a ffafriaeth o weithgareddau. Byddai wrth reswm angen sensitifrwydd a gofalaeth o ran moeseg hunaniaeth rhyw (Dowshen *et al.*, 2016).

Cynigir y medrid gwneud ymchwil gymharol gyda disgyblion o oed gwahanol neu o ddiwylliant arall lle mae eu systemau cwricwlaidd yn wahanol yn fodd o ddatblygu'r gwaith ymhellach gan dynnu ar syniadau diweddar Clark (2023) o addysgeg bwyllog lle mae amser i ymwneud mewn gwahanol ffyrdd yn ystyriaeth hanfodol o'r cynllunio.

Modd arall fyddai ymchwilio ymhellach i ddylanwadau offer ac ardaloedd gan ddarganfod ai'r offer neu'r ardaloedd yn unig sy'n dod â phleser, ynteu'r math o gyflyru meddwl o'r ganmoliaeth gan oedolion wrth drin yr offer sy'n gyfrifol.

Gellid palu mwy i'r cysyniad o 'berthyn' gan fod tystiolaeth gref i gefnogi bod lles (hapusrwydd) unigolyn ynghlwm â'r lle y maen preswyllo (yr ysgol yn yr achos hwn) a'r ymdeimlad o fod yn rhan o'r lle hwnnw (Clark, 2017; Rogof, 2003; Leave a Wegner, 1991; Bronfenbrenner, 1978). Medrid yn ogystal ystyried ymestyn y gwaith i geisio datgelu sut mae hoffterau'r plant o wahanol weithgareddau'n dylanwadu ar eu dysgu a'r cynnydd a wnânt.

Awgryma canfyddiadau'r ymchwiliad hwn yn unol a llenyddiaeth flaenorol (*Colliver et al.* 2022; Clark, 2017) pan fo plant yn teimlo bod oedolion sy'n rhan o'u bywydau'n gwrando arnynt ac yn gwerthfawrogi eu barn maent yn arddangos rhinweddau o ymgysylltu a pherthyn (Seligman, 2012; Musgrave, 2017; Ungar, 2010). Gallai perthnasau athrawon a phlant fod yn linydd arall i'w ymchwilio ymhellach yn y dyfodol.

Dwy elfen ychwanegol y medrid eu datblygu ymhellach gyda mwy o ryddid i ddadansoddi o fewn gwaith hirach fyddai yn gyntaf, datblygu dull côdio manylach i'w ddefnyddio wrth drafod ar daith, er mwyn mesur amlder defnydd o eirfa fel y medrid datblygu dull o 'ymchwiliad discwrs' (Schiffrin, Tannen a Hamilton, 2015). Gallai hyn gynnig gwybodaeth bellach am ffafriaeth unigolion o leoedd a mannau o fewn dosbarthiadau a chynnig modd i athrawon o 'fesur' hoffterau'r plant.

Yn ail, ystyried ymhellach damcaniaeth ddysgu gofodol (situated learning theory) (Lave a Wegner, 2008), gan ddad-bigo ymhellach y gofodau roedd y plant yn son amdanynt fel eu hoff leoliadau. Yn yr un modd â'r uchod medr y wybodaeth honno fwydo strategaethau athrawon i fyfyrwyr ar y ddarpariaeth a gynigir, eu teilwra at ddiddordebau'r plant a chynnig gofodau a ddatblyga rhyngweithiad pellach.

Byddai ehangu'r gwaith ymhellach i ymchwil hydredol, gan gynnwys lleoliadau ac ysgolion eraill a phlant hŷn yn cynnig ehangder a sylwedd er mwyn adnabod patrymau a berthyn i les a hapusrwydd plant yng Nghymru. Byddai hyn yn fodd i adnabod ffyrdd y medrwn fel gweithlu ymateb yn gadarnhaol i anghenion emosiynol ein disgyblion drwy wrando ar eu lleisiau; er mwyn sicrhau darpariaeth a chwricwlwm sy'n ystyried eu barn a'u profiadau o ddifrif.

Mae ymgymryd â'r ymchwil wedi cefnogi fy sgiliau fel ymchwilydd cynnar a'm hannog i gyhoeddi darnau o'r gwaith mewn gwahanol ffyrdd o fewn cyd-destun ymchwil amrywiol megis cyflwyniad mellten yng Nghynhadledd iechyd meddwl a lles

y Brifysgol Agored (2023), a chyflwyniad poster yng nghynhadledd ymchwil y Coleg Cymraeg Cenedlaethol 2023 gweler Atodiad 12.

A chyhoeddwyd blogiau - These are our stories: Affording children and teachers' voices in participatory research. <https://www.bera.ac.uk/blog/these-are-our-stories-affording-children-and-teachers-voices-in-participatory-research> (BERA, 2022); The Happy Child <https://web.archive.org/web/20211127080113/https://earlyyearsreviews.co.uk/the-happy-child-written-by-carys-jennings/>

(Early Years Reviews, 2021)

Roedd dylunio allbynnau ar hyd y ffordd yn fy ngalluogi i ledaenu'r testun a derbyn adborth gan ymchwilwyr ac academyddion, athrawon a chydweithwyr pob un yn cynnig sylwadau defnyddiol ac adeiladol at rymuso'r gwaith gorffenedig a'r potensial o'i rannu ymhellach wedi cymhwyso. Bwriedir cynhyrchu allbynnau pellach ar gyfer cyfnodolion a adolygwyd gan gymheiriaid ac i ymchwilio gan ddefnyddio'r offeryn a ddatblygwyd (Atodiad 12) gyda phlant ac athrawon er mwyn ei ddatblygu ymhellach. Mae sicrhau bod defnydd ymarferol o'r ymchwil yn rhan greiddiol o gyflawni'r gwaith i mi'n bersonol, gan y gwyddys o ddata'r ymchwiliad fod yma botensial i wneud gwahaniaeth i brofiadau plant ac athrawon.

Cyflwynwyd o fewn y bennod hon drafodaeth o'r data sy'n deillio o'r ymchwiliad fel gwybodaeth newydd sef: y gall plant ifainc gyfleu eu profiadau o'r hyn sy'n dylanwadu ar eu hapusrwydd gan fanylu arnynt o ran gofodau, pobl a deunyddiau. Ar sail y data, mae yma ystyriaethau o ran sicrhau hyfforddiant i oedolion am ddylanwadau ar emosiynau plant a sut gallant effeithio arnynt yn yr ysgol. Gwelir yma oblygiadau o ran arsylwi a holi plant am eu hapusrwydd a fedr gyfrannu at greu ardaloedd cynhwysol yn emosiynol, a bod gwrando, arsylwi a chynnwys plant mewn penderfyniadau a wnaed am eu haddysg yn arddangos parch i'r unigolyn ac yn fodd i ddylanwadu ar eu hapusrwydd.

Pennod 6: Cyfraniadau a chasgliadau

Cyflwyno'r bennod hon y cyfraniadau a wna'r ymchwiliad i faes hapusrwydd plant ac arferion addysg gynnar a tynnir casgliadau'r ymchwiliad ynghyd â myfyrdodau olaf personol, gan gynnwys rhai ystyriaethau i addysgwyr ac ymchwilwyr o ran datblygu ymchwiliadau tebyg i'r dyfodol. Fel y nodwyd eisoes nid oes modd cyffredinol i'r canfyddiadau o achos maint y sampl. Wedi dweud hyn, teimlwyd bod gwerth i'r ymchwil a negeseuon pwysig o fewn y canfyddiadau gan iddynt adnabod agweddau ategol a fedr gyfrannu at ein dealltwriaeth o hapusrwydd y plentyn tra yn yr ysgol.

6.1 Fy nghyfraniad at gorff ymchwil - addysg gynnar

Mae fy nghyfraniad at yr ymchwil i faes lles plentynod cynnar yn cyflwyno gwybodaeth am y dylanwadau ar hapusrwydd plant ifainc tra yn yr ysgol. Ceir o fewn yr ymchwiliad safbwynt newydd ar les – am ei fod yn canolbwyntio ar leisiau plant a'u profiadau uniongyrchol (Clark, 2017), gwna gynnig mewnwelediad ffres i les o'u safbwynt nhw yn hytrach na chan athrawon neu rieni (Groundwater-Smith *et al.*, 2015; Greene a Hogan, 2006).

Cynhaliwyd yr ymchwiliad o fewn lleoliad addysgol plant ifainc ac fe wna ychwanegu gwybodaeth newydd am sut mae hapusrwydd yn cael ei ddylanwadu gan y ffactorau y doed o hyd iddynt o fewn dosbarthiadau. Mae'r canfyddiadau'n darparu argymhellion ar sail tystiolaeth i addysgwyr, arweinwyr ysgol, a llunwyr polisi ar sut i wrando ar leisiau plant ifainc er mwyn creu amgylcheddau dysgu hapusach a mwy deniadol.

Drwy ddefnyddio addasiad o ddull Mosaic, yn fethodolegol gwna'r ymchwiliad fabwysiadu dulliau ymchwil o fewn arfer dosbarth sy'n gyfeillgar i blant, gan ei fod yn arddangos gweithredu cyfranogol a ffyrdd gwerthfawr o astudio hapusrwydd plant i athrawon ac ymchwilwyr.


Cytunir â'r llenyddiaeth a gyflwynwyd ym Mhennod 2 sy'n tanlinellu pwysigrwydd hawliau plant i dderbyn gwrandawriad (Rodgers a Boyd, 2020; Clark, 2017; Musgrave, 2017; CCUHP, 1989). Cynlluniwyd yr ymchwiliad ansoddol hwn i ddatgelu gwybodaeth am yr hyn y mae cyfranogwyr ifainc yr ymchwiliad yn ei deimlo

a'i ddeall, gan fynegi mewn gwahanol ffyrdd eu credoau a'u profiadau o hapusrwydd tra yn yr ysgol. Ceidwaid y dylanwadau ar eu hapusrwydd yw'r plant, ac wrth ymgymryd â'r ymchwil cyfranogol hwn cyd-grëwyd yr ystyron drwy ddarlun, sgwrs a llun. Fel cymdeithas, mae angen inni dderbyn bod rhesymau pwysig pam mae'n rhaid inni wrando ar ganfyddiadau a barn plant am wasanaethau a materion sy'n effeithio arnynt. Mae'r ymchwiliad hwn wedi datgelu mai plant ifanc yw arbenigwyr eu bywydau eu hunain, a phan gânt gyfleoedd addas, gallant gyfathrebu eu dealltwriaeth a'u profiadau o hapusrwydd yn yr ysgol yn rhugl.

Cyfranna'r ymchwiliad hwn at ein dealltwriaeth mewn sawl ffordd ynglŷn a sut:

- y gwna darpariaethau, deunyddiau, perthnasau a gofodau ddylanwadu ar hapusrwydd plant ifainc
- y gall cynnig cyfleoedd priodol i blant ifainc i rannu a lleisio eu teimladau a'u profiadau o'r hyn sy'n eu gwneud yn hapus (cyn, yn ystod ac ar ddiwedd thema) roi darlun hydredol am eu teimladau
- y gall deall y dylanwadau ar hapusrwydd plant gyfrannu at, a chyfoethogi darpariaethau er mwyn personoli'r dysgu

Awgrymaf y gall y broses (Ffigwr 42) o wrando ar leisiau plant ifainc, wrth iddynt sôn am eu profiadau o hapusrwydd gael dylanwad cadarnhaol ar eu hyder a'u hymglymiad at weithgarwch dosbarth ac o ganlyniad cyfrannu at wneud cynnydd.



Ffigwr 41 - Proses gwrando ar blant ifainc

Defnyddiwyd modd aml-ddull Mosaic (Clark a Moss, 2017) i gasglu'r data fel rhan o'r ymchwiliad. Er mai at bwrpas ymchwiliol oedd defnyddio'r dulliau cymysg yn y cyd-destun hwn, maent yn unol â'r ffyrdd y gwna plant ifainc synnwyr o'u byd yn naturiol. Gellid felly awgrymu - er mwyn i athrawon fedru gyfrannu ymhellach at hapusrwydd y plant, medrir ategu at y strategaethau sy'n rhan o'u harferion yn barod i fwydo eu dealltwriaeth gyfannol am yr unigolion.

Os mai hapusrwydd o fewn cyd-destun lles, yw'r hyn yr ydym yn anelu ato, i ni ein hunain ac i'n plant, gallwn dybio mai hapusrwydd ddylai fod nod addysg, gwasanaeth iechyd a gwleidyddiaeth (de Souza *et al.*, 2009). Mae lles plant yn rhan o genhadaeth ein ysgolion, awgrymir o gynnal yr ymchwiliad yma, y dylai hapusrwydd y disgyblion fod yn greiddiol i'r genhadaeth honno.

Mae ymwybyddiaeth athrawon o ddylanwadau pedagogaid a magwraeth o emosiynau plant yn benderfynyddion pwysig o hapusrwydd plant; ymhellach, maent wedi'u cydblethu'n annatod. Fel meithrinwyr y plant yn eu gofal yn ystod y diwrnod ysgol, ac oherwydd bod ganddynt o leiaf rywfaint o reolaeth dros yr amgylcheddau a'r cyd-destunau y mae'r disgyblion yn rhyngweithio ynddynt - gall athrawon gael effaith aruthrol ar hapusrwydd eu dysgwyr (Musgrave, 2017).

Mae deall yr hyn sy'n gwneud plant ifainc yn hapus yn cyfrannu'n sylweddol at ymchwil mewn amrywiol feysydd drwy ddarparu sylfaen ar gyfer astudiaethau sy'n anelu at wella lles, datblygiad ac ansawdd bywyd cyffredinol plant. Cynigir bod mewnwelediadau i'r hyn sy'n gwneud plant yn hapus yn helpu i fireinio a datblygu modelau damcaniaethol o ddatblygiad plant, gan ganolbwyntio ar les emosiynol a seicolegol. Gall yr ymchwiliad hwn arwain at waith pellach lle dylunia ymchwilwyr astudiaethau i arsylwi a mesur effaith gweithgareddau sy'n hyrwyddo hapusrwydd ar ymddygiad plant, sgiliau cymdeithasol a datblygiad gwybyddol materion sy'n ganolog i sawl agenda blaenoriaethol Llywodraeth Cymru. Gwelwyd o ymatebion yr athrawon wedi iddynt fod yn rhan o'r ymchwiliad y gall ymchwil sy'n archwilio hapusrwydd plant arwain at ddatblygu arferion addysgol mwy effeithiol, deniadol a chyfeillgar i blant. Cynigir yn ogystal gall astudiaethau sy'n ymchwilio i effaith gweithgareddau cwricwlaidd amrywiol ar hapusrwydd plant, helpu i greu cwricwla sy'n meithrin llawenydd ac ymgysylltiad.

Mae'r canfyddiadau'n cynnig cyfleoedd i athrawon feddwl am ddylanwad eu darpariaethau ar y plant a sut gall y wybodaeth hon fwydo i'r penderfyniadau a wnaed am ofodau dysgu ac adnoddau amrywiol. Heb os, mae'r ymchwiliad wedi dadlennu nifer o ystyriaethau ar gyfer addysgwyr plant ifainc megis bod eu disgyblion yn effro i'r hyn sy'n dylanwadu ar eu teimladau a'r hoffterau addysgol sy'n eu gwneud yn hapus. Gall defnyddio'r wybodaeth hon ddatblygu ymagwedd fwriadol (Siraj, 2019) sy'n unol ag addysgeg o fewn cyd-destunau priodol Cwricwlwm i Gymru (2021).

(2021).

Mae ymchwilio i hapusrwydd plant ifainc yn yr ysgol trwy foddau aml-ddull, megis cyfuno, cyfweiliadau, peintiadau, ffotograffau a gweithgareddau cyfranogol, yn caniatáu dealltwriaeth fwy cynnil o'u hemosiynau a'u profiadau. Mae'r dulliau amrywiol hyn yn nid yn unig yn dal yr hyn y mae plant yn ei adrodd am eu hapusrwydd ond hefyd sut mae'n cael ei fynegi yn eu hymddygiad, eu rhyngweithio, a'u hamgylcheddau o ddydd i ddydd. Er enghraifft, er y gallai arsylwad gan oedolyn ddatgelu tueddiadau cyffredinol, gall cyfweiliadau ddatgelu'r straeon personol y tu ôl i'r tueddiadau hynny, ac mae cyfuno dulliau yn cynnig cyd-destun i ddeall y ddeinameg yn yr ystafell ddosbarth. Mae moddau gwahanol o gasglu data yn mynd y

tu hwnt i fewnwelediadau arwynebol, gan beintio darlun cyfoethocach a mwy dilys o sut mae plant wirioneddol yn teinlo o fewn y lle hwn. Trwy gofleidio safbwyntiau lluosog, gall addysgwyr ac ymchwilwyr greu strategaethau mwy ymatebol sy'n mynd i'r afael yn wirioneddol â'r ffactorau sy'n llywio hapusrwydd a lles plant mewn ysgolion.

Wrth wrando ar ymatebion a meddyliau plant gall addysgwyr ystyried eu syniadau ynglŷn â sut i gefnogi'r dysgu a'u dulliau addysgu. Cyflwynna'r ymchwiliad y farn os cynhwysir lleisiau'r disgyblion o fewn sgysiau am eu profiadau a'u hoffterau o weithgarwch ac amgylchedd dysgu corfforol eu dosbarth, y gall hynny gefnogi ymglymiad pellach y plant i ddysgu. Cytuna Kim *et al.* (2017) gan gyflwyno'r farn os ymglymerir ag ymchwil am faterion sydd o ddiddordeb i blant, eu hapusrwydd yn achos yr ymchwiliad hwn, yna, gyda'r wybodaeth a'i gyrchwyd gallant fod yn rhan o benderfyniadau a wneir, a daw'r plant yn gyfranogwyr democrataidd go iawn.

Roedd cynnwys ymarferwyr yn rhan o'r ymchwiliad yn fanteisiol i'r data, y canfyddiadau, ac yn ôl eu hymatebion, i'w datblygiad proffesiynol hwythau. Cytuna Seider a Lemma (2006), wrth iddynt nodi pan fod athrawon yn ymgymryd â gwaith ymchwil fe wnânt hynny oherwydd maent o'r farn y gall arwain at wneud penderfyniadau a gweithredu mewn moddau mwy effeithlon. Cynigiodd cynnwys athrawon hefyd ystyriaethau pellach o ran rhaglenni hyfforddiant cychwynnol athrawon a chefnogaeth broffesiynol barhaus. Byddai gosod dulliau ymchwilio a methodolegau casglu data, ynghyd â a sicrhau cyfranogiad plantyn fwy blaenllaw o fewn cynnwys rhaglenni hyfforddi yn fanteisiol, fel modd i dynnu damcaniaeth, polisi ac arfer dosbarth ynghyd a'i sefydlu yn rhan o arferion darparwyr.

6.1.1 Fy nghyfraniad at gorff ymchwil – hapusrwydd a lles plant ifainc

Gwna'r ymchwiliad arddangos pan cynigir gyfleoedd i blant gyfathrebu eu teimladau fe all ddatgelu'n rhannol y cysylltiad rhwng hapusrwydd â chanlyniadau dysgu, rhyngweithio cymdeithasol, neu ddatblygiad emosiynol (Clark, 2017; Musgrave, 2017). Cyniga'n ogystal bod angen cyfnodau o ryngweithio a chyfnodau annibynnol ar blant fel rhan o ddarpariaeth gytbwys i ateb eu hanghenion emosiynol.

Trafodwyd ym Mhennod 2 yr addysgeg y plentyn canoledig sy'n rhan o egwyddorion addysgegol Cwricwlwm i Gymru (2020). Mae dysgu drwy brofiadau neu, i blant ifainc chwarae, yn rhan naturiol a'n hawl ganddo (CCUHP, 1989). Daeth i'r amlwg bod y plant oedd yn rhan o'r ymchwiliad hwn yn gwerthfawrogi cyfnodau annibynnol i ymgymryd â gweithgarwch neu i ddilyn hoffter personol. Gwyddys fod annog annibyniaeth yn un o'r sgiliau a anogir wrth i blant brifio (Colliver *et al.*, 2022; Musgrave, 2017; Drexler, 2012) er mwyn i'r plentyn ddod i adnabod yr hunan a'i fedrau. Datgela'r data o'r ymchwiliad fod y plant eu hunain yn hapus pan yn derbyn cyfnodau i ymwneud â gweithgarwch hunan ddewisiol, ystyriaeth deilwng, her o bosib pan anogir cyd-weithio a chymdeithasu o fewn ein cwricwlwm presennol (Drexler, 2012; LI C, 2021).

Ni ddisgwyliwyd yn un o'r canfyddiadau i'r plant werthfawrogi'r cyfnodau unigol o wneud a bod, a'u cydnabod fel gofodau amser pleserus iddynt. Mae lle felly i ystyried cyfnodau o dawelwch ac annibynniaeth fel rhan o ddarpariaeth gyson plant ifainc. Nodwyd ar gychwyn y gwaith bod rhaid cydnabod mai dylanwadau ar hapusrwydd y plant o fewn amgylchedd a grewyd gan oedolion a ymchwiliwyd. Diddorol fyddai holi'r plant wrth ymestyn ymchwil tebyg beth fyddai o fewn eu lleoliadau delfrydol nhw. Gellid dadlau bod goblygiadau i ddarparwyr addysg eu hystyried o ran y mathau o weithgarwch a'r dewisiadau y cynigir i blant wrth ddylunio'r cwricwlwm megis addysg wedi'i bersonoli ac sy'n ymateb i anghenion y plentyn (LI C, 2020; LI C, 2021b).

